



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mercher, 9 Mehefin 2010
Wednesday, 9 June 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig
Questions to Minister for Rural Affairs
- 20 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Questions to Minister for the Environment, Sustainability and Housing
- 42 Ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau
Election of Trustees of the Members' Pension Scheme
- 43 Ymchwiliad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i Ddyfodol Ucheldiroedd yng Nghymru
The Rural Development Sub Committee's Inquiry into the Future of the Uplands
- 58 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Y Diffyg yng Nghyllideb y Deyrnas Unedig
Welsh Conservatives Debate: The United Kingdom's Budget Deficit
- 115 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time
- 117 Dadl Fer: Newid Gwleidyddiaeth: a All Diwygio Democrataidd Ddechrau yn y
Cynulliad?
Short Debate: Changing Politics: Can the Assembly Become a Cradle of Democratic
Reform?

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Dafydd Elis-Thomas) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Dafydd Elis-Thomas) in the Chair.*

Y Llywydd: Trefn ar gyfer cwestiynau i'r Gweinidog. **The Presiding Officer:** Order for questions to the Minister.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig Questions to Minister for Rural Affairs

Local Produce

Q1 Irene James: What is the Welsh Assembly Government doing to help people access local produce? OAQ(3)1069(RAF)

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): The local sourcing action plan sets out measures to increase the volume of local food purchased by consumers and the public sector. It includes actions to encourage companies to supply the supermarket sector in Wales, as well as a major awareness campaign to raise the profile of farmers' markets, farmers' shops and food festivals.

Irene James: Thank you for your response, Minister. Local food co-operatives are often fantastic advocates of local produce. What are you doing to promote such food co-operatives in Wales?

Elin Jones: The food co-operative movement in Wales is supported financially by the Assembly Government, and I have been pleased to visit a number of food co-ops in various communities, especially linked with schools, where there is considerable interest by young people in how food is sourced, where it is grown and, ultimately, how it is cooked and eaten.

Brynle Williams: Wales has many outstanding local food companies that have built themselves up and are continuing to grow, even during the downturn. However, I am sure that you share my concern about Llaeth y Llan in my constituency, which you recently visited. The owner wants to expand his business and stay on the farm where the business was formed. However, there is a dispute between two local councils over the

Cynnyrch Lleol

C1 Irene James: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i helpu pobl i gael gafael ar gynnyrch lleol? OAQ(3)1069(RAF)

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Mae'r cynllun gweithredu cyrchu lleol yn cyflwyno mesurau i gynyddu'r bwyd lleol a gaiff ei brynu gan ddefnyddwyr a'r sector cyhoeddus. Mae'n cynnwys camau gweithredu i annog cwmnïau i gyflenwi'r sector archfarchnadoedd yng Nghymru, yn ogystal ag ymgyrch ymwybyddiaeth fawr i godi proffil marchnadoedd ffermwyr, siopau fferm a gwyliau bwyd.

Irene James: Diolch am eich ymateb, Weinidog. Mae cydweithfeydd bwyd lleol yn aml yn wych am hyrwyddo cynnyrch lleol. Beth yr ydych yn ei wneud i hyrwyddo cydweithfeydd bwyd o'r fath yng Nghymru?

Elin Jones: Mae'r mudiad cydweithfeydd bwyd yng Nghymru yn cael cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth y Cynulliad, ac yr wyf wedi bod yn falch ymweld â nifer o gydweithfeydd bwyd mewn gwahanol gymunedau, yn enwedig yn gysylltiedig ag ysgolion, lle mae gan bobl ifanc gryn ddiddordeb mewn gwybod o ble y daw bwyd, ble mae'n cael ei dyfu ac, yn y pen draw, sut mae'n cael ei goginio a'i fwyta.

Brynle Williams: Mae gan Gymru nifer o gwmnïau bwyd lleol rhagorol sydd wedi datblygu'n raddol ac yn parhau i dyfu, hyd yn oed yn ystod y dirywiad economaidd. Fodd bynnag, yr wyf yn siŵr eich bod chi, fel finnau, yn pryderu am gwmni Llaeth y Llan yn fy etholaeth i y buoch yn ymweld ag ef yn ddiweddar. Mae'r perchennog am ehangu ei fusnes ac aros ar y fferm lle cafodd y busnes ei sefydlu. Fodd bynnag, mae anghydfod

widening of a bridge so that articulated lorries can get to the farm. What steps are you taking to ensure that local authorities better appreciate the importance of supporting local producers and the creation of new jobs in rural areas?

Elin Jones: Yr oeddwn yn falch o'r cyfle i longyfarch Llaeth y Llan ar 25 mlynedd mewn busnes yn ddiweddar. Mae Llaeth y Llan yn gwmni o ansawdd a nod yma yng Nghymru. Yr wyf innau, fel chithau, wedi trafod gyda pherchennog Llaeth y Llan y bont sy'n achosi rhywfaint o gonsŷrn i'r cwmni, ac yr wyf yn gefnogol iawn o'i fwriad i barhau i gynhyrchu yng nghefn gwlad yn hytrach na symud allan o gefn gwlad er mwyn canoli cynhyrchu. Fodd bynnag, fel y cyfeiriasoch ato, mater i'r awdurdodau lleol perthnasol yw hwn, a gwell fyddai cyfeirio'r cwestiynau hyn at yr awdurdodau lleol.

Brynle Williams: Thank you for that answer, Minister. I am sure that you are aware of recent reports that the Nottingham University Hospital Trust saved some £6 million by sourcing food from local producers through food hubs. I have already written to the Minister for Health and Social Services about this matter. In this current economic climate, do you agree that opportunities such as this, where patients benefit from best local produce, and taxpayers save money, should be given serious consideration? What progress has your Government made in encouraging best practice such as this in Wales?

Elin Jones: As I said in answer to Irene James, the local sourcing action plan sets out the actions that this Government is taking to work with public authorities in Wales to promote the procurement of local and Welsh food to support the economy generally, but also to ensure that our patients and our schoolchildren are receiving the best possible food that is available to them. We want to see greater progress made by public authorities in Wales in sourcing local produce.

rhwng dau gyngor lleol ynghylch lledu pont fel y gall loriau cymalog gyrraedd y fferm. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn deall yn well bwysigrwydd cefnogi cynhyrchwyr lleol a chreu swyddi newydd mewn ardaloedd gwledig?

Elin Jones: I was pleased to have the opportunity to congratulate Llaeth y Llan recently 25 years in business. Llaeth y Llan is a business of quality and ambition in Wales. Like you, I have discussed with the owner of Llaeth y Llan the bridge which is causing the company some concern, and I am very supportive of its intention to continue to produce in rural Wales rather than move out of rural Wales to centralise production. However, as you have mentioned, it is a matter for the relevant local authorities, and it would be better to refer these questions to the local authorities.

Brynle Williams: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol o adroddiadau'n ddiweddar fod Ymddiriedolaeth Ysbyty Athrofaol Nottingham wedi arbed rhyw £6 miliwn trwy ddefnyddio canolfannau bwyd i gyrchu bwyd gan gynhyrchwyr lleol. Yr wyf eisoes wedi ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y mater hwn. Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, a ydych yn cytuno y dylid ystyried yn ddwys gyfleoedd fel y rhain, lle mae cleifion yn elwa o gael y cynnyrch lleol gorau, a lle mae trethdalwyr yn arbed arian? Pa gynnydd y mae eich Llywodraeth wedi'i wneud i annog arfer gorau o'r fath yng Nghymru?

Elin Jones: Fel y dywedais wrth ateb cwestiwn Irene James, mae'r cynllun gweithredu ar gyrchu lleol yn cyflwyno'r camau gweithredu y mae'r Llywodraeth hon yn eu cymryd nid yn unig i weithio gydag awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i hyrwyddo gwaith caffael bwyd lleol a bwyd o Gymru i gefnogi'r economi yn gyffredinol, ond hefyd i sicrhau bod ein cleifion a'n plant ysgol yn cael y bwyd gorau posibl sydd ar gael iddynt. Yr ydym am weld awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru yn gwneud mwy o gynnydd o ran cyrchu cynnyrch lleol.

Jeff Cuthbert: Access to local produce and products is extremely important if we are to develop a distinctly Welsh brand, and that certainly includes the alcohol sector, where there is so much competition from companies across the UK. The Great Welsh Beer and Cider Festival will be held in the Cardiff international arena starting tomorrow until Saturday, from 11 a.m. to 11 p.m. There will be dozens of Welsh producers there with over 100 different beers and ciders, and, undoubtedly, everyone will be able to find something they like. Previously, when I have raised this matter, you have expressed support for breweries, especially local breweries and their use of Welsh raw materials such as hops and barley. Will you therefore join me in urging Members to attend this festival, purely in a supportive capacity of course? Do you agree that this festival does much to help define and promote this industry as being distinctly Welsh?

Elin Jones: I have been greatly encouraged by the growing interest in Wales in microbreweries. There has been an increase in their number and an increase in the purchase of local beers and ciders in Wales. I commend the festival and urge Members to attend. I will not be able to attend because I will be visiting the Mŵs Piws brewery tomorrow in the Llywydd's constituency, in Porthmadog.

Leanne Wood: Minister, first of all, I thank you for speaking at the launch of the first map of community farms and gardens in Wales, which took place in the Senedd a little earlier today. As you saw from that event, there is a big appetite for food growing and local produce in Wales. I believe that that can only go from strength to strength. Will you join me in commending this new initiative, and outline the ways in which it can be supported, promoted and extended? Would you also agree that if we, in Wales, are to mitigate the threats posed by climate change and peak oil, we need to reduce the amount of food that we import into this country and build up our self-sufficiency?

Elin Jones: I was very encouraged by the

Jeff Cuthbert: Mae gallu cael cynnyrch a nwyddau lleol yn bwysig tu hwnt os ydym am ddatblygu brand sy'n unigryw i Gymru, ac mae hynny'n bendant yn cynnwys y sector alcohol, lle mae cymaint o gystadleuaeth gan gwmnïau o bob rhan o'r DU. Bydd Gŵyl Fawr Cwrw a Seidr Cymru yn cael ei chynnal yn arena rhyngwladol Caerdydd o yfory tan ddydd Sadwrn, o 11 a.m. i 11 p.m. Bydd dwsinau o gynhyrchwyr o Gymru yno a thros 100 o wahanol fathau o gwrw a seidr, ac mae'n siŵr y bydd pawb yn gallu cael rhwbeth sydd at eu dant. Pan wyf wedi codi'r mater hwn o'r blaen, yr ydych wedi mynegi cefnogaeth i fragdai, yn enwedig bragdai lleol a'r modd y maent yn defnyddio deunyddiau crai o Gymru, megis hopys a haidd. Felly, a wnewch chi ymuno â mi i annog Aelodau i fynd i'r ŵyl hon, dim ond er mwyn ei chefnogi wrth gwrs? A ydych yn cytuno bod yr ŵyl hon yn gwneud llawer i helpu diffinio a hyrwyddo'r diwydiant hwn fel diwydiant sy'n unigryw i Gymru?

Elin Jones: Yr wyf wedi fy nghalonogi'n fawr gan y diddordeb cynyddol mewn microfragdai yng Nghymru. Gwelwyd cynnydd yn nifer y bragdai a chynnydd yn y cwrw a'r seidr o Gymru sy'n cael eu prynu. Yr wyf yn cymeradwyo'r ŵyl, ac anogaf Aelodau i ymweld â hi. Ni fyddaf fi'n gallu mynd i'r ŵyl gan y byddaf yn ymweld â bragdy Mŵs Piws yn etholaeth y Llywydd yfory, ym Mhorthmadog.

Leanne Wood: Weinidog, yn gyntaf, diolch ichi am siarad yn y digwyddiad i lansio'r map cyntaf o ffermydd a gerddi cymunedol yng Nghymru, a gynhaliwyd yn y Senedd ychydig yn gynharach heddiw. Fel y gwelsoch o'r digwyddiad hwnnw, mae diddordeb mawr yng Nghymru mewn tyfu bwyd ac mewn cynnyrch lleol. Credaf mai mynd o nerth i nerth y bydd y diddordeb hwnnw. A wnewch chi ymuno â mi i gymeradwyo'r fenter newydd hon, ac amlinellu'r ffyrdd y gellir ei chefnogi, ei hyrwyddo a'i hymestyn? A fydech hefyd yn cytuno bod angen inni fewnforio llai o fwyd i'r wlad hon a dod yn fwy hunangynhaliol os ydym, yng Nghymru, i leihau'r bygythiadau a ddaw yn sgil y newid yn yr hinsawdd, a chyflenwadau olew rhad sy'n prinhaus?

Elin Jones: Cefais fy nghalonogi'n fawr gan

event in the Senedd today and thank you for hosting it. I know that a number of Assembly Members visited the colourful stalls from all over Wales, which were promoting the community growing of food across Wales. This area of work has seen a huge increase in interest. I recently set up a task and finish group to look at community food growing and I will soon be publishing an action plan on community food growing. There is a great deal of interest in this area of work, and there is a building up of resilience by communities and their ability to produce and grow their own food, to meet, as you have outlined, Leanne, some of the challenges of climate change that will face our communities in the future.

Rural Communities

Q2 Angela Burns: What steps is the Minister taking to enhance the social and economic wellbeing of rural communities? OAQ(3)1072(RAF)

Elin Jones: The rural development plan outlines my commitment to rural communities across Wales as well as support for the agri-food business and land based sector. Axes 3 and 4 of the rural development plan are specifically designed to support rural community regeneration activities.

Angela Burns: Minister, you and I sing from the same hymn sheet in recognising that a sustainable and vibrant rural economy is absolutely reliant on a strong agricultural industry. Today, the agricultural industry is less of a vocation and more of a professional career. However, I am quite sad to see that within our schools, at sixth-form level or A-level stage or whatever it is these days—I am definitely showing my age on this one—there is very little careers' advice to get people into the agricultural industries in secondary schools throughout Wales. I wondered what you might be able to do about that and whether you are talking to the Minister for education about this subject. We need to attract these people into the industry and persuade them that agriculture, in all its forms, is a profession that is worth going into, and to get youngsters coming in, because the people who have sustained that

y digwyddiad yn y Senedd heddiw, a diolch ichi am ei gynnal. Gwn fod nifer o Aelodau'r Cynulliad wedi ymweld â'r stondinau lliwgar o bob rhan o Gymru a oedd yn hybu'r arfer o gael cymunedau ledled Cymru i dyfu bwyd. Gwelwyd twf aruthrol yn niddordeb pobl yn y maes hwn. Yn ddiweddar sefydlais grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar yr arfer o gael cymunedau i dyfu bwyd, a chyn hir byddaf yn cyhoeddi cynllun gweithredu ynghylch hynny. Mae llawer iawn o ddiddordeb yn y maes hwn, ac mae cymunedau'n datblygu eu gallu i ymdopi a'u gallu i gynhyrchu a thyfu eu bwyd eu hunain, er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r heriau y cyfeiriasoch atynt, Leanne, a fydd yn wynebu ein cymunedau yn y dyfodol yn sgil y newid yn yr hinsawdd.

Cymunedau Gwledig

C2 Angela Burns: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i wella lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau gwledig? OAQ(3)1072(RAF)

Elin Jones: Mae'r cynllun datblygu gwledig yn amlinellu fy ymrwymiad i gymunedau gwledig ledled Cymru yn ogystal â chefnogaeth i'r sector busnesau bwyd-amaeth a diwydiannau'r tir. Bwriad penodol Echel 3 a 4 yn y cynllun datblygu gwledig yw cefnogi gweithgareddau i adfywio cymunedau gwledig.

Angela Burns: Weinidog, yr ydym ein dwy o'r un farn o ran cydnabod bod economi wledig gynaliadwy a bywiog yn dibynnu'n llwyr ar gael diwydiant amaethyddol cryf. Erbyn heddiw mae'r diwydiant amaethyddol yn llai o alwedigaeth ac yn fwy o yrfa broffesiynol. Fodd bynnag, teimlaf yn eithaf digalon o weld yn ein hysgolion, ar lefel chweched dosbarth neu Safon Uwch, neu beth bynnag ydyw erbyn hyn—yr wyf yn bendant yn dangos fy oed yn awr—mai bach iawn o gyngor ar yrfaedd sydd mewn ysgolion uwchradd ledled Cymru i gael pobl i fynd i'r diwydiannau amaethyddol. Yr oeddwn yn meddwl tybed beth y gallech chi ei wneud ynghylch hynny, a thybed a ydych yn siarad â'r Gweinidog dros addysg am y mater? Mae angen inni ddenu'r bobl hyn i'r diwydiant a'u darbwylllo bod amaethyddiaeth, yn ei holl ffurfiau, yn broffesiwn gwerth ei ddilyn, a chael pobl ifanc i fod yn rhan

business for so long are now moving out of the industry fairly swiftly.

Elin Jones: I have been encouraged by my visits to the land-based agricultural colleges throughout Wales, where there has been considerable interest shown by young people in developing their training to prepare them for careers in farming, forestry and other land-based businesses. I have been greatly encouraged, in attending a number of the annual prize-giving and certificate presentation ceremonies at these colleges, to see the level of interest and the diversity of training that is available to younger people at those colleges, in particular, on land-based training activities. It is a challenge for our schools to work with those colleges to develop those training abilities further.

1.40 p.m.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, a fyddech yn cytuno ei bod braidd yn rhagrithiol, a dweud y lleiaf, i aelodau'r gwrthbleidiau yma sy'n rhan o'r glymblaid yn San Steffan i sôn am ddiogelu'r economi wledig, gan fod glymblaid yn San Steffan wedi dweud na fydd yn edrych ar adolygiad o fformiwla Barnett, er bod adroddiad Holtham yn dangos yn gwbl glir ei fod yn amherthnasol ac nad yw'n gwasanaethu anghenion Cymru? Dyna, mewn gwirionedd, fydd yn gwneud y difrod mwyaf i'r economi wledig, a chymunedau gwledig fydd yn dioddef fwyaf oherwydd y gwrthodiad hwnnw i edrych ar fformiwla Barnett o'r newydd.

Elin Jones: Rhannaf eich siom, Rhodri Glyn, nad yw'n edrych fel pe bai'r Llywodraeth newydd yn San Steffan yn mynd i gywiro gwendidau fformiwla Barnett yn ei chyfnod cyntaf mewn Llywodraeth. Bydd pob rhan o Gymru ar ei cholled oherwydd hynny.

Peter Black: Minister, you will be aware of the huge concern in north Pembrokeshire at the activities of your contractors and officials in visiting farms and intimidating elderly people and pensioners in particular, wearing masks and being escorted by large numbers of police officers. How does that activity fit in with your vision of a rural Wales that is

ohono, oherwydd mae'r bobl sydd wedi cynnal y busnes hwnnw cyhyd yn gadael y diwydiant yn ddigon sydyn erbyn hyn.

Elin Jones: Yr wyf wedi fy nghalonogi gan fy ymweliadau â'r colegau amaethyddol sydd ledled Cymru, lle mae pobl ifanc wedi dangos cryn ddiddordeb mewn datblygu eu hyfforddiant i'w paratoi ar gyfer gyrfaedd ym maes ffermio, coedwigaeth a busnesau eraill sy'n gysylltiedig â'r tir. Wrth fynychu llawer o'r seremonïau gwobrwyo a chyflwyno tystysgrifau blynyddol yn y colegau hyn, yr wyf wedi fy nghalonogi'n fawr o weld lefel y diddordeb a'r amrywiaeth o hyfforddiant sydd ar gael i bobl iau yn y colegau hynny, yn enwedig o ran gweithgareddau hyfforddi sy'n gysylltiedig â'r tir. Yr her i'n hysgolion yw gweithio gyda'r colegau dan sylw i ddatblygu mwy ar y gallu hwnnw i hyfforddi.

Rhodri Glyn Thomas: Minister, would you agree that it is hypocritical, to say the least, for members of the opposition here who are part of the coalition in Westminster to talk about safeguarding the rural economy, since the coalition in Westminster has said that it will not look at a review of the Barnett formula, despite the fact that the Holtham report demonstrates clearly that it is irrelevant and does not meet the needs of Wales? That, in reality, is what will do most damage to the rural economy, and rural communities will suffer most from that refusal to look afresh at the Barnett formula.

Elin Jones: I share your disappointment, Rhodri Glyn, that it seems that the new Government in Westminster will not put right the deficiencies in the Barnett formula in its first period in Government. All parts of Wales will lose out as a result.

Peter Black: Weinidog, gwyddoch am y pryder mawr yng ngogledd Sir Benfro ynghylch gweithgareddau eich contractwyr a'ch swyddogion wrth iddynt ymweld â ffermydd gan ddychryn pobl hŷn a phensiynwyr yn benodol wrth wisgo mygydau a chael eu hebrwng gan nifer mawr o heddweision. Sut mae'r gweithgarwch

socially and economically well-off, and what impact will that sort of activity have on tourism in that part of Wales?

Elin Jones: Tuberculosis as an animal disease has a huge influence on securing a viable farming business in Wales. We need to eradicate it, and that is a No. 1 priority for me.

Mick Bates: The organic sector in Wales is of immense importance to our local economies and communities, and has received considerable support from you. Rachel's dairy is a well-known and respected supplier of organic produce; it is in fact one of the UK's oldest organic dairy producers. Minister, you will have heard reports regarding the sale of Rachel's by Dean Foods. In light of this, and considering the 125 jobs and 23 organic milk suppliers involved, and the Government support that you have provided in the past, can you give us today a preliminary assurance that every effort will be made to retain this key operation in Aberystwyth and to support the jobs and the value to the local economy that this business brings?

Elin Jones: It will not come as a surprise to you that I know this business well, given that it is in my constituency. I can give you the assurance that, as it is a significant employer and business in Wales, my officials and I will put all our efforts into securing the future of Rachel's in Aberystwyth and in Wales. We are in discussion on these matters, as you can imagine.

Farming Food and Countryside Strategy

Q3 Alun Davies: Will the Minister make a statement on the 'Farming, Food and Countryside: Building a Secure Future' strategy? OAQ(3)1087(RAF)

Elin Jones: 'Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu Dyfodol Cadarn' yw strategaeth gyffredinol yr Adran Materion Gwledig. Mae ei gweledigaeth glir yn dangos sut mae ffermydd Cymru yn ganolog o ran sicrhau cefn gwlad cynaliadwy ac economi wledig

hwnnw'n cyd-fynd â'ch gweledigaeth o Gymru wledig sy'n ffynnu'n gymdeithasol ac yn economaidd, a beth fydd effaith gweithgarwch o'r fath ar dwristiaeth yn y rhan honno o Gymru?

Elin Jones: Mae twbercwlosis, fel clefyd sy'n effeithio ar anifeiliaid, yn dylanwadu'n aruthrol ar sicrhau busnes ffermio hyfyw yng Nghymru. Mae angen inni ei ddileu, ac mae hynny'n brif flaenoriaeth imi.

Mick Bates: Mae'r sector organig yng Nghymru yn bwysig tu hwnt i'n heconomiâu a'n cymunedau lleol, ac mae wedi cael cefnogaeth sylweddol gennych. Mae Rachel's Dairy yn gwmni adnabyddus ac uchel ei barch sy'n darparu cynnyrch organig; mewn gwirionedd, mae'n un o gynhyrchwyr hynaf cynnyrch llaeth organig yn y DU. Weinidog, byddwch wedi clywed adroddiadau fod Dean Foods yn gwerthu cwmni Rachel's. Yng ngoleuni hynny, ac o ystyried y 125 o swyddi a'r 23 o gyflenwyr llaeth organig sy'n gysylltiedig ag ef, a'r gefnogaeth y mae'r Llywodraeth wedi'i darparu yn y gorffennol, a allwch roi sicrwydd rhagarweiniol inni heddiw y gwneir pob ymdrech i gadw'r gwaith allweddol hwn yn Aberystwyth ac i gefnogi'r swyddi a'r gwerth y mae'r busnes hwn yn eu cynnig i'r economi leol?

Elin Jones: Ni fyddwch yn synnu fy mod yn gyfarwydd iawn â'r busnes hwn, o gofio ei fod yn fy etholaeth. Gallaf roi sicrwydd ichi y byddaf i a'm swyddogion yn gwneud pob ymdrech i sicrhau dyfodol Rachel's yn Aberystwyth ac yng Nghymru, gan ei fod yn gyflogwr ac yn fusnes o bwys yng Nghymru. Yr ydym wrthi'n trafod y materion hyn, fel y gallwch ddychmygu.

Strategaeth Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad

C3 Alun Davies: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y strategaeth 'Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad: Creu Dyfodol Cadarn'? OAQ(3)1087(RAF)

Elin Jones: 'Farming, Food and Countryside: Building a Secure Future' is the overarching strategy for the Department for Rural Affairs. It sets out a clear vision of Welsh farming at the heart of a sustainable countryside and profitable rural economy. I will shortly be

ffyniannus. Cyn bo hir, byddaf yn cyflwyno'r adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf ar y strategaeth hon i'r Cynulliad.

Alun Davies: There certainly seems to be a food theme this afternoon, and I will add to that theme. I reiterate Mick Bates's remarks about Rachel's; it is a significant employer in the area that we represent. The concerns raised about it were articulated to the Rural Development Sub-Committee when we took evidence from Rachel's. On wider issues, Minister, do you agree that connectivity to a marketplace is essential to maintaining Wales as a food producing country, not simply with regard to marketing, but in being able to bring products to market and to develop and add value to products? Do you agree that a key challenge facing the Government and the country in relation to food production is adding value to products to make them more popular in the marketplace?

Elin Jones: Cytunaf yn llwyr fod angen ychwanegu gwerth at ein bwydydd craidd, ac i wneud hynny yng Nghymru, fel bod yr elw o gynhyrchu a phrosesu'r bwyd yn aros yng Nghymru. Mae'n flaenoriaeth i ni werthu bwyd Cymru yng Nghymru, ond mae sicrhau bod bwydydd Cymru yn cyrraedd Lloegr, sef y farchnad fawr drws nesaf, hefyd yn hollbwysig. Bydd y strategaeth fwyd y byddaf yn ei chyhoeddi yn y dyfodol agos yn rhoi blaenoriaeth at ychwanegu gwerth at fwydydd cynhenid.

William Graham: How is the Assembly Government taking action to try to ensure that Welsh dairy farmers see the benefit of recent rises in the wholesale prices of dairy commodities?

Elin Jones: I have a dairy strategy and a dairy strategy group advising me. It is essential that milk producers are paid a fair price to ensure that we secure the dairy industry in Wales. We have many of the natural assets to ensure a successful dairy industry in our grassland and in our plentiful supply of rain, but we need to ensure that the economics of the dairy industry work for the benefit of Welsh producers. That is a priority for me in Government, and I hope to

presenting the first annual progress report on the strategy to the Assembly.

Alun Davies: Mae'n sicr yn ymddangos bod yma thema o fwyd y prynhawn yma, ac yr wyf am ychwanegu at y thema honno. Hoffwn ailadrodd sylwadau Mick Bates am Rachel's; mae'n gyflogwr o bwys yn yr ardal yr ydym yn ei chynrychioli. Cafodd y pryderon a godwyd amdano eu mynegi wrth yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig pan gawsom dystiolaeth gan Rachel's. O ran materion ehangach, Weinidog, a ydych yn cytuno bod cysylltiad â marchnad yn hanfodol i sicrhau bod Cymru'n parhau'n wlad sy'n cynhyrchu bwyd, nid yn unig o ran marchnata, ond o ran gallu dod â chynnyrch i'r farchnad a datblygu cynnyrch ac ychwanegu gwerth ato? A ydych yn cytuno mai ychwanegu gwerth at gynnyrch i'w wneud yn fwy poblogaidd yn y farchnad yw un o'r heriau allweddol sy'n wynebu'r Llywodraeth a'r wlad o ran cynhyrchu bwyd?

Elin Jones: I agree with you entirely that we need to add value to our core produce, and to do that in Wales, so that the profit from producing and processing the food stays in Wales. Our priority is to sell Welsh food in Wales, but ensuring that Welsh foods reach England, since the large market next door is also crucial. The food strategy which I shall shortly be announcing will make adding value to indigenous foods a priority.

William Graham: Sut mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithredu i geisio sicrhau bod ffermwyr godro Cymru yn cael budd o'r cynnydd yn ddiweddar ym mhrisiau cyfanwerthu cynnyrch llaeth?

Elin Jones: Mae gennyf strategaeth laeth a grŵp strategaeth laeth sy'n rhoi cyngor imi. Mae'n hanfodol i gynhyrchwyr llaeth gael pris teg i sicrhau ein bod yn diogelu'r diwydiant godro yng Nghymru. Mae ein glaswelltir a'r ffaith ein bod yn cael digon o law yn golygu bod gennym nifer o'r asedau naturiol y mae eu hangen i sicrhau diwydiant godro llwyddiannus, ond mae angen inni sicrhau bod economeg y diwydiant godro'n gweithio er lles cynhyrchwyr yng Nghymru.

influence the private sector, where these deals are made.

Mae hynny'n flaenoriaeth imi yn y Llywodraeth, a gobeithiaf ddylanwadu ar y sector preifat lle caiff y cytundebau hyn eu llunio.

Gareth Jones: Cyhoeddwyd adroddiad yn ddiweddar gan Bwyllgor Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig Tŷ'r Cyffredin am fethdaliad y cwmni cydweithredol Dairy Farmers of Britain, ac mae'n werth nodi ei fod wedi rhoi canmoliaeth dda i'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru wrth gefnogi ein ffermwyr llaeth yr effeithiwyd arnynt gan y digwyddiad trist hwnnw, drwy dalu taliadau sengl ffermydd yn gynt er mwyn helpu gyda'u llif arian. A allwch ymhelaethu ar ba gymorth pellach y gallwch ei gynnig i ffermwyr llaeth a chig eidion yng Nghymru drwy'r cynllun gweithredu ar gyfer y strategaeth newydd a gyhoeddwyd gennych fis diwethaf, yn enwedig o safbwynt sefydlu fforwm ac ombwdsmon ar gyfer y gadwyn gyflenwi, a mabwysiadu côd ymarfer i archfarchnadoedd?

Gareth Jones: A report was published recently by the House of Commons Environment, Food and Rural Affairs Committee on the bankruptcy of the Dairy Farmers of Britain co-operative, and it is worth noting that it was highly complimentary of the steps taken by the Government of Wales in supporting our dairy farmers affected by that sad event, in making early single farm payments to help with cash flow. Can you elaborate on what further assistance you can offer to dairy and beef farmers in Wales by means of the action plan for the new strategy which you announced last month, particularly in respect of establishing a forum and an ombudsman for the supply chain and adopting a code of practice for supermarkets?

Elin Jones: Diolch am y cwestiwn, Gareth. Yr oeddwn yn falch, fel rhan o'r ymateb i ddirywiad Dairy Farmers of Britain, ein bod fel Llywodraeth wedi gallu rhoi taliad cynnar i'r ffermwyr hynny a gollodd arian. Mewn sefyllfa fel hon, mae'r hyn y gall y Llywodraeth ei wneud yn uniongyrchol yn gyfyng iawn, ond lle y gallem roi rhywfaint o gefnogaeth, yr wyf yn falch ein bod wedi cymryd y penderfyniad i wneud hynny yng Nghymru, ac yng Nghymru yn unig.

Elin Jones: Thank you for the question, Gareth. I was pleased, as part of the response to the decline of Dairy Farmers of Britain, that we as a Government were able to provide early payment for those farmers who lost money. In a situation like this, direct action which the Government can take is very limited, but where we could give some support I am pleased that we took the decision to do so in Wales, and only in Wales.

Mae sefydlu ombwdsmon ar gyfer yr archfarchnadoedd ar draws gwledydd Prydain wedi bod yn flaenoriaeth i mi. Ar hyn o bryd, yr wyf yn siomedig nad yw'r hyn sy'n dod o'r Llywodraeth newydd ar lefel y Deyrnas Gyfunol yn awgrymu bod yr ombwdsmon hwnnw'n mynd i fod mor gryf ac annibynnol ag y byddem wedi ei ddymuno, ac mae hwnnw'n fater yr wyf yn bwriadu ei drafod gyda'r Llywodraeth newydd yn fuan.

The establishment of an ombudsman for supermarkets across Britain has been a priority for me. At the moment I am disappointed that what is coming from the new United Kingdom Government suggests that the ombudsman will not be as strong and independent as we would have wished, and that is a matter I intend to discuss with the new Government soon.

Rural Communities in Delyn

Cymunedau Gwledig yn Nelyn

Q4 Sandy Mewies: What is the Welsh Assembly Government doing to support rural communities in Delyn? OAQ(3)1092(RAF)

C4 Sandy Mewies: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi cymunedau gwledig yn Nelyn? OAQ(3)1092(RAF)

Elin Jones: ‘One Wales’ sets out the Government’s priorities and commitments for communities across Wales, including those in rural areas. Within my portfolio, this is being achieved through the rural development plan.

Elin Jones: Mae ‘Cymru’n Un’ yn gosod allan flaenoriaethau ac ymrwymiadau’r Llywodraeth ar gyfer cymunedau ledled Cymru, gan gynnwys y rheini mewn ardaloedd gwledig. Yn fy mhorthfolio caiff hynny ei gyflawni trwy’r cynllun datblygu gwledig.

Sandy Mewies: Thank you for that response, Minister. One of the issues that has led to the greatest exclusion of people in rural areas from all sorts of activities, ranging from employment to social events, is the serious lack of public transport. I am aware that both the Minister for Health and Social Services and the Deputy First Minister and Minister for Economy and Transport are looking at the relevant issues in their own portfolios. As it is such an important cross-cutting issue, have you had any discussions with your Cabinet colleagues? Have there been any positive outcomes?

Sandy Mewies: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Y diffyg enbyd yn y ddarpariaeth cludiant cyhoeddus yw un o’r problemau sydd wedi arwain at yr achosion mwyaf difrifol o eithrio pobl mewn ardaloedd gwledig o bob math o weithgareddau, o gyflogaeth i ddigwyddiadau cymdeithasol. Gwn fod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Dirprwy Brif Weinidog a’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn edrych ar y problemau perthnasol yn eu portffolios eu hunain. Gan ei bod yn broblem drawsbynciol mor bwysig, a ydych wedi cael unrhyw drafodaethau gyda’ch cydweithwyr yn y Cabinet? A fu unrhyw ganlyniadau cadarnhaol?

Elin Jones: As part of the Government’s response to the deep rural study that it undertook, it is looking across portfolios to address issues around rural public transport, where there are major challenges, especially for young people in being able to access social and economic services.

Elin Jones: Fel rhan o ymateb y Llywodraeth i’r astudiaeth a gynhaliwyd ganddi o ardaloedd gwledig anghysbell, mae’n bwriadu mynd i’r afael, ar draws portffolios, â phroblemau cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig, lle mae gallu cael gwasanaethau cymdeithasol ac economaidd yn heriau mawr, yn enwedig i bobl ifanc.

1.50 p.m.

It will look at answers in a rural context that may be very different to answers in an urban context, and at innovative ways of delivering the ability to provide public transport for people in rural areas. In some places in Wales, the rural development plan has supported some innovative schemes, and I am looking to progress discussion with the Minister for the Economy and Transport on public transport in deep rural areas.

Bydd yn edrych ar atebion mewn cyd-destun gwledig, a all fod yn wahanol iawn i atebion mewn cyd-destun trefol. Bydd hefyd yn edrych ar ffyrdd arloesol i sicrhau bod modd darparu cludiant cyhoeddus i bobl mewn ardaloedd gwledig. Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru mae’r cynllun datblygu gwledig wedi cefnogi rhai cynlluniau arloesol, a bwriadaf symud trafodaeth yn ei blaen gyda’r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth ar gludiant cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig anghysbell.

Brynle Williams: The future of rural communities and their small schools, post offices and pubs depends on young families being able to stay in those communities, and

Brynle Williams: Mae dyfodol cymunedau gwledig a’u hysgolion bach, eu swyddfeydd post a’u tafarnau yn dibynnu ar allu teuluoedd ifanc i aros yn y cymunedau

the availability of affordable housing is essential to that, Minister. I am aware that, today, there is a hearing in my constituency at which it will be decided whether a young couple can build a house on their own land. This is a serious problem, Minister, not only in my constituency but throughout the principality. Is it not time that we look seriously at planning regulations? If this institution is serious about maintaining young people in rural communities, should we not be giving direction from here?

Elin Jones: Yr wyf yn falch o ddweud, Brynle, fod y Llywodraeth eisoes yn gwneud yr union fath o waith yr ydych yn cyfeirio ato. Yr ydym wedi ymgynghori ac yn adolygu'r polisi cynllunio ar gyfer tai yng nghefn gwlad, nodyn cyngor technegol 6, a bydd y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros gynllunio yn cyhoeddi'r polisi newydd yn y dyfodol agos.

Janet Ryder: Minister, housing in rural areas would have been greatly affected had the legislative competence Order that the Assembly was seeking gone through, and your ability to help communities would have also been greatly affected if you were able to plan with certainty, knowing that your budget would stay as it is. However, as we know, due to the cuts proposed by the Conservative and Liberal Democrat Government in Westminster, your budget will take severe hits. What assessment have you made of the impact that that will have on your ability to support rural communities?

Elin Jones: The reality of the situation is that my budget for rural affairs will be reduced, as will other budgets in the Assembly. We were planning on that basis for the next financial year, but, of course, the Government now has to consider the impact of the in-year cut that the new UK Government has inflicted on us.

Miscanthus

Q5 Brian Gibbons: Will the Minister make a statement on the cultivation of Miscanthus for use as a biofuel in Wales?
OAQ(3)1054(RAF)

hynny, ac mae gallu cael tai fforddiadwy'n hanfodol i hynny, Weinidog. Yr wyf yn ymwybodol bod gwrandawriad yn fy etholaeth heddiw a fydd yn penderfynu a all pâr ifanc adeiladu tŷ ar eu tir eu hunain. Mae hon yn broblem ddifrifol, Weinidog, nid yn unig yn fy etholaeth i ond drwy'r wlad i gyd. Onid yw'n bryd inni edrych o ddifrif ar reoliadau cynllunio? Os yw'r sefydliad hwn o ddifrif am gadw pobl ifanc mewn cymunedau gwledig, oni ddylem fod yn darparu arweiniad o'r fan hon?

Elin Jones: I am pleased to say, Brynle, that the Government is doing exactly the sort of work to which you refer. We have been consulting and reviewing the planning policy for houses in rural areas, technical advice note 6, and the Minister with responsibility for planning will announce that new policy in the near future.

Janet Ryder: Weinidog, pe bai'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol yr oedd y Cynulliad yn ei geisio wedi ei dderbyn, byddai wedi cael effaith fawr ar dai mewn ardaloedd gwledig, a byddai gallu cynllunio gyda sicrwydd, gan wybod y byddai eich cyllideb yn aros fel y mae, hefyd wedi cael effaith fawr ar eich gallu i helpu cymunedau. Fodd bynnag, fel y gwyddom bydd eich cyllideb yn cael ei tharo'n ddifrifol o ganlyniad i'r toriadau a gynigir gan Lywodraeth y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan. Pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o'r effaith a gaiff hynny ar eich gallu i gefnogi cymunedau gwledig?

Elin Jones: Realiti'r sefyllfa yw y bydd fy nghyllideb ar gyfer materion gwledig yn cael ei thorri, fel cyllidebau eraill yn y Cynulliad. Yr oeddem yn cynllunio ar sail hynny am y flwyddyn ariannol nesaf, ond, wrth gwrs, rhaid i'r Llywodraeth yn awr ystyried effaith y toriad y mae Llywodraeth newydd y DU wedi'i orfodi arnom y flwyddyn hon.

Miscanthus

C5 Brian Gibbons: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dyfu Miscanthus ar gyfer ei ddefnyddio fel biodanwydd yng Nghymru?
OAQ(3)1054(RAF)

Elin Jones: ‘A Low Carbon Revolution—The Welsh Assembly Government Energy Policy Statement’, highlights our commitment to promoting the local supply of biomass as opposed to large-scale commercial planting. We will continue to develop policy alongside developments in research, including research into high-yielding energy crops, such as that undertaken by the Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences at Aberystwyth University on Miscanthus.

Brian Gibbons: You will be aware that there is a lead-in time of two or three years before anyone who invests in Miscanthus can expect a return. Have you undertaken any work to establish whether this lag time has had any effect on the very low levels of cultivation of Miscanthus in Wales? Obviously, as you said, it can contribute to a low-carbon economy in Wales as a substitute in coal-fired power stations, which are a substantial cause of carbon emissions in our country.

Elin Jones: As part of my review of agri-environment schemes in Wales, we have considered the possibility of grants to support Miscanthus growing. However, we took the view that, primarily, this should be led by commercial developments, and I would want to see commercial developers of biomass power plants looking to work collaboratively with farmers on how the lead-in time can be factored into supply contracts. I would be keen for my officials to work with any interested parties on developing those relationships.

Bethan Jenkins: I am also interested in the cultivation of biofuel. You will know, Minister, that your colleague, Jane Davidson, released a statement on planning for renewable energy yesterday, in which she stated that she wants to be more committed to the low-carbon energy policy statement. Within that statement, the Welsh Government committed itself to,

‘low carbon energy production, via indigenous, and thus secure, renewables’.

Elin Jones: Mae ‘Chwyldro Carbon Isel—Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru’ yn tynnu sylw at ein hymrwymiad i hybu darparu biomàs yn lleol yn hytrach na phlannu’n fasnachol ar raddfa fawr. Byddwn yn parhau i ddatblygu polisi ochr yn ochr â datblygiadau mewn ymchwil, gan gynnwys ymchwilio i gnydau ynni toreithiog, megis yr ymchwil i Miscanthus gan Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Brian Gibbons: Gwyddoch fod cyfnod cychwynnol o ddwy neu dair blynedd cyn y gall unrhyw un sy’n buddsoddi mewn Miscanthus ddisgwyl gwneud elw. A ydych wedi gwneud unrhyw waith i weld a yw’r cyfnod hwn wedi cael unrhyw effaith ar y lefelau isel iawn o dyfu Miscanthus sydd yng Nghymru? Fel y dywedasoch, mae’n amlwg y gall gyfrannu at economi carbon isel yng Nghymru fel deunydd i’w ddefnyddio yn lle glo mewn pwerdai sy’n llosgi glo, sy’n achosi allyriadau carbon sylweddol yn ein gwlad.

Elin Jones: Fel rhan o’r hadolygiad o gynlluniau amaeth-amgylchedd yng Nghymru, buom yn ystyried posibilrwydd rhoi grantiau i gefnogi tyfu Miscanthus. Fodd bynnag, credem mai datblygiadau masnachol, yn bennaf, a ddylai arwain y gwaith hwn, a byddwn i am weld datblygwyr masnachol pwerdai biomàs yn ceisio cydweithio â ffermwyr i weld sut y gellir ystyried y cyfnod cychwynnol mewn contractau cyflenwi. Byddwn yn awyddus i’r swyddogion weithio ar ddatblygu’r gydberthynas honno gydag unrhyw rai sydd â diddordeb yn y maes.

Bethan Jenkins: Mae gennyf fi hefyd ddiddordeb mewn tyfu cnydau biodanwydd. Gwyddoch, Weinidog, i’ch cydweithiwr, Jane Davidson, gyhoeddi datganiad ddoe ar gynllunio ar gyfer ynni adnewyddadwy, lle dywedodd ei bod wedi ymrwymo fwy i’r datganiad polisi ynni carbon isel. Yn y datganiad hwnnw, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i,

‘gynhyrchu ynni carbon isel...trwy ynni adnewyddadwy brodorol (ac felly diogel)’.

Does the Minister agree that if it would take the current entire biofuel output of the US to power the proposed Preenergy plant in Port Talbot, Wales does not have enough land to achieve the Welsh Government's low-carbon commitments through biomass, no matter how much elephant grass we have; and that we should, instead, seek carbon-neutral options to these alternatives?

Elin Jones: Dywedais yn fy ateb cychwynnol i Brian Gibbons fod y Llywodraeth yn rhagweld mai cyflenwad lleol o fionàs ar gyfer pwerdai llai fydd yn digwydd yn bennaf yng Nghymru, yn hytrach na'n bod yn ystyried tyfu coedwigoedd newydd sylweddol ar gyfer cyflenwi pwerdai biomàs. Os oes unrhyw bwerdy yn ystyried mewnfario coed, mae'n bwysig bod y coed hynny yn dod o ffynonellau cynaliadwy.

Rural Communities in Wales

Q6 The Leader of the Opposition (Nick Bourne): Will the Minister make a statement on Welsh Assembly Government support for rural communities in Wales? OAQ(3)1098(RAF)

Elin Jones: 'One Wales' outlines the Government's commitment to communities across Wales and there are several initiatives in place to support this. The rural development plan in my portfolio specifically helps rural communities and will provide £795 million over the period of 2007-13.

Nick Bourne: I wish to encourage the Minister to make a written statement on Rachel's Dairy as I raised this matter during the business statement yesterday. There is concern, not just because of the people working at Rachel's Dairy—although that is just as important—but because there are many suppliers in the dairy sector, such as Calon Wen, for example, which has farms in Pembrokeshire, Ceredigion and north-east Wales. Many co-operatives would lose out as organic suppliers if that business is put up for sale without a potential buyer. Would the Minister perhaps consider such a statement?

Pe bai angen holl gynnyrch biodanwydd presennol yr Unol Daleithiau i redeg pwerdy arfaethedig Preenergy ym Mhort Talbot, a yw'r Gweinidog yn cytuno nad oes gan Gymru ddigon o dir i gyflawni ymrwymiadau carbon isel Llywodraeth Cymru trwy fionàs, ni waeth faint o hesg eliffant a fydd gennym; ac y dylem, yn hytrach, chwilio am ddewisiadau carbon niwtral yn lle'r cynydu amgen hyn?

Elin Jones: I said in my initial reply to Brian Gibbons that the Government envisages that, in Wales, we will mainly see the local supply of biomass for smaller power stations, rather than consider growing significant new forests to supply biomass power stations. If any power station is considering importing timber, it is important that the wood should come from sustainable sources.

Cymunedau Gwledig yng Nghymru

C6 Arweinydd yr Wrthblaid (Nick Bourne): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i gymunedau gwledig yng Nghymru? OAQ(3)1098(RAF)

Elin Jones: Mae 'Cymru'n Un' yn amlinellu ymrwymiad y Llywodraeth i gymunedau ym mhob rhan o Gymru ac y mae nifer o fentrau wedi'u sefydlu i gefnogi'r ymrwymiad hwnnw. Mae'r cynllun datblygu gwledig yn fy mhortffolio i yn helpu cymunedau gwledig yn benodol, a bydd yn darparu £795 miliwn dros y cyfnod 2007-13.

Nick Bourne: Hoffwn annog y Gweinidog i wneud datganiad ysgrifenedig ar Rachel's Dairy, gan imi godi'r mater hwn yn ystod y datganiad busnes ddoe. Mae yna bryder, nid yn unig oherwydd y bobl sy'n gweithio yn Rachel's Dairy—er bod hynny'r un mor bwysig—ond oherwydd y cyflenwyr niferus yn y sector llaeth, megis Calon Wen, er enghraifft, sydd â ffermydd yn Sir Benfro, Ceredigion a'r gogledd-ddwyrain. Byddai llawer o gwmnïau cydweithredol ar eu colled fel cyflenwyr organig pe bai'r busnes hwnnw'n cael ei roi ar werth heb brynwr posibl. A fyddai'r Gweinidog yn ystyried gwneud datganiad o'r fath efallai?

I will enlarge on the issue about the promotion of Welsh food, beer and cider, which has already been raised by Jeff Cuthbert, my co-chair of the cross-party group on beer and the pub. Like Jeff, I will be attending that festival. There are many Welsh beers, ciders and food that need to be promoted through tourism. I know that we have a food tourism action plan, but could the Minister update us on how that is being pushed forward for the Ryder Cup, for example, and during Olympic events in 2012 that will be happening in Wales and so on?

Elin Jones: With regard to Rachel's Dairy, I will consider the request that you have made to supply a statement at an appropriate time. However, I can confirm that my officials have discussed with Calon Wen its particular interest in this company as a supplier of milk. All efforts are being made to ensure the continued success of Rachel's Dairy and Calon Wen in Wales.

The promotion of Welsh food is an important area of work in which the Assembly has taken an interest since its inception. The Government has looked, in particular, at the link between food and tourism, as is mentioned in the food tourism action plan. I know that a considerable amount of work is also being undertaken to ensure that the Ryder Cup will be a showcase for Welsh food, and that effort is being made to ensure that that opportunity supports food businesses throughout Wales. In fact, I met with one business earlier this week that had been successful in winning the contract to supply fish during the Ryder Cup.

Joyce Watson: You will know, Minister, that the Badger Trust has won the right to appeal against the legal foundation of the proposed badger cull based on the argument that there is insufficient scientific evidence to go ahead with the cull. In light of that decision, could you tell me how this might affect your strategy to eradicate bovine TB from Wales; and whether you will await the outcome before proceeding with the cull?

Hoffwn ymhelaethu ar fater hybu bwyd, cwrw a seidr o Gymru, a godwyd eisoes gan Jeff Cuthbert, fy nghyd-gadeirydd ar y pwyllgor trawsbleidiol ar gwrw a'r dafarn. Fel Jeff, byddaf fi yn i'r wyl honno. Mae yna nifer o wahanol fathau o gwrw, seidr a bwyd o Gymru y mae angen eu hybu trwy dwristiaeth. Gwn fod gennym gynllun gweithredu twristiaeth bwyd, ond a allai'r Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am y modd mae hynny'n cael ei ddatblygu ar gyfer cystadleuaeth Cwpan Ryder, er enghraifft, a digwyddiadau'r Gemau Olympaidd yn 2012 a fydd yn digwydd yng Nghymru, ac yn y blaen?

Elin Jones: O ran Rachel's Dairy, byddaf yn ystyried y cais yr ydych wedi'i wneud am ddarparu datganiad ar adeg briodol. Fodd bynnag, gallaf gadarnhau bod fy swyddogion wedi cael trafodaethau gyda Calon Wen i drafod ei fudd penodol yn y cwmni hwn, fel un sy'n cyflenwi llaeth iddo. Gwneir pob ymdrech i sicrhau llwyddiant parhaus Rachel's Dairy a Calon Wen yng Nghymru.

Mae hybu bwyd o Gymru yn faes gwaith pwysig y mae'r Cynulliad wedi ymddiddori ynddo ers ei sefydlu. Yn benodol, mae'r Llywodraeth wedi edrych ar y cysylltiad rhwng bwyd a thwristiaeth, fel y crybwyllir yn y cynllun gweithredu ar dwristiaeth bwyd. Gwn fod gwaith sylweddol yn cael ei wneud hedfyd i sicrhau y bydd cystadleuaeth Cwpan Ryder yn gyfle i arddangos bwyd o Gymru, ac y gwneir ymdrech i sicrhau bod y cyfle hwnnw'n cefnogi busnesau bwyd ledled Cymru. A dweud y gwir, cefais gyfarfod ag un busnes yn gynharach yr wythnos hon a oedd wedi llwyddo i ennill y contract i ddarparu pysgod yn ystod cystadleuaeth y Cwpan Ryder.

Joyce Watson: Gwyddoch, Weinidog, fod yr Ymddiriedolaeth Moch Daear wedi ennill yr hawl i apelio yn erbyn sylfaen gyfreithiol y rhaglen arfaethedig i ddifa moch daear, ar sail y ddadl nad oes digon o dystiolaeth wyddonol i fwrw ymlaen â'r rhaglen. Yng ngoleuni'r penderfyniad hwnnw, a allech ddweud wrthyf sut y gallai hynny effeithio ar eich strategaeth i ddileu TB buchol o Gymru; ac a fyddwch yn disgwyl am y canlyniad cyn bwrw ymlaen â'r rhaglen ddifa?

Elin Jones: I am aware of the fact that the Badger Trust is appealing the decision, but the work on progressing the eradication of TB in that area of west Wales will continue until a judge tells us as a Government that we are not able to do so.

Elin Jones: Yr wyf yn ymwybodol fod yr Ymddiriedolaeth Moch Daear yn apelio yn erbyn y penderfyniad, ond bydd y gwaith o fwrw ymlaen i ddileu TB yn yr rhan honno o'r gorllewin yn parhau nes bydd barnwr yn dweud wrthym fel Llywodraeth na allwn wneud hynny.

2.00 p.m.

Eleanor Burnham: Gwn eich bod yn beio'r glymblaid yn San Steffan am bopeth, ond hoffwn wybod beth yn union yr ydych am ei wneud i arbed dirywiad pellach yng nghefn gwlad, sy'n golygu bod popeth yn cau, gan gynnwys swyddfeydd post, banciau, gorsafoedd petrol, ysgolion gwledig ac yn y blaen. O ystyried bod hyn wedi bod yn digwydd ers degawd, beth yn union y gallwch ei wneud yn ei gylch? Beth yw'ch strategaeth ar gyfer y dyfodol agos?

Eleanor Burnham: I know that you blame the coalition at Westminster for everything, but I want to know what exactly you intend to do to prevent the further decline of rural areas, which has meant that everything is closing down, including post offices, banks, petrol stations, rural schools and so on. Considering that this has been going on for a decade, what exactly can you do about it? What is your strategy for the near future?

Elin Jones: Ni chytunaf â'ch portread o gefn gwlad a'ch honiad ei fod yn y fath argyfwng. Gwn fod heriau yng nghefn gwlad; yr wyf yn cynrychioli ardal wledig ac yr wyf yn Weinidog dros gefn gwlad, wrth gwrs. Nid yw byw a gweithio yng nghefn gwlad mor ddiflas ag yr ydych yn ei gyfleu. Mae pob croeso ichi, Eleanor, ddylanwadu ar y Llywodraeth yn San Steffan fel ei bod yn rhoi mwy o arian i gefnogi swyddfeydd post, a mwy o arian i'r Llywodraeth hon i ariannu gwasanaethau yng nghefn gwlad yn fwy sylweddol. Byddai wedi bod yn gychwyn da pe bai eich Llywodraeth yn San Steffan wedi gwireddu argymhellion Holtham ar gyfer ail-lunio fformiwla Barnett.

Elin Jones: I do not agree with your portrayal of rural areas and your assertion that they are in such a crisis. I know that they face challenges; I represent a rural area and I am the Minister for the countryside, of course. Living and working in rural areas is not as miserable as you make out. You are more than welcome, Eleanor, to influence the Westminster Government to give more money to support post offices, and more money to this Government to fund services in rural areas more substantially. It would have been a good start had your Government at Westminster fulfilled the Holtham recommendations for reforming the Barnett formula.

Nerys Evans: Yr oedd cwestiwn gwreiddiol arweinydd y Ceidwadwyr yn ymwneud â chefnogi ein cymunedau gwledig. Soniodd Rhodri Glyn am ragrith llwyr y Ceidwadwyr yn sôn am amddiffyn yr economi wledig, gan nad ydynt yn gweithredu argymhellion adroddiad Holtham ac felly maent yn gwrthod ariannu Cymru'n deg. A fydddech yn cytuno bod y rhagrith hwn yn fwy difrifol o ystyried bod y Ceidwadwyr ar fin amlinellu toriadau enfawr i gyllideb Cymru a fydd yn effeithio ar bob adran o'r Llywodraeth, gan gynnwys eich adran chi, a fydd yn effeithio ar yr economi wledig? Mae'n annerbyniol nad yw'r Ceidwadwyr yn y Cynulliad yn cymryd cyfrifoldeb am yr hyn y mae eu plaid

Nerys Evans: The original question by leader of the Conservatives related to support for our rural areas. Rhodri Glyn talked about the pure hypocrisy of the Conservatives talking about defending the rural economy when they are not implementing the Holtham recommendations, thereby refusing to fund Wales fairly. Do you agree that that hypocrisy is all the more serious given that the Conservatives are about to outline huge cuts in the Welsh budget, which will have an impact on all Government departments, including yours, which will affect the rural economy? It is unacceptable that the Conservatives in the Assembly are not taking responsibility for what their party is doing to

yn ei wneud i'ch cyllideb ac i gyllideb Llywodraeth Cymru.

Elin Jones: Cytunaf â chi fod angen i'r Ceidwadwyr ac i'r Democratiaid Rhyddfrydol gymryd cyfrifoldeb am y penderfyniadau anodd y bydd yn rhaid imi, fel Gweinidog, a phob Gweinidog yma eu gwneud yn dilyn y toriadau i'r gyllideb a fydd yn effeithio arnom ni fel Llywodraeth, ond a fydd, yn y pen draw, yn effeithio ar ein cymunedau ar hyd a lled Cymru. Bydd cymunedau gwledig yn wynebu'r sialens honno llawn cymaint â chymunedau eraill.

Priorities

Q7 The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): Will the Minister outline her priorities for the remainder of the third Assembly? OAQ(3)1083(RAF)

Elin Jones: I remain committed to delivering the objectives set out in the 'One Wales' agreement and working to deliver sustainable farming, forestry, food and fisheries industries to the benefit of Wales and rural communities.

Kirsty Williams: The European Commission's review of the boundary of the less favoured area is scheduled to be implemented by 2014. The Commission adopted a communication on 21 April last year with regard to targeting support at farmers in LFAs. Could you outline what data your Government has supplied pertaining to the proposed set of eight soil and climate criteria by which the new boundaries will be determined?

Elin Jones: I am not able to give you exact details here on the data that we are discussing with the UK Government and the European Commission in relation to the LFA boundary review, but I am happy to supply that to you in writing. I can assure you that my officials and I are keenly involved in ensuring that the data sets that are used and the parameters that will ultimately decide the LFA boundary will look to ensure that there is no substantial change to the LFA in Wales.

your budget and that of the Welsh Government.

Elin Jones: I agree with you that the Conservatives and the Liberal Democrats need to take responsibility for some of the difficult decisions that I, as Minister, and every other Minister here will have to make given the budget cuts that will affect us as a Government. But ultimately that will have an impact on our communities the length and breadth of Wales. Rural communities will face that challenge just as much as other communities.

Blaenoriaethau

C7 Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer gweddill y trydydd Cynulliad? OAQ(3)1083(RAF)

Elin Jones: Yr wyf yn dal wedi ymrwymo i gyflawni'r amcanion sydd wedi eu gosod allan yng nghytundeb 'Cymru'n Un', ac i weithio i sicrhau diwydiannau amaeth, coedwigaeth, bwyd a physgodfeydd cynaliadwy, er lles Cymru a chymunedau gwledig.

Kirsty Williams: Mae disgwyl i adolygiad y Comisiwn Ewropeaidd o ffin yr ardal lai ffafriol gael ei weithredu erbyn 2014. Mabwysiadodd y Comisiwn ddogfen gyfathrebu ar 21 Ebrill y llynedd ar dargedu cymorth at ffermwyr mewn ALFf. A allech amlinellu pa ddata a ddarparwyd gan eich Llywodraeth yng nghyswllt y gyfres arfaethedig o wyth o feini prawf ar gyfer pridd a hinsawdd a ddefnyddir i bennu'r ffiniau newydd?

Elin Jones: Ni allaf roi'r union fanylion ichi yma am y data yr ydym yn eu trafod gyda Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd o ran yr adolygiad o ffiniau ALFf, ond yr wyf yn fodlon ysgrifennu atoch gyda'r manylion hynny. Gallaf eich sicrhau bod fy swyddogion a minnau'n awyddus tu hwnt i sicrhau na fydd y setiau data a ddefnyddir, a'r paramedrau a fydd yn y pen draw yn penderfynu'r ffin ALFf, yn arwain at newid sylweddol yn yr ALFf yng Nghymru.

Kirsty Williams: I will look forward to receiving the written information on the data that has been sent by your Government pertaining to those areas. You will be aware that there is widespread concern in the LFA that there could be a significant reduction in the number of areas that are classified as being less favoured in Wales. Such a change to the classification will do nothing to change the often challenging circumstances under which farmers are working in those less favoured areas. Is the Government putting together any plans to help those farmers who may find themselves outside of the LFA boundaries post 2014 to plan for any changes that may occur?

Elin Jones: If there is a change to the boundaries and farmers and landowners find themselves outside the LFA, we are in discussion with the European Commission about a transition policy and support for those farmers. However, I reiterate what I said in my original answer in that I hope to be in a position to report that there will not be a significant change to the LFA in Wales. However, we are planning to reach agreement on a transitional period of support, if it is needed.

David Lloyd: A fydddech yn cytuno y buasai'n llawer haws ichi gael ystod eang o flaenoriaethau am weddill y trydydd Cynulliad hwn pe bai Cymru'n cael ei hariannu'n deg yn y lle cyntaf yn lle wynebu'r toriadau erchyll ar ben yr annhegwch ariannu oesol?

Elin Jones: Cytunaf yn llwyr.

David Lloyd: Da iawn.

Andrew R.T. Davies: I hope that you will make the ability to supply information through Farming Connect to farm businesses on their role in energy generation a priority. One exciting thing that is available to farm businesses now—to many businesses, in fact—in respect of energy generation is the tariffs that they can attract and the long-term stability of the contracts that are on offer. However, there is a reticence, through a lack of understanding, regarding the role of some farmers in utilising some of their acreage or even their sheds to host energy generation

Kirsty Williams: Edrychaf ymlaen at gael y wybodaeth ysgrifenedig am y data y mae eich Llywodraeth wedi'u hanfon ynghylch yr ardaloedd hynny. Gwyddoch fod cryn bryder yn yr ALFf y gallem weld gostyngiad sylweddol yn nifer yr ardaloedd a gaiff eu hystyried yn rhai llai ffafriol yng Nghymru. Ni fydd newid o'r fath yn y dosbarthiad yn gwneud dim i newid yr amgylchiadau y mae ffermwyr yn gweithio ynddynt yn yr ardaloedd llai ffafriol dan sylw, sy'n aml yn heriol. A yw'r Llywodraeth yn paratoi unrhyw gynlluniau i helpu'r ffermwyr, a allai weld eu bod y tu allan i ffiniau'r ALFf ar ôl 2014, i gynllunio ar gyfer unrhyw newidiadau a allai ddigwydd?

Elin Jones: Os bydd newid yn y ffiniau a ffermwyr a thirfeddianwyr yn gweld eu bod y tu allan i'r ALFf, yr ydym yn trafod polisi pontio a chymorth ar gyfer y ffermwyr hynny gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Fodd bynnag, hoffwn ailadrodd yr hyn a ddywedais yn fy ateb gwreiddiol, sef fy mod yn gobeithio bod mewn sefyllfa i ddweud na fydd newid sylweddol yn yr ALFf yng Nghymru. Fodd bynnag, yr ydym yn bwriadu dod i gytundeb ynghylch cyfnod pontio lle darperir cymorth, os bydd angen hynny.

David Lloyd: Do you agree that it would be far easier for you to have a broad range of priorities for the remainder of this third Assembly if Wales was funded fairly in the first place, rather than face these appalling cuts on top of the age-old unfairness in the funding?

Elin Jones: I agree entirely.

David Lloyd: Very good.

Andrew R.T. Davies: Gobeithio y byddwch yn rhoi blaenoriaeth i'r gallu i ddarparu gwybodaeth, trwy Cyswllt Ffermio, i fusnesau fferm am eu rôl wrth gynhyrchu ynni. Un peth cyffrous sydd ar gael i fusnesau fferm yn awr—ac i nifer o fusnesau, mewn gwirionedd—o ran cynhyrchu ynni yw'r tariffau y gallant eu cael, a sefydlogrwydd hirdymor y contractau sy'n cael eu cynnig. Fodd bynnag, nid oes llawer yn cael ei ddweud, oherwydd diffyg dealltwriaeth, am rôl rhai ffermwyr wrth ddefnyddio rhywfaint o'u tir neu hyd yn oed eu siediau i gynnal

projects. Farming Connect could be a useful tool to allow this information to come through to businesses so that they can play their full part. I would be grateful if you could indicate whether you are committed to establishing that level of information through Farming Connect.

Elin Jones: Farming Connect has a climate change remit within its support programme. I want to ensure that the potential for farmers to take advantage of the feed-in tariff is recognised and that the support that you recognise that could be given through Farming Connect is in fact given. I will pursue this further with my officials, following your suggestion.

Farming Diversification

Q8 David Melding: Will the Minister make a statement on the promotion of farming diversification? OAQ(3)1058(RAF)

Elin Jones: Farming Connect provides farm businesses with support on diversification options, improving business viability and access to new markets. Fully funded diversification-awareness-raising seminars provide farm businesses with an overview of the essential elements of farm diversification before farmers consider subsidised one-to-one mentoring through the whole-farm plan.

David Melding: In the 2006-07 study of diversification, 20 per cent of farms had diversified. Processing and retailing of farm produce seems to generate the highest returns by a very considerable margin. However, there is not much data because not many farms engage in this activity. When will the next study be undertaken and what will you do to promote the processing and retailing of farm produce, which seems to be an excellent way of generating additional income?

Elin Jones: I have no plans to undertake a further study on diversification on-farm, although I recognise that it is essential for farms to look to diversify their income

prosiectau cynhyrchu ynni. Gallai Cyswllt Ffermio fod yn arf defnyddiol i ganiatáu i'r wybodaeth hon gyrraedd busnesau, fel y gallant chwarae rhan lawn yn y maes. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud a ydych wedi ymrwymo i sefydlu'r lefel honno o wybodaeth trwy Cyswllt Ffermio.

Elin Jones: Fel rhan o'i raglen gymorth, mae gan Cyswllt Ffermio gylch gwaith yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd. Yr wyf am sicrhau bod y potensial i ffermwyr fanteisio ar y tariff cyflenwi trydan yn cael ei gydnabod, a bod y cymorth yr ydych yn cydnabod y gellid ei ddarparu trwy Cyswllt Ffermio yn cael ei roi mewn gwirionedd. Byddaf yn mynd ar drywydd y mater ymhellach gyda'm swyddogion, yn dilyn eich awgrym.

Arallgyfeirio yn y Byd Amaeth

C8 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hyrwyddo arallgyfeirio yn y byd amaeth? OAQ(3)1058(RAF)

Elin Jones: Mae Cyswllt Ffermio yn rhoi cymorth i fusnesau fferm gyda dewisiadau arallgyfeirio, gwaith gwella hyfywedd busnesau, a mynediad i farchnadoedd newydd. Mae seminarau, a ariennir yn llawn, i godi ymwybyddiaeth am arallgyfeirio yn rhoi trosolwg i fusnesau fferm o hanfodion arallgyfeirio yn y byd amaeth, cyn i ffermwyr ystyried rhaglen fentora un i un, gyda chymhorthdal, sy'n eu tywys trwy'r cynllun fferm gyfan.

David Melding: Yn astudiaeth arallgyfeirio 2006-07 yr oedd 20 y cant o ffermydd wedi arallgyfeirio. Ymddengys mai prosesu a manwerthu cynnyrch fferm sy'n cynhyrchu'r elw mwyaf o lawer. Fodd bynnag, nid oes llawer o ddata ar gael gan nad yw llawer o ffermydd yn ymwneud â'r gweithgarwch hwn. Pryd y caiff yr astudiaeth nesaf ei chynnal, a beth y byddwch yn ei wneud i hybu gwaith prosesu a manwerthu cynnyrch fferm, sy'n ymddangos yn ffordd wych i gynhyrchu incwm ychwanegol?

Elin Jones: Nid oes gennyf ddim cynlluniau i wneud astudiaeth arall o arallgyfeirio ar ffermydd, er fy mod yn cydnabod ei bod yn hanfodol i ffermydd ystyried arallgyfeirio'u

streams in order to increase the viability of their individual businesses. On supporting processing on-farm, we have mechanisms in the rural development plan, through processing and marketing grants, to support any farmer, working as an individual or collaboratively, who wants to look to develop and add value to their product on-farm in order to strengthen the viability of their businesses. I know that younger farmers in particular are interested in this area of work and it is something that we are looking to pursue with our young entrants support scheme.

ffrydiau incwm er mwyn gwneud eu busnesau unigol yn fwy hyfyw. O ran cefnogi gwaith prosesu ar ffermydd, mae gennym systemau yn y cynllun datblygu gwledig, trwy grantiau prosesu a marchnata, i gefnogi unrhyw ffermwr, sy'n gweithio'n unigol neu ar y cyd ac sy'n dymuno ystyried datblygu ei gynnyrch ac ychwanegu gwerth ar y fferm, er mwyn gwneud ei fusnes yn fwy hyfyw. Gwn fod gan ffermwyr iau, yn benodol, ddi-ddordeb yn y maes gwaith hwn, ac mae'n rhywbeth yr ydym yn awyddus i fynd ar ei drywydd gyda'n cynllun cymorth i newydd-fodiadaid.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai Questions to Minister for the Environment, Sustainability and Housing

Recycling Targets

Q1 Alun Davies: Will the Minister provide an update on progress towards meeting recycling targets in Wales? OAQ(3)1302(ESH)

2.10 p.m.

The Minister for the Environment, Sustainability and Housing (Jane Davidson): The latest provisional figures for the first three quarters of 2009-10—April to December 2009—show that Welsh local authorities were collectively recycling 40 per cent of the municipal waste that they collected. The recycling target for 2009-10 is 40 per cent. Provisional annual data will be published on 24 June 2010.

Alun Davies: Thank you very much for that response, Minister. The Deputy First Minister recently visited a recycling plant in north Wales, and you have set what is probably the most ambitious target for recycling of any administration in the United Kingdom—I think that it is for something like 70 per cent of waste to be recycled by 2025 and to become a zero waste nation by 2050. Do you agree that it is by investing in the sorts of technologies that the Deputy First Minister saw for himself in north Wales that we will reach the targets, by providing the infrastructure to do so and by driving behavioural change in the population as a whole? Do you also agree, Minister, that the

Targedau Ailgylchu

C1 Alun Davies: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd tuag at gyflawni targedau ailgylchu yng Nghymru? OAQ(3)1302(ESH)

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai (Jane Davidson): Mae'r ffigurau dros dro diweddaraf ar gyfer tri chwarter cyntaf 2009-10—Ebrill i Rhagfyr 2009—yn dangos bod awdurdodau lleol Cymru at ei gilydd wedi ailgylchu 40 y cant o'r gwastraff trefol yr oeddent wedi ei gasglu. Y targed ailgylchu ar gyfer 2009-2010 yw 40 y cant. Bydd data blynyddol dros dro yn cael ei gyhoeddi ar 24 Mehefin 2010.

Alun Davies: Diolch yn fawr iawn am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Yn ddiweddar bu'r Dirprwy Brif Weinidog yn ymweld â chanolfan ailgylchu yn y gogledd, ac yr ydych wedi gosod y targed ailgylchu mwyaf uchelgeisiol a osodwyd gan unrhyw un o weinyddiaethau'r Deyrnas Unedig, fwy na thebyg—credaf mai'r targed yw i ryw 70 y cant o wastraff gael ei ailgylchu erbyn 2025 ac y dylai Cymru fod yn wlad hollol ddiwastraff erbyn 2050. A gytunwch mai drwy fuddsoddi yn y mathau o dechnolegau a welodd y Dirprwy Brif Weinidog â'i lygaid ei hun yn y gogledd y gallwn gyrraedd y targedau, drwy ddarparu'r seilwaith i wneud hynny a thrwy hybu newid mewn ymddygiad

proposed Measure that is currently before the Assembly will help us to do that, and that, at the end of the day, this Government has to set an example regarding how the public sector operates in Wales and provide the infrastructure to drive behavioural change throughout society?

Jane Davidson: I certainly agree that the proposed Measure currently being considered by Assembly Members is crucial to taking forward this agenda. I warmly welcome the investment made by the Deputy First Minister from the business and economy side, but there has also been investment from my department in plastic sorting facilities, for example, to ensure that we create the appropriate infrastructure and markets to enable the business opportunities for recycling to be developed as effectively as possible.

Nick Bourne: Good afternoon, Minister. Progress has undoubtedly been made on recycling, as you have just highlighted. I will mention my home authority, Ceredigion, which has a particularly good record. It is working with Powys on a plan to deal with food waste at a special conversion plant they will share. Minister, what are you doing to encourage such moves and to encourage a food waste collection service for households throughout Wales? I think that this service is currently available to just over half the population, at 51 per cent of households. It is clearly having some success. What is the Government doing to ensure that that success is carried forward?

Jane Davidson: It is because of the Government's investment that food waste collection across Wales now stands at just over 51 per cent. Twenty-one of the 22 authorities now offer food waste collections for either part or all of their areas and, by next year, all 22 local authorities will have a food waste collection service in place. That is a result of our policy intention of ensuring that we get consistency across Wales.

yn y boblogaeth yn gyffredinol? A gytunwch hefyd, Weinidog, y bydd y Mesur arfaethedig sydd gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd yn ein helpu i wneud hynny, a'i bod yn rhaid i'r Llywodraeth hon, yn y pen draw, osod esiampl ynghylch sut mae'r sector cyhoeddus yn gweithredu yng Nghymru, a darparu'r seilwaith i hybu newid mewn ymddygiad ar draws y gymdeithas gyfan?

Jane Davidson: Cytunaf yn bendant fod y Mesur arfaethedig sy'n cael ei ystyried gan Aelodau'r Cynulliad ar hyn o bryd yn hollbwysig i symud yr agenda hon yn ei blaen. Croesawaf yn gynnes y buddsoddiad a wnaed gan y Dirprwy Brif Weinidog o safbwynt busnes a'r economi, ond gwelwyd buddsoddiad hefyd gan fy adran innau, mewn cyfleusterau didoli plastig, er enghraifft, er mwyn sicrhau ein bod yn creu'r seilwaith a'r marchnadoedd priodol i'w gwneud yn bosibl i gyfleoedd busnes ar gyfer ailgylchu gael eu datblygu mor effeithiol ag sy'n bosibl.

Nick Bourne: Prynawn da, Weinidog. Heb os, mae cynnydd wedi'i wneud o ran ailgylchu, fel yr ydych newydd bwysleisio. Hoffwn sôn am fy awdurdod i, Ceredigion, sydd wedi perfformio'n arbennig o dda. Mae'n gweithio gyda Phowys ar gynllun i ymdrin â gwastraff bwyd mewn canolfan drosi arbennig ar y cyd. Weinidog, beth yr ydych yn ei wneud i annog datblygiadau o'r fath ac i annog gwasanaeth casglu gwastraff bwyd o gartrefi ledled Cymru? Credaf mai ychydig dros hanner y boblogaeth, 51 y cant o gartrefi, yn unig sy'n cael y gwasanaeth hwn ar hyn o bryd. Mae'n amlwg ei fod yn cael rhywfaint o lwyddiant. Beth y mae'r Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod y llwyddiant hwnnw'n parhau?

Jane Davidson: Buddsoddiad y Llywodraeth sydd i gyfrif fod ychydig dros 51 y cant o gartrefi Cymru yn cael gwasanaeth casglu gwastraff bwyd ar hyn o bryd. Erbyn hyn, mae 21 o'r 22 awdurdod yn cynnig gwasanaeth casglu gwastraff bwyd, naill ai ar gyfer rhan o'u hardal neu eu hardal gyfan, ac erbyn y flwyddyn nesaf bydd gwasanaeth casglu gwastraff bwyd ar waith ym mhob un o'r 22 awdurdod lleol. Mae hynny wedi deillio o'n bwriad polisi o sicrhau bod cysondeb ar draws Cymru.

Rhodri Glyn Thomas: Weinidog, byddwch yn ymwybodol o Fesur arfaethedig Nerys Evans a oedd am osod cyfrifoldeb statudol ar awdurdodau lleol i adrodd yn ôl ar ble yn union y mae gwastraff sy'n cael ei ailgylchu yn mynd, sef ymhle y mae'n gorffen ei daith. Deallaf eich bod wedi gwrthod yr argymhelliad hwnnw. Beth ydych yn bwriadu ei wneud i sicrhau bod cofnod o hyn, fel y cawn wybod yn union sut y mae awdurdodau lleol yn mynd i'r afael ag ailgylchu?

Jane Davidson: Yr wyf wedi cytuno â Nerys i greu rhwymedigaeth newydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n dechrau ar 1 Hydref, a bydd yn sicrhau bod adroddiadau am ben y daith ar gael drwy WasteDataFlow.

Access to the Welsh Countryside

Q2 Darren Millar: Will the Minister make a statement on access to the Welsh countryside? OAQ(3)1319(ESH)

Jane Davidson: The Assembly Government continues to support improved public access to the Welsh countryside through ongoing delivery of the new all-Wales coast path, funding for the implementation of rights of way improvement plans, delivery of our walking and cycling action plan, and support for the Splash water recreation grant scheme.

Darren Millar: Thank you for that answer, Minister. Access to Welsh waterways is the subject that I wanted to raise this afternoon. You will be aware of the growing campaign for uninhibited access to Welsh waterways for recreational purposes. However, this is leading to some conflict in parts of north Wales, particularly along the Conwy and Dee valleys, where anglers and canoeists appear to be involved in a number of arguments and rows, which could escalate, and have indeed required the presence of the police in the past. Minister, can you give an update as to what you and your officials are doing to prevent this sort of unwelcome conflict taking place in and around north Wales in the future?

Jane Davidson: We have been clear about

Rhodri Glyn Thomas: Minister, you will be aware of Nerys Evans's proposed Measure which sought to give local authorities a statutory responsibility to report back on precisely where waste for recycling is sent to be disposed of, namely where it all ends up. I understand that you rejected that recommendation. What do you intend to do to ensure that there is a record of that, so that we know exactly how local authorities are dealing with recycling?

Jane Davidson: I have agreed with Nerys to create a new obligation for local authorities in Wales. It will commence on 1 October, and it will ensure that reports on where waste ends up are available via WasteDataFlow.

Mynediad i Gefn Gwlad Cymru

C2 Darren Millar: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad i gefn gwlad Cymru? OAQ(3)1319(ESH)

Jane Davidson: Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i gefnogi camau i wella mynediad cyhoeddus i gefn gwlad Cymru drwy barhau i ddarparu cynllun llwybr arfordir Cymru gyfan, rhoi arian i weithredu cynlluniau gwella hawliau tramwy, rhoi ein cynllun gweithredu ar gerdded a beicio ar waith, a chefnogi'r cynllun Sblash o grantiau gweithgareddau hamdden dŵr.

Darren Millar: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Y pwnc yr oeddwn am ei godi y prynhawn yma oedd mynediad i ddyffrffyrdd Cymru. Gwyddoch am yr ymgyrch gynyddol i sicrhau mynediad dirwystr i ddyffrffyrdd Cymru er mwyn hamdden. Fodd bynnag, mae'n arwain at rywfaent o wrthdaro mewn rhannau o'r gogledd, yn enwedig ar hyd dyffryn Conwy a dyffryn Dyfrdwy, lle'r ymddengys fod nifer o gwerylon a dadleuon rhwng pysgotwyr a chanŵ-wyr a allai waethygu. Yn wir, bu'n rhaid galw'r heddlu i ymdrin â hwy yn y gorffennol. Weinidog, a allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn yr ydych chi a'ch swyddogion yn ei wneud i atal y math hwn o wrthdaro annymunol rhag digwydd yn y gogledd ac o amgylch y gogledd yn y dyfodol?

Jane Davidson: Yr ydym wedi datgan ein

this as a Government and, in fact, three Ministers went to give evidence to the Sustainability Committee, which was looking at these issues. We need to find the appropriate voluntary agreements about access to water. Powers over Welsh waterways are not devolved to us, but we are keen to ensure responsible access to them and access that is as wide as possible, which is a view that I hope you share.

Chris Franks: Minister, there is quite rightly a growing appreciation of the need to provide cycleways and to maintain rights of way for walkers. However, there is concern about the lack of bridle ways across the countryside. Many horse riders have suffered abuse from other road users, and a worrying 13 per cent of them have experienced a road traffic incident. What action are you taking to address the need to provide off-road routes for riders?

Further, Pont y Werin will be an excellent facility for pedestrians and cyclists. Unfortunately, the lack of safe and pleasant access routes planned for the Penarth side will not maximise the benefits of this wonderful bridge. What encouragement can you offer to overcome that disappointing failure by the Vale of Glamorgan Council?

Jane Davidson: To focus on the Vale of Glamorgan, since that is your area, the local council there is working to extend and improve its bridle way and byway network. Together, the Vale and Rhondda Cynon Taf councils have 100 miles of bridle ways—in excess of 10 per cent of their networks. The Vale is working with Creative Rural Communities to develop its first promoted bridle way route, linking and extending the existing paths in the Llansannor area. Therefore, it is true to say that the rights of way improvement plan money that is provided by the Assembly Government can be prioritised as appropriate by local authorities.

safbwynt ar y mater hwn yn glir fel Llywodraeth, ac yn wir aeth tri Gweinidog i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd a oedd yn ystyried y materion hyn. Mae angen inni ddod o hyd i'r cytundebau gwirfoddol priodol ar fynediad i ddŵr. Nid yw'r pwerau dros ddyfrffyrdd Cymru wedi'u datganoli inni, ond yr ydym yn awyddus i sicrhau mynediad cyfrifol iddynt a mynediad sydd mor eang ag sy'n bosibl. Gobeithio bod hynny'n safbwynt yr ydych ch'n ei arddel.

Chris Franks: Weinidog, mae nifer cynyddol o bobl yn gwerthfawrogi'n gywir ddigon fod angen darparu llwybrau beiciau a chynnal a chadw hawliau tramwy i gerddwyr. Fodd bynnag, mae pryder am y diffyg llwybrau ceffyl ar draws ein hardaloedd gwledig. Mae llawer o farchogion wedi dioddef ymddygiad sarhaus gan bobl eraill sy'n defnyddio'r ffyrdd, ac mae 13 y cant ohonynt, sy'n ffigur sy'n peri gofid, wedi bod mewn damwain traffig ar y ffordd. Pa gamau gweithredu yr ydych yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r angen i ddarparu llwybrau oddi ar y ffordd ar gyfer marchogion?

At hynny, bydd Pont y Werin yn gyfleuster gwych ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Yn anffodus, ni fydd y diffyg llwybrau mynediad diogel a dymunol a gynllunnir ar gyfer ochr Penarth yn sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r bont fendigedig hon. Pa anogaeth y gallwch ei chynnig i oresgyn y methiant siomedig hwnnw ar ran Cyngor Bro Morgannwg?

Jane Davidson: Gan ganolbwyntio ar Fro Morgannwg, gan mai honno yw eich ardal chi, mae'r cyngor lleol yno'n gweithio i ymestyn a gwella ei rwydwaith o lwybrau ceffyl a chilffyrdd. Gyda'i gilydd, mae gan Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Rhondda Cynon Taf 100 milltir o lwybrau ceffyl—sy'n fwy na 10 y cant o'u rhwydweithiau. Mae Cyngor y Fro yn gweithio gyda Chymunedau Gwledig Creadigol i ddatblygu ei lwybr ceffyl cyntaf a hyrwyddir. Bydd yn cysylltu'r llwybrau presennol yn ardal Llansannor ac yn eu hymestyn. Felly, mae'n wir dweud y gall yr arian ar gyfer cynlluniau gwella hawliau tramwy a ddarperir gan Lywodraeth y Cynulliad gael ei flaenoriaethu, fel sy'n briodol, gan awdurdodau lleol.

Energy Efficiency

Q3 David Melding: Will the Minister make a statement on improving the energy efficiency of older housing stock? OAQ(3)1284(ESH)

Jane Davidson: The Welsh housing quality standard sets minimum standards for social housing, including on energy performance. In addition to investment through housing programmes, Arbed, our strategic energy performance programme, is investing more than £30 million in improving the energy efficiency of homes across Wales's strategic regeneration areas, and the home energy efficiency scheme has helped more than 105,000 people.

David Melding: Minister, thank you for that answer. You will be aware that many of the most needy people living in fuel poverty are in older houses—and one thinks of the south Wales Valleys, for instance—and they appear to be the harder homes to get properly insulated. I just wonder whether we could develop more expertise in this area. As building materials are developed—and there is a market for them in much of Wales—it seems to me that we could export many of these products and expertise further afield. That would be of great benefit to our economic regeneration, not to mention the great social good that it would do for those living in fuel poverty.

Jane Davidson: What you are talking about is, in fact, being delivered through Arbed. It is a tremendously exciting programme, which is focused on the lowest super output areas that qualify for the community energy support programmes from providers, which is the 15 per cent most deprived of our communities in Wales. We also hope to leverage in up to £20 million of the energy generators' money. Arbed is looking at the delivery of local labour, the delivery of appropriate solutions, both internal and external insulation, and at ensuring that we can demonstrate particular renewable energy techniques. These demonstration projects will be carried forward as we develop this across Wales. It is an exciting opportunity to bring together economic, social and environmental objectives in Wales.

Effeithlonrwydd Ynni

C3 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella effeithlonrwydd ynni y stoc tai hŷn? OAQ(3)1284(ESH)

Jane Davidson: Mae safonau ansawdd tai Cymru yn pennu safonau gofynnol ar gyfer tai cymdeithasol, gan gynnwys safonau ar berfformiad ynni. Yn ogystal â buddsoddi trwy raglenni tai, mae Arbed, ein rhaglen perfformiad ynni strategol, yn buddsoddi dros £30 miliwn i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi yn ardaloedd adfywio strategol Cymru, ac mae'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref wedi helpu dros 105,000 o bobl.

David Melding: Weinidog, diolch am yr ateb hwnnw. Byddwch yn gwybod bod nifer o'r bobl fwyaf anghenus sy'n byw mewn tldi tanwydd yn byw mewn tai hŷn—cymoedd y de, er enghraifft—ac ymddengys mai'r tai hynny yw'r rhai anoddaf i'w hinswleiddio'n iawn. Ysgwn i a allem ddatblygu mwy o arbenigedd yn y maes hwn? Wrth i ddeunyddiau adeiladu gael eu datblygu—ac mae marchnad ar eu cyfer mewn rhan helaeth o Gymru—ymddengys i mi y gallem allforio llawer o'r cynnyrch a'r arbenigedd dan sylw i ardaloedd eraill. Byddai hynny o fudd enfawr i'n hadfywiad economaidd, heb sôn am y lles cymdeithasol mawr y byddai'n ei wneud i bobl sy'n byw mewn tldi tanwydd.

Jane Davidson: Mewn gwirionedd, mae'r hyn yr ydych yn sôn amdano yn cael ei wneud drwy Arbed. Mae'n rhaglen eithriadol o gyffrous sy'n canolbwyntio ar yr ardaloedd cynnyrch ehangach isaf sy'n gymwys ar gyfer y rhaglenni cymorth ynni cymunedol a gynigir gan ddarparwyr, sef y 15 y cant o'n cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Yr ydym hefyd yn gobeithio trosglwyddo hyd at £20 miliwn o arian y cynhyrchwyr ynni. Mae Arbed yn ystyried darparu llafur lleol, darparu atebion priodol, o ran inswleiddio mewnol ac allanol, a sicrhau y gallwn arddangos technegau penodol ym maes ynni adnewyddadwy. Bydd y prosiectau arddangos hyn yn cael eu hybu wrth inni ddatblygu hyn ledled Cymru. Mae'n gyfle cyffrous i ddod ag amcanion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol

ynghyd yng Nghymru.

Brian Gibbons: Minister, I agree that the work that is being done in the Heads of the Valleys to improve the energy efficiency of pre-first world war houses is exciting and innovative. However, there is a problem as many of these houses are privately owned, and consequently the owners are often of modest means and cannot readily afford to undertake this work. On a point that David Melding touched on, I do not think that we are yet in a position firmly to recommend to people the best validated and accredited means of delivering proper insulation. There are cowboys out there who will prey on the poor and, if we are to tackle this issue, we really need to attack the issue of accreditation as well as affordability.

Brian Gibbons: Weinidog, cytunaf fod y gwaith a wneir ym Mlaenau'r Cymoedd i wella effeithlonrwydd ynni tai a godwyd cyn y rhyfel byd cyntaf yn gyffrous ac yn arloesol. Fodd bynnag, un broblem yw'r ffaith fod gan nifer o'r tai hyn berchnogion preifat, ac o ganlyniad nid yw'r perchnogion yn aml yn gyfoethog iawn, ac ni allant yn hawdd fforddio gwneud y gwaith hwn. O ran pwynt y cyfeiriodd David Melding ato, ni chredaf ein bod eto mewn sefyllfa i argymhell yn bendant i bobl beth yw'r dull gorau sydd wedi'i ddilysu a'i achredu i sicrhau bod tai'n cael eu hinswleiddio'n iawn. Mae yna rai cowbois sy'n barod i dwyllo pobl dlawd, ac os ydym am ddatrys y broblem hon mae gwir angen inni fynd i'r afael ag achredu yn ogystal â fforddiadwyedd.

2.20 p.m.

Jane Davidson: That is an important point, Brian, so thank you for raising it. Isolated homes in private ownership among public housing stock being addressed by Arbed can now also be picked up, because they are in the lower super output area. That is a new innovation being taken forward that I think you will welcome.

Jane Davidson: Mae hwnnw'n bwynt pwysig, Brian, felly, diolch am ei godi. Erbyn hyn mae'n bosibl hefyd adnabod cartrefi sydd â pherchnogion preifat ar eu pen eu hunain ynghanol stoc tai cyhoeddus y mae Arbed yn mynd i'r afael â hwy, oherwydd eu bod yn yr ardal cynnyrch ehangach is. Mae hwnnw'n ddatblygiad newydd sy'n mynd rhagddo, a chredaf y byddwch yn ei groesawu.

Secondly, exciting work is being undertaken by the Building Research Establishment at the moment. There is a project called Rethinking Housing Refurbishment, and you can take a look at that on the internet. It is taking a set of hard-to-heat homes across the UK and is trying out a set of different materials to see what is most effective. Those materials will be accredited accordingly.

Yn ail, mae gwaith cyffrous yn cael ei wneud gan y Sefydliad Ymchwil Adeiladu ar hyn o bryd. Mae prosiect o'r enw Ailystyried Adnewyddu Tai, a gallwch ddarllen amdano ar y rhyngwyd. Mae'n cymryd set o gartrefi anodd eu gwresogi ledled y DU ac yn arbrofi â set o wahanol ddeunyddiau i weld beth sydd fwyaf effeithiol. Caiff y deunyddiau hynny eu hachredu'n unol â hynny.

Janet Ryder: Minister, housing in rural areas, particularly when it is isolated and old, is not only hard to insulate but also expensive to heat, as the forms of fuel supply that are available for those buildings are usually limited and so homeowners often turn to oil or rely on electricity. We know from the report that was published today that households in north Wales are paying an average of £13 a year more and, in south Wales, nearly £25 a year more for their electricity supply than anywhere else in the

Janet Ryder: Weinidog, yn ogystal â bod yn anodd eu hinswleiddio, mae tai mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig pan fyddant yn anghysbell ac yn hen, hefyd yn ddrud i'w gwresogi gan fod y mathau o gyflenwad tanwydd sydd ar gael i'r adeiladau dan sylw fel rheol yn gyfyngedig, a pherchnogion y tai, felly, yn aml yn defnyddio olew neu'n dibynnu ar drydan. Gwyddom o'r adroddiad a gyhoeddwyd heddiw fod cartrefi yn y gogledd yn talu £13 y flwyddyn yn fwy a chartrefi yn y de yn talu bron i £25 y

UK. What discussions have you had with electricity suppliers on what they should do to give back to communities in Wales for the extra that we are paying?

Jane Davidson: I have been in discussion with Consumer Focus already about the information that has been made publicly available today, and I hope that it will also form a part of the discussion during my meeting with Chris Huhne the Secretary of State for Energy and Climate Change. That is a hangover from the initial privatisation of the energy companies, when cost-reflective pricing meant that, if you lived further away from the source, you paid more. In a country such as Wales, that is completely unfair, and I will continue to make that point to the UK Government as well as to the energy companies with a view to tackling that issue.

Sustainable Homes

Q4 Mark Isherwood: Will the Minister make a statement on the draft sustainable homes legislative competence Order? OAQ(3)1313(ESH)

The Deputy Minister for Housing and Regeneration (Jocelyn Davies): The First Minister and the Deputy First Minister have discussed the draft competence Order with the Prime Minister and with the Secretary of State for Wales. I have been told that there will be meetings with the Wales Office Minister and the UK Minister for housing, and I hope to meet them shortly.

Mark Isherwood: The programme for government agreed between the two UK coalition government parties included the statement that

‘We will take forward the Sustainable Homes Legislative Competence Order.’

However, can you tell us whether any changes will be proposed to it, given the reservations expressed over a couple of areas prior to the general election?

flwyddyn yn fwy am eu cyflenwad trydan, ar gyfartaledd, na'r un lle arall yn y DU. Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda chyflenwyr trydan am yr hyn y dylent ei wneud i roi rhywbeth yn ôl i gymunedau yng Nghymru am yr arian ychwanegol a dalwn?

Jane Davidson: Yr wyf eisoes wedi cael trafodaeth gyda Llais Defnyddwyr am y wybodaeth a gyhoeddwyd heddiw, a gobeithio y bydd hefyd yn rhan o'r drafodaeth yn ystod fy nghyfarfod â Chris Huhne, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd. Dyna un o effeithiau annymunol y gwaith gwreiddiol a wnaed i breifateiddio'r cwmnïau ynni, pan oedd prisio i adlewyrchu'r gost yn golygu ei bod yn rhaid ichi dalu mwy os oeddech yn byw ymhellach o'r ffynhonnell. Mewn gwlad megis Cymru mae hynny'n hollol annheg, a byddaf yn parhau i ddweud hynny wrth Lywodraeth y DU yn ogystal â'r cwmnïau ynni, gyda'r bwriad o fynd i'r afael â'r broblem.

Cartrefi Cynaliadwy

C4 Mark Isherwood: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft ynghylch cartrefi cynaliadwy? OAQ(3)1313(ESH)

Y Dirprwy Weinidog dros Dai ac Adfywio (Jocelyn Davies): Mae'r Prif Weinidog a'r Dirprwy Brif Weinidog wedi trafod y Gorchymyn cymhwysedd drafft â Phrif Weinidog y DU ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Cefais wybod y bwriedir cynnal cyfarfodydd gyda Gweinidog Swyddfa Cymru a Gweinidog y DU dros dai, a gobeithiaf gyfarfod â hwy'n fuan.

Mark Isherwood: Yr oedd y rhaglen ar gyfer llywodraethu, y cytunodd y ddwy blaid sy'n rhan o Lywodraeth glymbleidiol y DU arni, yn cynnwys y datganiad canlynol:

Byddwn yn symud y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch Cartrefi Cynaliadwy yn ei flaen.

Fodd bynnag, a allwch ddweud wrthym a fydd unrhyw newidiadau'n cael eu cynnig iddo, o gofio'r amheuan a fynegwyd am rai meysydd cyn yr etholiad cyffredinol?

Jocelyn Davies: Mark, I was hoping that you would be able to tell me whether there would be any changes to it. As you know, Legislation Committee No. 2 and the Welsh Affairs Committee looked at it, the Assembly approved it on 24 February, and it was then sent to the Secretary of State for Wales. It was agreed by the Joint Committee on Statutory Instruments on 17 March but, because cross-party support was not achieved before Parliament was dissolved, it could not go into the wash-up, and I understand that it was your party that objected to that. Following the general election, the First Minister wrote to the new Secretary of State for Wales requesting that it now be laid as it stands before both Houses of Parliament. No response has yet been received but, as I said earlier, I hope to have meetings shortly with the Wales Office Minister and with the UK Minister for housing. I will be in a better position to update you following those meetings.

Mark Isherwood: I welcome that, and my response was in the context of your saying, I believe, that meetings had already been held by the First Minister with David Cameron and Cheryl Gillan, implicitly regarding this and other issues. The reality is that, on 1 April, the then shadow Minister for Wales wrote to the then Parliamentary Under-Secretary of State for Wales offering to facilitate the making of the draft legislative competence Order subject to fundamental objections being removed. One of those, relating to the right to buy—[*Interruption.*] The only independent UK research, by one of the UK's leading housing experts, said that—[*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. This is an interesting constitutional debate, and I want to hear it.

Mark Isherwood: The second point required reassurance from the Welsh Government regarding proposals on Gypsy and Traveller sites. These are all pivotal issues. I am desperate to see this draft Order get through—

Jocelyn Davies: Mark, yr oeddwn yn gobeithio y byddech yn gallu dweud wrthyf a fyddai unrhyw newidiadau ynddo. Fel y gwyddoch, bu Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2 a'r Pwyllgor Materion Cymreig yn edrych arno, cafodd ei gymeradwyo gan y Cynulliad ar 24 Chwefror, ac yna cafodd ei anfon at Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Fe'i cytunwyd gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol ar 17 Mawrth, ond gan na chafwyd cefnogaeth ar draws y pleidiau cyn i'r Senedd gael ei diddymu, nid oedd modd ymdrin ag ef wrth gau pen y mwdwl, a deallaf mai eich plaid chi a'i gwrthwynebodd. Ar ôl yr etholiad cyffredinol, ysgrifennodd Prif Weinidog Cymru at Ysgrifennydd Gwladol newydd Cymru i ofyn am gael cyflwyno'r Gorchymyn yn awr, fel y mae, gerbron y ddau Dŷ yn Senedd y DU. Nid oes ymateb wedi dod hyd yma, ond fel y dywedais yn gynharach, gobeithiaf gael cyfarfodydd yn fuan gyda Gweinidog Swyddfa Cymru a Gweinidog y DU dros dai. Byddaf mewn sefyllfa well i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi ar ôl y cyfarfodydd hynny.

Mark Isherwood: Croesawaf hynny, a chyddestun fy ymateb oedd ichi ddweud, mi gredaf, fod Prif Weinidog Cymru eisoes wedi cael cyfarfodydd gyda David Cameron a Cheryl Gillan, yn benodol ar y mater hwn a materion eraill. Y realiti yw fod Weinidog yr wrthblaid dros Gymru ar y pryd wedi ysgrifennu at Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru ar y pryd, ar 1 Ebrill, i gynnig hwyluso'r broses o lunio'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft, ar yr amod bod gwrthwynebiadau sylfaenol yn cael eu dileu. Yr oedd un o'r rheini, yn ymwneud â'r hawl i brynu—[*Torri ar draws.*] Yr oedd yr unig ymchwil annibynnol yn y DU, gan un o brif arbenigwyr y DU ym maes tai, yn dweud bod—[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Mae hon yn ddadl gyfansoddiadol ddiddorol, a hoffwn ei chlywed.

Mark Isherwood: Yr oedd yr ail bwynt yn gofyn am sicrwydd gan Lywodraeth Cymru ar gynigion yn ymwneud â safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Mae'r materion hyn i gyd yn allweddol. Yr wyf yn wirioneddol awyddus i weld y Gorchymyn drafft hwn yn mynd

rhagddo—

Rhodri Glyn Thomas: Tell your own party then.

Rhodri Glyn Thomas: Dywedwch hynny wrth eich plaid eich hun, felly.

The Presiding Officer: Order. Stop intervening and let Mr Isherwood conclude his question.

Y Llywydd: Trefn. Rhowch y gorau i ymyrryd, a gadewch i Mr Isherwood orffen ei gwestiwn.

Mark Isherwood: I am desperate to see this draft Order get through to protect the people whom we wish to protect, and to provide the services that are required in respect of homelessness, affordable housing, funding, and so many other areas of policy. It could have gone through with cross-party consensus before the general election. Are you, as a Deputy Minister, now prepared to engage fully with the UK Government on the basis of compromise, so that the Measures that can make a difference can be brought in by this place?

Mark Isherwood: Yr wyf yn wirioneddol awyddus i weld y Gorchymyn drafft hwn yn mynd rhagddo er mwyn amddiffyn y bobl y dymunwn eu hamddiffyn, ac i ddarparu'r gwasanaethau sy'n ofynnol o safbwynt digartrefedd, tai fforddiadwy, cyllid, a chynifer o feysydd polisi eraill. Gallai fod wedi mynd rhagddo gyda chonsensws trawsbleidiol cyn yr etholiad cyffredinol. A ydych chi, fel Dirprwy Weinidog, yn barod yn awr i ymgysylltu'n llawn â Llywodraeth y DU ar sail cyfaddawd, fel y gall y lle hwn gyflwyno'r Mesurau a all wneud gwahaniaeth?

Jocelyn Davies: Thank you, Mark, for those comments. The Chamber has already witnessed my disappointment over the lack of support for the draft competence Order from the Tory group. I remind you that politicians are elected to do things. At the last Assembly elections, three of the four parties represented here in the Chamber put that promise in their manifestos, and were elected to implement those manifestos. The manifestos of the Welsh Local Government Association, Community Housing Cymru and Shelter also pressed for that policy. The entire housing sector in Wales supports the draft Order as it stands.

Jocelyn Davies: Diolch, Mark, am y sylwadau hynny. Mae'r Siambr eisoes wedi clywed am fy siom am ddiffyg cefnogaeth grŵp y Torïaid i'r Gorchymyn cymhwysedd drafft. Hoffwn eich atgoffa y caiff gwleidyddion eu hethol i wneud pethau. Yn etholiadau diwethaf y Cynulliad, cafodd yr addewid hwnnw ei gynnwys ym maniffestos tair o'r pedair plaid a gynrychiolir yma yn y Siambr, a chawsant eu hethol i weithredu'r maniffestos hynny. Yr oedd maniffestos Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cartrefi Cymunedol Cymru a Shelter hefyd yn pwysu am y polisi hwnnw. Mae'r ho11 sector tai yng Nghymru yn cefnogi'r Gorchymyn drafft fel y mae.

I have had no new discussions with the UK administration about this. I wrote to Grant Shapps some weeks ago to request a meeting but have not had a response. Mark, I have always been as positive as I can be. However, this draft Order has gone through our scrutiny process, has been subject to considerable consultation, and was in the manifestos of parties seeking election in Wales. I believe that we have the right to have those powers here at the Assembly, and I cannot understand why you continue to argue that they are better placed at Westminster.

Nid wyf wedi cael dim trafodaethau newydd gyda gweinyddiaeth y DU ar y mater hwn. Ysgrifennais at Grant Shapps rai wythnosau'n ôl i ofyn am gyfarfod, ond nid wyf wedi cael ymateb. Mark, yr wyf bob amser wedi bod mor gadarnhaol ag y gallaf. Fodd bynnag, aeth y Gorchymyn drafft hwn drwy ein proses graffu, bu'n destun ymgynghori sylweddoli, ac yr oedd ym maniffestos pleidiau a oedd yn ceisio cael eu hethol yng Nghymru. Credaf fod gennym yr hawl i gael y pwerau hynny yma yn y Cynulliad, ac ni allaf ddeall pam yr ydych yn parhau i ddadlau ei bod yn well iddynt fod yn

San Steffan.

David Lloyd: The Conservatives' concern about the draft housing LCO is akin to King Herod's concern about childcare provision, to be frank. Deputy Minister, could you confirm what is being done to recover the ground lost because of the Conservatives' disgraceful opposition to the draft housing LCO prior to the general election? No amount of sermons from Mark Isherwood can hide that truth.

Jocelyn Davies: That was well said, Dai. We have no idea of whether there are proposals or suggestions coming from the UK Government to change the draft Order. I do not think that the Prime Minister or the Secretary of State gave anything away during the meetings with our First Minister and Deputy First Minister. We have not received a response to my letter, and I have yet to have meetings with my counterparts in the UK Government. I will go to those meetings with an open mind, and I hope that they do the same, putting ideology aside and listening to what we hope to do with the powers if they are devolved to Wales. Believe me, we are running out of time in which to bring forward any legislation this side of the next Assembly elections, which could mean that the promises of three parties in this Chamber—the vast majority of Members elected by the people of Wales—will not be delivered even though they were manifesto pledges in 2007. That would be a disgrace.

Peter Black: My understanding is that the UK coalition agreement suggests that the draft LCO will go through Parliament unamended, as it was agreed by the Assembly. I also understand that, if the previous Secretary of State for Wales had acted more quickly, it could have made it through the House of Commons at that stage.

2.30 p.m.

Putting that to one side, given that it is the Secretary of State for Wales's responsibility to deliver on this draft LCO, will you seek

David Lloyd: Mae pryder y Ceidwadwyr am y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft ynghylch tai yn debyg i bryder y Brenin Herod am ddarpariaeth gofal plant, i siarad yn blaen. Ddirprwy Weinidog, a allech gadarnhau beth sy'n cael ei wneud i adennill y tir a gollwyd oherwydd gwrthwynebiad gwarthus y Ceidwadwyr i'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft ynghylch tai, cyn yr etholiad cyffredinol? Ni waeth faint o bregethu a wnaiff Mark Isherwood, ni all gelu'r gwirionedd hwnnw.

Jocelyn Davies: Clywch, clywch, Dai. Nid oes gennym ddim syniad a oes cynigion neu awgrymiadau ar ddod gan Lywodraeth y DU i newid y Gorchymyn drafft. Ni chredaf fod y Prif Weinidog na'r Ysgrifennydd Gwladol wedi datgelu dim yn ystod y cyfarfodydd â'n Prif Weinidog a'n Dirprwy Brif Weinidog ni. Nid ydym wedi cael ymateb i'm llythyr, ac nid wyf eto wedi cael cyfarfodydd â'm cymheiriaid yn Llywodraeth y DU. Byddaf yn mynd i'r cyfarfodydd hynny gyda meddwl agored, a gobeithio y byddant hwy'n gwneud yr un fath, gan roi ideoleg o'r neilltu a gwrando ar yr hyn y gobeithiwn ei wneud â'r pwerau, os cânt eu datganoli i Gymru. Credwch fi, mae'r amser sydd gennym i gyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth cyn etholiadau nesaf y Cynulliad yn brin, a gallai olygu na fydd addewidion tair plaid yn y Siambr hon—sef mwyafrif helaeth yr Aelodau a etholwyd gan bobl Cymru—yn cael eu gwireddu, er eu bod yn addewidion mewn maniffestos yn 2007. Byddai hynny'n warth.

Peter Black: Yn ôl a ddeallaf, mae cytundeb clymblaid y DU yn awgrymu y bydd y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft yn mynd drwy'r Senedd heb ei ddiwygio, fel y cytunwyd arno gan y Cynulliad. Caf ar ddeall hefyd y gallai'r Gorchymyn drafft fod wedi mynd drwy Dŷ'r Cyffredin ar y pryd pe bai cyn-Ysgrifennydd Gwladol Cymru wedi gweithredu ynghynt.

Gan roi hynny o'r neilltu, ac o gofio mai cyfrifoldeb Ysgrifennydd Gwladol Cymru yw gweithredu o ran y Gorchymyn cymhwysedd

early meetings with her, or her deputy, David Jones, to try to get agreement on a timetable for it to be agreed by the House of Commons, so as to ensure that the coalition agreement commitment is met in full and to give us the time that we need to get our own legislation in place?

Jocelyn Davies: You are quite right—at the moment these things are out of our hands. We should have asked you, I suppose, as it seems that you have inside information. We are delighted that the agreement between the Liberal Democrats and the Tories means that those powers and that draft legislative competence Order will be intact, and that I will not be asked to make changes. If I am asked to do so, I shall come to the Chamber, Presiding Officer, to make a statement.

Peter Black: Once that gets on the statute book, given that we have so little time, what is your priority as regards any Measures arising from it? We are likely to get only one, if that, through before the next Assembly election.

Jocelyn Davies: You will probably recall, Peter, that when I came to committee I told committee members that, because of the failure of the first draft competence Order, we were not working on Measures until we knew that we had the powers, with the exception of the ‘One Wales’ commitment to bring forward legislation to suspend the right to buy. However, there is an urgent need to update the regulatory regime for housing associations, to ensure that lenders have the comfort that they can lend in Wales. The risk if we do not update that regulatory regime is that lenders, in this current climate, will feel that housing associations are more risky in Wales. That is a matter of urgency as well, and I hope that we will be able to at least address those two problems.

Flooding

Q5 Alun Davies: Will the Minister give an

deddfwriaethol drafft hwn, a wnewch chi ofyn am gyfarfodydd buan â hi neu ei dirprwy, David Jones, i geisio cytuno amserlen ar gyfer cael sêl bendith Tŷ'r Cyffredin arno, er mwyn sicrhau bod modd cyflawni ymrwymiad cytundeb y glymblaid yn llawn, a rhoi'r amser y mae arnom ei angen i gyflwyno'n deddfwriaeth ein hunain?

Jocelyn Davies: Yr ydych yn llygad eich lle—ar hyn o bryd, mae'r pethau hyn y tu hwnt i'n rheolaeth. Dylem fod wedi gofyn i chi, mae'n debyg, oherwydd ymddengys fod gennych wybodaeth fewnol. Yr ydym wrth ein bodd fod y cytundeb rhwng y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid yn golygu y bydd y pwerau hynny a'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol drafft dan sylw yn parhau fel y maent, ac na fydd gofyn imi wneud newidiadau. Os gofynnir imi wneud hynny, dof i'r Siambr, Lywydd, i wneud datganiad.

Peter Black: Pan fydd yn cyrraedd y llyfr statud, o gofio bod gennym cyn lleied o amser, beth yw eich blaenoriaeth o ran unrhyw Fesurau a fydd yn deillio ohono? Mae'n debygol mai un yn unig, os hynny, y gallwn ei wthio drwodd cyn etholiad nesaf y Cynulliad.

Jocelyn Davies: Oherwydd methiant y Gorchymyn cymhwysedd drafft cyntaf, mae'n debyg y cofiwch, Peter, imi ddweud wrth aelodau'r pwyllgor, pan ddeuthum i'r pwyllgor, na fyddem yn gweithio ar Fesurau nes byddem yn gwybod bod y pwerau gennym, ac eithrio'r ymrwymiad yn ‘Cymru'n Un’ i gyflwyno deddfwriaeth i atal yr hawl i brynu. Fodd bynnag, mae taer angen diweddarau'r drefn reoleiddio ar gyfer cymdeithasau tai, er mwyn sicrhau bod modd rhoi sicrwydd i fenthycwyr y gallant fenthycu yng Nghymru. Os na ddiweddarwn y drefn reoleiddio honno, bydd perygl y bydd benthycwyr yn teimlo, yn yr hinsawdd sydd ohoni, fod mwy o risg mewn cymdeithasau tai yng Nghymru. Mae angen mynd i'r afael â'r mater hwnnw hefyd ar frys, a gobeithio y gallwn o leiaf roi sylw i'r ddwy broblem honno.

Llifogydd

C5 Alun Davies: A wnaiff y Gweinidog roi'r

update on the measures being taken by the Welsh Assembly Government to tackle the threat of flooding? OAQ(3)1303(ESH)

Jane Davidson: We are investing in a range of measures to increase the resilience of communities to flooding and inform people about flood risk. We will shortly be consulting on a national strategy for flood and coastal erosion risk management, setting out our objectives, priorities and measures going forward.

Alun Davies: Thank you for that response, Minister. Members across the Chamber will have heard about constituents' experiences and, in some cases, will have personal experience of both the dangers of flooding and the impact of flooding on people's everyday lives, in the form of coastal flooding, surface-water flooding and fluvial flooding. We are aware of the damage caused by flooding and its impact on people's lives. In that context, all of us will welcome the fact that Government spending on alleviating flooding has trebled since 1999, and we look to you, Minister, to safeguard this budget. We are aware of the pressures of the Liberal-Conservative cuts, and we want this money to be protected in some way, so that we can ensure that there is continued investment in flood defences and in adapting Welsh communities to be flood resistant in the future. I was pleased that we spent an additional £6 million on flood defences last year. Will you outline your plans to continue this investment over the coming financial year?

Jane Davidson: We are committed to continuing as much investment as we can in flood risk management. The publication of the draft national strategy, which will happen before the summer recess, will set out the risks that we face, provide details of risk management authorities, including the risks that each organisation is responsible for, and include information on investment. That will take account of the recent scrutiny by the Wales Audit Office, the Public Accounts Committee and the Sustainability Committee and the Environment Agency's own predictions of how much needs to be invested

wybodaeth ddiweddaraf am y mesurau sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â bygythiad llifogydd? OAQ(3)1303(ESH)

Jane Davidson: Yr ydym yn buddsoddi mewn ystod o fesurau i wella gallu cymunedau i wrthsefyll llifogydd ac i roi gwybod i bobl am y risg rhag llifogydd. Maes o law byddwn yn ymgynghori ar strategaeth genedlaethol ar reoli risg llifogydd ac erydu arfordirol, gan bennu ein hamcanion, ein blaenoriaethau a'n mesurau.

Alun Davies: Diolch am yr ymateb hwnnw, Weinidog. Bydd Aelodau ar draws y Siambr wedi clywed am brofiadau etholwyr, ac mewn rhai achosion byddant wedi cael profiad personol o beryglon llifogydd ac effaith llifogydd ar fywydau pob dydd pobl, ar ffurf llifogydd arfordirol, llifogydd dŵr wyneb a llifogydd afonydd. Gwyddom am y difrod a achosir gan lifogydd a'u heffaith ar fywydau pobl. Yn y cyd-destun hwnnw, byddwn i gyd yn croesawu'r ffaith fod gwariant y Llywodraeth ar leihau llifogydd wedi treblu er 1999, ac yr ydym yn disgwyl i chi, Weinidog, ddiogelu'r gyllideb dan sylw. Gwyddom am bwysau toriadau'r Llywodraeth Ryddfrydol-Geidwadol, ac yr ydym am i'r arian hwn gael ei amddiffyn rywsut, er mwyn inni allu sicrhau buddsoddiad parhaus mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd a gwaith addasu cymunedau Cymru fel y gallant wrthsefyll llifogydd yn y dyfodol. Yr oeddwn yn falch inni wario £6 miliwn ychwanegol ar amddiffyn rhag llifogydd y llynedd. A wnewch chi amlinellu eich cynlluniau i barhau â'r buddsoddiad hwn dros y flwyddyn ariannol nesaf?

Jane Davidson: Yr ydym wedi ymrwymo i barhau i fuddsoddi cymaint ag y gallwn i reoli risg llifogydd. Bwriedir cyhoeddi'r strategaeth genedlaethol ddrafft cyn toriad yr haf, a bydd yn egluro'r peryglon a wynebwn, bydd yn darparu manylion awdurdodau rheoli peryglon, gan gynnwys y peryglon y mae pob sefydliad yn gyfrifol amdanynt, a bydd yn cynnwys gwybodaeth am fuddsoddi. Bydd hynny'n ystyried y gwaith craffu diweddar a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'r Pwyllgor Cynaliadwyedd, a faint y mae Asiantaeth yr Amgylchedd ei hun yn rhagweld y bydd

in the future.

Mohammad Asghar: Recent figures have shown that only 57 per cent of people living in flood-risk areas are aware that they are at risk, and that only 32 per cent of people living in flood-risk areas have taken any steps to address this issue. Does the Minister agree that it is essential that the Welsh Assembly Government does all that it can to ensure that people living in flood-risk areas are fully aware of the problems that they potentially face? Is the Minister confident that Welsh Assembly Government strategies are doing enough to provide people living in flood-risk areas with necessary knowledge?

Jane Davidson: You raise an important point, which has been discussed by all three committees that have looked at flooding issues. I know that all three committees welcome our trial of a single point of contact later this summer. The Welsh Assembly Government strategy will be a national strategy for Wales, but underneath that will sit individual strategies by local authorities, representing their responsibilities. It is important to have those strategies working in a complementary fashion and to ensure that people living in flood-risk areas, whether it is a risk of surface-water flooding or other kinds of flooding, understand the risk and take their own actions wherever possible to make their homes more resilient. There is a very strong message for us all to put out about all of us becoming more resilient in respect of the flooding that we know will happen in the future.

Helen Mary Jones: Minister, I know that you and your officials have been very involved in promoting better co-ordination between the various agencies with responsibility for flood prevention in the Carmarthenshire area, particularly in my constituency of Llanelli. In that context I am sure that you will be sorry to hear that some of my constituents in Dafen are still experiencing difficulties in getting a co-

angen ei fuddsoddi yn y dyfodol.

Mohammad Asghar: Mae ffigurau diweddar wedi dangos mai 57 y cant yn unig o'r bobl sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd sy'n ymwybodol eu bod mewn perygl, ac mai 32 y cant yn unig o'r bobl sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd sydd wedi cymryd unrhyw gamau i fynd i'r afael â'r mater. A yw'r Gweinidog yn cytuno ei bod yn hanfodol i Lywodraeth y Cynulliad wneud popeth posibl i sicrhau bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle ceir perygl llifogydd yn hollol ymwybodol o'r problemau y gallent eu hwynebu? A yw'r Gweinidog yn hyderus bod strategaethau Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud digon i roi'r wybodaeth angenrheidiol i bobl sy'n byw mewn ardaloedd lle mae perygl llifogydd?

Jane Davidson: Yr ydych yn codi pwynt pwysig, a drafodwyd gan bob un o'r tri phwyllgor sydd wedi ystyried materion yn ymwneud â llifogydd. Gwn fod pob un o'r tri phwyllgor yn croesawu'r ffaith y byddwn yn treialu cael un pwynt cyswllt yn nes ymlaen yn yr haf. Bydd strategaeth Llywodraeth y Cynulliad yn strategaeth genedlaethol i Gymru, ond dani bydd strategaethau unigol gan awdurdodau lleol a fydd yn cyfleu eu cyfrifoldebau hwy. Mae'n bwysig i'r strategaethau hynny ategu ei gilydd, ac mae'n bwysig sicrhau bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle mae risg llifogydd, boed yn risg llifogydd dŵr wyneb ynteu'n fathau eraill o lifogydd, yn deall y perygl ac yn cymryd eu camau gweithredu eu hunain, pryd bynnag y bo'n bosibl, i gynyddu gallu eu cartrefi i wrthsefyll llifogydd. Ceir neges gref iawn y dylem i gyd ei lledaenu ynghylch yr angen i bob un ohonom gynyddu ein gallu i wrthsefyll y llifogydd y gwyddom y byddant yn digwydd yn y dyfodol.

Helen Mary Jones: Weinidog, gwn eich bod chi a'ch swyddogion wedi ymwneud i raddau helaeth iawn â hyrwyddo cydgysylltu gwell rhwng yr amryw asiantaethau sydd â chyfrifoldeb am atal llifogydd yn ardal Sir Gaerfyrddin, yn enwedig yn fy etholaeth i, sef Llanelli. Yn y cyd-destun hwnnw, yr wyf yn siŵr y bydd yn flin gennych glywed bod rhai o'm hetholwyr yn Dafen yn dal i'w chael yn anodd sicrhau dull cydgysylltiedig o

ordinated approach. Will you arrange for one of your officials to seek an update from the agencies in Carmarthenshire, not about the specifics of the issue in Dafen, but about how successful they feel the overall co-ordination has been? I know that you agree that it is not acceptable for people to be passed from one agency to another when they are fearful of flooding or when they are experiencing a flooding emergency.

Jane Davidson: I undertook a short update prior to Plenary, and I know that the council has constructed a flood bund to protect the most vulnerable properties in Dafen, and now has a liaison officer in place, who is looking at the best approach to reducing the flood risk for residents. A survey of the drainage system around Bryngwyn road has recently been completed, and consideration is being given to what further improvements can be made. The provision of further flood gates and vent guards for individual properties is being looked at. Alongside that, Dŵr Cymru is about to commence the refurbishment work at the Half Way pumping station, which will significantly improve the flooding situation. It is also looking at where surface water can be taken out of the foul sewer system, which offers potential to further improve performance.

It is a matter for the drainage operating authorities to identify what flood-risk improvement measures are required and feasible, but I would be very happy for you to keep me in touch as to whether the measures being undertaken and the work of the liaison officer are assisting with calming the fears of local residents. That may also help us with what we do in our national strategy.

Jonathan Morgan: Minister, one of the slight conundrums of the rhetoric around continuous investment in flood defences, particularly in our coastal areas, is that it gives the impression to many people living in those areas that it means building bigger and higher defences. Does the Government still intend to include, as part of its package of policy measures, managed retreat as an option in some parts of Wales where that may need to be considered in the future?

weithredu. A wnewch chi drefnu bod un o'ch swyddogion yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf gan asiantaethau Sir Gaerfyrddin, nid am agweddau penodol ar y broblem yn Nafen, ond am eu barn ynghylch llwyddiant y gwaith cydgysylltu cyffredinol? Gwn eich bod yn cytuno nad yw'n dderbyniol i bobl gael eu trosglwyddo o'r naill asiantaeth i'r llall pan fyddant yn ofni llifogydd neu pan fyddant mewn argyfwng oherwydd llifogydd.

Jane Davidson: Bûm yn casglu ychydig o'r wybodaeth ddiweddaraf cyn y Cyfarfod Llawn, a gwn fod y cyngor wedi adeiladu bwnd llifogydd i amddiffyn yr eiddo sydd fwyaf agored i niwed yn Dafen, a bod ganddo swyddog cyswllt sy'n ystyried y dull gorau i leihau perygl llifogydd i drigolion. Mae arolwg o'r system ddraenio o amgylch ffordd Bryngwyn wedi'i gwblhau yn ddiweddar, ac ystyrir pa welliannau pellach y gellir eu gwneud. Ystyrir darparu rhagor o lifddorau a gorchuddion tyllau awyru ar gyfer eiddo unigol. Yn ogystal, mae Dŵr Cymru ar fin dechrau adnewyddu gorsaf bympio Half Way, a fydd yn gwella'r sefyllfa'n sylweddol o ran llifogydd. Mae hefyd yn edrych i weld ble y gellir tynnu dŵr wyneb allan o'r system garthffosiaeth, a allai wella perfformiad ymhellach.

Mater i'r awdurdodau sy'n gweithredu'r system ddraenio yw nodi pa fesurau sy'n ofynnol ac yn ymarferol i wella'r sefyllfa o ran perygl llifogydd, ond byddwn yn fodlon iawn ichi roi'r wybodaeth ddiweddaraf imi ynghylch a yw'r mesurau a weithredir a gwaith y swyddog cyswllt yn helpu tawelu ofnau trigolion lleol. Gallai hynny ein helpu hefyd gyda'r hyn a wnawn yn ein strategaeth genedlaethol.

Jonathan Morgan: Weinidog, un o fân gymhlethdodau'r rhyngwladol ar fuddsoddi'n barhaus mewn amddiffynfeydd rhag llifogydd, yn enwedig yn ein hardaloedd arfordirol, yw ei bod yn rhoi'r argraff i lawer o bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny ei bod yn golygu adeiladu amddiffynfeydd mwy ac uwch. A yw'n fwriad o hyd gan y Llywodraeth, yn ei phhecyn o fesurau polisi, i gynnwys gwaith gorlifo tir dan reolaeth fel dewis mewn rhai rhannau o Gymru, lle bydd angen ystyried hynny efallai yn y dyfodol?

Jane Davidson: In the future, managed retreat is likely to be an option. The question is: how far in the future is that? An important role is being played in that respect by the shoreline management plans being formulated by the Environment Agency. I hope that you and your colleagues will be clear about this, particularly since there have been three elements of scrutiny on the Assembly Government's flood plans. We moved away from a defence-led infrastructure in 2007. We are now looking much more at a risk-management agenda. A whole range of issues are covered by the new Flood and Water Management Act 2010, including mapping the known surface-water flooding problem areas, identifying those areas that are particularly susceptible to surface-water flooding and critical infrastructure at flood risk. These are new elements in addition to the information that we already had. It would be entirely wrong for us to put a blight on any individual community at this point. What we need to do is collectively recognise the increased risk of flooding and ensure that there are appropriate local plans in place to tackle those issues at a local level. The shoreline management plans and our national strategy will be much clearer on this.

2.40 p.m.

Prosiectau Ynni Mawr

C6 Nerys Evans: Pa drafodaethau mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar ynglŷn â datganoli'r pwerau ar brosiectau ynni mawr? OAQ(3)1328(ESH)

Jane Davidson: Yr wyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Ynni a Newid Hinsawdd, Chris Huhne, yn ei longyfarch ar gael ei benodi. Yn fy llythyr, dywedais ein bod yn parhau i fod yn ymrwymedig i drosglwyddo'r pwerau ar gyfer caniatadau ynni i Gymru, a gofynnais am gyfarfod i drafod hynny.

Nerys Evans: In the Infrastructure Planning Commission's position statement in response

Jane Davidson: Yn y dyfodol, mae gorlifo tir dan reolaeth yn debygol o fod yn ddewis. Y cwestiwn yw pa mor bell yn y dyfodol mae hynny? Mae rôl bwysig yn hynny gan y cynlluniau rheoli traethlin sy'n cael eu llunio gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Gobeithio y byddwch chi a'ch cydweithwyr yn deall hynny'n glir, yn enwedig gan fod tair elfen o waith craffu wedi bod ar gynlluniau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer llyfogydd. Dechreuasom ganolbwyntio llai ar seilwaith yn cael ei arwain gan amddiffynfeydd yn 2007. Erbyn hyn yr ydym yn rhoi mwy o bwys o lawer ar agenda rheoli risg. Mae'r Ddeddf newydd, Deddf Rheoli Llyfogydd a Dŵr 2010, yn ymdrin ag ystod eang iawn o faterion, gan gynnwys gwaith mapio'r ardaloedd hynny lle gwyddom fod problemau llyfogydd oherwydd dŵr wyneb, nodi'r ardaloedd hynny sy'n arbennig o agored i llyfogydd oherwydd dŵr wyneb, a seilwaith hollbwysig lle mae perygl llyfogydd. Mae'r elfennau hyn yn rhai newydd sy'n ychwanegol at y wybodaeth a oedd gennym eisoes. Byddai'n hollol anghywir inni achosi malltodd mewn unrhyw gymuned unigol ar hyn o bryd. Yr hyn y mae angen inni ei wneud yw cydnabod ar y cyd fod mwy o berygl llyfogydd, a sicrhau bod cynlluniau lleol priodol ar waith i fynd i'r afael â'r problemau hynny yn lleol. Bydd y cynlluniau rheoli traethlin a'n strategaeth genedlaethol yn egluro hynny'n fwy.

Large Energy Projects

Q6 Nerys Evans: What recent discussions has the Minister had with regard to devolving the powers on large energy projects? OAQ(3)1328(ESH)

Jane Davidson: I have written to the new Secretary of State for Energy and Climate Change, Chris Huhne, congratulating him on his appointment. In my letter I stated that we remain committed to the transfer of powers for energy consents to Wales, and I sought a meeting to discuss that.

Nerys Evans: Yn natganiad safbwynt y Comisiwn Cynllunio Seilwaith wrth ymateb

to the new coalition Government, the chair, Sir Michael Pitt, states that:

‘the expertise, processes and special character of the IPC will be retained in the creation of a Major Infrastructure Unit as part of a revised CLG structure that includes the Planning Inspectorate. Recommendations on nationally significant infrastructure projects will be made to the relevant Secretary of State for final decisions.’

Departmental functions for communities and local government are, as you know, devolved, and if the IPC is moved to sit within CLG, we will have a devolved English department responsible for making recommendations on large-scale energy projects and planning applications in Wales. That situation would be clearly unacceptable, particularly given that there is cross-party support in the Assembly for devolving powers over energy projects of more than 50 MW.

What discussions have you had with the new UK Government regarding this potentially absurd position? Do you believe that, if the new Government intends to bring in new legislation, this would be an opportunity to devolve these powers to the Assembly Government?

Jane Davidson: I have separately written to Eric Pickles, the Secretary of State for Communities and Local Government, stating that we would like to bring the powers on large energy projects and energy from waste projects, which is also relevant to his department, to Wales. Therefore, with changes to the IPC, there is a clear opportunity to bring those powers here. I will continue proselytising that case when I meet him to discuss what is happening post-IPC.

Angela Burns: Minister, I welcome your statement this week regarding the review of renewable energy planning in Wales. However, one of the major concerns of the

i'r Llywodraeth glymbleidiol newydd, mae'r cadeirydd, Syr Michael Pitt, yn dweud:

bydd arbenigedd, prosesau a chymeriad arbennig y Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn cael eu cadw wrth greu Uned Seilwaith Mawr fel rhan o strwythur diwygiedig ar gyfer yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, sy'n cynnwys yr Arolygiaeth Gynllunio. Bydd argymhellion ynghylch prosiectau seilwaith sydd o bwys cenedlaethol yn cael eu cyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol er mwyn gwneud penderfyniadau terfynol.

Fel y gwyddoch, mae swyddogaethau adrannol ar gyfer cymunedau a llywodraeth leol wedi'u datganoli, ac os caiff y Comisiwn Cynllunio Seilwaith ei symud i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, bydd gennym adran ddatganoledig yn Lloegr a fydd yn gyfrifol am gyflwyno argymhellion ynghylch ceisiadau cynllunio a phrosiectau ynni mawr yng Nghymru. Byddai sefyllfa o'r fath yn annerbyniol, wrth gwrs, yn enwedig o gofio bod cefnogaeth drawsbleidiol yn y Cynulliad i ddatganoli pwerau dros brosiectau ynni sydd dros 50 MW.

Pa drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Llywodraeth newydd y DU am y sefyllfa hon a allai fod yn sefyllfa ryfedd iawn? Os yw'r Llywodraeth newydd yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth newydd, a ydych yn credu y byddai'n gyfle i ddatganoli'r pwerau hyn i Llywodraeth y Cynulliad?

Jane Davidson: Yr wyf wedi ysgrifennu ar wahân at Eric Pickles, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol, i ddweud y byddem yn hoffi dod â phwerau dros brosiectau ynni mawr a phrosiectau troi gwastraff yn ynni, sydd hefyd yn berthnasol i'w adran, i Gymru. Felly, gyda newidiadau i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith, ceir cyfle amlwg i ddod â'r pwerau hynny yma. Byddaf yn parhau i bledio'r achos hwnnw pan fyddaf yn cyfarfod ag ef i drafod yr hyn a fydd yn digwydd ar ôl oes y Comisiwn Cynllunio Seilwaith.

Angela Burns: Weinidog, croesawaf eich datganiad yr wythnos hon ynghylch yr adolygiad o waith cynllunio ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Fodd bynnag,

wind industry in Wales is the sheer length of time taken by the planning authority and the Planning Inspectorate to reach a decision on applications, which has led to a large impact on target delivery. From 2005 to 2009, there were 24 projects determined in Wales that had to wait, on average, 21 months. Four more projects have waited over two years.

When you are drawing up this new draft planning policy on renewable energy, how will you ensure that developers of energy projects in Wales are encouraged, rather than held back, and that the barriers they face are removed, so that we can deliver on the targets that are so desperately needed?

Jane Davidson: There are two ways of doing that. The first is that we have been clear to local authorities about the way in which they should exercise their planning functions in a proper planning way. Secondly, we have given extra support to local authorities that have, for example, larger windfarm developments coming forward in their areas, for instance in undertaking the appropriate assessment prior to it being passed to the UK Government—because, of course, anything over 50 MW goes to the UK Government.

We have seen a substantial increase in consented projects. For example, when technical advice note 8 was published in 2005, our goal was to produce 4 TWh per year of electricity from renewable sources by 2010, and 7 TWh by 2020. We are currently producing 3 TWh of electricity from renewables, but another 5 TWh per year is either being consented or is under construction. Therefore, 8 TWh will be available to us relatively shortly, there are a further 3 TWh in the planning process and, if all the windfarm plans that have been formally submitted to the IPC were approved, we would be close to our estimated total capacity of 2 GW, which will generate 5 TWh per year. Therefore, there is a lot in the system at present.

un o brif bryderon y diwydiant ynni gwynt yng Nghymru yw hyd y cyfnod a gymer yr awdurdod cynllunio a'r Arolygiaeth Gynllunio i benderfynu ar geisiadau, sydd wedi effeithio'n fawr ar waith cyrraedd targedau. Rhwng 2005 a 2009, penderfynwyd ar 24 o brosiectau yng Nghymru y bu'n rhaid iddynt aros am 21 mis, ar gyfartaledd. Mae pedwar prosiect arall wedi gorfod aros am dros ddwy flynedd.

Pan fyddwch yn llunio'r polisi cynllunio drafft newydd hwn ar ynni adnewyddadwy, sut y byddwch yn sicrhau bod datblygwyr prosiectau ynni yng Nghymru yn cael eu hannog, yn hytrach na'u hatal, a sut y byddwch yn sicrhau bod y rhwystrau a wynebant yn cael eu dileu, er mwyn inni allu cyrraedd y targedau y mae taer angen eu cyrraedd?

Jane Davidson: Mae dwy ffordd o wneud hynny. Y ffordd gyntaf yw ein bod wedi egluro wrth awdurdodau lleol sut y dylent gyflawni eu swyddogaethau cynllunio mewn modd sy'n briodol i waith cynllunio. Yn ail, yr ydym wedi rhoi cymorth ychwanegol i awdurdodau lleol lle mae datblygiadau ffermydd gwynt mwy o faint, er enghraifft, yn cael eu cyflwyno yn eu hardaloedd, drwy wneud yr asesiad priodol cyn trosglwyddo'r datblygiad i Lywodraeth y DU—oherwydd, wrth gwrs, caiff popeth dros 50 MW ei drosglwyddo i Lywodraeth y DU.

Yr ydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y prosiectau sy'n cael caniatâd. Er enghraifft, pan gyhoeddwyd nodyn cyngor technegol 8 yn 2005, ein nod oedd cynhyrchu 4 TWh y flwyddyn o drydan o ffynonellau adnewyddadwy erbyn 2010, a 7 TWh erbyn 2020. Ar hyn o bryd, yr ydym yn cynhyrchu 3 TWh o drydan o ffynonellau adnewyddadwy, ond mae'r cyfleusterau ar gyfer 5 TWh arall y flwyddyn naill ai wrthi'n cael caniatâd neu'n cael eu hadeiladu. Felly, bydd 8 TWh ar gael inni yn lled fuan, mae 3 TWh arall yn mynd drwy'r broses gynllunio, a phe bai'r holl gynlluniau ffermydd gwynt a gyflwynwyd yn ffurfiol i'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn cael eu cymeradwyo, byddem yn agos at yr amcangyfrif o gyfanswm ein capasiti, sef 2 GW, a fydd yn cynhyrchu 5 TWh y flwyddyn. Mae llawer yn y system ar hyn o bryd, felly.

One of the critical issues for local authorities and others has been to learn from each previous application. We clearly cannot intervene politically in any way, but, where it is appropriate for there to be support on the kind of information that needed to go to a local authority for its consideration, and subsequently to the IPC, our officials have been as helpful as possible.

Michael German: I am encouraged by your assessment of the move to remove the IPC in its current format from the planning regime in Wales. Have you made any assessment of the opportunities that there are, for example, to re-examine the case for, or against, more nuclear power stations in Wales? Have you already thought about how those powers, should they come to Wales, would be applied, and will those powers be applied with immediate effect if you had applications already with the IPC? Do you know when IPC decisions that are in the pipeline will be completed? In addition, will you be prepared to put the correspondence that you have with UK Government Ministers on this matter into the public domain so that you can acquire as much political support as necessary to help you in your cause?

Jane Davidson: I will have greater clarity over a number of those issues when I have had my meeting with the Secretary of State for Energy and Climate Change.

Renewable Energy Generation

Q7 Brynle Williams: Will the Minister outline the Welsh Assembly Government's priorities for supporting renewable energy generation in Wales? OAQ(3)1315(ESH)

Jane Davidson: I launched 'A Low Carbon Revolution: The Welsh Assembly Government Energy Policy Statement' on 15 March. Practical measures include our European structural funds programme, Ynni'r Fro, which we hope will generate investment of around £14 million in community-scale

Un o'r agweddau hollbwysig i awdurdodau lleol ac eraill fu dysgu o bob cais blaenorol. Mae'n amlwg na allwn ymyrryd yn wleidyddol mewn unrhyw fodd, ond lle mae'n briodol cynnig cymorth gyda'r math o wybodaeth yr oedd angen iddi fynd at awdurdod lleol i'w hystyried, ac yna at y Comisiwn Cynllunio Seilwaith, mae ein swyddogion wedi gwneud cymaint ag y gallant i helpu.

Michael German: Caf fy nghalonogi gan eich asesiad o'r symudiad i ddileu'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith yn ei ffurf bresennol o'r drefn gynllunio yng Nghymru. A ydych wedi gwneud unrhyw asesiad o'r cyfleoedd sydd, er enghraifft, i ailarchwilio'r achos o blaid neu yn erbyn mwy o orsafoedd ynni niwclear yng Nghymru? A ydych eisoes wedi meddwl sut y byddai'r pwerau hynny, pe baent yn dod i Gymru, yn cael eu defnyddio, ac a fyddai'r pwerau hynny'n cael eu defnyddio'n syth pe bai gennych geisiadau eisoes gyda'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith? A wyddoch pryd y bydd penderfyniadau gan y Comisiwn Cynllunio Seilwaith sydd yn yr arfaeth yn cael eu cwblhau? Yn ogystal, a fyddwch yn barod i sicrhau bod yr ohebiaeth rhyngoch chi a Gweinidogion Llywodraeth y DU ar y mater hwn yn wybodaeth gyhoeddus er mwyn ichi allu cael cymaint o gefnogaeth wleidyddol ag sy'n angenrheidiol i'ch helpu gyda'ch achos?

Jane Davidson: Bydd nifer o'r materion hynny'n gliriach imi ar ôl imi gael fy nghyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd.

Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy

C7 Brynle Williams: A wnaiff y Gweinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer cefnogi cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru? OAQ(3)1315(ESH)

Jane Davidson: Ar 15 Mawrth, lansiais 'Y Chwyldro Carbon Isel: Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru'. Mae'r mesurau ymarferol yn cynnwys ein rhaglen cronfeydd strwythurol Ewropeaidd, Ynni'r Fro, a'r gobaith yw y bydd hon yn cynhyrchu buddsoddiad o ryw £14 miliwn mewn

renewable energy generation projects.

Brynle Williams: Thank you for that answer, Minister. On-farm biodigesters offer a great opportunity for farms to cut down on greenhouse gas emissions, while generating clean electricity and organic fertiliser. However, a number of farm businesses looking into this technology have been discouraged by the lack of public awareness that they are, by their nature, sealed units and will not generate unpleasant odours, in addition to the difficulties in getting them connected to the grid, so that they can contribute to Wales' renewable energy targets and access feed-in tariffs. What steps are you taking to encourage the uptake of this technology and to overcome the practical difficulties in rolling it out across rural Wales?

Jane Davidson: When people are faced with new technologies, resistance is often the first order. Until we get more of the technologies on the ground, people will feel resistant to change. However, I hope that the work that we have done through tackling our waste issues, with our commitment to major anaerobic digestion projects across Wales, supported by all local authorities in dealing with food waste, will mean that anaerobic digestion becomes a normal part of a set of processes. I always encourage people to look to Europe, where AD plants coexist in the middle of and alongside communities and schools, providing heating for leisure centres and other buildings so that people can see opportunities from the new technology. Although I cannot comment on planning terms on individual applications, the Assembly Government remains supportive of the technology.

Leanne Wood: Earlier this year, you said that Wales could produce twice its energy needs within the next 15 years from a mixture of tidal, wind and biomass systems. With the looming threats of peak oil and climate change, I fully support sustainable energy and I am of the view that we should be setting the toughest targets possible in this area. However, I am concerned that we may

prosiectau cynhyrchu ynni ar raddfa gymunedol.

Brynle Williams: Diolch am yr ateb hwnnw, Weinidog. Mae biodreulwyr ar ffermydd yn gyfle gwyh i ffermydd leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, gan gynhyrchu trydan glân a gwrtaith organig ar yr un pryd. Fodd bynnag, mae nifer o fusnesau fferm sydd wedi ystyried y dechnoleg hon wedi digalonni gan ddiffyg ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r ffaith eu bod, wrth natur, yn unedau wedi'u selio ac na fyddent yn rhyddhau arogleuon annymunol, yn ogystal â'r anawsterau wrth eu cysylltu â'r grid, fel y gallant gyfrannu at dargedau Cymru ar ynni adnewyddadwy a manteisio ar dariffau cyflenwi trydan. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i annog pobl i ddefnyddio'r dechnoleg hon, ac i oresgyn yr anawsterau ymarferol o'i chyflwyno ar draws cefn gwlad Cymru?

Jane Davidson: Pan fydd pobl yn dod ar draws technolegau newydd, eu hymateb cyntaf yn aml fydd eu gwrthod. Nes cawn fwy o'r technolegau hyn ar lawr gwlad, bydd pobl yn amharod i newid. Fodd bynnag, gobeithio y bydd y gwaith yr ydym wedi'i wneud drwy fynd i'r afael â'n problemau gwastraff, gyda'n hymrwymiad i brosiectau treulio anaerobig mawr ledled Cymru a gefnogir gan bob awdurdod lleol o ran ymdrin â gwastraff bwyd, yn golygu bod treulio anaerobig yn dod yn rhan normal o set o brosesau. Byddaf bob amser yn annog pobl i edrych ar Ewrop, lle mae canolfannau treulio anaerobig yn bodoli ynghanol cymunedau ac ysgolion ac ar y cyd â hwy, i wresogi canolfannau hamdden ac adeiladau eraill, er mwyn i bobl allu gweld y cyfleoedd a gynigir gan y dechnoleg newydd. Er na allaf wneud sylw ar delerau cynllunio ceisiadau unigol, mae Llywodraeth y Cynulliad yn dal i gefnogi'r dechnoleg.

Leanne Wood: Yn gynharach eleni, dywedasoeh y gallai Cymru gynhyrchu dwywaith cymaint â'i hanghenion ynni o fewn y 15 mlynedd nesaf, o gymysgedd o systemau'n ymwneud â'r llanw, gwynt a biomàs. O gofio'r bygythiadau sydd ar ddod o'r newid yn yr hinsawdd a chyflenwadau olew rhad yn dechrau prinhaus, yr wyf yn cefnogi ynni adnewyddadwy'n llwyr ac yn

not be doing enough to stimulate and encourage renewable energy generation. We have heard about the barriers, for example, that exist in the planning system. Are we on course to meet our immediate renewable energy targets and those ambitious longer-term targets that you outlined earlier this year?

Jane Davidson: I gave some of the figures in my answer to Angela, but to restate that, the target by the end of 2010 was 4 TWh per year of electricity from renewable sources. We are currently at 3 TWh at this point in the year, but there is a further 5 TWh per year that is either consented or under construction, and I will continue to update Members as the information becomes available. There are a further 3 TWh in the planning process. So, even if we do not quite meet our target for this year, we will have immediately exceeded it, probably early next year, and we will dramatically exceed our 2020 target.

2.50 p.m.

Mick Bates: I am grateful to hear those figures, Minister. I am also pleased to see the encouragement that you give to renewable energy development in Wales. However, when it comes to onshore windfarms at the moment, there are certain hold-ups in the planning system that I am sure that many of us are aware of. Aside from the transmission issues that will emerge as there is more construction, there is the issue of transport. As one of your priorities in renewable energy developments this year, will you ensure that the strategic group looks into the transport of wind turbine parts to sites and moves to make it a much simpler process so that those developers do not find their transport plans being rejected by local authorities, as happens on many occasions? They will then be able to come forward with strategic routes in the knowledge that there is a willingness to ensure that transport plans are accepted, and that will lead to the development of more

credu y dylem fod yn gosod y targedau llymaf posibl yn y maes hwn. Fodd bynnag, yr wyf yn gofidio nad ydym efallai'n gwneud digon i sbarduno ac annog gwaith cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Clywsom am y rhwystrau sy'n bodoli, er enghraifft, yn y system gynllunio. A ydym ar y trywydd iawn i gyrraedd ein targedau agosaf ar gyfer ynni adnewyddadwy a'r targedau uchelgeisiol ar gyfer y tymor hwy, a amlinellwyd gennych yn gynharach eleni?

Jane Davidson: Rhoddais rai o'r ffigurau yn fy ateb i Angela, ond i'w haildatgan, y targed erbyn diwedd 2010 oedd 4 TWh y flwyddyn o drydan o ffynonellau adnewyddadwy. Ar yr adeg hon o'r flwyddyn, yr ydym ar hyn o bryd yn cynhyrchu 3 TWh, ond mae'r cyfleusterau ar gyfer 5 TWh arall y flwyddyn naill ai wedi cael caniatâd neu wrthi'n cael eu hadeiladu, a byddaf yn parhau i roi'r manylion diweddaraf i'r Aelodau wrth i'r wybodaeth ddod ar gael. Mae 3 TWh arall yn mynd drwy'r broses gynllunio. Felly, hyd yn oed os na chyrraeddwn ein targed ar gyfer eleni yn llwyr, byddwn wedi rhagori arno'n syth, yn gynnar y flwyddyn nesaf, fwy na thebyg, a byddwn yn rhagori lawer iawn ar ein targed ar gyfer 2020.

Mick Bates: Yr wyf yn ddiolchgar o glywed y ffigurau hynny, Weinidog. Yr wyf hefyd yn falch gweld eich anogaeth i waith datblygu ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Fodd bynnag, yng nghyswllt ffermydd gwynt ar y tir ar hyn o bryd mae rhai rhwystrau yn y system gynllunio, ac yr wyf yn siŵr fod llawer ohonom yn ymwybodol ohonynt. Ar wahân i'r problemau trosglwyddo a fydd yn dod codi wrth i fwy o adeiladu ddigwydd, mae problem cludiant. Fel un o'ch blaenoriaethau ym maes datblygiadau ynni adnewyddadwy eleni, a wnewch chi sicrhau bod y grŵp strategol yn ymchwilio i'r modd y caiff cydrannau tyrbinau gwynt eu cludo i safleoedd, a'i fod yn ceisio gwneud y broses yn symlach o lawer, fel na fydd y datblygwyr hynny'n gweld eu cynlluniau cludiant yn cael eu gwrthod gan awdurdodau lleol, fel sy'n digwydd yn aml? Yna, bydd modd iddynt gynnig llwybrau strategol gan wybod bod awydd i sicrhau bod cynlluniau cludiant yn

windfarms, and therefore renewable energy, in Wales.

Jane Davidson: As I said to the developers when I went to speak to the RenewableUK conference and in meetings with umbrella organisations, it is important that transport issues are looked at early on in the planning application process, because we know that what makes up a turbine is very big and heavy and that we therefore need to be careful that the appropriate bodies that facilitate and regulate the use of highways—the police and county councils in Wales and England, the Highways Agency, and WAG itself as a trunk road authority—work together to enable wind turbine components to be brought to site safely. The Deputy First Minister and I have been working very closely on this, and I am confident that we will reach an early resolution within the timescales appropriate for windfarm developments.

Brian Gibbons: I am delighted to hear about the good progress being made in promoting renewable energy. I read with interest your statement on renewable energy and planning yesterday morning. However, in view of these two developments, do you think that it is time for a fresh look at the way that planning departments look at some renewable energy developments, and particularly the highly intensive development of windfarms in our Valleys communities, which, in many instances, are not welcomed by those communities? Surely the evidence of the progress that is being made and the fresh look at the planning system that you announced yesterday provide a window of opportunity for an open debate that addresses the needs of many very concerned citizens, and certainly those in my constituency?

Jane Davidson: We said explicitly in the statement that I published yesterday that we are not revisiting the strategic search areas. They are a relatively small area as acreage of Wales. They were chosen carefully by previous Ministers and officials back in 2005 in the context of representing the most effective delivery of the resource. It is critical

cael eu derbyn. Bydd hynny'n arwain at ddatblygu rhagor o ffermydd gwynt, a rhagor o ynni adnewyddadwy, felly, yng Nghymru.

Jane Davidson: Fel y dywedais wrth y datblygwyr pan euthum i siarad yng nghynhadledd RenewableUK ac mewn cyfarfodydd â chyrrff mantell, mae'n bwysig ystyried materion cludiant yn gynnar yn y broses o wneud cais cynllunio, oherwydd gwyddom fod cydrannau tyrbîn yn fawr ac yn drwm iawn, a'i bod yn rhaid inni ofalu, felly, fod y cyrrff priodol sy'n hwyluso ac yn rheoleiddio'r modd y caiff priffyrdd eu defnyddio—yr heddlu a chynghorau sir yng Nghymru a Lloegr, yr Asiantaeth Briffyrdd, a Llywodraeth y Cynulliad ei hun, fel awdurdod cefnffyrdd—yn cydweithio i sicrhau bod modd cludo cydrannau tyrbînau gwynt yn ddiogel i safle. Mae'r Dirprwy Brif Weinidog a minnau wedi bod yn cydweithio'n agos iawn ar y mater hwn, ac yr wyf yn hyderus y byddwn yn dod i benderfyniad yn fuan o fewn yr amserlenni priodol ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt.

Brian Gibbons: Yr wyf yn falch clywed am y cynnydd da a wneir i hyrwyddo ynni adnewyddadwy. Darllenais gyda diddordeb eich datganiad ar ynni adnewyddadwy a chynllunio bore ddoe. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r ddau ddatblygiad dan sylw, a ydych yn credu ei bod yn bryd edrych o'r newydd ar y modd y mae adrannau cynllunio'n ystyried rhai datblygiadau ynni adnewyddadwy, yn enwedig datblygu ffermydd gwynt dwys iawn yn ein cymunedau yn y Cymoedd nad yw'r cymunedau hynny'n dymuno'i weld, yn aml iawn? Onid yw'r dystiolaeth o'r cynnydd a wneir, a'r olwg newydd ar y system gynllunio a gyhoeddwyd gennych ddoe, yn gyfle i gael trafodaeth agored i roi sylw i anghenion nifer o ddinasyddion pryderus iawn, ac yn sicr y rheini yn fy etholaeth i?

Jane Davidson: Yn y datganiad a gyhoeddais ddoe, dywedaisom yn glir nad ydym yn ailystyried yr ardaloedd chwilio strategol. O ran erwau, rhan gymharol fach o Gymru ydynt. Cawsant eu dewis yn ofalus gan Weinidogion a swyddogion blaenorol yn ôl yn 2005, fel y dull mwyaf effeithiol o ddarparu'r adnodd. Yn yr agenda ynni

in the renewable energy agenda that we always look at the most effective delivery of the resource. These areas are outside the national parks and areas of outstanding natural beauty. However, we want to ensure that the full planning policy in relation to renewable energy in Wales is looked at in the context of the new opportunities that have come through in wave and tidal power, for example, and, with much smaller wind power developments, to ensure that there is nothing in either our policy or guidance that prevents people from utilising the technology appropriate to them. That is particularly important now that we have feed-in tariffs. Therefore, there is a real appetite for using appropriate technologies in different locations.

Poor Air Quality

Q8 Rosemary Butler: What is the Welsh Assembly Government doing to ensure that local authorities tackle poor air quality in accordance with their statutory duties? OAQ(3)1279(ESH)

Jane Davidson: My officials oversee local authorities' compliance with the local air quality management process. This requires regular reviews and assessments of air quality, the designation of local air quality management areas and the production of action plans. The Assembly Government has issued statutory guidance to aid local authorities in their duties.

Rosemary Butler: I am concerned about the unacceptable levels of traffic pollution in various parts of my constituency, particularly along the Malpas road, near the Harlequin roundabout, and Caerleon town centre. I am sure that you will agree that it is important for all those who handle local developments plans to recognise fully that further development will only increase traffic pollution. I understand that planning permission for the redevelopment of the Millennium Dome site in Greenwich was granted on the basis that a low emission zone was established. I am told that that whole exercise has been very successful. Has the

adnewyddadwy, mae'n hollbwysig inni edrych bob amser ar y dull mwyaf effeithiol o ddarparu'r adnodd. Mae'r ardaloedd hyn y tu allan i'r parciau cenedlaethol ac ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol. Fodd bynnag, yr ydym am sicrhau y caiff y polisi cynllunio llawn o ran ynni adnewyddadwy yng Nghymru ei ystyried yng nghyd-destun y cyfleoedd newydd sydd wedi ymddangos o ran ynni'r tonnau a'r llanw, er enghraifft, a sicrhau, yn achos datblygiadau ynni gwynt tipyn llai, nad oes dim yn ein polisi na'n canllawiau sy'n atal pobl rhag defnyddio'r dechnoleg sy'n briodol iddynt hwy. Mae hynny'n arbennig o bwysig gan fod gennym dariffau cyflenwi trydan yn awr. Felly, mae yna awydd gwirioneddol i ddefnyddio technolegau priodol mewn gwahanol leoliadau.

Ansawdd Aer Gwael

C8 Rosemary Butler: Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod awdurdodau lleol yn mynd i'r afael ag ansawdd aer gwael yn unol â'u dyletswyddau statudol? OAQ(3)1279(ESH)

Jane Davidson: Mae fy swyddogion yn goruchwylio'r modd y mae awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'r broses ar gyfer rheoli ansawdd aer lleol. Mae'r broses yn golygu ei bod yn ofynnol cynnal adolygiadau ac asesiadau rheolaidd o ansawdd aer, dynodi ardaloedd rheoli ansawdd aer lleol, a chynhyrchu cynlluniau gweithredu. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi canllawiau statudol i gynorthwyo awdurdodau lleol yn eu dyletswyddau.

Rosemary Butler: Yr wyf yn gofidio am lefelau annerbyniol y llygredd traffig mewn amrywiol rannau o'm hetholaeth, yn enwedig ar hyd ffordd Malpas, wrth ymyl cylchfan Harlequin, ac yng nghanol tref Caerllion. Yr wyf yn siŵr y cytunwch ei bod yn bwysig i bawb sy'n ymdrin â chynlluniau datblygu lleol sylweddoli'n llawn na fydd gwaith datblygu pellach ond yn cynyddu llygredd traffig. Deallaf fod caniatâd cynllunio ar gyfer ailddatblygu safle Dôm y Mileniwm yn Greenwich wedi ei roi ar y sail y byddai parth allyriadau isel yn cael ei greu. Caf ar ddeall fod y prosiect cyfan wedi bod yn llwyddiannus iawn. A yw Llywodraeth y

Welsh Assembly Government considered setting up low emission zones in the areas where pollution is above target levels? If not, I would be happy to see parts of my constituency being used as a pilot project.

Jane Davidson: Newport has designated seven air quality management areas, all for nitrogen dioxide pollution related to traffic. Each of those areas has an action plan to improve the air quality. I have published guidance to local authorities on the development and implementation of low emission zones, and our air quality website page also includes a link to low emission zones in Europe. It is an EU website providing a single source of information on low emission zones across Europe, including all the existing low emission zones. Therefore, substantial advice is available to Welsh local authorities if they wish to consider taking this measure forward. You may wish to have further conversations with your local authority.

Cynulliad wedi ystyried sefydlu parthau allyriadau isel yn yr ardaloedd lle mae llygredd uwchlaw lefelau targed? Os nad ydyw, byddwn yn fodlon gweld rhannau o'm hetholaeth i'n cael eu defnyddio fel prosiect peilot.

Jane Davidson: Mae Casnewydd wedi dynodi saith ardal rheoli ansawdd aer, ac mae a wnelo pob un ohonynt â llygredd nitrogen deuocsid yn ymwneud â thraffig. Mae gan bob un o'r ardaloedd hynny gynllun gweithredu i wella ansawdd yr aer. Yr wyf wedi cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ar ddatblygu a gweithredu parthau allyriadau isel, ac mae ein tudalen ar ansawdd aer ar y wefan hefyd yn cynnwys dolen gyswllt â pharthau allyriadau isel yn Ewrop. Gwefan gan yr Undeb Ewropeaidd ydyw sy'n cynnig un ffynhonnell gwybodaeth am barthau allyriadau isel ar draws Ewrop, gan gynnwys yr holl barthau allyriadau isel sydd eisoes yn bodoli. Felly, mae llawer iawn o gyngor ar gael i awdurdodau lleol Cymru os ydynt am ystyried symud y mesur hwn yn ei flaen. Efallai yr hoffech siarad ymhellach â'ch awdurdod lleol.

Ethol Ymddiriedolwyr i Gynllun Pensiwn yr Aelodau Election of Trustees of the Members' Pension Scheme

William Graham: I move that

the National Assembly for Wales, acting under Standing Order No. 1.10, elects Gareth Jones AM and John Griffiths AM as trustees of the National Assembly for Wales Members' pension scheme in place of Mohammad Asghar AM and Carwyn Jones AM. (NDM4489)

Y Llywydd: Y cwestiwn yw ein bod yn cytuno â'r cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Felly, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35, yr wyf yn datgan bod y cynnig wedi'i dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

William Graham: Cynigiaf fod

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, wrth weithredu o dan Reol Sefydlog Rhif 1.10, yn ethol Gareth Jones AC a John Griffiths AC yn ymddiriedolwyr i gynllun pensiwn Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn lle Mohammad Asghar AC a Carwyn Jones AC. (NDM4489)

The Presiding Officer: The question is that the motion be agreed. Are there any objections? I see that there are none. Therefore, in accordance with Standing Order No. 7.35, I declare the motion agreed.

Ymchwiliad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i Ddyfodol Ucheldiroedd yng Nghymru
The Rural Development Sub Committee's Inquiry into the Future of the Uplands

Rhodri Glyn Thomas: Cynigiaf fod

Rhodri Glyn Thomas: I move that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

the National Assembly for Wales

yn nodi adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig ar ei ymchwiliad i ddyfodol yr ucheldiroedd a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Ebrill 2010. (NDM4491)

notes the report of the Rural Development Sub-committee on its inquiry into the future of the uplands laid in the Table Office on 1 April 2010. (NDM4491)

Yr wyf yn falch o gael y cyfle i arwain y ddadl hon heddiw ar ddyfodol yr ucheldiroedd yng Nghymru. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr i ysgrifenyddiaeth yr is-bwyllgor ac i wasanaeth ymchwil yr Aelodau am eu gwaith yn sicrhau bod gennym y gefnogaeth angenrheidiol er mwyn ymwneud ag ymchwiliad eithaf cynhwysfawr, o ystyried bod 80 y cant o arwynebedd Cymru yn cael ei ddiffinio fel yr ucheldiroedd. Bron y gallem ddweud ein bod yn cynnal ymchwiliad i Gymru gyfan.

I am grateful for the opportunity to lead this debate today on the future of the uplands in Wales. I take this opportunity to thank the sub-committee secretariat and the Members' research service for their work in ensuring that we had the necessary support to conduct what was quite a comprehensive inquiry, given that 80 per cent of the surface area of Wales is defined as upland. You could almost say that we were conducting an inquiry into the whole of Wales.

Un o amcanion yr is-bwyllgor wrth ddechrau'r ymchwiliad oedd canfod ffyrdd o ddatblygu'r ucheldiroedd yn y dyfodol er mwyn eu lles economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol. Yr oeddem hefyd am edrych ar y cyfraniad y gallant ei wneud i Gymru gyfan.

One of the aims of the sub-committee in initiating the inquiry was to find ways of developing the uplands in future for their economic, environmental and social benefit. We also wanted to look at the contribution that they could make to Wales as a whole.

Credaf mai canfyddiad mawr adroddiad yr ymchwiliad oedd bod gan yr ucheldiroedd ran ganolog i'w chwarae wrth fynd i'r afael â llawer o'r heriau mawr y mae ein cymdeithas yn eu hwynebu ar hyn o bryd, gan gynnwys diogelwch bwyd, lleihau carbon, y newid yn yr hinsawdd, diogelu bioamrywiaeth a diogelu yn erbyn llifogydd. Drwy gynllunio priodol ar gyfer defnydd gwahanol o dir, a datblygu dulliau newydd arloesol o weithredu, gellid gwneud yr ucheldiroedd yn ffynhonnell werthfawr sy'n cyfrannu at ansawdd bywyd holl bobl Cymru. Gellid crynhoi gweledigaeth ein adroddiad felly mewn un frawddeg: mae angen, ac yn wir mae'n bosibl, newid delwedd draddodiadol yr ucheldiroedd fel rhwystr daearyddol sydd yn rhannu Cymru ac, yn hytrach, eu hystyried fel cronfa enfawr o adnoddau y gallwn

I believe the major finding of the inquiry was that the uplands have a central role to play in getting to grips with many of the major challenges facing our society at present, including food security, carbon reduction, climate change, safeguarding biodiversity and flood prevention. Through appropriate planning for alternative land use and developing new and innovative ways of working, the uplands can be made into a valuable resource that contributes to the quality of life of all the people of Wales. The vision of our report can be summarised in one sentence: there is a need, and it is possible, to change the traditional image of the uplands as a geographical barrier dividing Wales and, instead, to see it as a large collection of resources of which we can take full advantage and on which all of us can depend

fanteisio arni, ac yn un y gall pawb ohonom ddibynnu'n llwyr arni am ddŵr, aer ac ynni glân a llawer mwy.

entirely for clean water, air and energy and much more.

Pan gyhoeddwyd yr adroddiad ddechrau mis Ebrill eleni, cafwyd sylw mawr yn y cyfryngau i gasgliadau'r is-bwyllgor ac i'r weledigaeth ar gyfer yr ucheldiroedd. Mae hynny'n adlewyrchu'r ffaith bod yr adroddiad yn cynnwys gweledigaeth glir ac uchelgeisiol a bod yr atebion a gynigiwyd yn ymddangos yn ymarferol ac yn bosibl.

When the report was published at the beginning of April this year, there was much media coverage for its conclusions and for the vision for the uplands. That reflects the fact that the report includes a clear and ambitious vision and that the solutions proposed seem to be practical and feasible.

3.00 p.m.

Yr wyf yn falch o ddweud hefyd bod yr adroddiad wedi cyflawni rhywbeth yr oeddwn wedi dod i gredu a oedd yn amhosibl, sef derbyn croeso cynnes iawn gan yr undebau amaethyddol a chyrrff a mudiadau amgylcheddol fel ei gilydd. Pan fydd undebau amaethyddol a'r cyrrff amgylcheddol yn canu'r un emyn, mae'n rhaid bod y dôn honno yn arbennig o dda.

I am also pleased to say that the report has achieved something which I had come to believe was impossible, that is, to be very warmly welcomed by the agricultural unions and environmental organisations and bodies alike. When agricultural unions and environmental organisations are singing the same hymn, the tune must be a particularly good one.

Ar ôl ystyried y dystiolaeth a ddaeth i law, gwnaeth yr is-bwyllgor 23 argymhelliad a fyddai, yn ein barn ni, yn cyfrannu at sicrhau dyfodol llewyrchus i'r ucheldiroedd. O'r rhain, mae'r Gweinidog wedi derbyn 11 yn eu cyfanrwydd, wedi derbyn wyth yn rhannol neu mewn egwyddor yn unig, ac wedi gwrthod chwech yn llwyr.

Having considered the evidence received, the sub-committee made 23 recommendations which, in our view, would contribute to ensuring a prosperous future for the uplands. Of these, the Minister has accepted 11 in full, eight partially or in principle only, and six were rejected completely.

Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei hymateb i'r adroddiad a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Yr wyf yn falch iawn o weld bod y Llywodraeth wedi derbyn yn llwyr ein hargymhellion ar ddyfodol yr ardaloedd llai ffafriol, sydd ar hyn o bryd yn y fantol wrth i'r ffiniau gael eu hadolygu gan y Comisiwn Ewropeaidd. Yr wyf yn falch hefyd fod y Llywodraeth yn derbyn ein hargymhelliad bod angen i'r polisi amaethyddol cyffredin newydd ar ôl 2013 gynnwys darpariaeth arbennig ar gyfer cefnogi ffermio yn yr ucheldiroedd. Nid wyf am fynd ar ôl y pwynt hwn ymhellach heddiw, gan y daw cyfle eto pan fydd yr is-bwyllgor yn cyhoeddi ei adroddiad ar ddyfodol y polisi amaethyddol cyffredin yn yr wythnosau nesaf.

I am grateful to the Minister for her response to the report published last week. I am very pleased to see that the Government has fully accepted our recommendations on the future of the less-favoured areas, which are currently at risk as the boundaries are reviewed by the European Commission. I am also pleased that the Government accepts our recommendation that the new common agricultural policy post 2013 should include special provision to support farming in the uplands. I will not pursue this point further today, since there will be the opportunity again when the sub-committee publishes its report on the future of the common agricultural policy in the coming weeks.

Er fy mod yn croesawu ymateb cadarnhaol y Llywodraeth i nifer o'n hargymhellion, yr

While I welcome the Government's positive response to many of our recommendations, I

wyf hefyd yn siomedig bod cymaint yn yr adroddiad y mae'r Llywodraeth yn ei wrthod neu yn ei dderbyn yn rhannol yn unig, yn enwedig felly o ystyried bod yr adroddiad yn ei gyfanrwydd wedi derbyn y fath groeso ar draws y sbectrum cyfan o randdeiliaid. Yr wyf yn gobeithio y gwnaiff y Gweinidog faddau i mi, felly, am ganolbwyntio yn bennaf y prynhawn yma ar y pwyntiau hynny sydd wedi cael eu gwrthod gan y Llywodraeth, neu nad ydynt wedi eu derbyn yn llawn. Gwnaf hynny yn y gobaith y gall daflu goleuni pellach ar gynlluniau'r Llywodraeth yn y meysydd hynny.

Yn gyntaf, mewn perthynas ag argymhelliad 4, hoffwn ofyn am fwy o fanylion ynghylch bwriad y Gweinidog i ystyried mabwysiadu'r dull gwerth y farchnad ar gyfer penderfynol lefel taliadau i ffermwyr ar gyfer gweithgarwch amgylcheddol. Yr wyf yn gwerthfawrogi bod hwn yn fater cymhleth, ac yr wyf yn falch bod y Gweinidog yn fodlon edrych ar ddulliau amgen i'r fformiwla a ddefnyddiwyd hyd yma, sy'n seiliedig ar y costau a achosir a'r incwm a gollir. Pa waith sydd eisoes wedi ei wneud o ran ystyried y posibiladau hyn? A ydych yn hyderus y gellir gwneud yr holl waith angenrheidiol cyn i'r cynllun datblygu gwledig ddod i rym yn 2014?

O ran argymhelliad 7, mae'r Llywodraeth yn derbyn argymhelliad yr is-bwyllgor y dylid gwneud ymchwil i reoli carbon drwy ddefnydd tir yn flaenoriaeth, ac yr wyf yn croesawu hynny. Yr oedd pwysigrwydd defnyddio tir i storio carbon yn codi dro ar ôl tro yn y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad. Nid wyf yn teimlo, fodd bynnag, fod ymateb y Gweinidog yn egluro'n ddigonol sut y mae'n bwriadu mynd ati i wneud hyn. Ar un llaw, mae'r Gweinidog yn pwysleisio nad yw arfer da mewn gwledydd eraill bob amser yn bosibl ei drosglwyddo, ond ar y llaw arall mae'n ymddangos mai ychydig iawn o adnoddau mae'r Llywodraeth yn eu neilltuo ar gyfer ymchwil yng Nghymru. Byddwn yn falch pe gallech ddweud wrthym sut yr ydych yn bwriadu sicrhau bod Cymru ar flaen y gad o ran defnyddio'r technegau a'r wybodaeth ddiweddaraf i storio carbon yn y tir.

Mae argymhelliad 8 yn ymwneud â'r niwed

am also disappointed that so much in the report has been rejected or only partially accepted, especially given that the report, as a whole, received such a warm welcome across the whole spectrum of stakeholders. I hope the Minister will forgive me, therefore, for concentrating mainly this afternoon on the points that have been rejected by the Government or not accepted in full. I do so in the hope that she can throw further light on the Government's plans in those areas.

First, in relation to recommendation 4, I would ask for more details about the Minister's intention to consider adopting the market value method for determining the level of payments to farmers for environmental activity. I appreciate that this is a complex issue, and I am pleased that the Minister is willing to look at alternative approaches to the formula used to date, based on costs incurred and income lost. What work has already been done in considering these possibilities? Are you confident that all the work necessary can be done before the rural development plan is introduced in 2014?

With regard to recommendation 7, the Government accepts the sub-committee's recommendation that research into carbon management through land use should be a priority, and I welcome that. The importance of using land to store carbon arose repeatedly in the evidence presented to the inquiry. I do not feel, however, that the Minister's response adequately explains how she intends to go about doing this. On one hand, the Minister stresses that good practice in other countries is not always easily transferable, but on the other hand it seems that the Government has allocated very few resources for research in Wales. I should be grateful if you could tell us how you intend to keep Wales at the forefront in using the latest techniques and information on land carbon storage.

Recommendation 8 refers to the harm caused

sydd wedi ei achosi o ganlyniad i blannu coed ar fawn dwfn. Yn sicr, mae'n beth da nad oes unrhyw blannu newydd o'r fath wedi digwydd ers yr 1980au, ond mae'r cwestiwn yn parhau ynghylch beth i'w wneud gyda'r coed sydd eisoes yno. Mae ymateb y Llywodraeth yn cyfeirio at drafodaethau gyda Chomisiwn Coedwigaeth Cymru ynghylch sut i adfer y 12,000 ha o dir mawn sydd wedi ei orchuddio â choed pîn. Mae hwn yn gam cadarnhaol iawn ac mae i'w groesawu. Eto, fodd bynnag, hoffwn gael gwybod mwy am hynt y trafodaethau hyn, a phryd y gallwn ddisgwyl gweld gweithredu i adfer y tir mawn hwn, sydd mor hanfodol o ran storio carbon a dŵr yn yr ucheldiroedd.

Mae'n ddrwg gennyf ddweud fod ymateb y Llywodraeth i argymhellion 9 a 10, yn ymwneud â lleoli tyrbinau gwynt ar fawn, yn fy nrysu ac yn fy siomi ar yr un pryd. Mae'n ddrislyd am fod yr ymateb i argymhelliad 9 yn dweud mai'r asesiadau o effaith amgylcheddol gan ddatblygwyr yw'r ffordd orau o ddelio gyda'r mater hwn, ond wedyn mae'r ymateb i argymhelliad 10 yn dweud y bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi canllawiau newydd i awdurdodau lleol ar ddatblygiadau ynni adnewyddadwy, ac y byddant yn tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried yr effaith ar dir mawn. Byddai'n dda o beth pe gallai'r Gweinidog daflu goleuni ar ystyr y ddau ddatganiad hyn sy'n ymddangos yn wrthgyferbyniol.

Tra fy mod yn derbyn bod yr asesiadau o effaith amgylcheddol y mae'n rhaid i ddatblygwyr eu darparu yn bwysig ar y lefel prosiect wrth fesur yr effaith ar fawn, oni ddylai rhywun gymryd gorolwg dros effaith cronol yr holl ddatblygiadau hyn? Gallai nifer o ddatblygiadau gael effaith cymharol fach ynddynt eu hunain, ond o'u cyfrif gyda'i gilydd, gallent gyfrannu at ddisodli cyfeintiau mawr iawn o fawn. Ar hyn o bryd, mae'n ymddangos nad oes neb yn casglu'r wybodaeth hon nac yn cadw golwg ar gyfanswm effaith y datblygiadau hyn ar fawn drwy Gymru gyfan. Byddwn yn annog Llywodraeth Cymru yn gryf i fynd i'r afael â hyn.

Ymhellach, yr wyf yn synnu ac wedi fy siomi o weld fod y Llywodraeth yn ei hymateb yn datgan na fydd yn ystyried yr effaith ar dir

by tree planting on deep peat. Certainly, it is good that no such new planting has occurred since the 1980s, but the question remains about what to do with the trees already there. The Government response refers to discussions with Forestry Commission Wales on how to restore the 12,000 ha of peat land that is covered with conifers. This is a very positive step and it is to be welcomed. Again, however, I want to know more about these discussions, and when we can expect action to restore this peat land, which is so vital for water and carbon storage in the uplands.

I am sorry to say that the Government response to recommendations 9 and 10, relating to the siting of wind turbines on peat, both confuse and disappoint me. It is confusing because the response to recommendation 9 states that environmental impact assessments by developers are the best way of dealing with this issue. But then the response to recommendation 10 says that the Government is publishing new guidance for local authorities on renewable energy development, which will highlight the importance of considering the impact on peat land. It would be helpful if the Minister could shed light on the meaning of these two statements, which seem to be contradictory.

While I accept that the environmental impact assessments which developers must provide on project level are important in measuring the impact on peat, should someone not be taking an overview of the cumulative effect of all these developments? A number of developments, all of which have relatively little impact in themselves, taken together could contribute to displacing large quantities of peat. Currently, it seems that no one is collecting this information or keeping track of the cumulative impact of these developments on peat throughout Wales. I would strongly urge the Government of Wales to get to grips with this.

Further, I am surprised and disappointed to see that the Government, in its response, states that it will not consider the impact on

mawn wrth ddiweddarau ei pholisi cynllunio ar ynni adnewyddadwy—nodyn cyngor technegol 8. Clywsom dystiolaeth fod rhai o'r ardaloedd chwilio strategol presennol yn cynnwys ardaloedd helaeth o fawn, a siawns felly nad oes angen edrych ar hynny wrth adolygu TAN 8. Ymhellach, yr wyf yn sylwi fod y datganiad polisi cenedlaethol ar ynni adnewyddadwy a gyhoeddwyd gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn Llundain yn dweud fod yr effaith ar fawn yn rhywbeth y dylai'r Comisiwn Cynllunio Seilwaith—y bwriad oedd sefydlu'r corff hwnnw—ei gymryd i ystyriaeth wrth ddod i benderfyniadau. Wrth gwrs, y yr IPC neu ei olynnydd fydd yn gyfrifol am benderfynu ar ddatblygiadau dros 50 MW yng Nghymru. Os yw am ystyried yr effaith ar fawn wrth wneud penderfyniadau, onid yw'n gwneud synnwyr i'r adolygiad o TAN 8 wneud hynny hefyd?

Croesawaf ymateb cadarnhaol y Llywodraeth, mewn egwyddor, i argymhelliaid 13 a gobeithiaf yn fawr y bydd y Llywodraeth yn penderfynu defnyddio'r datganiad o egwyddorion uwch-gynllunio amgylcheddol yn y polisi cynllunio diwygiedig ar gyfer ynni adnewyddadwy. Yr oedd llwyddiant y polisi hwn yng nghoedwig Clocaenog yn enghraifft glodwiw iawn o'r cydweithio a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad ac ni allaf weld unrhyw reswm pan na allai Llywodraeth Cymru ei wneud yn amod o bob datblygiad ynni cynaliadwy.

Nid af i drafod yr argymhellion yn ymwneud â Glastir ar hyn o bryd, oherwydd bod amser yn pwyso. Bydd cyfle i edrych arnynt eto ac yr ydym eisoes wedi codi'r materion hynny gyda'r Gweinidog.

Cyfeiriaf yn gyflym at yr angen i weithredu Deddf Tiroedd Comin 2006. Yr oedd gweithredu hwnnw'n llawn yn derbyn cefnogaeth unfrydol yn ôl y dystiolaeth a dderbyniodd yr is-bwyllgor. Mae'r Gweinidog yn sôn am sefydlu cymdeithasau tir comin yn hytrach na'r cynghorau comin a nodir o dan Ddeddf 2006. A fydd modd i leiafrif deiliaid tir comin atal gweddill y deiliaid rhag symud ymlaen â chynllun? Hynny yw, a oes modd gwneud penderfyniad ar fwyafrif yn hytrach na phenderfyniad unfrydol i symud ymlaen ac i geisio ymaelodi

peat land in updating its planning policy on renewable energy—technical advice note 8. We heard evidence that some of the current strategic search areas include large peat reserves, which surely need to be considered when reviewing TAN 8. In addition, I notice that the national policy statement on renewable energy published by the Department of Energy and Climate Change in London says that the impact on peat is something which the Infrastructure Planning Commission—the intention was to establish that body—should take into account in reaching decisions. Of course, it is the IPC or its successor that will be responsible for making decisions on developments over 50 MW in Wales. If it wants to consider the impact on peat reserves in its decisions, surely it makes sense for the review of TAN 8 also to do so?

I welcome the Government's positive response, in principle, to recommendation 13 and I hope the Government will decide to use the statement of environmental masterplanning principles in the revised planning policy for renewable energy. The success of this policy in Cloncaenog forest is a praiseworthy example of the collaboration that became apparent during the inquiry, and I can see no reason why the Welsh Government could not make it a condition of every sustainable energy development.

I will not discuss the recommendations relating to Glastir at this stage, because time is against us. There will be an opportunity to look at those at a later date, and we have already raised those issues with the Minister.

I refer quickly to the need to implement the 2006 Commons Act. Its full implementation received unanimous support according to the evidence which the sub-committee received. The Minister talks of establishing commons associations rather than commons councils, which are referred to in the 2006 Act. Will it be possible for a minority of the holders of common land to prevent the others from moving on with a scheme? That is, can a decision be made on a majority basis, rather than a unanimous basis, to move on and to try to join Glastir?

â Glastir?

3.10 p.m.

Yn olaf, Weinidog, nodaf â siom eich bod wedi gwrthod argymhelliad 23, y dylid ceisio sefydlu mentrau tebyg i Fenter Mynyddoedd Cambria mewn mannau eraill yn yr ucheldiroedd. Nid ceisio creu mentrau o'r fath ym mhob rhan o'r ucheldiroedd oedd y bwriad, ond mewn mannau penodol i fanteisio ar y llwyddiant a welwyd ym mynyddoedd Cambria.

Yr wyf yn siŵr bod aelodau eraill o'r is-bwyllgor am gyfrannu at y drafodaeth hon, a diolchaf iddynt hwythau am eu cyfraniad i'r ymchwiliad.

Brynle Williams: I add my thanks to those of the Chair and others who had been involved in this inquiry, and I thank everyone who came forward to give evidence to the sub-committee. This report is thorough and wide-ranging. It rightly stresses how important the uplands are. As Rhodri has mentioned, some 80 per cent of Wales is classed as uplands. The report recognises that achieving the best outcomes for the environment and the rural economy depends on making the right decisions in the uplands.

One of the most important points that I would like to highlight in this report is the recognition of the role that food production plays and the steps that need to be taken to ensure that it has a sustainable future in the uplands. This, after all, is where the vast majority of Welsh livestock are kept, and it is where most lowland livestock were originally reared. Historically, it is food production that has maintained the Welsh landscape that now attracts millions of tourists. It is food production in the uplands that supports over 40,000 jobs. If the uplands' viability is not maintained, we will see land being abandoned. I know that it seems rather a stark statement to make, but it could happen. Regrettably, we could see the end of some of our rural communities. So, there is real concern about the impact that any changes in the EU's review of the boundaries of the LFA would have on top of the wider changes that will be made to the common agricultural

Finally, Minister, I note with disappointment that you have rejected recommendation 23, that initiatives such as the Cambrian Mountain Initiative should be put in place in other parts of the uplands. The intention was not to create such initiatives in all parts of the uplands, but in certain areas in order to benefit from the success seen in the Cambrian mountains.

I am sure that other members of the sub-committee wish to contribute to this debate, and I thank them for their contribution to the inquiry.

Brynle Williams: Hoffwn innau ategu diolch y Cadeirydd a phobl eraill a fu ynghlwm â'r ymchwiliad hwn, a diolchaf i bawb a gyflwynodd dystiolaeth i'r is-bwyllgor. Mae'r adroddiad hwn yn fanwl ac yn eang. Mae'n pwysleisio mor bwysig yw'r ucheldiroedd, ac mae'n iawn i wneud hynny. Fel y mae Rhodri wedi sôn, caiff oddeutu 80 y cant o dir Gymru ei ystyried yn ucheldir. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer yr amgylchedd a'r economi wledig yn dibynnu ar wneud y penderfyniadau cywir yn yr ucheldiroedd.

Un o'r pwyntiau pwysicaf yr hoffwn dynnu sylw atynt yn yr adroddiad hwn yw cydnabyddiaeth o rôl cynhyrchu bwyd, a'r camau y mae angen eu cymryd i sicrhau bod i'r diwydiant cynhyrchu bwyd ddyfodol cynaliadwy yn yr ucheldiroedd. Wedi'r cyfan, yno y mae mwyafrif helaeth y da byw yng Nghymru yn cael eu cadw, ac yno y cafodd y rhan fwyaf o'r da byw sydd ar yr iseldiroedd eu magu'n wreiddiol. Yn hanesyddol, cynhyrchu bwyd sydd wedi cynnal a chadw tirwedd Cymru, sydd erbyn hyn yn denu miliynau o dwristiaid. Gwaith cynhyrchu bwyd yn yr ucheldiroedd sy'n cynnal dros 40,000 o swyddi. Os na chynhelir hyfywedd yr ucheldiroedd, byddwn yn gweld pobl yn gadael y tir. Gwn fod hynny'n ymddangos yn ddatganiad eithaf syfrdanol, ond gallai ddigwydd. Yn anffodus, gallem weld rhai o'n cymunedau gwledig yn diflannu. Felly, mae pryder gwirioneddol am yr effaith y byddai unrhyw newidiadau yn

policy. Therefore, I thank the Minister for accepting the report's recommendation on securing food production in the LFA by protecting current boundaries, and for her earlier decision to extend payments under Tir Mynydd for a further two years.

I also thank the Minister for supporting the report's recommendation to work with the insurance industry to look at how uplands can reduce the risk of flooding by encouraging the private sector to invest in works and practices that will reduce the number of homes flooded, with all the misery that that brings with it.

Finally, an area that concerns me is the decision to reject the presumption against using deep peat reserves as sites to develop windfarms. With the areas of deep peat containing a disproportionate amount of Wales's soil-captured carbon, covering just 3 per cent of Welsh land, it is surely reasonable to protect them from development in this way. I would question the Assembly Government's ability to be truly objective in this matter in light of the considerable revenue that would be generated from such developments on Forestry Commission estates.

Kirsty Williams: I thank the Chair and the sub-committee as a whole for their work on this report. It certainly is comprehensive and thorough, and it encompasses the many aspects of providing services and the life and contribution that vibrant uplands can bring to the whole of Wales. If you take the LFA definition for uplands, it would apply to most of my constituency of Brecon and Radnorshire. It is therefore gratifying to see a focus on that in the work of this sub-committee.

Like Brynle, I will focus on food production. Some 90 per cent of Wales's breeding ewes are farmed on Welsh uplands, and 80 per cent of the beef suckler herds are also found there.

adolygiad yr Undeb Ewropeaidd o ffiniau'r ardaloedd llai ffafriol yn ei chael ar ben y newidiadau ehangach yn y polisi amaethyddol cyffredin. Felly, hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am dderbyn yr argymhelliad yn yr adroddiad ar ddiogelu gwaith cynhyrchu bwyd yn yr ardaloedd llai ffafriol trwy ddiogelu'r ffiniau presennol, a diolchaf iddi am ei phenderfyniad yn gynharach i ymestyn taliadau dan Tir Mynydd am ddwy flynedd arall.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r Gweinidog am gefnogi'r argymhelliad yn yr adroddiad i weithio gyda'r diwydiant yswiriant i weld sut y gall yr ucheldiroedd leihau perygl llifogydd, drwy annog y sector preifat i fuddsoddi mewn gwaith ac arferion a fydd yn lleihau nifer y cartrefi sy'n dioddef llifogydd, a'r holl ofid a ddaw yn sgil hynny.

Yn olaf, un maes sy'n peri pryder imi yw'r penderfyniad i wrthod y rhagdybiaeth yn erbyn datblygu ffermydd gwynt ar gronfeydd o fawn dwfn. Er mai 3 y cant yn unig o dir Cymru sydd wedi'i orchuddio â mawn, mae'r ardaloedd o fawn dwfn yn cynnwys swm anghymesur o'r carbon sy'n cael ei storio mewn pridd yng Nghymru, ac felly siawns nad yw'n rhesymol diogelu'r ardaloedd hynny rhag datblygiadau o'r fath. Byddwn yn amau gallu Llywodraeth y Cynulliad i fod yn wirioneddol wrthrychol wrth ymdrin â'r mater hwn, o gofio'r refeniw sylweddol a fyddai'n cael ei gynhyrchu gan ddatblygiadau o'r fath ar ystadau'r Comisiwn Coedwigaeth.

Kirsty Williams: Hoffwn ddiolch i'r Cadeirydd a'r is-bwyllgor yn gyffredinol am eu gwaith ar yr adroddiad hwn. Yn sicr, mae'n adroddiad cynhwysfawr a manwl, ac mae'n cynnwys y gwahanol agweddau ar ddarparu gwasanaethau a'r bywiogrwydd a'r cyfraniad y gall ucheldiroedd egniol eu cynnig i Gymru gyfan. O gymryd diffiniad yr ardaloedd llai ffafriol o ucheldiroedd, byddai'n berthnasol i'r rhan fwyaf o'r tir yn fy etholaeth i, sef Brycheiniog a Sir Faesyfed. Felly, mae'n braf gweld bod y gwaith yr is-bwyllgor hwn yn canolbwyntio ar hynny.

Yr wyf fi, fel Brynle, am ganolbwyntio ar gynhyrchu bwyd. Caiff oddeutu 90 y cant o ddefaid magu Cymru eu ffermio ar ucheldiroedd Cymru, ac yno hefyd y mae 80

Much of that stock is sold as stores to farmers in the lowland areas, so it makes up a vital part of the food production chain in the Welsh agriculture industry. Without the recognition of the challenges of producing food and breeding stock in that area, we are fundamentally undermining the future of Welsh agriculture. Therefore, I welcome that the Minister acknowledges, in the Government's response to the report, the role that the uplands have in food production.

I note that the document looks at different ways in which the uplands can play their part in managing wider sustainability and environmental issues, but stock production in the uplands is vital, and it is not so easy to expect farmers in those particular areas to turn their hand to different types of agricultural production. That is what the uplands are best at doing: producing high quality livestock. I welcome the Government's commitment to supporting that in the future.

During questions to the Minister, I raised the issue of the review of the less favoured areas' boundaries. There is concern within the industry that the review currently being undertaken by the European Union could see the area of the LFA shrink in Wales, which would be extremely difficult for many farming businesses. As I said earlier, the removal of that status does not remove the challenges of farming the land in that particular area.

Brynle is right to say that the failure to support agriculture in the uplands could see depopulation and abandonment of that land, with dire consequences for people elsewhere in Wales. As we have seen, the uplands can be used as a way for Wales to achieve its sustainability goals on carbon capture and flood-risk management by having well maintained and managed upland areas. That opportunity will be lost if we cannot keep people on the land.

Turning to the issue of common land and the Commons Act 2006, this is being brought into sharp focus as people who may have

y cant o'r buchesau eidion sugno. Caiff llawer o'r anifeiliaid hynny eu gwerthu fel anifeiliaid stôr i ffermwyr yr iseldir, felly, mae'n rhan hanfodol o'r gadwyn cynhyrchu bwyd yn niwydiant amaethyddiaeth Cymru. Heb gydnabod heriau cynhyrchu bwyd a bridio stoc yn yr ardal honno, yr ydym yn tanseilio dyfodol amaethyddiaeth Cymru yn sylfaenol. Felly, croesawaf y ffaith fod y Gweinidog yn cydnabod, yn ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad, rôl yr ucheldiroedd wrth gynhyrchu bwyd.

Sylwaf fod y ddogfen yn ystyried y gwahanol ffyrdd y gall yr ucheldiroedd wneud eu rhan wrth reoli materion ehangach cynaliadwyedd a'r amgylchedd. Ond mae cynhyrchu stoc yn yr ucheldiroedd yn hanfodol, ac nid yw mor hawdd disgwyl i ffermwyr yn yr ardaloedd penodol hynny droi eu llaw at wahanol fathau o gynhyrchu amaethyddol. Dyna mae'r ucheldiroedd yn ei wneud orau: cynhyrchu da byw o safon. Croesawaf ymrwymiad y Llywodraeth i gefnogi hynny yn y dyfodol.

Yn ystod y cwestiynau i'r Gweinidog, codais fater adolygu ffiniau'r ardaloedd llai ffafriol. Mae pryder yn y diwydiant y gallai'r adolygiad gan yr Undeb Ewropeaidd ar hyn y bryd arwain at leihau arwynebedd yr ardaloedd llai ffafriol yng Nghymru, a fyddai'n gwneud y sefyllfa'n anodd iawn i nifer o fusnesau ffermio. Fel y dywedais yn gynharach, nid yw dileu'r statws hwnnw'n golygu dileu'r heriau o ffermio'r tir yn yr ardal benodol honno.

Mae Brynle yn iawn pan ddywed y gallai methu â chefnogi amaethyddiaeth yn yr ucheldiroedd arwain at ddiboblogi a phobl yn gadael y tir, a fyddai'n cael effeithiau enbyd ar bobl mewn rhannau eraill o Gymru. Fel yr ydym wedi gweld, gellir defnyddio'r ucheldiroedd fel modd i Gymru allu cyflawni ei hamcanion o ran cynaliadwyedd ar ddal carbon a rheoli perygl llifogydd trwy gael ardaloedd ucheldir sy'n cael eu cynnal a'u cadw a'u rheoli'n dda. Bydd y cyfle hwnnw'n cael ei gollu os na allwn gadw pobl ar y tir.

I droi at dir comin a Deddf Tiroedd Comin 2006, rhoddir sylw mawr i'r mater hwn wrth i bobl a fu'n weithgar yn pori tir comin yn y

been active in grazing commons in the past, but who are now less active, now see an opportunity via Glastir to be financially rewarded for the management of commons. This is being brought into sharp focus at the moment and we need a way of ensuring that those people who have been active managers of common land for many years have an ability to take advantage of the Glastir scheme, as well as recognising that there are people out there who have suddenly woken up to the idea that there may be some financial benefit in relooking at their interest in common land. This is causing some angst among commoners' associations at the moment. There is also an issue about the accuracy of registration of land as well, and people deciding whether or not they have rights. I welcome the determination that the Minister will look to include common lands within the Glastir scheme, which is the right thing to do. However, it highlights the need to bring legislation on commons to the forefront, if we are to move forward with the Glastir scheme as it is currently envisaged.

Andrew R.T. Davies: I welcome the opportunity to comment on this report. Although I am not a member of the sub-committee, I appreciate the work that it has undertaken in looking at the important role that uplands contribute to the rural economy and also the landscape and aspect of Wales as a country. A large part of my region is designated as being a less favoured area—everything north of the M4 is designated as such. It is important that we have vibrant economic activity in those areas, especially in the Valleys. This could be an excellent example of how environmental management via good agricultural practice can mitigate some of the industrial scars in many of those Valleys. The report highlights, via the extensive recommendations, the in-depth look that the sub-committee has taken at this subject. I appreciate that the Minister and her officials have taken an in-depth look at those recommendations. As the Chair mentioned in his opening remarks, it is slightly disappointing that so many of them have been rejected outright by the Minister and I am sure that when she sums up that she will give the reasons for that. As the Chair of the sub-committee identified when he opened the debate, many if not all those

gorffennol, ond sy'n llai gweithgar erbyn hyn, weld cyfle'n awr trwy Glastir i gael cydnabyddiaeth ariannol am reoli tir comin. Mae llawer o sylw'n cael ei roi i'r mater hwn ar hyn o bryd, ac mae arnom angen ffordd i sicrhau bod gan y bobl hynny a fu'n weithgar yn rheoli tir comin am flynyddoedd lawer y gallu i fanteisio ar gynllun Glastir, yn ogystal â chydabod bod rhai pobl newydd sylweddoli y gallent elwa'n ariannol o ailedrych ar eu diddordeb mewn tir comin. Mae hyn yn peri ychydig bryder ymysg cymdeithasau cominwyr ar hyn o bryd. Mae yna broblem hefyd o ran cywirdeb cofrestru tir, a phobl yn penderfynu a oes ganddynt hawliau ai peidio. Croesawaf y penderfyniad y bydd y Gweinidog yn ceisio cynnwys tiroedd comin yn y cynllun Glastir, a dyna'r peth iawn i'w wneud. Fodd bynnag, mae'n tynnu sylw at yr angen i roi sylw i ddeddfwriaeth ar diroedd comin, os ydym i symud ymlaen â'r cynllun Glastir fel y caiff ei ragweld ar hyn o bryd.

Andrew R.T. Davies: Croesawaf y cyfle i roi sylwadau ar yr adroddiad hwn. Er nad wyf yn aelod o'r is-bwyllgor, yr wyf yn gwerthfawrogi'r gwaith y mae wedi'i wneud wrth ystyried rôl bwysig yr ucheldiroedd o ran yr economi wledig a hefyd o ran tirwedd a golwg Cymru fel gwlad. Mae rhan helaeth o'm rhanbarth i wedi'i diffinio'n ardal lai ffafriol—mae popeth i'r gogledd o'r M4 wedi'i ddiffinio felly. Mae'n bwysig i'r ardaloedd hynny fod yn ferw o weithgarwch economaidd, yn enwedig yn y Cymoedd. Gallai hon fod yn enghraifft ardderchog o'r modd y gall gwaith rheoli amgylcheddol trwy arfer amaethyddol da leddfu rhai o'r creithiau diwydiannol mewn nifer o'r Cymoedd hynny. Mae'r adroddiad, trwy'r argymhellion helaeth, yn tynnu sylw at yr ystyriaeth fanwl y mae'r is-bwyllgor wedi'i rhoi i'r pwnc hwn. Gwerthfawrogaf y ffaith fod y Gweinidog a'i swyddogion wedi ystyried yr argymhellion hynny'n fanwl. Fel y soniodd y Cadeirydd yn ei sylwadau agoriadol, mae braidd yn siomedig fod y Gweinidog wedi gwrthod cynifer o'r argymhellion hynny yn llwyr, ac yr wyf yn siŵr y bydd yn rhoi rhesymau am hynny wrth grynhoi. Fel y soniodd Cadeirydd yr is-bwyllgor wrth agor y drafodaeth, yr oedd nifer o'r argymhellion

recommendations were based on evidence and were broadly welcomed by all stakeholders who have an interest in the establishment of a profitable and viable uplands area.

We stand at the dawn of an exciting time with the re-evaluation of the single farm payment and the re-evaluation of the environmental support that the Welsh Assembly Government, via European funding, is able to afford. This is a good time for the sub-committee to have brought forward this report so that it can inform what will be a big bang in 2013-14 regarding the support that the Assembly Government, via European funding, can afford to give to the uplands.

3.20 p.m.

One thing that comes out clearly in this report is the economic mix that upland communities need to have. I accept the position put forward by colleagues in the Chamber that livestock farming is an integral part of the economic environment of the uplands, but I happen to subscribe to the idea of ensuring that we have a broad mix of economic opportunities. As you drive through Wales or much of the less favoured area, you can see how much of that area—the Member for Brecon and Radnorshire touched on this—can produce good crops and other types of agricultural outputs, but it must also have good, solid market towns that offer an opportunity to subsidise income with alternative employment opportunities. That has historically been the nature of the uplands: in order for many family farms to be sustainable, the towns have provided a necessary employment base for the sons and daughters to come home to and have provided a supplementary income, away from the farm. I hope that the Minister, along with colleagues around the Chamber, will look at the whole economic picture of the uplands, because it is critical to have that balance.

The report also spends a lot of time looking at energy generation. This is a very valuable tool for agriculture to supplement much of its income, whether it is in the lowlands or the

hynny, os nad y cyfan, yn seiliedig ar dystiolaeth, ac fe'u croesawyd yn eang gan yr holl randdeiliaid sydd â diddordeb mewn sefydlu ucheldir proffidiol a hyfyw.

Mae cyfnod cyffrous ar ddod gydag ailasesu'r taliad sengl ac ailasesu'r cymorth amgylcheddol y gall Llywodraeth y Cynulliad ei roi, gan ddefnyddio cyllid Ewropeaidd. Mae hwn yn amser da i'r isbwyllgor fod wedi cyflwyno'r adroddiad hwn, fel y gall ddylanwadu ar yr hyn a fydd yn ddigwyddiad mawr yn 2013-14 o safbwynt y cymorth y gall Llywodraeth y Cynulliad, trwy gyllid Ewropeaidd, fforddio'i roi i'r ucheldiroedd.

Un peth sy'n glir yn yr adroddiad hwn yw'r amrywiaeth economaidd y mae angen i gymunedau yn yr ucheldiroedd ei gael. Derbyniaf y safbwynt a gyflwynwyd gan fy nghydweithwyr yn y Siambr, sef bod ffermio da byw yn rhan annatod o amgylchedd economaidd yr ucheldiroedd, ond yr wyf yn digwydd cyd-fynd â'r syniad o sicrhau bod gennym amrywiaeth eang o gyfleoedd economaidd. Wrth yrru trwy Gymru neu ran helaeth o'r ardal lai ffafriol—soniodd yr Aelod dros Frycheiniog a Sir Faesyfed am hyn yn fras—gallwch weld faint o'r ardal honno sy'n gallu cynhyrchu cnydau da a mathau eraill o gynnyrch amaethyddol. Ond rhaid i'r ardal hefyd gynnwys trefi marchnad da a chadarn sy'n cynnig cyfle i bobl ennill incwm ychwanegol trwy gyfleoedd gwaith eraill. Dyna natur yr ucheldiroedd yn hanesyddol: er mwyn i ffermydd teuluol fod yn gynaliadwy mae'r trefi wedi darparu'r canolfannau cyflogaeth angenrheidiol i feibion a merched ddod adref iddynt, ac maent wedi darparu incwm ychwanegol oddi ar y fferm. Gobeithio y bydd y Gweinidog, a'm cydweithwyr ar draws y Siambr, yn ystyried y darlun economaidd cyfan yn yr ucheldiroedd, oherwydd mae'n hanfodol cael y cydbwysedd hwnnw.

Mae'r adroddiad hefyd yn treulio llawer o amser yn edrych ar gynhyrchu ynni. Mae hwn yn adnodd gwerthfawr iawn er mwyn ychwanegu at incwm amaethyddiaeth yn yr

uplands. I touched on this in my question to the Minister in her half-hour session of answering questions. I hope that she, along with her officials, will engage positively via Farming Connect with farmers across Wales, particularly in the LFAs, because many options are open to them now via the tariffs that are available for energy generation and their natural environment. This is an opportunity that must be grasped.

The Chair touched on Glastir and the inability to explore those options in any great depth. Unfortunately, as my time is limited, I am also unable to go into any depth on Glastir, but I am sure that we will debate that a great deal, because we are at a crossroads regarding Glastir. I was at an estate in mid Wales the other day on a visit and it was highlighted that it is in Tir Gofal at the moment, but it is still some 25,000 points away from getting over the threshold to get the estate into the Glastir scheme. When you look at the environmental benefits of such operations and the way that that estate has tailored its operations over the last 10 years to Tir Gofal, it is rather dumbfounding to find such an operation struggling to carry on its good work via Glastir. I am sure that we will have many discussions on that.

Above all, I welcome the report as a basis for moving forward the economic argument for the uplands. We need a sustainable economic model. I hope that the Minister will go into some detail as to why she has rejected the various models put forward by the sub-committee and I hope that we can sign up to having a robust future for our uplands because of their economic impact. My colleague, Brynle Williams, touched on the 40,000 jobs that depend on the economic vibrancy of those areas.

In my closing comments, with a vested interest, I implore the Chair of the sub-committee to spend some time looking at Welsh lowlands, because if you want to look at areas that have had a massive downturn in their economic activity and output, you should look at the Welsh lowlands, which account for 20 per cent of our land base. I am

iseldiroedd neu'r ucheldiroedd. Soniais yn fras am hyn yn fy nghwestiwn i'r Gweinidog yn ei sesiwn hanner awr yn ateb cwestiynau. Gobeithio y bydd hi a'i swyddogion yn ymwneud â ffermwyr ar draws Cymru mewn modd cadarnhaol trwy Cyswllt Ffermio, yn enwedig â ffermwyr yn yr ardaloedd llai ffafrïol, oherwydd mae nifer o ddewisiadau ar gael iddynt yn awr trwy'r tariffau ar gyfer cynhyrchu ynni a'u hamgylchedd naturiol. Rhaid bachu ar y cyfle hwnnw.

Soniodd y Cadeirydd yn fras am Glastir a'r methiant i archwilio'r dewisiadau hynny'n fanwl iawn. Yn anffodus, gan nad oes gennyf lawer o amser, ni allaf fi ychwaith sôn yn fanwl am Glastir, ond yr wyf yn siŵr y byddwn yn ei drafod yn helaeth, oherwydd yr ydym ar groesffordd o safbwynt Glastir. Bûm ar ystâd yn y canolbarth y dydd o'r blaen, a thynnwyd fy sylw at y ffaith fod yr ystâd yn rhan o gynllun Tir Gofal ar hyn o bryd, ond yn dal oddeutu 25,000 o bwyntiau yn brin o groesi'r trothwy i fod yn rhan o gynllun Glastir. Pan ystyriwch fanteision amgylcheddol manau o'r fath, a'r modd y mae'r ystâd honno wedi addasu ei gwaith dros y 10 mlynedd diwethaf i gydymffurfio â Tir Gofal, mae'n eithaf syfrdanol gweld bod ystâd o'r fath yn ei cael anhawster i barhau ei gwaith da trwy'r cynllun Glastir. Yr wyf yn siŵr y cawn lawer o drafod ar hynny.

Yn anad dim, croesawaf yr adroddiad fel sail i symud y ddadl ar economi'r ucheldiroedd yn ei blaen. Mae arnom angen model economaidd cynaliadwy. Gobeithio y bydd y Gweinidog yn rhoi manylion pam y mae wedi gwrthod yr amrywiol fodolau a gyflwynwyd gan yr is-bwyllgor, a gobeithio y gallwn gefnogi cael dyfodol cadarn i'n hucheldiroedd, oherwydd eu heffaith economaidd. Soniodd fy nghydweithiwr, Brynle Williams, yn fras am y 40,000 o swyddi sy'n dibynnu ar ffyniant economaidd yr ardaloedd hynny.

Yn fy sylwadau olaf, ymbiliaf gyda budd personol ar Gadeirydd yr is-bwyllgor i dreulio ychydig amser yn edrych ar iseldiroedd Cymru, oherwydd os ydych am edrych ar ardaloedd sydd wedi dioddef dirywiad enfawr yn eu gweithgarwch a'u cynnyrch economaidd, dylech edrych ar iseldiroedd Cymru, sy'n 20 y cant o'n tir. Yr

sure that you would come forward with a substantial report on what could be offered, although I declare my interest in such a report.

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig (Elin Jones): Diolch i'r Cadeirydd ac aelodau eraill yr is-bwyllgor am yr adroddiad a'r argymhellion. Fel mae sawl Aelod wedi dweud, ac fel mae'r adroddiad ei hun yn ei ddweud, mae ucheldiroedd Cymru yn amgylchedd heriol a phwysig am bob math o resymau, gan gynnwys ffermio, cynhyrchu bwyd, coedwigaeth, hamdden, bywyd gwyllt a rheolaeth dŵr. Maent hefyd yn dod yn fwyfwy pwysig oherwydd materion sy'n ymwneud ag ynni a'r newid yn yr hinsawdd. Ar ben hyn oll, maent yn bwysig am resymau cymdeithasol a diwylliannol—mae llawer o'r ardal hon yn gadarnle i'r iaith Gymraeg. Mae eu ffiniau fwy neu lai yn cyfateb i'r ardal lai ffafriol, sef ardal o ryw 1.6 miliwn ha o dir. Mae tua 1.2 miliwn hectar o'r ardal honno yn cael ei ffermio.

Mae cyfanswm o 23 o argymhellion yn adroddiad yr is-bwyllgor ac maent wedi eu rhannu rhwng fy mhortffolio a phortffolio'r Gweinidog dros yr amgylchedd. Yr wyf yn falch o ddweud ein bod fel Llywodraeth wedi derbyn 17 o'r argymhellion, naill ai yn llawn, mewn egwyddor, yn rhannol, neu'n amodol ar eglurhad. Yr ydym wedi gwrthod pedwar ohonynt yn llwyr, ac wedi gwrthod y ddau sy'n weddill mewn egwyddor neu'n rhannol.

Os ydym wedi gwrthod argymhelliad, yr ydym wedi gwneud hynny am resymau clir bob tro ac yr ydym wedi amlinellu'r rhesymau hynny yn ein hymateb ysgrifenedig. Er enghraifft, yr ydym wedi gwneud hynny oherwydd bod gwaith ymchwil cydnabyddedig yn cynghori yn erbyn cymryd camau o'r fath, oherwydd bod mesurau eraill ar waith neu yn yr arfaeth i gyflawni'r un peth, neu oherwydd bod ffyrdd mwy effeithiol o ymdrin â'r mater dan sylw, yn ein barn ni. Mae yna feysydd lle yr ydym yn cytuno â'r is-bwyllgor a lle mae nifer o fentrau eisoes ar y gweill o dan gyfarwyddyd strategol y strategaeth ffermio, bwyd a chefn gwlad.

Yr ydym yn sylweddoli bod ucheldiroedd Cymru yn adnoddau allweddol, a'i bod yn

wyf yn siŵr y byddech yn cyflwyno adroddiad sylweddol ar yr hyn y gellid ei gynnig, er fy mod yn datgan bod imi fudd mewn adroddiad o'r fath.

The Minister for Rural Affairs (Elin Jones): I thank the Chair and other members of the sub-committee for the report and the recommendations. As several Members have said, and as the report itself says, the uplands of Wales are a challenging and important environment for all sorts of reasons, including farming, food production, forestry, recreation, wildlife conservation and water management. They are also becoming increasingly important in relation to climate change and energy issues. In addition to all that, they play an important social and cultural role and much of the area is a stronghold of the Welsh language. They are also more or less synonymous with the designated less favoured area that covers some 1.6 million ha, of which some 1.2 million hectares are actively farmed.

In total, there were 23 recommendations set out in the sub-committee's report, and they are split between my portfolio and that of the Minister for the environment. I am pleased to say that we, as a Government, have accepted 17 of the recommendations in full, in principle, in part, or subject to clarification. We have rejected four recommendations outright, and the remaining two in principle or in part.

Where we have rejected a recommendation, we have done so for clear reasons and have outlined those reasons in our written response. For example, we have done so because established research advises against such action, because other measures have already been taken, or are planned, and will deliver the same outcome, or because the actions are not the most effective way to take the matter forward, in our opinion. There are areas where we agree with the sub-committee and where, under the strategic direction of the farming, food and countryside strategy, a number of initiatives are already in place.

We recognise that the Welsh uplands are an essential resource and that their future

anorod y bydd eu datblygiad yn y dyfodol ynghlwm wrth amcanion y strategaeth. Yr ydym hefyd yn sylweddoli bod yr ucheldiroedd yn rhan o'r agenda ehangach ar gyfer materion cymdeithasol economaidd, ar gyfer cynhyrchu bwyd—fel y mae nifer o siaradwyr wedi dweud—ac ar gyfer yr amgylchedd yn fwy cyffredinol yng nghefn gwlad.

Un mater allweddol, sy'n cael ei drafod yn argymhelliad cyntaf yr adroddiad, ac y mae nifer o Aelodau wedi cyfeirio ato'r prynhawn yma, yw adolygiad y Comisiwn Ewropeaidd i nodi meini prawf diwygiedig ar gyfer ailddynodi ffiniau'r ardaloedd llai ffafriol ledled yr Undeb Ewropeaidd. Gallai hyn gael effaith sylweddol ar Gymru. Yr wyf yn cytuno'n llawn â'r is-bwyllgor bod yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ddal ati i weithio er mwyn sicrhau bod yr ardal lai ffafriol yng Nghymru yn newid cyn lleied ag sy'n bosibl, fel y dywedais wrth ymateb yn ystod fy sesiwn gwestiynau. Yr wyf yn cytuno hefyd bod rhaid ystyried cymorth pontio i'r ardaloedd hynny a allai fod ar eu colled yn sgil newidiadau posibl i ffiniau'r ardal lai ffafriol.

Mae fy swyddogion, ar y cyd â Llywodraethau eraill y Deyrnas Gyfunol, yn gweithio'n agos â'r Comisiwn Ewropeaidd i sicrhau na fydd y meini prawf a fydd yn cael eu mabwysiadu yn y pen draw i ddynodi'r ardal lai ffafriol yn golygu y bydd cefn gwlad Cymru ar ei cholled yn sylweddol. Mae'r gwaith hefyd yn edrych ar drefniadau pontio posibl i ffermwyr os byddant ar eu colled yn sgil newidiadau i'r ffiniau.

Pan fo argymhelliad yn yr adroddiad wedi ei wrthod, yr ydym wedi amlinellu sut y gellid trafod y mater mewn ffordd arall. Er enghraifft, o ran argymhelliad 9 ar ffermydd gwynt, mae asesu effaith tyrbinau gwynt ar garbon yn rhan o'r broses gynllunio. Mae angen asesu'r effaith fel rhan o'r broses gynllunio. Rhaid i hynny gael ei wneud ar y lefel honno, drwy'r broses gynllunio, ac ni ddylem ni, fel Llywodraeth, ymgymryd â'r gwaith hwnnw yn uniongyrchol. Mae'n iawn i ni roi cyfarwyddyd y dylai'r broses gynllunio ystyried yr effaith ar garbon, ond ni fyddai'n iawn i ni wneud y gwaith hwnnw ein hunain. Felly, nid wyf yn cytuno fod

development is intrinsically tied to the objectives of the strategy. We also recognise that the uplands are part of the wider agenda in relation to socioeconomic issues, food production, as many speakers have said, and the environment more generally in rural Wales.

A key area, which is highlighted in recommendation 1 and which has been referred to by a number of Members this afternoon, is the European Commission review to identify revised criteria that would form the basis of the redesignation of the boundaries of less favoured areas across the European Union. This could have a significant impact on Wales. I am in full agreement with the sub-committee that the Assembly Government must continue to work to ensure that there are minimum changes to the less favoured area in Wales, as I said in answer to questions earlier. I also agree that there is a need to consider transitional support for those areas that may lose out as a result of possible changes to the boundary of the less favoured area.

My officials, in conjunction with other Governments in the United Kingdom, are working closely with the European Commission to ensure that the final criteria adopted to designate less favoured areas will not mean that rural Wales will lose out significantly. This work is also investigating potential transitional arrangements for farmers if they lose out as a result of boundary changes.

Where it has been appropriate to reject a recommendation, we have outlined how the matter could be dealt with in another way. For example, on recommendation 9 on windfarms, the assessment of the impact of wind turbines on carbon is part of the planning process. The impact needs to be assessed as part of the planning process. That must be done at that level, through the planning process, and we, as a Government, should not undertake that work directly. It is right that we should give direction to the planning process to consider the impact on carbon, but it would not be right for us to do that work ourselves. Therefore, I do not agree

gwrthddweud yn ein hymateb i argymhellion 9 a 10, fel y dywedodd y Cadeirydd.

Hefyd o ran argymhelliad 9, yr oedd mater gwahanol yn ymwneud â'r posibilrwydd o golli gorchudd coed oherwydd datblygiadau ffermydd gwynt. Bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn edrych ar y potensial i adolygu'r golled gorchudd coed a'r potensial i liniaru hynny o ganlyniad i ddatblygiad ffermydd gwynt. Yr wyf yn awyddus iawn i weld cynnydd ar y gwaith hwnnw gan y Comisiwn Coedwigaeth.

Yr oedd y Cadeirydd yn iawn i bwysleisio fod angen mwy o ymchwil ar garbon yn y pridd a sut y gallwn ei reoli yn effeithiol. Wrth gwrs, nid yw'r gyllideb ar gyfer ymchwil amaethyddol wedi ei datganoli i'r Cynulliad, ond yr wyf i a'm swyddogion yn awyddus i ddylanwadu ar benderfyniadau Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol o ran arian ymchwil. Mae ymchwil i garbon yn ein pridd yn faes yr ydym yn awyddus i'w flaenoriaethu.

Un maes allweddol arall, sy'n cael sylw yn argymhelliad 21, yw cylch gwaith fforwm yr ucheldir. Yr wyf yn gwerthfawrogi gwaith y fforwm yn fawr. Mae'n enghraifft o wir bartneriaeth gyda'n partneriaid ac yr wyf yn falch o dderbyn argymhelliad yr is-bwyllgor i adolygu rôl y grŵp i ystyried ei atgyfnerthu ac i ehangu ei gylch gwaith. Mae ein swyddogion eisoes wedi cychwyn ar y broses adolygu. Edrychaf ymlaen at weld fforwm yr ucheldir yn parhau, a'i rôl bwysig yn helpu i ddatblygu ystod ehangach, o bosibl, o bolisiau Llywodraeth y Cynulliad, gan ganolbwyntio ar les yr ucheldiroedd yn y dyfodol.

3.30 p.m.

Ar yr olwg gyntaf, mae argymhelliad 22 i gael swyddog penodol i fod yn gyfrifol am yr ucheldiroedd yn un digon rhesymol. Serch hynny, mae'r materion sy'n berthnasol i'r ucheldiroedd yng Nghymru yn rhai eang ac amrywiol iawn, fel y mae nifer wedi dweud eisoes y prynhawn yma. Am y rheswm hwnnw, byddai'n amhosibl disgwyl i un swyddog fod yn gyfrifol am yr holl gylch gwaith ar gyfer yr ucheldiroedd. Yr hyn y mae angen i ni ei wneud yw sicrhau ein bod

that there is a contradiction in our response to recommendations 9 and 10, as the Chair said.

Also in relation to recommendation 9, there was a separate issue relating to the possible loss of tree cover because of windfarm developments. Forestry Commission Wales will be considering the potential for reviewing the loss of tree cover and the potential for mitigation as a consequence of windfarm developments. I am very eager to see progress in that work by the Forestry Commission.

The Chair was right to emphasise the need for more research into carbon in the soil and how we can manage that effectively. Of course, the budget for agricultural research is not devolved to the Assembly, but my officials and I are eager to influence the United Kingdom Government's decisions on research funding. Research into carbon in the soil is an area which we are keen to prioritise.

Another vital area, which is mentioned in recommendation 21, is the future remit of the upland forum. I particularly value the work of the forum. It is an example of true partnership with our partners, and I am pleased to accept the sub-committee's recommendation on reviewing the group's role to consider strengthening it and extending its remit. Our officials have already begun the review process. I look forward to seeing the upland forum continuing, with its important role in helping to develop a wider range, possibly, of Assembly Government policies, focusing on the future wellbeing of the uplands.

At first glance, recommendation 22 on having a designated official with responsibility for the uplands appears to be reasonable enough. However, issues relating to the upland areas of Wales cover a wide and diverse range, as many Members have said this afternoon. For that reason, it would be impossible to expect one official to undertake responsibility for the entire remit of the uplands. What we need to do is make sure that we continue to work collaboratively,

yn gweithio ar y cyd, a hynny o fewn y Llywodraeth yn ogystal â chydag eraill.

Cefnogaf sylwadau'r Cadeirydd yn ei ragair i'r adroddiad, yn enwedig y gydnabyddiaeth bod rôl ganolog gan yr ucheldiroedd o ran mynd i'r afael â'r heriau mawr sy'n wynebu ein cymdeithas. Mae'r rhain yn cynnwys diogelwch bwyd, lleihau carbon, diogelu bioamrywiaeth ac amddiffyn rhag llifogydd.

Mae hanes yn dangos bod yr ucheldiroedd wedi wynebu pob math o bwysau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dros y blynyddoedd, ac mae hynny'n dal i fod yn wir yn awr. Yr her yn awr yw inni gydweithio i'r dyfodol. Mae enghreifftiau gwych i'w cael o gydweithio, a cheir cyfeiriad yn yr adroddiad at fenter mynyddoedd y Cambria, sydd yn rhannol yn fy etholaeth i. Mae criw o ffermwyr wedi edrych am gyfleoedd i ychwanegu incwm at eu busnesau drwy amrywiol ffyrdd, ac mae'r Llywodraeth yn cefnogi'r datblygiad cydweithredol hwnnw yn ariannol. Fodd bynnag, nid rôl y Llywodraeth yw sefydlu mentrau o'r fath ym mhob rhan o Gymru, ond byddwn yn cefnogi mentrau os ydynt yn tyfu mewn gwahanol gymunedau yn yr ucheldir, a dyna pam y bu inni wrthod argymhelliad 23.

Dros y canrifoedd, mae cyfnodau lle yr ydym fel gwlad a chymdeithas wedi cefni ar ein ucheldiroedd, ond fel y mae'r adroddiad hwn yn amlygu, yn awr ac i'r dyfodol, mae ein ucheldiroedd ni unwaith eto yn bwysig i'n cenedl.

Rhodri Glyn Thomas: Diolchaf i Brynle Williams, Andrew R.T. Davies a Kirsty Williams am eu sylwadau cadarnhaol. Diolch yn arbennig i Kirsty am ei chyfeiriadau at gadeiryddiaeth yr is-bwyllgor. Alun Davies oedd y Cadeirydd ar y pryd, ac yr wyf yn siŵr y bydd Kirsty yn falch o ddiolch iddo ef am ei arweiniad ar yr adroddiad hwn. Diolch hefyd i Mick Bates, a oedd yn aelod gwerthfawr iawn o'r is-bwyllgor yn ystod y gwaith o gasglu'r dystiolaeth. Diolch yn arbennig i'r Gweinidog am ei hymateb cadarnhaol iawn ar lafar. Yr ydym yn cytuno ar lawer iawn mwy nag yr ydym yn anghytuno yn ei gylch yn yr adroddiad hwn, ac ymddiheuraf os nad dyna'r argraff a

both within and outside the Assembly Government.

I support the Chairman's comments in his foreword to the report, particularly that the uplands have a central role to play in responding to several of the great challenges currently facing society. These include food security, carbon reduction, biodiversity protection and flood defence.

History shows that the uplands have faced all manner of significant social, economic, environmental and cultural pressures over the years, and that continues to be true. The challenge now is for us all to work together in partnership for the future. There are excellent examples of best practice to be found, and the report refers to the Cambrian mountains initiative, which is partially in my constituency. A group of farmers has sought opportunities to add to their businesses' income in diverse ways, and the Government supports that co-operative development financially. However, it is not the job of Government to set up such initiatives in all parts of Wales, but we will support such initiatives if they develop in various communities in the uplands, and that is why we rejected recommendation 23.

Over the centuries there have been periods when we as a country and as a society have turned our backs on the uplands. But as this report highlights, now and for the future, our uplands are once again important to our nation.

Rhodri Glyn Thomas: I thank Brynle Williams, Andrew R.T. Davies and Kirsty Williams for their positive comments. I thank Kirsty especially for her comments on the chairmanship of the sub-committee. Alun Davies was the Chairman at the time, and I am sure Kirsty will be pleased to thank him for his leadership on this report. I also thank Mick Bates, who was a valued member of the sub-committee during the evidence gathering. Special thanks to the Minister for her very positive verbal response. We agree a great deal more than we disagree in respect of this report, and I apologise if that was not the impression given when I was trying to gain more information about her reasons for

roddwyd wrth geisio cael mwy o wybodaeth am y rhesymau pam y bu iddi wrthod nifer gymharol fach o'r argymhellion.

rejecting the comparatively small number of recommendations.

Gorffennaf drwy gyfeirio at argymhelliad 21, yr ydym yn gwbl gytûn arno, sef adolygu gwaith y fforwm a hefyd y gwaith pwysig o greu gweledigaeth gadarnhaol uchelgeisiol ar gyfer ucheldiroedd Cymru i'r dyfodol. Byddem yn falch iawn, Weinidog, o dderbyn gwybodaeth am sut y mae'r Llywodraeth yn bwriadu mynd i'r afael â chreu a datblygu'r weledigaeth honno. Mae un neu ddau o gwestiynau o hyd yn fy meddwl, ac wedi i mi gael amser i edrych yn fanwl ar eich ymateb ar lafar, byddaf yn ysgrifennu atoch ar ran yr is-bwyllgor i drafod rhai o'r materion sy'n weddill.

I conclude by referring to recommendation 21, on which we are entirely agreed, namely to review the work of the forum and also the important work of creating a positive and ambitious vision for the future uplands of Wales. We should be pleased, Minister, to receive information on how the Government intends to get to grips with creating and developing that vision. I have one or two questions still in mind, and when I have an opportunity to look in detail at your verbal response, I will write to you on behalf of the sub-committee to discuss some of the outstanding issues.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i'r Cadeirydd am hynny. Y cwestiwn yw a yw'r Cynulliad yn nodi adroddiad yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf nad oes. Yr wyf yn datgan, felly, fod y cynnig wedi'i basio yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 7.35.

The Presiding Officer: I thank the Chairman very much for that. The proposal is that the Assembly notes the report of the Rural Development Sub-committee. Are there any objections? I see there are not. Therefore, I declare that the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 7.35.

*Derbyniwyd y cynnig.
Motion agreed.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (Rosemary Butler) i'r Gadair am 3.34 p.m.
The Deputy Presiding Officer (Rosemary Butler) took the Chair at 3.34 p.m.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Y Diffyg yng Nghyllideb y Deyrnas Unedig The United Kingdom's Budget Deficit

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt.

Nick Bourne: I move that

Nick Bourne: Cynigiaf fod

the National Assembly for Wales:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. notes with deep concern the size of the United Kingdom's budget deficit;

1. yn nodi â chryn bryder maint y diffyg yng nghyllideb y Deyrnas Unedig;

2. welcomes the early efforts taken by Her Majesty's Government to improve the public finances; and

2. yn croesawu ymdrechion cynnar Llywodraeth Ei Mawrhydi i wella cyllid cyhoeddus; a

3. *calls on the Welsh Assembly Government to work more closely with the UK Government to secure further improvements.* (NDM4490)

This debate is extremely important, given the pertaining financial circumstances on coming into office, and I am grateful for the opportunity to move the motion.

First, let no-one underestimate the scale of the deficit or the problems that we face in bringing it under control. The UK budget deficit is currently £156 billion, or 12.8 per cent of gross domestic product this year. That is a greater relative deficit than that of Spain, of Greece even, of the USA, or of the euro area. In May 1997, public sector net debt was £351 billion. Today, it stands at over double that at £770 billion. After years of mismanagement of the economy by a Labour Government, the national debt has more than doubled. Based on the outgoing Labour Government's own figures, if we were to continue with its policies over the next five years unchecked, it would double again to £1.4 trillion—a figure that is truly mind-boggling, and I have difficulty comprehending, as I am sure do many Members. These are truly shocking figures. To put it into a perspective that is more manageable and understandable, this year, the interest on the debt will reach almost £45 billion, which is greater than the UK defence budget and almost three times the annual Welsh budget that we receive to run Welsh domestic affairs. That is Labour's legacy: it took a golden economic inheritance and turned into lead. It is a legacy that was summed up by its own last Chief Secretary to the Treasury, Liam Byrne—do you remember him?—in a note to his successor, which read,

'I'm afraid to tell you there's no money left.'

He had the grace to add 'Good luck' but I think that we need much more than luck to deal with this. We have to reduce the deficit. Even the Labour Party accepts that—certainly, serious economists and political commentators do, and I do not know whether

3. *yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio'n agosach gyda Llywodraeth y DU i sicrhau rhagor o welliannau.* (NDM4490)

Mae'r ddadl hon yn eithriadol o bwysig, o gofio'r amgylchiadau ariannol wrth i Lywodraeth ddod i rym, ac yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyflwyno'r cynnig.

Yn gyntaf, ni ddylai neb fychanu maint y diffyg na'r problemau a wynebwn wrth geisio'i reoli. Ar hyn o bryd mae'r diffyg yng nghyllideb y DU yn £156 biliwn, neu 12.8 y cant o'r cynnyrch mewnwladol crynswth eleni. Mae'n ddifffyg cymharol sy'n uwch na'r diffyg yn Sbaen, neu yng Ngwlad Groeg hyd yn oed, neu'r Unol Daleithiau, neu ardal yr ewro. Ym mis Mai 1997 yr oedd dyled net y sector cyhoeddus yn £351 biliwn. Heddiw mae'n fwy na dwywaith hynny, sef £770 biliwn. Ar ôl blynyddoedd o Lywodraeth Lafur yn camreoli'r economi, mae'r ddyled genedlaethol wedi mwy na dyblu. Ar sail ffigurau'r Llywodraeth Lafur ei hun a oedd mewn grym cyn yr etholiad diwethaf, pe baem yn parhau â'i pholisïau'n ddirwystr dros y pum mlynedd nesaf, byddai'n dyblu eto i £1.4 triliwn—ffigur sy'n gwbl syfrdanol ac yr wyf yn cael trafferth ei ddeall, fel y mae nifer o Aelodau eraill, yr wyf yn siŵr. Mae'r ffigurau hyn yn wirioneddol ysgytiol. O'u rhoi mewn cyd-destun haws ei drin a'i ddeall, bydd y llog ar y ddyled eleni bron yn £45 biliwn, sy'n fwy na chyllideb y DU ar gyfer amddiffyn, ac sydd bron deirgwaith cymaint â'r gyllideb flynyddol a gawn yng Nghymru i gynnal materion domestig Cymru. Dyna yw gwaddol y Blaid Lafur: cymerodd etifeddiaeth economaidd euraidd a'i throï'n blwm. Mae'n waddol a grynhowyd gan Brif Ysgrifennydd diwethaf y Blaid Lafur i'r Trysorlys, Liam Byrne—a ydych yn ei gofio?—mewn nodyn i'w olynydd, gan ddweud,

Mae'n flin gennyf ddweud wrthyhch nad oes dim arian ar ôl.

Bu'n ddigon graslon i ychwanegu 'Pob lwc', ond credaf fod arnom angen llawer mwy na lwc i ymdopi â hyn. Rhaid inni leihau'r diffyg. Mae hyd yn oed y Blaid Lafur yn derbyn hynny—yn sicr, mae economegwyr a sylwebyddion gwleidyddol o bwys yn derbyn

that includes the Labour Party, but perhaps it does. Unless we seek to reduce the deficit, world markets will lose confidence in the United Kingdom and investors will take their money elsewhere. The price will be instability and higher interest rates, which will be paid by mortgage payers, individuals and businesses, with the knock-on effect of increased unemployment. Just look at Greece.

The incoming UK Government has made a start on tackling the problem by setting out details of how it will save more than £6 billion from spending during this financial year, savings to be found by cutting waste and some programmes across Government. These in-year cuts are aimed at tackling the £156 billion deficit that I spoke of, while protecting the quality of key front-line services. Of the amount cut, £500 million or £0.5 billion is to be recycled and used to invest in targeted measures to improve Britain's long-term growth and to build a fairer society. However, the great bulk of the amount will go towards cutting the deficit this year so that we can avoid the jobs tax next year.

The net reduction in the Welsh budget, which we are all familiar with, will be £163 million this year, which is less than 1 per cent of the total Welsh budget. As Jane Hutt has said, we are all agreed that we need to reduce the deficit and the national debt, and Wales will play its part in that—and I applaud that sentiment. She is right. The National Assembly has already voted its budget through for this year, and the UK coalition Government respects that. That is why the offer was made of deferring the cuts in-year to next year, or any mix of the two. That is why the offer was made to delay the cuts until 2011-12. The Assembly Government has singularly failed to take responsibility for its own budget. Scotland has responded; Wales has not.

3.40 p.m.

It is astounding that the Minister for Business

hynny, ac ni wn a yw hynny'n cynnwys y Blaid Lafur, ond efallai ei fod. Oni cheisiwn leihau'r diffyg, bydd marchnadoedd y byd yn colli hyder yn y Deyrnas Unedig a bydd buddsoddwyr yn mynd â'u harian rywle arall. Y pris fydd ansefydlogrwydd a chyfraddau llog uwch, a delir gan y bobl sy'n talu morgais, boed yn unigolion neu'n fusnesau, a hynny'n arwain wedyn at gynnydd mewn diweithdra. Nid oes ond angen ichi edrych ar Wlad Groeg.

Mae Llywodraeth y DU sydd newydd ddod i rym wedi dechrau mynd i'r afael â'r broblem drwy osod allan fanylion y modd y bydd yn arbed dros £6 biliwn o wariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon, arbedion a sicrhair drwy leihau gwastraff a rhai rhaglenni ar draws y Llywodraeth. Bwriad y toriadau hyn yn ystod y flwyddyn yw mynd i'r afael â'r diffyg o £156 biliwn y soniais amdano, gan ddiogelu ansawdd gwasanaethau rheng flaen allweddol. O'r swm a dorrir, bydd £500 miliwn neu £0.5 biliwn yn cael ei ailgylchu a'i ddefnyddio i fuddsoddi mewn mesurau y bwriedir iddynt wella twf hirdymor Prydain ac adeiladu cymdeithas decach. Fodd bynnag, bydd rhan helaethaf yr arian yn mynd i leihau'r diffyg eleni fel y gallwn osgoi'r dreth swyddi y flwyddyn nesaf.

Y gostyngiad net yng nghyllideb Cymru, yr ydym i gyd yn gyfarwydd ag ef, fydd £163 miliwn eleni, sy'n llai nag 1 y cant o gyfanswm cyllideb Cymru. Fel y dywedodd Jane Hutt, yr ydym i gyd yn cytuno bod angen inni leihau'r diffyg a'r ddyled genedlaethol, a bydd Cymru'n gwneud ei rhan yn hynny—a chymeradwyaf y farn honno. Mae Jane Hutt yn iawn. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol eisoes wedi pleidleisio dros ei gyllideb ar gyfer eleni, ac mae Llywodraeth glymbleidiol y DU yn parchu hynny. Dyna pam y cynigiwyd gohirio toriadau'r flwyddyn hon tan y flwyddyn nesaf, neu gyflwyno cyfuniad o'r ddau dull. Dyna pam y cynigiwyd gohirio'r toriadau tan 2011-12. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi methu'n lân â chymryd cyfrifoldeb am ei chyllideb ei hun. Mae'r Alban wedi ymateb; nid yw Cymru.

Mae'n syfrdanol nad yw'r Gweinidog dros

and Budget has made no contingency plans for savings this year. In spite of Peter Hain banging on during the general election campaign about Tory cuts from day one and frequent discussion in the Assembly about whether in-year cuts could be deferred, she professes to be surprised that in-year cuts were being proposed. I do not know where she has been. Perhaps the First Minister, who I understand will be replying to this debate, can clarify the Government's position on this, because the Minister for Business and Budget has failed seven times to answer the question of whether the Assembly Government made any contingency plans for a change of Government. It is hard to believe that it did not.

The fact is that the Assembly Government is being asked to save £1 out of every £100 that it spends this year, or 1 per cent—or, indeed, it could defer it to next year. That is far less than the savings announced for nearly every other Government department, and it is on a par with what is being asked of Scotland. The Assembly Government is being asked to do only what every business and individual has had to do in this recession: tighten its belt, do things more cheaply and efficiently, and cut costs. We know very well that the Assembly Government would have been doing these things now even if there had been a Labour Government at Westminster, as we know that Alistair Darling said that we faced cuts that were tougher than those seen in the 1980s. He said that when he was still in Government, before the general election. We have said that they will not be as tough as the 1980s. However, he was being realistic about the position.

I now want to say a few words about the Barnett formula and the Calman commission. I know that Plaid Cymru Members—some of whom are still here, which is good to see—are interested in this issue, as they raised it repeatedly in questions to the Minister for Rural Affairs today, perhaps thinking that she was the Minister for the budget. However, it is an important issue. The Conservative-Liberal Democrat coalition recognises the

Fusnes a'r Gyllideb wedi llunio dim cynlluniau wrth gefn ar gyfer arbedion eleni. Er bod Peter Hain, o'r dechrau'n deg, wedi rhygnu ymlaen yn ystod ymgyrch yr etholiad cyffredinol am doriadau'r Toriaid, ac er y trafodaethau mynych yn y Cynulliad ynghylch a ellid gohirio toriadau'r flwyddyn hon, mae'n honni iddi gael ei synnu bod toriadau am y flwyddyn hon yn cael eu cynnig. Ni wn ymhle mae wedi bod. Efallai y gallai'r Prif Weinidog, a fydd yn ymateb i'r ddaid hon, fel y deallaf, egluro safbwynt y Llywodraeth ar hyn, oherwydd mae'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb wedi methu saith gwaith ag ateb y cwestiwn a luniodd Llywodraeth y Cynulliad unrhyw gynlluniau wrth gefn ar gyfer newid mewn Llywodraeth. Mae'n anodd credu na wnaeth.

Y ffaith yw y gofynnir i Lywodraeth y Cynulliad arbed £1 o bob £100 y bydd yn eu gwario eleni, neu 1 y cant—neu, yn wir, gallai ohirio gwneud hynny tan y flwyddyn nesaf. Mae'r arbedion hynny'n llai o lawer na'r arbedion a gyhoeddwyd ar gyfer bron pob adran arall o'r Llywodraeth, ac yn cyfateb i'r hyn y gofynnir i'r Alban ei wneud. Gofynnir i Lywodraeth y Cynulliad wneud yr hyn y mae pob busnes ac unigolyn arall wedi gorfod ei wneud yn ystod y dirwasgiad hwn: tynhau ei gwregys, gwneud pethau'n rhatach ac yn fwy effeithlon, a thorri costau. Gwyddom yn iawn y byddai'n rhaid i Lywodraeth y Cynulliad wneud y pethau hyn yn awr, hyd yn oed pe bai Llywodraeth Lafur yn San Steffan, oherwydd gwyddom fod Alistair Darling wedi dweud y byddem yn wynebu toriadau llymach na'r rhai a welwyd yn yr 1980au. Dywedodd hynny pan oedd yn dal mewn Llywodraeth, cyn yr etholiad cyffredinol. Yr ydym ni wedi dweud na fyddant mor llym â thoriadau'r 1980au. Fodd bynnag, yr oedd yn realistig ynghylch y sefyllfa.

Hoffwn ddweud ychydig eiriau'n awr am fformiwla Barnett a chomisiwn Calman. Gwn fod gan Aelodau Plaid Cymru—y mae rhai ohonynt yma o hyd, sy'n beth braf i'w weld—ddiddordeb yn y mater hwn, gan iddynt ei godi droeon mewn cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig heddiw, gan feddwl efallai mai hi oedd y Gweinidog dros y gyllideb. Fodd bynnag, mae'n fater pwysig. Mae'r glymblaid rhwng y

concerns expressed by the Holtham commission, which stated that Wales is underfunded by some £300 million a year. That is true and we accept that. All that we have said—and it does not depend on the outcome of a referendum, which is a common misreading of what the coalition Government has stated—is that that is not currently the No. 1 priority. The No. 1 priority is bringing down the deficit. If anyone wants to disagree with that, I would be very happy to take interventions at this stage or any other.

Gareth Jones: I will say something.

Nick Bourne: Good—a man of courage.

Gareth Jones: One of your Cabinet Ministers at Westminster stated quite clearly that this was not a priority for us in Wales and certainly not at the UK level. Therefore, the Government there has no intention of looking at this unfair funding.

Nick Bourne: As I said, it is not the No. 1 priority, but if you read—[*Interruption.*] Calm down and let me answer the point that Gareth has just validly made. It is a priority; it is in the coalition document. However, the most serious roadblock to doing anything on this does not come from anyone in Wales or at Westminster, but from the Scottish National Party. If you could convince your colleagues in Scotland, as we have convinced ours, that it is time for reform, that would make it a lot easier, Gareth.

Chris Franks *rose*—

Nick Bourne: I would not send Chris Franks to argue the case; I would rather send someone else.

To finish my point, if you are prepared to say to me that the Scottish Nationalists are going to sign up to a change in the Barnett formula and accept all the consequences of that, it would make life a lot easier in getting it

Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan gomisiwn Holtham, a ddywedai fod y cyllid a gaiff Cymru ryw £300 miliwn y flwyddyn yn llai nag a ddylai fod. Mae hynny'n wir, ac yr ydym yn derbyn hynny. Y cyfan yr ydym wedi'i ddweud—ac nid yw'n dibynnu ar ganlyniad refferendwm, sy'n gamddehongliad cyffredin o'r hyn y mae'r Llywodraeth glymbleidiol wedi'i ddatgan—yw nad dyna'r brif flaenoriaeth ar hyn o bryd. Y brif flaenoriaeth yw lleihau'r diffyg. Os oes unrhyw un am anghytuno â hynny, byddwn yn fodlon iawn derbyn ymyriadau'n awr neu'n hwyrach.

Gareth Jones: Hoffwn i ddweud rhywbeth.

Nick Bourne: Da iawn—yr ydych yn ddyn dewr.

Gareth Jones: Dywedodd un o Weinidogion eich Cabinet yn San Steffan yn eithaf clir nad oedd hynny'n flaenoriaeth i ni yng Nghymru, ac yn sicr nad oedd yn flaenoriaeth ar lefel y DU. Felly, nid yw'n fwriad o gwbl gan y Llywodraeth yno ystyried y cyllid annheg hwn.

Nick Bourne: Fel y dywedais, nid dyna'r brif flaenoriaeth, ond os darllenwch—[*Torri ar draws.*] Pwyllwch a gadewch imi ateb y pwynt y mae Gareth newydd ei wneud yn gywir ddigon. Y mae'n flaenoriaeth; dywedwyd hynny yn nogfen y glymblaid. Fodd bynnag, nid o Gymru na San Steffan y daw'r rhwystr mwyaf difrifol i atal cymryd camau i fynd i'r afael â'r mater, ond o du Plaid Genedlaethol yr Alban. Pe gallech ddarbwylo'ch cydweithwyr yn yr Alban, fel yr ydym ni wedi darbwylo'n cydweithwyr ni, ei bod yn bryd diwygio, byddai hynny'n gwneud bywyd lawer yn haws, Gareth.

Chris Franks *a gododd*—

Nick Bourne: Ni fyddwn yn anfon Chris Franks i ddadlau'r achos; byddai'n well gennyf anfon rhywun arall.

I orffen fy mhwynt, os ydych yn barod i ddweud wrthyf fod Cenedlaetholwyr yr Alban yn bwriadu cytuno i newid fformiwla Barnett a derbyn holl ganlyniadau hynny, byddai'n ei gwneud lawer yn haws diwygio'r

reformed. However, you have singularly failed to do that. The position in Wales, on your part, which we agree with, is very different from that of the Scottish Nationalists, north of the border.

Chris Franks: You should be aware that the Scottish Government has agreed that the Barnett formula should be reviewed, and you should acknowledge that the current United Kingdom coalition Government has allocated an additional £200 million to the Scottish Government. Why have we not received our £300 million?

Nick Bourne: On your first point, I would like to see a document indicating that the Scottish Nationalists have, as you say, signed up to a reform of the Barnett formula, because I have seen nothing to suggest that. All the evidence is totally to the contrary, as they know that they would lose out. Wales and England would gain, but Scotland would lose out. As I have made absolutely clear, the net budget cuts are exactly the same in Wales as they are in Scotland.

We will act on the Holtham commission's recommendations, as I have indicated, and it is dependent on the referendum whether we go to the second stage, and take up the recommendations that are being made—by Holtham, too, no doubt—which would be part of any Calman-type agreement that we can get for Wales. It is entirely appropriate that we await that political settlement before looking at the future financial settlement, which will be determined by the political outcome of the referendum, whenever that takes place—that is being debated.

I know that we face tough decisions and that there are tough budget choices ahead. We do not fool anyone in the electorate by pretending that this is a question of cuts versus no cuts. It is a question of how we reduce the debt and at what speed. If that is the discussion, let us be honest about it, but a massive debt has built up. Part of that has international standing, but part is Labour mismanagement. We are in a deeper hole in Britain than virtually any other country in the

fformiwla. Fodd bynnag, yr ydych wedi methu'n lân â gwneud hynny. Mae'r sefyllfa yng Nghymru, o'ch rhan chi, ac yr ydym yn cytuno â hynny, yn wahanol iawn i sefyllfa Cenedlaetholwyr yr Alban, i'r gogledd o'r ffin.

Chris Franks: Dylech fod yn ymwybodol fod Llywodraeth yr Alban wedi cytuno y dylid adolygu fformiwla Barnett, a dylech gydnabod bod Llywodraeth glymbleidiol bresennol y Deyrnas Unedig wedi dyrannu £200 miliwn ychwanegol i Lywodraeth yr Alban. Pam nad ydym wedi cael ein £300 miliwn ni?

Nick Bourne: O ran eich pwynt cyntaf, hoffwn weld dogfen sy'n dweud bod Cenedlaetholwyr yr Alban wedi cytuno, fel y dywedwch, i ddiwygio fformiwla Barnett, oherwydd nid wyf fi wedi gweld dim sy'n awgrymu hynny. Mae'r dystiolaeth i gyd i'r gwrthwyneb yn llwyr, oherwydd gwyddant y byddent ar eu colled. Byddai Cymru a Lloegr ar eu hennill, ond byddai'r Alban ar ei cholled. Fel y dywedais yn gwbl glir, mae'r toriadau net yn y gyllideb yn union yr un fath yng Nghymru ag yn yr Alban.

Byddwn yn gweithredu argymhellion comisiwn Holtham, fel y dywedais, a'r refferendwm fydd yn penderfynu a fyddwn yn mynd i'r ail gam ac yn derbyn yr argymhellion a wneir—gan Holtham, hefyd, mae'n siŵr. Byddai hynny'n rhan o unrhyw gytundeb tebyg i gytundeb Calman y gallwn ei gael i Gymru. Mae'n gwbl briodol ein bod yn aros am y setliad gwleidyddol hwnnw cyn ystyried y setliad ariannol ar gyfer y dyfodol. Caiff hwnnw ei bennu gan ganlyniad gwleidyddol y refferendwm, pryd bynnag y bydd yn digwydd—mae hynny'n cael ei drafod.

Gwn ein bod yn wynebu penderfyniadau anodd, a bod dewisiadau anodd i'w gwneud am y gyllideb. Nid ydym yn twyllo'r un etholwr drwy esgus mai mater yw hyn o doriadau ynteu ddim toriadau. Yn hytrach, mater ydyw pa mor gyflym y dylem leihau'r ddyled. Os dyna'r drafodaeth, gadewch inni fod yn onest ynghylch hynny, ond mae dyled enfawr wedi cronni. Mae rhan ohoni'n broblem ryngwladol, ond mae rhan ohoni'n ganlyniad camreoli gan y Blaid Lafur. Yr

world—certainly deeper than any other developed economy. We were the first of the major economies to enter into recession, and we were the last out. This idea of the wizard Gordon Brown, who has given us £1 trillion of debt, is something that the electorate clearly did not buy at election time and do not buy now.

We are not unique; other countries face problems—Spain, Italy and Greece—though I have made quite clear that their budget deficit is smaller in proportion to their economies than ours. The G20 has given its backing to the actions of George Osborne, and we know that, previously, the European Commission made stinging criticisms of Labour. It said that its financial programme was not robust and that its plans for dealing with the deficit were not ambitious enough. President Obama has warned of the dangers of not cutting the deficit in his own country and elsewhere. That is absolutely right.

Alun Davies *rose*—

Nick Bourne: I was wondering how long it would be. I will give way in a second. That is what would cause a run on the currency and difficulties ahead. I give way to the regional Member for Blaenau Gwent.

Alun Davies: You mentioned United States policy, which is to continue the fiscal stimulus for at least another year, until the recovery is well under way and established. That was exactly the same policy as that of the previous Government.

Nick Bourne: If you look at the size of the US deficit, and I assume that you have, you will see that it is a smaller deficit than ours. He pointed out the dangers across the board of not dealing with the deficit.

Brian Gibbons *rose*—

Nick Bourne: I do not have time, Brian; I have nearly had 13 minutes. The US deficit is

ydym mewn twll dyfnach ym Mhrydain na bron yr un wlad arall yn y byd—ac yr ydym yn sicr mewn twll dyfnach na'r un economi ddatblygedig arall. Ni oedd y cyntaf o'r economïau mawr i fynd i mewn i ddirwasgiad, a ni oedd yr olaf i ddod allan ohono. Mae'r syniad am y dewin Gordon Brown, a roddodd ddyled o £1 triliwn inni, yn rhywbeth nad oedd yr etholwyr yn amlwg yn ei gredu adeg yr etholiad, ac nid ydynt yn ei gredu'n awr.

Nid ydym yn unigryw; mae gwledydd eraill yn wynebu problemau—Sbaen, yr Eidal a Gwlad Groeg—er imi wneud yn glir iawn fod y diffyg yn eu cyllideb hwy yn llai na'n diffyg ni, o'i gymharu â maint eu heconomïau. Mae'r G20 wedi cefnogi camau gweithredu George Osborne, a gwyddom fod y Comisiwn Ewropeaidd gynt wedi beirniadu'r Blaid Lafur yn hallt. Dywedodd nad oedd ei rhaglen ariannol yn gadarn ac nad oedd ei chynlluniau i ymdrin â'r diffyg yn ddigon uchelgeisiol. Mae'r Arlywydd Obama wedi rhybuddio pobl o beryglon peidio â lleihau'r diffyg yn ei wlad ei hun ac mewn mannau eraill. Mae hynny'n gwbl gywir.

Alun Davies *a gododd*—

Nick Bourne: Yr oeddwn yn dyfalu pryd y byddech yn codi. Ildiaf mewn eiliad. Dyna a fyddai'n achosi galw mawr am y bunt ac anawsterau yn y dyfodol. Ildiaf i'r Aelod rhanbarthol dros Flaenau Gwent.

Alun Davies: Yr oeddech yn sôn am bolisi'r Unol Daleithiau, sef parhau'r ysgogiad ariannol am flwyddyn arall, o leiaf, nes bydd yr adferiad wedi cael ei draed dano ac yn sefydlog. Yr un polisi'n union oedd gan y Llywodraeth flaenorol.

Nick Bourne: O edrych ar faint diffyg yr Unol Daleithiau, a chymeraf eich bod wedi gwneud hynny, fe welwch ei fod yn llai na'n diffyg ni. Tynnodd yr Arlywydd sylw at y peryglon cyffredinol o beidio ag ymdrin â'r diffyg.

Brian Gibbons *a gododd*—

Nick Bourne: Nid oes gennyf amser, Brian; yr wyf wedi cael bron i 13 munud. Mae

much smaller in proportion than ours. For Labour to try to shift the blame for these tough decisions onto an incoming Government is wrong. It is its profligacy, its recklessness and its general economic incompetence that has brought us to this state today, and that is one reason why it was voted out of office. By acting now with firmness and fairness, and protecting the vulnerable, we can rebuild our economy and secure the economic future of our nation.

The First Minister (Carwyn Jones): I move amendment 1 in the name of Jane Hutt. Delete all and replace with:

the National Assembly for Wales:

1. notes the United Kingdom's budget deficit and the ongoing discussions between the Welsh Assembly Government and the UK Government;

2. notes the need to secure clarity on the UK Government's proposals regarding public expenditure to enable effective decisions to be made in this financial year;

3. notes the need to ensure that the timing is right in relation to the proposed cuts in public spending and that if spending is cut too soon it would undermine the much-needed recovery and cost jobs;

4. regrets the failure of the UK Government to take account of the underfunding of Wales, as recognised by the Holtham commission, in proposing the cuts to public spending.

Mark Isherwood: Budget cuts do not make any Government popular and no Government cuts unless it has to. With Government debt rising by £4,500 every second, the Labour UK Government simply ran out of money. Without action, the UK Government will spend £4 for every £3 received in taxes. As anyone who has tried it will tell you, you cannot borrow your way out of debt. The UK has its biggest peace time budget deficit in a century—twice as big as any before. This week, the Prime Minister announced that, unless action is taken, the UK will be paying

diffyg yr Unol Daleithiau yn llai o lawer, o'i gymharu â'n diffyg ni. Mae'n amhriodol i'r Blaid Lafur geisio trosglwyddo'r bai am y penderfyniadau anodd hyn i Lywodraeth sydd newydd ddod i rym. Ei hafradlonedd, ei diofalwch a'i haflerwch economaidd cyffredinol hi sy'n gyfrifol am y sefyllfa yr ydym ynddi heddiw, a dyna un rheswm pam na chafodd ei haillethol. Drwy weithredu'n gadarn ac yn deg yn awr, ac amddiffyn pobl sy'n agored i niwed, gallwn ailadeiladu ein heconomi a sicrhau dyfodol economaidd ein gwlad.

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Cynigiai welliant 1 yn enw Jane Hutt. Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn nodi'r diffyg yng nghyllideb y Deyrnas Unedig a'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU;

2. yn nodi bod angen eglurder ynghylch cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer gwariant cyhoeddus er mwyn medru gwneud penderfyniadau effeithiol yn y flwyddyn ariannol hon;

3. yn nodi bod angen i'r amseriad ar gyfer y toriadau arfaethedig mewn gwariant cyhoeddus fod yn iawn ac os torrir gwariant yn rhy fuan tanseilir yr adferiad mawr ei angen gan arwain at golli swyddi;

4. yn gresynu at fethiant Llywodraeth y DU i ystyried y tanwariant yng Nghymru, fel y'i cydnabu gan gomisiwn Holtham wrth gynnig toriadau mewn gwariant cyhoeddus.

Mark Isherwood: Nid yw torri cyllidebau'n gwneud yr un Llywodraeth yn boblogaidd, ac nid yw'r un Llywodraeth yn gwneud toriadau onid oes raid. Gyda dyled y Llywodraeth yn cynyddu £4,500 bob eiliad, daeth arian Llywodraeth Lafur y DU i ben, yn syml iawn. Oni weithredir, bydd Llywodraeth y DU yn gwario £4 am bob £3 a gaiff mewn trethi. Bydd pawb sydd wedi ceisio dod allan o ddyled drwy fenthycy yn dweud wrthy ch nad yw'n bosibl gwneud hynny. Mae gan y DU ei diffyg mwyaf yn y gyllideb mewn cyfnod o heddwch mewn canrif—mae ddwywaith

£70 billion a year in debt interest by 2015—money better spent on schools, hospitals and key services in all parts of the UK. Without tackling the deficit, confidence in the British economy will fall, risking higher interest rates, mortgage payments, taxes and unemployment and killing economic recovery. Gordon Brown was alone in believing that he could defeat the economic cycle and break the economic rules he claimed to support by increasing borrowing when the economy and tax receipts were growing, thereby creating a debt crisis when fiscal stimulus was required as the economy slipped into recession. As we heard, the UK budget deficit this year is 12.8 per cent of GDP, greater than that of Spain, Greece, and the Euro area, all of which are having to make budget cuts. Perhaps Labour's most cynical act was to pretend that it was not already imposing massive cuts. It belatedly understood the consequences of the mess that it had created, but wanted others to carry the blame. The party doth protest too much, methinks.

3.50 p.m.

Brian Gibbons: Notwithstanding your figure on the deficit, you did not mention the public debt. The public debt in the United Kingdom is 91 per cent of GDP, compared with a figure of 95 per cent in the United States of America—which is the point that I wanted to make in an intervention Nick Bourne—and the eurozone average is 97 per cent. So, the actual level of debt as a proportion of GDP is less in the United Kingdom.

Mark Isherwood: The UK budget deficit this year is 12.8 per cent of GDP, higher than Spain, Greece and the eurozone, and we know what has happened to Greece in particular and about the threat to other parts of Europe, with massive intervention required by the Governments of the European Union and the eurozone. In fact, Labour's response is akin to thieves criticising their victims for

gymaint ag unrhyw ddiffyg a welwyd o'r blaen. Yr wythnos hon cyhoeddodd Prif Weinidog y DU y bydd y DU, oni weithredir, yn talu £70 biliwn y flwyddyn o log ar dyledion erbyn 2015—arian y gellid ei wario'n well ar ysgolion, ysbytai a gwasanaethau allweddol ym mhob rhan o'r DU. Onid eir i'r afael â'r diffyg, bydd hyder pobl yn economi Prydain yn lleihau, a allai arwain at gyfraddau llog, taliadau morgais, trethi a diweithdra uwch, a lladd adferiad economaidd. Gordon Brown oedd yn credu y gallai drechu'r cylch economaidd, a thorri'r rheolau economaidd yr honnai ei fod yn eu cefnogi drwy fenthyca mwy pan oedd yr economi a derbyniadau treth ar gynydd, gan greu argyfwng dyledion pan oedd angen ysgogiad ariannol wrth i'r economi lithro i ddirwasgiad. Fel y clywsom, mae'r diffyg yng nghyllideb y DU eleni yn 12.8 y cant o'r cynnyrch mewnwladol crynswth, sy'n uwch na'r diffyg yn Sbaen, Gwlad Groeg ac ardal yr Ewro, sydd i gyd yn gorfod torri eu cyllidebau. Efallai mai gweithred fwyaf sinigaidd y Blaid Lafur oedd smalio nad oedd eisoes yn gorfodi toriadau sylweddol. Deallodd, yn hwyr, ganlyniadau'r llangstr yr oedd wedi ei greu, ond yr oedd am i eraill gael y bai. Mae'r blaid yn protestio gormod, mi gredaf.

Brian Gibbons: Er gwaethaf eich ffigur ar gyfer y diffyg, ni soniasoch am y ddyled gyhoeddus. Mae'r ddyled gyhoeddus yn y Deyrnas Unedig yn 91 y cant o'r cynnyrch mewnwladol crynswth, o'i chymharu â ffigur o 95 y cant yn yr Unol Daleithiau—sef y pwynt yr oeddwn am ei wneud mewn ymyriad pan oedd Nick Bourne yn siarad—a 97 y cant yw'r cyfartaledd yn ardal yr ewro. Felly, mae lefel wirioneddol y ddyled fel cyfran o'r cynnyrch mewnwladol crynswth yn is yn y Deyrnas Unedig.

Mark Isherwood: Mae'r diffyg yng nghyllideb y DU eleni yn 12.8 y cant o'r cynnyrch mewnwladol crynswth, sy'n uwch na'r diffyg yn Sbaen, Gwlad Groeg ac ardal yr ewro, a gwyddom am yr hyn sydd wedi digwydd i Wlad Groeg yn benodol, ac am y bygythiad i rannau eraill o Ewrop, gyda'r angen i Lywodraethau'r Undeb Ewropeaidd ac ardal yr ewro ymyrryd i raddau helaeth

having less money to spend. *The Sunday Times* disclosed that the UK Labour Government was already cutting tens of thousands of nurses and midwives, social workers, teachers and police officers. Labour announced £1 billion of university cuts and £545 million of police cuts. In Wales, the Minister for Health and Social Services has told Welsh local health boards to cut nursing staff graded band 5 and above, while district nursing teams are being inundated with extra work without the higher staffing levels needed. In reality, current cuts in councils and colleges, housing and health are a result of the £400 million cut in the Welsh Government budget for this year imposed by the former UK Labour Government.

The new UK Government is now asking the Welsh Government to save less than the savings announced in every other UK Government spending area. With regard to the Holtham commission on the system of devolution funding, we support a needs-based alternative to the Barnett formula. However, Holtham has also highlighted the Scottish problem. In the BBC Scotland general election debate, it was the SNP and Labour that warned against a change in the system—a needs-based system was described as ‘an appalling idea’ by the SNP.

Despite a doubled devolved budget and billions in European funding, Wales has the lowest prosperity and the highest levels of unemployment and child poverty in the UK. One in three working-aged people in Wales is not in work and youth unemployment is at its highest level since records began. For a decade, success was measured by how much was spent. The focus now must be on how well it is spent. George Osborne has announced a public consultation on spending choices. Every spending programme will be scrutinised to establish whether it can be delivered more effectively by the private or voluntary sector. Welsh Government should

iawn. Mewn gwirionedd, mae ymateb y Blaid Lafur yn debyg i ladron yn beirniadu eu dioddefwyr am fod ganddynt lai o arian i'w wario. Datgelodd *The Sunday Times* fod Llywodraeth Lafur y DU wrthi eisoes yn dileu swyddi degau o filoedd o nyrsys a bydwagedd, gweithwyr cymdeithasol, athrawon a swyddogion heddlu. Cyhoeddodd y Blaid Lafur werth £1 biliwn o doriadau mewn prifysgolion a £545 miliwn o doriadau mewn heddluoedd. Yng Nghymru mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud wrth fyrrdau iechyd lleol Cymru am leihau nifer staff nyrsio band 5 ac uwch, tra caiff timau nyrsys ardal eu llethu gan waith ychwanegol heb y lefelau uwch o staff y mae eu hangen. Mewn gwirionedd, daw'r toriadau cyfredol mewn cynghorau a cholegau ac ym maes tai ac iechyd o ganlyniad i'r toriad gwerth £400 miliwn a orfodwyd yng nghyllideb Llywodraeth Cymru eleni gan gyn-Llywodraeth Lafur y DU.

Mae Llywodraeth newydd y DU bellach yn gofyn i Lywodraeth Cymru arbed llai na'r arbedion a gyhoeddwyd ym mhob un o feysydd gwario eraill Llywodraeth y DU. O ran comisiwn Holtham ar system ariannu datganoli, yr ydym yn cefnogi dewis gwahanol yn lle fformiwla Barnett yn seiliedig ar anghenion. Fodd bynnag, mae Holtham hefyd wedi tynnu sylw at broblem yr Alban. Yn nadl BBC yr Alban cyn yr etholiad cyffredinol, Plaid Genedlaethol yr Alban a'r Blaid Lafur a'n rhybuddiodd rhag newid y system—disgrifiodd Plaid Genedlaethol yr Alban system sy'n seiliedig ar anghenion fel syniad gwarthus.

Er gwaethaf cyllideb ddatganoledig a ddyblwyd, a biliynau mewn cyllid Ewropeaidd, yng Nghymru mae'r lefelau isaf o ffyniant a'r lefelau uchaf o ddiweithdra a thlodi plant yn y DU. Mae un unigolyn o oed gweithio o bob tri yng Nghymru yn ddi-waith, ac mae diweithdra ymhlith pobl ifanc ar ei lefel uchaf ers inni ddechrau cadw cofnodion. Am ddegawd mesurid llwyddiant yn ôl faint o arian a gâi ei wario. Bellach, rhaid canolbwyntio ar ba mor dda y caiff arian ei wario. Mae George Osborne wedi cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ar ddewisiadau gwario. Bydd pob rhaglen wario'n mynd drwy broses graffu i weld a all

do the same. Organisations ranging from independent hospices to housing associations and child poverty charities are ready, willing and able to deliver more.

Recent research by the University of Wales Institute, Cardiff confirmed that the Welsh economy is now the least competitive in the UK and that Wales is becoming ‘increasingly detached’. The Confederation of British Industry Wales has called for all Welsh Government departments to make economic growth top of their objectives, stating that:

‘growing the economy is too big a job to be left to the Department for the Economy and Transport alone’

and that

‘Welsh Assembly cabinet ministers should be twinned with anchor companies’

in Wales.

As David Cameron said this week,

‘the cuts that are coming are Labour’s cuts’—

The Deputy Presiding Officer: Order. Your time is up. I must remind Members that I have a very long list of speakers and that they have five minutes and five minutes only. Otherwise, people will not get a chance to speak.

Mark Isherwood: I took an intervention.

The Deputy Presiding Officer: Order. That was your choice.

Alun Davies: It has been quite a curious few weeks listening to the debate on public spending and the deficit. We have seen many things happen over the past few weeks. Frankly, we have seen the glint of joy in the eyes of some Tory Ministers, who now believe that they have an excuse—an excuse and not a reason—to make the sort of savage

y sector preifat neu’r sector gwirfoddol ei wneud yn fwy effeithiol. Dylai Llywodraeth y Cynulliad wneud yr un peth. Mae sefydliadau, o hosbisau annibynnol i gymdeithasau tai ac elusennau tlodi plant, yn barod ac yn awyddus ac yn abl i wneud mwy.

Cadarnhaodd ymchwil gan Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd yn ddiweddar mai economi Cymru yw economi leiaf cystadleuol y DU bellach, a bod Cymru’n dod yn wlad sydd wedi’i datgysylltu fwyfwy. Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru wedi galw ar bob un o adrannau Llywodraeth Cymru i sicrhau bod twf economaidd ar frig eu rhestr o amcanion, gan ddweud:

mae galluogi’r economi i dyfu yn ormod o waith i’w adael i’r Adran dros yr Economi a Thrafnidiaeth yn unig

ac y dylai

gweinidogion cabinet Cynulliad Cymru gael eu gefeillio â chwmnïau angori

yng Nghymru.

Fel y dywedodd David Cameron yr wythnos hon,

toriadau’r Blaid Lafur yw’r toriadau sydd ar ddod—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae eich amser ar ben. Rhaid imi atgoffa Aelodau fod gennyf restr hir iawn o siaradwyr, a bod ganddynt bum munud, a phum munud yn unig. Fel arall, ni chaiff pobl gyfle i siarad.

Mark Isherwood: Cymerais ymyriad.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Eich dewis chi oedd hynny.

Alun Davies: Mae’r wythnosau diwethaf wedio bod yn ddigon rhyfedd, o wrando ar y ddadl ar wariant cyhoeddus a’r diffyg. Yr ydym wedi gweld llawer o bethau’n digwydd yn ystod yr wythnosau diwethaf. A dweud y gwir, gwelsom yr awgrym lleiaf o orfoledd yn llygaid rhai Gweinidogion Toriaidd, sydd bellach yn credu bod ganddynt esgus—esgus

cuts to the public sector that will remould and reduce the size and power of the state, not simply for financial reasons, but for ideological reasons. We have seen a blizzard of publicity that clouds the debate, and we have seen the Lib Dems almost taken in by it. The sniff of power, the smell of those ministerial cars, was so overwhelming that they gave up everything they believed in, not six months ago, not a year ago, but a few weeks ago. They decided to go into Government with the Tories, and, since then, we have seen a series of excuses that the situation is much worse than they had realised. We have seen Ministers walking out of offices with sweat dripping from them, saying that it is worse than previously thought; they have cried in front of cameras. Unfortunately, the Conservatives probably did not listen this morning to Tim Harford from the *Financial Times* on the *Today* programme, who said that, actually, we knew all this months ago.

Cameron made a speech on Monday in which he used this figure of £70 billion, which has been used again this afternoon, saying that the situation is much worse, and that we will be spending far more on debt repayments—

Andrew R.T. Davies *rose*—

Alun Davies: Let me make my point. He said that the previous Government attempted to hide these figures and had simply said, ‘This is not happening’. However, every single figure tracked down by the *Financial Times* and every single figure available today, upon which the Government’s policies are based, was available before the general election. The single figure that was not available before the general election was the £70 billion figure published by the IFS and used by George Osborne in his own press releases before the general election campaign. I give way.

Andrew R.T. Davies: I am grateful to you for giving way. If the Labour Government was so confident of its figures and so robust in its transparency, why on earth did it delay

ac nid rheswm—i wneud y math o doriadau llym yn y sector cyhoeddus a fydd yn ail-lunio ac yn lleihau maint a phŵer y wladwriaeth, nid am resymau ariannol yn unig, ond am resymau ideolegol. Gwelsom storm o gyhoeddusrwydd sy’n cymylu’r ddadl, a gwelsom y Democratiaid Rhyddfrydol yn cael eu twyllo, bron. Yr oedd yr awgrym o rym, ac apêl ceir Gweinidogol, yn drech na hwy, ac anghofiwyd popeth yr oeddent yn credu ynddo, nid chwe mis yn ôl, nid flwyddyn yn ôl, ond rai wythnosau’n ôl. Penderfynwyd ffurfio Llywodraeth gyda’r Toriaid, ac ers hynny gwelsom gyfres o esgusodion fod y sefyllfa’n waeth o lawer nag a sylweddwyd. Gwelsom Weinidogion yn cerdded allan o swyddfeydd yn chwysu chwartiau, gan ddweud bod pethau’n waeth nag a gredent gynt; maent wedi wylo o flaen camerâu. Yn anffodus, mae’n debyg nad oedd y Ceidwadwyr yn gwranddo ar Tim Harford o’r *Financial Times* y bore yma ar raglen *Today*, a ddywedodd ein bod mewn gwirionedd yn gwybod hyn i gyd fisoedd yn ôl.

Rhoddodd Cameron araith ddydd Llun lle defnyddiodd y ffigur hwn o £70 biliwn, a ddefnyddiwyd eto’r prynhawn yma, gan ddweud bod y sefyllfa’n waeth o lawer ac y byddwn yn gwario mwy o lawer ar ad-dalu dyledion—

Andrew R.T. Davies *a gododd*—

Alun Davies: Gadewch imi wneud fy mhwynt. Dywedodd fod y Llywodraeth flaenorol wedi ceisio cuddio’r ffigurau hyn ac wedi dweud, yn syml iawn, ‘Nid yw hyn yn digwydd’. Fodd bynnag, yr oedd pob ffigur y cafodd y *Financial Times* afael arnynt, a phob ffigur sydd ar gael heddiw a pholisïau’r Llywodraeth yn seiliedig arnynt, ar gael cyn yr etholiad cyffredinol. Yr unig ffigur nad oedd ar gael cyn yr etholiad cyffredinol oedd y ffigur o £70 biliwn a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid a’i ddefnyddio gan George Osborne yn ei ddatganiadau ei hun i’r wasg cyn ymgyrch yr etholiad cyffredinol. Ildiaf.

Andrew R.T. Davies: Yr wyf yn ddiolchgar ichi am ildio. Os oedd y Llywodraeth Lafur mor hyderus am ei ffigurau ac mor gadarn yn ei thryloywder, pam ar y ddaear yr oeddodd

the comprehensive spending review and not offer its plans for the next three years during the election at which it was turned out of office?

Alun Davies: The Government's spending commitments were absolutely clear. One of the strange things that we have seen over the last few weeks is the figures from Alistair Darling's final budget. One thing that the Conservative leader did not mention in his opening speech was the fact that the deficit today is £11 billion lower than anticipated by Treasury forecasts at the time of Alistair Darling's final budget. The Liberals say, 'We are forced into Government with these terrible people in the national interest'. The reality is that it is basic self-interest, which has allowed Wales to be sold down the river by these people on the basis of either a false prospectus or, frankly, something that we knew before.

Then they forget the impact on Wales. We have been told by the Government that there will be cuts of around £160 million; the Government says, 'We have to do that; we have no choice'. How do we do it? What advice have we seen from the Liberals and the Tories? We had a glimpse of their thinking last week on *Dragon's Eye*, when we had the intellectual giants of Nick Ramsay and Kirsty Williams advising us on how we have to make these savings. What did they say? Remember that we have around £160 million to save. Kirsty says that the air link will save £1 million, and that child trust funds—they never really were committed to alleviating child poverty—will save another £2.5 million, consultants will be £8 million, and hire cars will be another £1 million. We still have another £150 million to go, Kirsty.

Then she thinks, 'Right; I've got it—we can get rid of all discretionary budgets. That is it: £70 million.' However, she does not understand, realise or tell people that under discretionary budgets comes the capital needed to renew critical equipment in the national health service. If she is really suggesting cutting that £70 million, she is talking about cutting spending in the national health service. That would probably affect

cyn cynnal yr adolygiad cynhwysfawr o wariant, a pheidio â chynnig ei chynlluniau ar gyfer y tair blynedd nesaf yn ystod yr etholiad pan gollodd ei grym?

Alun Davies: Yr oedd ymrwymadau gwariant y Llywodraeth yn gwbl glir. Un o'r pethau rhyfedd yr ydym wedi'u gweld yn ystod yr wythnosau diwethaf yw'r ffigurau o gyllideb derfynol Alistair Darling. Un peth na soniodd arweinydd y Ceidwadwyr amdano yn ei araith agoriadol oedd fod y diffyg heddiw £11 biliwn yn is nag a ragwelwyd gan ragolygon y Trysorlys adeg cyllideb derfynol Alistair Darling. Meddai'r Rhyddfrydwyr, 'Cawsom ein gorfodi i ffurfio Llywodraeth gyda'r bobl ofnadwy hyn er lles y wlad'. Y realiti yw mai budd personol ydyw yn y bôn, sydd wedi caniatáu i Gymru gael ei bradychu gan y bobl hyn ar sail prospectws ffug, neu rywbeth, a dweud y gwir, yr oeddem yn ei wybod eisoes.

Yna, maent yn anghofio'r effaith ar Gymru. Dywedodd y Llywodraeth wrthym y bydd toriadau o ryw £160 miliwn; medd y Llywodraeth, 'Rhaid inni wneud hynny; nid oes gennym ddewis'. Sut mae gwneud hynny? Pa gyngor a gawsom gan y Rhyddfrydwyr a'r Torïaid? Cawsom gipolwg ar eu ffordd o feddwl yr wythnos diwethaf ar *Dragon's Eye*, pan welsom y cewri deallusol, Nick Ramsay a Kirsty Williams, yn ein cynghori sut mae'n rhaid inni wneud yr arbedion hyn. Beth a ddywedwyd ganddynt? Cofiwch ei bod yn rhaid inni arbed oddeutu £160 miliwn. Dywed Kirsty y bydd y cyswllt awyr yn arbed £1 filiwn, ac y bydd cronfeydd ymddiriedolaeth plant—nid oeddent erioed wedi ymrwymo'n wirioneddol i leihau tlodi plant—yn arbed £2.5 filiwn arall, bydd ymgynghorwyr yn arbed £8 miliwn, a bydd llogi ceir yn arbed £1 filiwn arall. Mae £150 miliwn ar ôl eto, Kirsty.

Yna mae'n meddwl, 'Iawn, mi wn i—gallwn ddileu'r holl gyllidebau dewisol. Dyna ni: £70 miliwn'. Fodd bynnag, nid yw'n deall, yn sylweddoli neu'n dweud wrth bobl mai dan y cyllidebau dewisol hynny y daw'r cyfalaf y mae ei angen i adnewyddu offer hollbwysig yn y gwasanaeth iechyd gwladol. Os yw o ddifrif yn awgrymu torri'r £70 miliwn hwnnw, mae'n sôn am dorri gwariant yn y gwasanaeth iechyd gwladol. Mae'n

her constituents, but she did not say that. However, even with all those spending cuts, we do not get over £100 million.

Next we turn to Nick Ramsay. What would he cut? School breakfasts, of course. Thatcher took the milk and they would take the food. We know that. Prescriptions would be £30 million, but not for young people or for old people; so, possibly, that would not be £30 million. With Communities First, like the Liberals—

Andrew R.T. Davies: Will you take an intervention?

Alun Davies: I have taken one intervention from you. That is enough.

The Deputy Presiding Officer: Order. Can you wind up, please?

Alun Davies: If they cut Communities First, that would be £30 million and then waste, bonuses, hospitality and the rest of it would be £10 million. That does not make £100 million either. What we have is a false prospectus from this new Government—

The Deputy Presiding Officer: Order. Can you finish, please?

Alun Davies: When they are asked to make the cuts, they cannot do it themselves. That is a false prospectus and a false argument with which we are being faced this afternoon.

The Deputy Presiding Officer: Order. I am serious. I will stick to five minutes, because otherwise I will not get through everyone, which would be unfair. It will be five minutes with interventions.

Kirsty Williams: The challenge facing the public finances is almost unprecedented in modern times, and certainly in the political careers of everyone sitting in the Chamber. How it deals with that situation will be an absolute test of the new coalition Government in Westminster. It will be a test

debyg y byddai hynny'n effeithio ar ei hetholwyr, ond ni ddywedodd hynny. Fodd bynnag, hyd yn oed gyda'r holl doriadau hynny mewn gwariant, nid ydym yn cyrraedd dros £100 miliwn.

Nesaf, trown at Nick Ramsay. Beth fyddai ef yn ei dorri? Brecwast mewn ysgolion, wrth gwrs. Cipiodd Thatcher y llaeth, a byddent hwy'n cipio'r bwyd. Gwyddom hynny. Byddai presgripsiynau'n arbed £30 miliwn, ond nid yn achos pobl ifanc na phobl hŷn; felly, efallai na fyddai hynny'n £30 miliwn. Gyda Chymunedau yn Gyntaf, fel y Rhyddfrydwyr—

Andrew R.T. Davies: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Alun Davies: Yr wyf wedi derbyn un ymyriad gennych. Mae hynny'n ddigon.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A allwch ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

Alun Davies: Pe byddent yn torri Cymunedau yn Gyntaf, byddai hynny'n £30 miliwn, ac yna byddai gwastraff, taliadau bonws, lletygarwch a'r gweddill yn £10 miliwn. Nid yw hynny'n gwneud £100 miliwn ychwaith. Yr hyn sydd gennym yw prospectws ffug gan y Llywodraeth newydd hon—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A allwch offen, os gwelwch yn dda?

Alun Davies: Pan ofynnir iddynt wneud y toriadau, ni allant wneud hynny eu hunain. Prospectws ffug a dadl ffug sydd ger ein bron y prynhawn yma.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Yr wyf o ddifrif. Byddaf yn cadw at bum munud, oherwydd ni lwyddaf i gynnwys pawb fel arall, a byddai hynny'n annheg. Pum munud fydd, gydag ymyriadau.

Kirsty Williams: Mae'r her sy'n wynebu cyllid cyhoeddus yn her na welwyd mo'i thebyg bron yn yr oes sydd ohoni, ac yn sicr yng ngyrfa wleidyddol pawb sy'n eistedd yn y Siambr. Mae'r ffordd y bydd y Llywodraeth glymbleidiol newydd yn San Steffan yn ymdrin â'r sefyllfa yn brawf

for the Welsh Assembly Government in how it deals with that situation. Indeed, I would argue that it will be a test for us all, across the Assembly, in how we approach the very difficult task of trying to get the public finances back into some semblance of order. Failure to do that at Westminster or in Cardiff bay jeopardises the future of our nation and our services and, even more so, the people who work in those services delivering for us.

gwirioneddol arni. Bydd yn brawf ar Lywodraeth y Cynulliad, o ran y ffordd y bydd yn ymdrin â'r sefyllfa. Yn wir, byddwn yn dadlau y bydd yn brawf arnom i gyd, ar draws y Cynulliad, yn y ffordd yr awn i'r afael â'r dasg anodd iawn o geisio cael rhyw fath o drefn ar gyllid cyhoeddus. Bydd methu â gwneud hynny yn San Steffan neu ym mae Caerdydd yn peryglu dyfodol ein gwlad a'n gwasanaethau, ac yn fwy na hynny, yn peryglu dyfodol y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny ac yn darparu ar ein cyfer.

4.00 p.m.

As Lord Myners said only yesterday, there is nothing progressive about a Government that consistently spends more than it raises in tax. There is nothing progressive about a Government that mortgages the future of our younger generations to pay for what we are doing today. Undoubtedly, part of the reason why we face this is the Government's response to the international credit crunch. Indeed, I would argue that, in many ways, the need to pour billions of pounds into supporting the financial sector in Britain saved us from the kind of depression that we saw the last time that the markets went into this kind of spasm, which was in the 1920s. It was the right thing to do. However, behind that lies a fiscal policy pursued by the last Government, which did nothing to look at the sustainability of its finances or the issue of debt, either at a governmental or personal level.

Fel y dywedodd yr Arglwydd Myners ddoe ddiwethaf, nid oes dim byd blaengar ynghylch Llywodraeth sy'n gyson yn gwario mwy nag y mae'n ei gael mewn trethi. Nid oes dim byd blaengar ynghylch Llywodraeth sy'n morgeisio dyfodol ein cenedlaethau iau i dalu am yr hyn a wnawn ni heddiw. Heb os, rhan o'r rheswm pam yr ydym yn wynebu'r sefyllfa hon yw ymateb y Llywodraeth i'r wasgfa gredyd ryngwladol. Yn wir, ar lawer ystyr byddwn yn dadlau bod yr angen i arllwys biliynau o bunnoedd i gefnogi'r sector ariannol ym Mhrydain wedi ein hachub rhag y math o ddirwasgiad a welsom y tro diwethaf pan gafodd y farchnad bwl fel hyn, yn yr 1920au. Dyna oedd y peth cywir i'w wneud. Fodd bynnag, y tu ôl i hynny mae polisi ariannol gan y Llywodraeth ddiwethaf na wnaeth ddim i ystyried cynaliadwyedd ei chyllid na dyled, ar lefel lywodraethol na phersonol.

It has been interesting, over the past three weeks, to listen to people in the Labour Party and in Plaid who have tried to say that the determination by the Government to do something about the deficit would not exist were there another Government in Westminster. That is perhaps inevitable. The reality is that the Labour Party, in its manifesto, committed to a deficit reduction package of at least £20 billion a year on top of this year's reduction of £15 billion. Liam Byrne, the then Chief Secretary to the Treasury, said that the deficit would have to fall from £178 billion this year to £96 billion in 2013-14. Therefore, it is simply disingenuous for Labour Members to sit here and to pretend that were they in Government

Yn ystod y tair wythnos diwethaf bu'n ddi-ddorol gwrando ar bobl yn y Blaid Lafur a Phlaid Cymru sydd wedi ceisio dweud na fyddai agwedd benderfynol y Llywodraeth i wneud rhywbeth ynghylch y diffyg yn bodoli pe bai Llywodraeth arall yn San Steffan. Efallai fod hynny'n anochel. Y realiti yw fod y Blaid Lafur, yn ei maniffesto, wedi ymrwymo i sicrhau pecyn gwerth o leiaf £20 biliwn y flwyddyn i leihau'r diffyg, ar ben y gostyngiad eleni o £15 biliwn. Dywedodd Liam Byrne, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ar y pryd, y byddai'n rhaid i'r diffyg ostwng o £178 biliwn eleni i £96 biliwn yn 2013-14. Felly, mae Aelodau'r Blaid Lafur yn anonest wrth eistedd yma a smalio, pe baent mewn Llywodraeth yn San Steffan—ac mae

in Westminster—and there is a good reason why they are not—they would not be looking at deficit reduction. Plaid's Eurfyl ap Gwilym has also said that Plaid recognised that, given the parlous state of public finances following 13 years of Labour Government, there would have to be cuts and Wales would have to share in those cuts. Therefore, no-one, unless he or she is determined to delude himself or herself, thinks that any political party, whatever its colour or political persuasion, could avoid the circumstances that we now face.

I recognise the challenge faced by the Welsh Assembly Government in trying to find in-year savings in a budget that has been announced already. I recognise that it feels that it needs additional time and information from the Treasury before it can decide whether to implement those cuts this year or to defer them to next year. It is its right as the Government to do just that. I trust that after the meeting with the Chief Secretary to the Treasury today the Government will be in a position to make clear its intentions. It will be for the Government to choose how it handles this situation in Wales. It cannot dodge that responsibility by simply saying that it belongs to another place and that it is someone else's fault.

Turning to the issue of Holtham, much has been said, and it is mentioned in the amendment today, about the Government in Westminster not acknowledging the issue. However, the Government does acknowledge Holtham's findings, and is committed to doing something about them. That may not happen as quickly as this Government would like, but given that you had 13 years to reform the Barnett formula when you were in charge in London, and that, as late as February, you were saying that you were not going to do it, it is a pretty rich lesson and one that I will not accept.

Gareth Jones: Croesawaf y drafodaeth a'r cyfle i gyfrannu. Cyn imi ymhelaethu ar fanylder, neu ddiffyg manylder, y toriadau, dylem osod y ddatl hon yn ei chyd-destun. Mae'n berffaith glir yn awr—mae consensws—nad ydym yn cael ein cyllido yn

rheswm da pam nad ydynt—na fyddent yn ystyried lleihau'r diffyg. Mae Eurfyl ap Gwilym o Blaid Cymru hefyd wedi dweud bod Blaid Cymru yn cydnabod, o ystyried sefyllfa enbyd cyllid cyhoeddus yn dilyn 13 blynedd o Lywodraeth Lafur, y byddai'n rhaid cael toriadau ac y byddai'n rhaid i Gymru ysgwyddo'i rhan o'r toriadau hynny. Felly, nid oes neb yn credu, oni bai bod rhywrai'n benderfynol o'u twyllo'u hunain, y gallai'r un blaid wleidyddol, beth bynnag fo'i lliw neu ei chred wleidyddol, osgoi'r amgylchiadau sy'n ein hwynebu'n awr.

Yr wyf yn cydnabod yr her sy'n wynebu Llywodraeth y Cynulliad wrth geisio dod o hyd i arbedion yn ystod y flwyddyn hon mewn cyllideb a gyhoeddwyd eisoes. Yr wyf yn cydnabod ei bod yn teimlo bod arni angen amser a gwybodaeth ychwanegol gan y Trysorlys cyn y gall benderfynu a ddylid gweithredu'r toriadau hynny eleni ynteu eu gohirio tan y flwyddyn nesaf. Mae hawl ganddi fel Llywodraeth i wneud hynny. Ar ôl y cyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys heddiw, hyderaf y bydd y Llywodraeth mewn sefyllfa i egluro'i bwriadau. Y Llywodraeth fydd yn dewis sut i ymdrin â'r sefyllfa hon yng Nghymru. Ni all osgoi'r cyfrifoldeb hwnnw drwy ddweud, yn syml iawn, mai cyfrifoldeb rhywun arall ydyw, neu mai rhywun arall sydd ar fai.

I droi at fater Holtham, soniwyd llawer am y Llywodraeth yn San Steffan yn gwrthod cydnabod y mater, a sonnir am hynny yn y gwelliant heddiw. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth yn cydnabod darganfyddiadau Holtham, ac mae wedi ymrwymo i wneud rhywbeth yn eu cylch. Mae'n bosibl na fydd hynny'n digwydd mor gyflym ag a ddymuna'r Llywodraeth hon, ond o ystyried ichi gael 13 blynedd i ddiwygio fformiwla Barnett pan oeddech mewn grym yn Llundain, a'ch bod, mor ddiweddar â mis Chwefror, yn dweud nad oeddech yn bwriadu gwneud hynny, mae'n wers ddigywilydd ac nid wyf am ei derbyn.

Gareth Jones: I welcome the discussion and the opportunity to contribute. Before I go into the detail, or the lack of detail, about the cuts, we should place this debate in its context. It is perfectly clear now—there is consensus—that we are not funded fairly in Wales. We

deg yng Nghymru. Yr ydym eisoes wedi clywed ymateb Nick Bourne, ac yr ydym yn derbyn nad yw'n flaenoriaeth mwyach. Yn wir, ategwyd hynny gan Danny Alexander ddoe, pan ddywedwyd mai gwella'r diffyg ariannol yw'r flaenoriaeth ac nid edrych ar sut y mae Cymru'n cael ei hariannu.

Gadewch inni ofyn i'n hunain pam mae'r sector cyhoeddus mor bwysig i Gymru. Pan benderfynodd y Llywodraethau yn Llundain, Llafur a'r Ceidwadwyr, gau diwydiannau traddodiadol, gan adael i'r sector gweithgynhyrchu ddirywio—dyna sydd wedi digwydd—nid oedd awydd ganddynt roi rhaglenni ar waith i helpu pobl i waith newydd na datblygu polisiau economaidd rhanbarthol i gymryd lle'r hen ddiwydiannau. Nid oedd ganddynt awydd ychwaith i greu'r fath bethau â rhaglenni ProAct a ReAct bryd hynny. Yn wir, taflwyd unigolion, teuluoedd a chymunedau cyfan ar domen anobaith.

Darren Millar: Will you take an intervention?

Gareth Jones: Not at this point.

Mae pobl Cymru'n ddibynnol ar y sector cyhoeddus gan fod Llywodraethau yn Llundain wedi difa ein diwydiannau traddodiadol heb greu cyfleoedd mewn sectorau newydd a heb gefnogi'r sector gweithgynhyrchu. Mae hynny'n amlwg ac yn ddealladwy i bob un ohonom. Hanes yw hynny erbyn hyn. Yr ydym yn awr yn wynebu dyled genedlaethol enfawr a'r perygl o ddirwasgiad arall.

We all recognise that cutting the deficit by decreasing expenditure is necessary—indeed, it is unavoidable. I welcome the scrapping of ID cards, which was an initiative that Plaid Cymru opposed consistently for years. I hope that the UK Government will consider the wider implications of cuts for local economies, small businesses and families. That is the very point that Nick Bourne made at the outset: we should not underestimate what is involved. However, I think that we are underestimating it, and I will try to explain why.

A few months ago, the Enterprise and Learning Committee took evidence on the

have heard Nick Bourne's response already, and we accept that it is no longer a priority. Indeed, that was endorsed by Danny Alexander yesterday, when he said that improving the deficit is the priority, not looking at how Wales is funded.

Let us ask ourselves why the public sector is so important in Wales. When Governments in London, both Labour and Conservative, decided to close traditional industries, leaving the manufacturing sector to decline—that is what has occurred—they had no desire to put in place programmes to help people into new employment or to develop regional economic policies to take the place of the old industries. They had no desire either to create programmes such as ProAct and ReAct at that time. Indeed, individuals, families and whole communities were thrown onto the heap of despair.

Darren Millar: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Gareth Jones: Na wnaif, ddim ar hyn o bryd.

The people of Wales are dependent on the public sector because Governments in London have destroyed our traditional industries without creating opportunities in new sectors and without supporting the manufacturing sector. That is evident to all of us. That is now history. We now face a huge national debt and the danger of another recession.

Yr ydym i gyd yn cydnabod ei bod yn angenrheidiol lleihau'r diffyg drwy leihau gwariant—yn wir, mae'n anorfod. Croesawaf y cynnig i ddileu cardiau adnabod, menter a wrthwynebwyd yn gyson gan Blaid Cymru am flynyddoedd. Gobeithio y bydd Llywodraeth y DU yn ystyried goblygiadau ehangach y toriadau i economïau lleol, busnesau bach a theuluoedd. Dyna'r union bwynt a wnaeth Nick Bourne ar y dechrau: ni ddylem fychanu'r hyn sydd dan sylw. Fodd bynnag, credaf ein bod yn ei fychanu, ac yr wyf am geisio esbonio pam.

Rai misoedd yn ôl, cafodd y Pwyllgor Menter a Dysgu dystiolaeth am werth buddsoddi

value of investment in higher education. Experts in the field made it clear to us that the wider economic benefits of investment in HE are felt by entire communities, even by those not directly involved in the sector. We were informed that for every £1 million invested in higher education, the local economy benefits from around £5.4 million. Look at the reverse of that. We are talking about a disinvestment, a cut, in the region of £200 million. That translates to a loss of £1 billion in the local economy if you accept those figures in relation to higher education. That is what is happening; we are cutting, we are disinvesting—[*Interruption.*] Oh yes we are, and there will be a knock-on effect that nobody has talked about. We have not heard anything from the Tories about it. It is vital that you assess that; it is vital that you address that issue, because you are doing a disservice to the people of Wales.

The Conservatives cannot claim to be the party of business, especially of small businesses, if it is making cuts that could bring local economies and local businesses to their knees. Unfortunately, it seems that their coalition partners will be unable to prevent such devastating and ill-judged cuts. Indeed, the once revered Vince Cable said:

‘The British economy has had a massive heart attack—it has just emerged from the intensive-care unit into the recovery ward. The worst possible action is the Tory proposal to pull out the drip-feed when the patient is still in a critical condition.’

The Deputy Presiding Officer: Order. Please wind up. Your time is up.

Gareth Jones: I agreed with him then, but it seems that he no longer agrees with himself.

4.10 p.m.

Mohammad Asghar: The figures that you heard from Nick Bourne and Mark Isherwood are indeed grim. The national budget deficit is staggering. If this issue is not addressed, confidence in the United Kingdom’s

mewn addysg uwch. Dywedodd arbenigwyr yn y maes yn glir wrthym fod cymunedau cyfan, hyd yn oed y bobl nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â’r sector, yn teimlo’r manteision economaidd ehangach o fuddsoddi mewn addysg uwch. Am bob £1 filiwn a fuddsoddir mewn addysg uwch, fe’n hysbyswyd bod yr economi leol yn elwa o ryw £5.4 miliwn. Ystyriwch y gwrthwyneb i hynny. Yr ydym yn sôn am ddadffuddsoddi, torri o ryw £200 miliwn. Mae hynny’n gyfwerth â cholled o £1 biliwn yn yr economi leol os derbyniwch y ffigurau hynny ar addysg uwch. Dyna sy’n digwydd: yr ydym yn torri, yr ydym yn dadffuddsoddi—[*Torri ar draws.*] Ydym, yr ydym, a bydd yn arwain at effaith nad oes neb wedi sôn amdani. Ni chlywsom air amdani gan y Torïaid. Mae’n hanfodol ichi asesu hynny; mae’n hanfodol ichi fynd i’r afael â’r mater hwnnw, oherwydd yr ydych yn gwneud anghymwynas â phobl Cymru.

Ni all y Ceidwadwyr honni mai eu plaid hwy yw’r blaid dros fusnesau, yn enwedig busnesau bach, os yw’n gwneud toriadau a allai wanychu economïau lleol a busnesau lleol. Yn anffodus, ymddengys na fydd euartneriaid yn y glymblaid yn gallu atal toriadau mor ddinistriol ac annoeth. Yn wir, dywedodd Vince Cable a oedd mor uchel ei barch ar un adeg:

Mae economi Prydain wedi cael trawiad enfawr ar y galon—mae newydd ddod allan o’r uned gofal dwys i’r ward wella. Y weithred waethaf posibl yw cynnig y Torïaid i ddatgysylltu’r diferwr a’r claf yn dal mewn cyflwr difrifol.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda? Mae eich amser ar ben.

Gareth Jones: Yr oeddwn yn cytuno ag ef bryd hynny, ond ymddengys nad yw bellach yn cytuno ag ef ei hun.

Mohammad Asghar: Mae’r ffigurau a glywsoch gan Nick Bourne a Mark Isherwood yn wirioneddol arswydus. Mae’r diffyg yn y gyllideb genedlaethol yn syfrdanol. Os nad eir i’r afael â’r mater hwn,

economy among investors, whether overseas or elsewhere, will fade, and we risk a rapid rise in interest rates, which could have a dangerous impact on the United Kingdom and Wales. The current situation risks world markets losing confidence in the UK, while the rising cost of our borrowing could choke any economic recovery. The interest on the debt alone will reach £45 billion this year. That figure is three times the Welsh budget. Estimates suggest that interest payments could reach an annual level of £70 billion within five years—

Leanne Wood: Will you take an intervention?

Mohammad Asghar: No, sorry. That is enough money to fund the NHS in Wales for 14 years. With that in mind, I welcome the quick work of the UK Government in highlighting this issue and earmarking it as a top priority. Over the next year, £5.7 billion of net public savings will be made.

As Herbert Hoover once said—I think that it was a joke but it is becoming a reality—blessed are the young for they shall inherit the national debt. Many independent economists and business leaders have given their full backing to the direction taken by the new coalition Government in London in public savings. Robert Lloyd Griffiths, director of the Institute of Directors Wales, says that the UK Government is right to identify deficit reduction as its top priority. The EU Commission has also said that the Labour Party's pre-election proposals for dealing with the deficit were not ambitious enough. Alun should note that. It is a sad fact that tough and immediate measures are required to sort out the economic mess that Labour has given to this country as a present.

In Wales, the net reduction to our budget will be £163 million. For every £100 spent by the Welsh Assembly Government, just £1 will need to be saved. Wales must make savings that are considerably smaller than nearly every other Government department at

bydd hyder buddsoddwyr, dramor neu rywle arall, yn economi'r Deyrnas Unedig yn lleihau, a gallem weld cynnydd cyflym mewn cyfraddau llog, a allai gael effaith beryglus ar y Deyrnas Unedig a Chymru. Gallai'r sefyllfa bresennol olygu bod marchnadoedd y byd yn colli hyder yn y DU, a gallai cost gynyddol ein benthyciadau dagu unrhyw adferiad economaidd. Bydd y llog ar y ddyled yn unig yn £45 biliwn eleni. Mae'r ffigur hwnnw deirgwaith cymaint â chyllideb Cymru. Mae amcangyfrifon yn awgrymu y gallai taliadau llog gyrraedd lefel flynyddol o £70 biliwn ymhén pum mlynedd—

Leanne Wood: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Mohammad Asghar: Na wnafl, mae'n flin gennyf. Mae hynny'n ddigon o arian i gyllido'r GIG yng Nghymru am 14 blynedd. O gofio hynny, croesawaf waith cyflym Llywodraeth y DU yn tynnu sylw at y mater hwn a'i glustnodi'n brif flaenoriaeth. Yn ystod y flwyddyn nesaf, gwneir £5.7 biliwn o arbedion cyhoeddus net.

Fel y dywedodd Herbert Hoover un tro—credaf mai jôc ydoedd, ond mae'n dod yn realiti—gwyn eu byd y bobl ifanc, oherwydd byddant yn etifeddu'r ddyled genedlaethol. Mae nifer o economegwyr ac arweinwyr busnes annibynnol wedi cefnogi'n llawn y cyfeiriad y mae'r Llywodraeth glymbleidiol newydd yn Llundain wedi mynd iddo o ran arbedion cyhoeddus. Mae Robert Lloyd Griffiths, cyfarwyddwr Sefydliad y Cyfarwyddwyr Cymru, yn dweud bod Llywodraeth y DU yn iawn i nodi gostyngiad yn y diffyg fel prif flaenoriaeth. Mae Comisiwn yr Undeb Ewropeaidd hefyd wedi dweud nad oedd cynigion y Blaid Lafur cyn yr etholiad ar gyfer mynd i'r afael â'r diffyg yn ddigon uchelgeisiol. Dylai Alun nodi hynny. Mae'n ffaith drist fod angen mesurau llym ar unwaith i roi trefn ar y llanastr economaidd a roddodd y Blaid Lafur yn anrheg i'r wlad hon.

Yng Nghymru, y gostyngiad net yn ein cyllideb fydd £163 miliwn. Am bob £100 a gaiff ei wario gan Lywodraeth y Cynulliad, dim ond £1 fydd angen ei harbed. Rhaid i Gymru wneud arbedion sy'n llai o lawer na bron pob adran arall o'r Llywodraeth yn San

Westminster, but we must still play an essential role in bringing down the deficit. What is worrying is that it appears that meaningful contingency plans have not have been made—

Bethan Jenkins: Will you take an intervention?

The Deputy Presiding Officer: He is not taking an intervention.

Mohammad Asghar: I repeat that what is worrying is that it appears that meaningful contingency plans have not been made by the Welsh Assembly Government in anticipation of a new Government at Westminster. That is despite Welsh Ministers having used Plenary meetings weekly to promote fear among Members and the public outside about the cuts that a Conservative-led Government might introduce. Such a lack of planning is deeply concerning.

I would like to focus quickly on point 2 in the amendment tabled to the motion, which highlights a desire to secure clarity on the UK Government's proposals regarding public expenditure. I believe that the new Government at Westminster has already shown tremendous transparency and openness—which Labour totally lacked in Government—in dealing with the issue of public expenditure and cuts and that it will continue to do so. The Minister for Business and Budget was scheduled to meet the Chief Secretary of the Treasury today. After only a matter of weeks, the public has already been made far more aware of exactly where its money is being spent. More Government data are already available online, meaning people can obtain more information about the way that their taxes are being spent.

The Deputy Presiding Officer: Can you wind up, please?

Mohammad Asghar: I welcome the steps taken so far and hope that we can all work together to ensure that the deficit is reduced in a way that strengthens and unites the country.

Steffan, ond rhaid inni barhau i chwarae rôl hanfodol yn y gwaith o leihau'r diffyg. Yr hyn sy'n peri pryder yw ei bod yn ymddangos na wnaed cynlluniau ystyrllon wrth gefn—

Bethan Jenkins: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Y Dirprwy Lywydd: Nid yw am dderbyn ymyriad.

Mohammad Asghar: Dywedaf eto mai'r hyn sy'n peri pryder yw'r ffaith yr ymddengys na wnaed cynlluniau ystyrllon wrth gefn gan Lywodraeth y Cynulliad, wrth ddisgwyl Llywodraeth newydd yn San Steffan. Mae hynny er bod Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r cyfarfodydd Llawn bob wythnos i greu ofn ymhlith yr Aelodau a'r cyhoedd am y toriadau y gallai Llywodraeth dan arweiniad y Ceidwadwyr eu cyflwyno. Mae diffyg cynllunio o'r fath yn peri pryder sylweddol.

Hoffwn ganolbwyntio'n gyflym ar bwynt 2 yn y gwelliant a gyflwynwyd i'r cynnig, sy'n tynnu sylw at yr awydd am eglurder ynghylch cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer gwariant cyhoeddus. Credaf fod y Llywodraeth newydd yn San Steffan eisoes wedi dangos tryloywder a gonestrwydd eithriadol—nad oedd i'w gweld gan y Blaid Lafur o gwbl—wrth ymdrin â gwariant cyhoeddus a thoriadau, a chredaf y bydd yn dal i wneud hynny. Trefnwyd i'r Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb gyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys heddiw. Ar ôl ychydig wythnosau'n unig, mae'r cyhoedd eisoes lawer yn fwy ymwybodol o ble'n union y mae ei arian yn cael ei wario. Mae mwy o ddata'r Llywodraeth eisoes ar gael ar-lein, sy'n golygu y gall pobl gael mwy o wybodaeth am y ffordd y mae eu trethi'n cael eu gwario.

Y Dirprwy Lywydd: A allwch ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

Mohammad Asghar: Croesawaf y camau a gymerwyd hyd yn hyn, a gobeithio y gall pob un ohonom gydweithio i sicrhau y caiff y diffyg ei leihau mewn modd sy'n cryfhau ac yn uno'r wlad.

Rhodri Morgan: When the Labour Government left office a month ago, it had demonstrated that it had helped to weather the worst financial storm that this country had seen since the 1930s. What we now face is an unsustainable level of public debt—we all know that—but the question is: how do you tackle that without endangering the economy and going into a double dip recession? There is a half decent economic recovery going on in the UK; do not take my word for it—that is a quote from the chief economist of Goldman Sachs—and the Emirates order for 32 A380 aeroplanes, an \$11 billion order that was announced yesterday, of which we will probably see \$2 billion-worth in Wales to provide the wings, will continue that half-decent economic recovery. However, what about the public sector deficit reduction? How do you do it without endangering that half-decent economic recovery or engendering a double-dip recession? You can certainly promote greater efficiency in public spending, as was said by Lord Myners, who did a Clare Short yesterday in the House of Lords—he will learn that it is better to do it like the late Robin Cook rather than Clare Short, but he has done it now. He said that you should concentrate on eliminating waste in Government, which is true; however, eliminating the Future Jobs fund is not eliminating waste, but rather eliminating an opportunity—

Darren Millar: Will you give way?

Rhodri Morgan: In a second or two.

Peter Black *rose*—

Rhodri Morgan: He was concentrating on saying that waste has to be eliminated. We all agree with that; I said it in relation to re-engineering public services when I was the First Minister. However, getting rid of the Future Jobs fund is not about improving efficiency or getting rid of waste; it is about cutting front-line services and attacking the very things that we saw all those crocodile tears about from politicians in the Chamber and elsewhere during the election campaign, including Kirsty Williams, who said that youth unemployment was a scourge and that we should do something about it. The Labour

Rhodri Morgan: Pan adawodd y Blaid Lafur y Llywodraeth fis yn ôl, yr oedd wedi dangos iddi helpu pobl i ddod drwy'r storm ariannol waethaf a welodd y wlad hon ers yr 1930au. Yr hyn sy'n ein hwynebu'n awr yw lefel anghynaliadwy o ddyled gyhoeddus—gwyddom i gyd hynny—ond y cwestiwn yw: sut mae mynd i'r afael â hynny heb beryglu'r economi ac achosi ail ddirwasgiad? Mae adferiad economaidd eithaf da ar droed yn y DU; peidiwch â chymryd fy ngair i'n unig—mae'n ddyfyniad gan brif economegydd Goldman Sachs—a bydd archeb Emirates am 32 o awyrennau A380 gwerth \$11 biliwn a gyhoeddwyd ddoe ac a fydd, fwy na thebyg, yn golygu y gwelwn werth \$2 biliwn ohono yng Nghymru i ddarparu'r adenydd, yn parhau'r adferiad economaidd eithaf da hwnnw. Fodd bynnag, beth am leihau diffyg y sector cyhoeddus? Sut mae gwneud hynny heb beryglu'r adferiad economaidd eithaf da hwnnw neu achosi ail ddirwasgiad? Yn sicr, gallwch hybu gwell effeithlonrwydd mewn gwariant cyhoeddus, fel y dywedodd yr Arglwydd Myners, a oedd yn swnio fel Clare Short ddoe yn Nhŷ'r Arglwyddi—bydd yn dysgu ei bod yn well swnio'n debycach i'r diweddar Robin Cook na Clare Short, ond mae wedi gwneud hynny bellach. Dywedodd y dylech ganolbwyntio ar ddileu gwastraff mewn Llywodraeth, sy'n wir. Fodd bynnag, nid yw dileu cronfa Swyddi'r Dyfodol yn fodd i ddileu gwastraff, ond yn fodd i ddileu cyfle—

Darren Millar: A wnewch chi ildio?

Rhodri Morgan: Mewn eiliad neu ddau.

Peter Black *a gododd*—

Rhodri Morgan: Yr oedd yn canolbwyntio ar ddweud ei bod yn rhaid dileu gwastraff. Yr ydym i gyd yn cytuno â hynny; dywedais innau hynny yng nghyswllt ail-lunio gwasanaethau cyhoeddus pan oeddwn yn Brif Weinidog. Fodd bynnag, nid oes a wnelo dileu cronfa Swyddi'r Dyfodol â gwella effeithlonrwydd neu ddileu gwastraff; mae a wnelo â thorri gwasanaethau rheng flaen ac ymosod ar yr union bethau a achosodd yr holl ffug-ddagrau a welsom gan wleidyddion yn y Siambr ac mewn mannau eraill yn ystod yr ymgyrch etholiadol, gan gynnwys Kirsty Williams. Dywedodd hi fod diweithdra

Government was doing something about it, but the new Government has chopped the Future Jobs fund. I will take an intervention from Darren Millar.

Darren Millar: Thank you for giving way. You are now saying that you want to tackle waste; do you therefore regret the opposition of your party to our plans to introduce £6 billion-worth of cuts to tackle waste immediately after the general election? That is what that £6 billion-worth of cuts will tackle, namely waste that was already identified by the previous UK Government that it was not prepared to tackle.

Rhodri Morgan: That is complete bilge. I have just been making the point that you are now talking about cutting the Future Jobs fund, which has nothing to do with efficiency; it is a front-line service.

Peter Black *rose*—

Rhodri Morgan: In the remaining time that is available, I must ask my Liberal Democrat and Conservative colleagues how they can help. Can they help to persuade their Government not to do more of that kind of nonsense, thereby preventing cuts to the Future Jobs fund? What is under threat? We know that the previous Labour Government agreed to guarantee a European Investment Bank loan to Ford that would cover expanding the Bridgend, Dagenham and Southampton plants. Can they tell us whether they will be able to secure the go-ahead for that guarantee of the EIB loan, which would enable a £1.5 billion investment by Ford to proceed over the next five years? They say that they want to see the economy changing to become a more manufacturing-based economy. Can they tell us whether they will help us on that?

Then there is the future rapid effect system specialist vehicle contract for the Scimitar replacement. The troops in Afghanistan need it, it ticks all the boxes and it will create at

ymhlith pobl ifanc yn bla ac y dylem wneud rhywbeth yn ei gylch. Yr oedd y Llywodraeth Lafur yn gwneud rhywbeth yn ei gylch, ond mae'r Llywodraeth newydd wedi dileu cronfa Swyddi'r Dyfodol. Derbyniaf ymyriad gan Darren Millar.

Darren Millar: Diolch am ildio. Yr ydych yn dweud yn awr eich bod am fynd i'r afael â gwastraff; felly, a ydych yn gresynu fod eich plaid wedi gwrthwynebu ein cynlluniau ni ar gyfer gwerth £6 biliwn o doriadau i fynd i'r afael â gwastraff yn syth ar ôl yr etholiad cyffredinol? Bydd y £6 biliwn hwnnw o doriadau'n mynd i'r afael â gwastraff a oedd wedi'i nodi eisoes gan Lywodraeth flaenorol y DU, nad oedd yn fodlon mynd i'r afael ag ef.

Rhodri Morgan: Nonsens llwyr yw hynny. Yr wyf newydd wneud y pwynt eich bod bellach yn sôn am dorri cronfa Swyddi'r Dyfodol, nad oes a wnelo o gwbl ag effeithlonrwydd; gwasanaeth rheng flaen ydyw.

Peter Black *a gododd*—

Rhodri Morgan: Yn yr amser sy'n weddill, rhaid imi ofyn i'm cyd-Aelodau ymhlith y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr sut y gallant helpu. A allant helpu darbwyllo'u Llywodraeth i beidio â gwneud mwy o'r math hwnnw o nonsens, ac atal toriadau yng nghronfa Swyddi'r Dyfodol? Beth sy'n cael ei fygwth? Gwyddom i'r Llywodraeth Lafur flaenorol gytuno i warantu benthyciad Banc Buddsoddi Ewrop i Ford, a fyddai'n galluogi'r cwmni i ehangu ffatrioedd Pen-y-bont ar Ogwr, Dagenham a Southampton. A allant ddweud wrthym a fyddant yn gallu sicrhau bod modd i'r warant honno o fenthyciad Banc Buddsoddi Ewrop barhau, a fyddai'n galluogi buddsoddiad o £1.5 biliwn gan Ford i fynd rhagddo yn ystod y pum mlynedd nesaf? Dywedant eu bod am weld yr economi'n newid i fod yn economi sy'n fwy seiliedig ar weithgynhyrchu. A allant ddweud wrthym a fyddant yn ein helpu o ran hynny?

Yna, mae contract y cerbydau arbenigol ar gyfer system effaith gyflym y dyfodol, i ddisodli Scimitar. Mae angen y system ar y milwyr yn Affganistan, mae'n bodloni'r holl

least 250 jobs in Oakdale in the heart of the Gwent valleys and probably 500 with export orders. Can they tell us whether that will go ahead? The troops are screaming for it to be delivered to Afghanistan and it would also create jobs here, but we do not know what will happen on that. Can they tell us whether they will be able to help us to lobby for that order to be continued? Then there is the defence training academy in the Vale of Glamorgan. A Conservative MP has been elected there, but the Vale of Glamorgan will not get much of a reward if it does not get the defence training academy. Will that go into the strategic defence review?

Andrew R.T. Davies: Will you take an intervention?

The Deputy Presiding Officer: Order. He is not taking an intervention.

Rhodri Morgan: That would be a way of eliminating waste in Government, because the three services used to train recruits separately, but they would now be trained together. That would be far more economical, but we should ensure that that academy programme goes on, otherwise, the people of the Vale of Glamorgan will never vote Tory again, because that would be their reward for doing so.

On the Barnett formula, it is not a good start when we are told that the expenditure for the Olympics programme, for which we never received a credit under the Barnett formula, will be reduced and that we will receive a deduction under the Barnett formula for something that we never had in the first place.

Jenny Randerson: Will you take an intervention?

The Deputy Presiding Officer: Order. He does not have time.

Rhodri Morgan: That was a pretty bad start by the now-departed David Laws, and I hope that Danny Alexander, useless though he was on *Newsnight* last night, does a lot better in

feini prawf, a bydd yn creu o leiaf 250 o swyddi yn Oakdale yng nghanol cymoedd Gwent, a 500 arall, mae'n debyg, mewn archebion allforio. A allant ddweud wrthym a fydd y contract hwnnw'n mynd rhagddo? Mae'r milwyr yn ymbil yn daer am ddarparu'r system yn Affganistan, a byddai hefyd yn creu swyddi yma, ond ni wyddom beth fydd yn digwydd o ran hynny. A allant ddweud wrthym a fyddant yn gallu ein helpu i lobïo i'r archeb honno barhau? Yna, mae'r academi hyfforddiant amddiffyn ym Mro Morgannwg. Etholwyd AS Ceidwadol yno, ond ni fydd Bro Morgannwg fawr gwell ei byd os na chaiff yr academi hyfforddiant amddiffyn. A fydd yr academi'n rhan o'r adolygiad strategol o amddiffyn?

Andrew R.T. Davies: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid yw am dderbyn ymyriad.

Rhodri Morgan: Byddai hynny'n ffordd i ddileu gwastraff mewn Llywodraeth, oherwydd yr oedd y tri gwasanaeth yn arfer hyfforddi recriwtiaid ar wahân, ond yno byddent yn cael eu hyfforddi gyda'i gilydd. Byddai hynny'n fwy darbodus o lawer, ond dylem sicrhau bod y rhaglen honno ar gyfer yr academi yn mynd rhagddi. Fel arall, ni fydd pobl Bro Morgannwg byth yn pleidleisio dros y Torïaid eto, oherwydd yr academi fyddai eu gwobr am wneud hynny.

O ran fformiwla Barnett, nid yw'n ddechrau da pan ddywedir wrthym y bydd y gwariant ar y rhaglen Olympaidd, na chawsom fyth gredyd amdano dan fformiwla Barnett, yn cael ei leihau ac y cawn ostyngiad dan fformiwla Barnett am rywbeth na chawsom erioed mohono yn y lle cyntaf.

Jenny Randerson: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid oes amser ganddo.

Rhodri Morgan: Yr oedd hynny'n ddechrau digon gwael gan David Laws, sydd bellach wedi gadael, a gobeithio y bydd Danny Alexander, er ei fod yn anobeithiol ar

his career as Chief Secretary to the Treasury.

Newsnight neithiwr, yn gwneud yn well o lawer yn ei yrfa fel Prif Ysgrifennydd y Trysorlys.

Jenny Randerson: I will start by pointing out to Rhodri Morgan that the money has been given back, which was a clear recognition that an error had been made. I am surprised, Rhodri, that you are not up to date on this issue.

Jenny Randerson: Dechreuaf drwy ddweud wrth Rhodri Morgan fod yr arian wedi ei ddychwelyd, a bod hynny'n gydnabyddiaeth amlwg fod camgymeriad wedi'i wneud. Yr wyf yn synnu, Rhodri, nad ydych yn ymwybodol o'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn.

4.20 p.m.

Rhodri Morgan *rose*—

Rhodri Morgan *a gododd*—

The Deputy Presiding Officer: Order. Do not forget the time.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Peidiwch â cholli golwg ar yr amser.

Rhodri Morgan: I said that it was not a very good start if the brilliant David Laws and his Treasury civil servants did not realise that Wales had not had the Barnett formula uplift from which they then calculated the reduction. Yes, they recognised that there was an error; but why on earth did it take them that long to find out that they had made a mistake?

Rhodri Morgan: Dywedais nad oedd yn ddechrau da iawn os nad oedd David Laws, dyn clyfar, a'i weision sifil yn y Trysorlys yn sylweddoli nad oedd Cymru wedi cael y codiad fformiwla Barnett a ddefnyddiwyd ganddynt i gyfrifo'r gostyngiad. Do, bu iddynt sylweddoli bod camgymeriad; ond pam ar y ddaear y cymerwyd cymaint o amser i sylweddoli eu bod wedi gwneud camgymeriad?

Jenny Randerson: You are, in fact, pointing out the fundamental error that the previous Labour Government made over all those years in power. This is an issue that has been raised dozens of times in this Chamber, primarily by Plaid Cymru. For all those years, we were not getting our proportionate uplift from the spending on the Olympics.

Jenny Randerson: Mewn gwirionedd, yr ydych yn esbonio'r camgymeriad sylfaenol a wnaeth y Llywodraeth Lafur flaenorol yn ystod yr holl flynyddoedd hynny mewn grym. Mae hwn yn fater a godwyd ddwsinau o weithiau yn y Siambr hon, gan Blaid Cymru yn bennaf. Yn ystod yr holl flynyddoedd hynny, nid oeddem yn cael ein codiad cymesur o'r gwariant ar y Gemau Olympaidd.

Chris Franks *rose*—

Chris Franks *a gododd*—

Jenny Randerson: I am not taking any more interventions.

Jenny Randerson: Nid wyf am dderbyn rhagor o ymyriadau.

Last night I watched a television programme about Manchester United. It told the story of the Glazers, who took over this successful club and had a reputation for being good businessmen. The programme then showed, as we were taken around their property empire, that they were mortgaged to the hilt. In fact, these people have built a whole edifice on debt. The person I thought about,

Neithiwr gwyliais raglen deledu am dîm pêl-droed Manchester United. Yr oedd yn adrodd hanes y teulu Glazer, a gymerodd y clwb llwyddiannus hwn drosodd ac a oedd yn enwog am fod yn ddyinion busnes da. Yna, wrth ddangos eu hymerodraeth eiddo inni, dangosodd y rhaglen eu bod hyd at eu clustiau mewn morgeisi. Mewn gwirionedd, mae'r bobl hyn wedi adeiladu strwythur

as I sat watching that, was Gordon Brown.

The difference between the Westminster and Welsh Governments is striking in the way they approach the financial situation. The Westminster Government has taken it seriously, and it is making tough decisions to ensure that key public services survive in difficult financial times. If you want to continue to underestimate the difficulty of the financial times, I suggest that you look at the front page of yesterday's *The Independent*, which tells you exactly how bad we are in relevant terms in comparison with the rest of the world. We are in a dire mess in comparative terms.

To begin with, we have not yet been told whether the Welsh Government plans to defer its cuts until the next budget. I notice that, in Scotland, the First Minister was able to make his decision instantly; yesterday, the Minister for Business and Budget here came up with all sorts of questions that she wanted to ask before the Welsh Government can make a decision. Yet I gather she was late for her meeting with Danny Alexander this morning. That is not a good start when you are trying to put a positive spin on how much we need help. Being late may be regarded as normal by this Government, but it will not get us a good reputation.

Fundamentally, the Government here has a major problem. It does not seem to be able to make up its mind about whether it wants to go in for cuts this year, or defer until next year. The cuts spelled out thus far are relatively modest, as Nick Bourne said earlier. Tackling the huge deficit, and the even more huge national debt—

Alun Davies *rose—*

Jenny Randerson: I am not giving way. The huge deficit and the even more huge national debt have to be priorities for the UK Government. The reckless disregard for the

cyfan ar ddyled. Yr unigolyn a ddaeth i'm meddwl, wrth imi wyllo'r rhaglen, oedd Gordon Brown.

Mae'r gwahaniaeth rhwng Llywodraeth San Steffan a Llywodraeth Cymru, o ran y modd y maent yn ymdrin â'r sefyllfa ariannol, yn drawiadol. Mae Llywodraeth San Steffan wedi ei chymryd o ddifrif, ac mae'n gwneud penderfyniadau anodd er mwyn sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn parhau mewn amseroedd ariannol anodd. Os ydych am barhau i fychanu anhawster yr amseroedd ariannol sydd ohoni, awgrymaf y dylech edrych ar dudalen flaen *The Independent* ddoe, sy'n dweud wrthy ch yn union mor ddrwg yw ein sefyllfa, mewn termau perthnasol, o'n cymharu â gweddill y byd. Yr ydym mewn llanastr enbyd o'n cymharu ag eraill.

I ddechrau, nid ydym wedi clywed eto a yw Llywodraeth Cymru'n bwriadu gohirio'i thoriadau tan y gyllideb nesaf. Sylwaf, yn yr Alban, fod y Prif Weinidog wedi gallu gwneud ei benderfyniad yn syth; ddoe yr oedd gan y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb yma bob math o gwestiynau yr oedd am eu gofyn cyn i Lywodraeth Cymru allu gwneud penderfyniad. Eto i gyd, deallaf ei bod yn hwyr ar gyfer ei chyfarfod â Danny Alexander y bore yma. Nid yw hynny'n ddechrau da pan fyddwch yn ceisio rhoi darlun cadarnhaol o raddau'r cymorth y mae arnom ei angen. Efallai fod y Llywodraeth hon yn ystyried bod cyrraedd yn hwyr yn normal, ond ni fydd gwneud hynny'n rhoi enw da inni.

Yn y bôn, mae gan y Llywodraeth yma hon broblem fawr. Ymddengys na all benderfynu a yw am weithredu toriadau eleni ynteu eu gohirio tan y flwyddyn nesaf. Mae'r toriadau y soniwyd amdanynt hyd yma yn gymharol fach, fel y dywedodd Nick Bourne yn gynharach. Rhaid i'r gwaith o fynd i'r afael â'r diffyg enfawr, a'r ddyled genedlaethol sy'n fwy enfawr fyth—

Alun Davies *a gododd—*

Jenny Randerson: Nid wyf am ildio. Rhaid i'r diffyg enfawr a'r ddyled genedlaethol sy'n fwy enfawr fyth fod yn flaenoriaethau i Lywodraeth y DU. Mae'r ffaith i'r terfynau

limits of the country's purse strings is a major problem that has been left over from the previous Government at Westminster. Do not listen to the Labour Party or Plaid Cymru when they try to suggest that this problem has been created in the last three weeks. The public of Britain does not believe that, will not believe that, and understands the situation that we are in. Lord Myners's recent attack on the former Labour Government is symptomatic of the kind of approach that we will get from sane and sensible Labour supporters over the coming months as they realise that they have to face up to the situation. I very much hope—

Leanne Wood *rose*—

Jenny Randerson: I am not taking an intervention. I have said so three times. The Deputy Presiding Officer will not give me any more time.

The Deputy Presiding Officer: No, not today. You only have two seconds left, so I will call Chris Franks.

Chris Franks: It is worth reminding ourselves why we are in this awful situation—it is because of the lax attitude of the Conservatives and the last Labour Government towards the banking sector, allowing the City of London to run riot and behave in the most irresponsible manner.

Plaid Cymru is aware that we have to cut the deficit, but we would do so by bringing the troops home from Afghanistan—as Treasury resources and, more importantly, young men and women are being wasted in that country—and by replacing defence projects such as Trident. I am amazed that Mark Williams MP and Roger Williams MP, contrary to their election promises to review or scrap nuclear weapons, voted against an amendment last night in the House of Commons to include this £100 billion scheme in any review. In April, Mark Williams MP said,

'These are tough times and no-one doubts that difficult decisions on spending have to

sydd ar lynnau pwrs y wlad gael eu diystyru'n ddiofal yn broblem fawr a adawyd gan y Llywodraeth flaenorol yn San Steffan. Peidiwch â gwranddo ar y Blaid Lafur na Phlaid Cymru pan fyddant yn ceisio awgrymu mai yn ystod y tair wythnos diwethaf y mae'r broblem hon wedi'i chreu. Nid yw'r cyhoedd ym Mhrydain yn credu hynny, ni fyddant yn credu hynny, ac maent yn deall y sefyllfa yr ydym ynddi. Mae ymosodiad diweddar yr Arglwydd Myners ar y Llywodraeth Lafur flaenorol yn nodweddiadol o'r math o agwedd a gawn gan gefnogwyr call a synhwyrol y Blaid Lafur dros y misoedd sydd i ddod, wrth iddynt sylweddoli ei bod yn rhaid iddynt wynebu'r sefyllfa. Yr wyf yn gobeithio'n fawr—

Leanne Wood *a gododd*—

Jenny Randerson: Nid wyf am dderbyn ymyriad. Yr wyf wedi dweud hynny deirgwaith. Nid yw'r Dirprwy Lywydd yn fodlon rhoi rhagor o amser imi.

Y Dirprwy Lywydd: Ddim heddiw. Dwy eiliad yn unig sydd gennych ar ôl, felly, galwaf ar Chris Franks.

Chris Franks: Mae'n werth inni ein hatgoffa'n hunain o'r rheswm pam yr ydym yn y sefyllfa ofnadwy hon, sef agwedd ddiofal y Ceidwadwyr a'r Llywodraeth Lafur ddiwethaf at y sector bancio, gan ganiatáu i Ddinas Llundain fynd yn rhemp ac ymddwyn yn anghyfrifol tu hwnt.

Mae Plaid Cymru yn ymwybodol ei bod yn rhaid inni leihau'r diffyg, ond byddem ni'n gwneud hynny drwy ddod â'r milwyr adref o Affganistan—oherwydd mae adnoddau'r Trysorlys ac, yn bwysicach na hynny, dynion a menywod ifanc yn cael eu gwastraffu yn y wlad honno—a thrwy ddisodli prosiectau amddiffyn megis Trident. Yr wyf yn synnu bod Mark Williams AS a Roger Williams AS, yn groes i'w haddewidion yn yr etholiad i adolygu neu ddiddymu arfau niwclear, wedi pleidleisio yn erbyn gwelliant neithiwr yn Nhŷ'r Cyffredin i gynnwys y cynllun £100 biliwn hwn mewn unrhyw adolygiad. Ym mis Ebrill, dywedodd Mark Williams AS,

Mae'r rhain yn amseroedd anodd, ac nid oes neb yn amau nad yw'n rhaid gwneud

be made, but because we have focused our cuts on UK-wide schemes such as Trident and the Child Trust Fund, that will not mean the swingeing cuts to the Welsh budget being proposed by Labour and the Conservatives.’

How times have changed. Fairer funding for Wales is clearly not a priority for the UK Government, as Francis Maude MP, the Government spokesperson in the House of Lords and the House of Commons said on *Good Morning Wales* this week that the Holtham commission reported that Wales is set to lose £8.5 billion over the next 10 years.

I am most intrigued that people are so in awe of the Scottish National Party and Alex Salmond. You were just praising his decisiveness and, apparently, according to the leader of the Conservatives here, the SNP has a veto on UK Government policy: if the Scots do not want it, we cannot change things. What a curious, pathetic line to take. The Liberal Democrats pledged, during the election campaign, to reopen railway lines and create new stations and a new high-speed network to cut journey times. Cutting our budget will not allow that to happen. The coalition Government has failed to include Wales in the high-speed network and has cancelled orders for new rolling stock. These cuts will hit my region hard.

Peter Black *rose*—

The Deputy Presiding Officer: Will you take an intervention?

Chris Franks: No-one is doing that now. [*Laughter.*] The cuts will affect my region because many non-devolved civil service departments are located in South Wales Central. Some 4,000 people across Wales are employed by HM Revenue and Customs, with over 2,000 based in Llanishen, and over 1,000 in Companies House in Cardiff.

penderfyniadau anodd am wariant. Ond oherwydd inni anelu ein toriadau at gynlluniau sy'n berthnasol i'r DU gyfan, megis Trident a'r Gronfa Ymddiriedolaeth Plant, ni fydd hynny'n golygu'r toriadau llym yng nghyllideb Cymru a gynigir gan y Blaid Lafur a'r Ceidwadwyr.

Onid yw pethau wedi newid. Mae'n amlwg nad yw cyllid tecach i Gymru yn flaenoriaeth i Lywodraeth y DU, oherwydd dywedodd Francis Maude AS, llefarydd y Llywodraeth yn Nhŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin, ar *Good Morning Wales* yr wythnos hon fod comisiwn Holtham wedi dweud y bydd Cymru'n colli £8.5 biliwn dros y 10 mlynedd nesaf.

Mae'r ffaith bod pobl yn edmygu Plaid Genedlaethol yr Alban ac Alex Salmond i'r fath raddau yn ddirgelwch i mi. Yr oeddech yn canmol ei bendantrwydd, ac yn ôl pob golwg, yn ôl arweinydd y Ceidwadwyr yma, mae gan Blaid Genedlaethol yr Alban fetu ar bolisi Llywodraeth y DU: ni allwn newid pethau os nad yw'r Albanwyr yn cytuno. Mae'n safbwynt rhyfedd a thruenus. Yn ystod yr ymgyrch etholiadol, addawodd y Democratiaid Rhyddfrydol y byddent yn ailagor rheilffyrdd ac yn creu gorsafoedd newydd a rhwydwaith cyflym newydd i leihau amseroedd teithio. Ni fydd lleihau ein cyllideb yn caniatáu hynny. Mae'r Llywodraeth glymbleidiol wedi methu â chynnwys Cymru yn y rhwydwaith cyflym, ac mae wedi canslo archebion ar gyfer cerbydau newydd. Bydd y toriadau hyn yn effeithio'n fawr ar fy rhanbarth i.

Peter Black *a gododd*—

Y Dirprwy Lywydd: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Chris Franks: Nid oes neb yn gwneud hynny'n awr. [*Chwerthin.*] Bydd y toriadau'n effeithio ar fy rhanbarth oherwydd bod nifer o adrannau'r gwasanaeth sifil, nad ydynt wedi eu datganoli, yng Nghanol De Cymru. Caiff tua 4,000 o bobl ledled Cymru eu cyflogi gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi, ac mae dros 2,000 yn gweithio yn Llanisien a thros 1,000 yn gweithio yn Nhŷ'r Cwmnïau yng Nghaerdydd.

Andrew R.T. Davies *rose*—

The Deputy Presiding Officer: Order. He said that he would not take any interventions.

Chris Franks: There are approximately 1,000 people employed in the Royal Mint in Llantrisant. We are facing huge cuts across our region. The scrapping of the Future Jobs fund will hit 3,500 jobs, created by a consortium of six Valleys authorities. I noticed today that a lot of Tory Assembly Members were pleased to be associated with the event in the Senedd today. Many of those organisations would have hoped to use the Future Jobs fund. I wonder whether you discussed that with them. I wonder whether the Conservatives and the Liberal Democrats can look these young people in the eye and say that the cuts are worth their jobs. Plaid is calling on the UK Government to ask the very wealthy to pay a little extra, and to tighten the rules to stop the super-rich from using tax loopholes.

Peter Black *rose*—

Chris Franks: In Barry, which has been hit very hard, the local Member of Parliament has been campaigning for more public expenditure at every possible opportunity. He wants the airport link road, the Dinas Powys bypass, more money to freeze council tax, more money for regeneration in Llantwit Major, more money for education in Cowbridge and Barry—the list goes on and on. Where will the money come from? Where will we find this money? Indeed, where is he? I do not think that we miss him too much.

The Deputy Presiding Officer: Order. Can you wind up please?

Chris Franks: The truth of the matter is that the Conservatives and the Liberals are failing to put pressure on their Members.

The Deputy Presiding Officer: Your time is up, thank you.

4.30 p.m.

Andrew R.T. Davies *a gododd*—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Dywedodd na fyddai'n derbyn dim ymyriadau.

Chris Franks: Caiff tua 1,000 o bobl eu cyflogi yn y Bathdy Brenhinol yn Llantrisant. Yr ydym yn wynebu toriadau enfawr ledled ein rhanbarth. Bydd dileu cronfa Swyddi'r Dyfodol yn effeithio ar 3,500 o swyddi, a grëwyd gan gonsortiwm o chwe awdurdod yn y Cymoedd. Sylwais heddiw fod nifer o Aelodau Toriaidd y Cynulliad yn falch o fod yn gysylltiedig â'r digwyddiad yn y Senedd heddiw. Byddai nifer o'r sefydliadau hynny wedi gobeithio defnyddio cronfa Swyddi'r Dyfodol. Tybed a fuoch yn trafod hynny gyda hwy? Tybed a all y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol edrych i fyw llygaid y bobl ifanc hyn a dweud bod y toriadau'n werth eu swyddi? Mae Plaid Cymru'n galw ar Lywodraeth y DU i ofyn i bobl gyfoethog iawn dalu ychydig yn ychwanegol, a thynhau'r rheolau i rwystro pobl hynod gyfoethog rhag manteisio ar gyfleoedd i osgoi talu trethi.

Peter Black *a gododd*—

Chris Franks: Yn y Barri, sydd wedi dioddef yn arw iawn, mae'r Aelod Seneddol lleol wedi bod yn manteisio ar bob cyfle posibl i ymgyrchu dros fwy o wariant cyhoeddus. Mae am gael ffordd gyswllt i'r maes awyr, ffordd osgoi Dinas Powys, mwy o arian i rewi'r dreth gyngor, mwy o arian ar gyfer adfywio yn Llanilltud Fawr, mwy o arian ar gyfer addysg yn y Bont-faen a'r Barri—mae'r rhestr yn ddiddiwedd. O ble y daw'r arian? Ymhle mae dod o hyd i'r arian hwn? Yn wir, ymhle mae ef? Ni chredaf ein bod yn gweld ei eisiau ryw lawer.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A allwch ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

Chris Franks: Y gwir amdani yw bod y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn methu â rhoi pwysau ar eu Haelodau.

Y Dirprwy Lywydd: Mae eich amser ar ben, diolch.

William Graham: It is remarkable to think that, little over 10 years ago, Gordon Brown was known as the 'Iron Chancellor', with the United Kingdom Government's spending flat for the first two years of the Blair administration. While we must acknowledge the international nature of the financial crisis, Gordon Brown must bear responsibility for the position in which we found ourselves in the first place. Labour presided over the lack of effective regulation of the financial sector and used the illusory benefits of an unsustainable boom to finance a spending spree rather than prudent investment.

The action required to address the economic situation is Labour's legacy to Britain. It is the price that we must pay for its reckless spending and borrowing, the creation of all those pet projects, its increases in bureaucracy and its failure to tackle wasteful spending. Once again, the Conservatives must sort out Labour's mess, as we have previously had to do—the five years of a Labour Government in the 1970s gave us years with an average inflation rate of nearly 16 per cent, peaking at over 24 per cent per annum in 1975 and an average of 73 million days a year were lost through industrial action.

How many times have Assembly Members proclaimed in this Chamber, 'We do not need to take lessons from the Conservatives'? Those Members need to recognise the reality that Labour left the economy in an appalling state in 1979 and has left it in an almost unrecoverable state in 2010. Labour should have taken lessons from the Conservatives, because we are clearly going to demonstrate that we have learnt our lessons. The United Kingdom's coalition Government is committed to introducing the Labour legacy reductions in a way that protects the poorest and the most vulnerable, that strengthens and unites the country and that demonstrates that no-one is exempt. In coalition, we are not going to ignore a once-in-a-generation opportunity to transform the way that Government works.

William Graham: Mae'n rhyfedd meddwl bod Gordon Brown, ychydig dros 10 mlynedd yn ôl, yn cael ei alw'n Ganghellor Haearnaid, pan oedd lefelau gwariant Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn wastad yn ystod dwy flynedd gyntaf gweinyddiaeth Blair. Er ei bod yn rhaid inni gydnabod natur ryngwladol yr argyfwng ariannol, rhaid i Gordon Brown gymryd cyfrifoldeb am y sefyllfa y cawsom ein hunain ynndi yn y lle cyntaf. Llywyddodd y Blaid Lafur dros fethiant i reoleiddio'r sector ariannol yn effeithiol, a defnyddiodd fanteision ffug cyfnod o ffyniant anghynaliadwy i ariannu sbri gwario yn hytrach na buddsoddi doeth.

Y camau gweithredu sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r sefyllfa economaidd yn awr yw gwaddol y Blaid Lafur i Brydain. Dyma'r pris y mae'n rhaid inni ei dalu am iddi wario a benthyca'n ddiofal, creu'r holl brosiectau hynny yr oedd mor hoff ohonynt, cynyddu biwrocratiaeth, a methu â mynd i'r afael â gwariant gwastraffus. Unwaith eto, rhaid i'r Ceidwadwyr roi trefn ar lanestr y Blaid Lafur, fel y bu'n rhaid inni ei wneud o'r blaen—arweiniodd y pum mlynedd o Lywodraeth Lafur a gawsom yn y 1970au at flynyddoedd pan oedd y gyfradd chwyddiant bron yn 16 y cant ar gyfartaledd, ac yn fwy na 24 y cant y flwyddyn ar ei hanterth yn 1975, a phan gollwyd 73 miliwn o ddiwrnodau'r flwyddyn ar gyfartaledd oherwydd gweithredu diwydiannol.

Sawl gwaith y mae Aelodau'r Cynulliad wedi datgan yn y Siambr hon, 'Nid oes angen inni gymryd gwersi gan y Ceidwadwyr'? Mae angen i'r Aelodau hynny gydnabod y realiti, sef i'r Blaid Lafur adael yr economi mewn cyflwr ofnadwy yn 1979, a'i gadael mewn cyflwr lle mae bron yn amhosibl ei hadfer yn 2010. Dylai'r Blaid Lafur fod wedi cymryd gwersi gan y Ceidwadwyr, oherwydd mae'n amlwg ein bod yn bwriadu dangos inni ddysgu ein gwersi. Mae Llywodraeth glymbleidiol y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i gyflwyno'r gostyngiadau sy'n perthyn i waddol y Blaid Lafur, mewn ffordd sy'n amddiffyn y bobl dlotaf a mwyaf agored i niwed, sy'n cryfhau ac yn uno'r wlad, ac sy'n dangos na fydd modd i neb eu hosgoi. Mewn clymblaid, nid ydym am anwybyddu cyfle a ddaw unwaith mewn cenhedlaeth i drawsnewid y ffordd y mae Llywodraeth yn

gweithio.

How we deal with these things will affect our economy, our society, and, indeed, our whole way of life. The spending review that we are about to undertake is not just about saving money; we will also be required to consider whether services currently provided by Government departments could be better supplied by the private or voluntary sectors. That will be an enhancement of the trend highlighted in the three-year Treasury-funded study on measuring outcomes for public service users. This motion addresses the reality that we must all question the methods of the delivery of the services that we provide and meet the challenge of finding ways of doing more for less. Members opposite must face the fact that failure to act now will mean that the Treasury will be spending £70 billion annually on debt interest within five years. Many commentators agree that international aid, for example, would be more effectively administered by charitable bodies.

Bydd y modd yr awn i'r afael â'r pethau hyn yn effeithio ar ein heconomi, ein cymdeithas ac, yn wir, ar ein holl ffordd o fyw. Nid arbed arian yw unig ddiben yr adolygiad gwariant yr ydym ar fin ei gynnal; bydd gofyn hefyd inni ystyried a allai'r sector preifat neu'r sector gwirfoddol ddarparu'n well y gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gan adrannau'r Llywodraeth. Bydd hynny'n datblygu'r duedd y tynnwyd sylw ati yn yr astudiaeth dair blynedd a ariannwyd gan y Trysorlys ar fesur canlyniadau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r cynnig hwn yn mynd i'r afael â'r realiti, sef bod yn rhaid inni i gyd amau'r modd y darperir y gwasanaethau a ddarparwn, ac ymateb i'r her o gael ffyrdd i wneud mwy am lai o arian. Rhaid i'r Aelodau gyferbyn wynebu'r ffaith y bydd methu â gweithredu'n awr yn golygu y bydd y Trysorlys yn gwario £70 biliwn y flwyddyn ar log ar ddyledion mewn pum mlynedd. Mae nifer o sylwebyddion yn cytuno y byddai modd i gymorth rhyngwladol, er enghraifft, gael ei weinyddu'n fwy effeithiol gan gyrff elusennol.

With the Minister for Business and the Budget having made clear that Wales will play its part in reducing the deficit and national debt, will the First Minister describe in detail the nature and timing of the spending reductions to be made by the Assembly Government, which will be the greatest challenge facing Ministers in this Assembly term and beyond? This situation was not difficult to anticipate and it is truly astonishing that the Assembly Government has made so few contingency plans for savings this year, despite all the rhetoric about Tory cuts.

Gan fod y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb wedi gwneud yn glir y bydd Cymru'n gwneud ei rhan i leihau'r diffyg a'r ddyled genedlaethol, a wnaiff y Prif Weinidog ddisgrifio'n fanwl natur ac amseru'r toriadau mewn gwariant y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn eu cyflwyno, sef yr her fwyaf a fydd yn wynebu Gweinidogion yn ystod y tymor hwn yn y Cynulliad, a thu hwnt? Nid oedd y sefyllfa hon yn anodd ei rhagweld, ac mae'n wirioneddol ryfeddol bod Llywodraeth y Cynulliad wedi creu cyn lleied o gynlluniau wrth gefn ar gyfer arbedion eleni, er yr holl rethreg am doriadau'r Toriaid.

Leanne Wood: Will you take an intervention?

Leanne Wood: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

William Graham: No, I will not.

William Graham: Na wnaif.

While one accepts that many of the problems that need to be addressed to ensure a more secure global financial footing for the future will be addressed elsewhere, such as the urgent need to convince Germany and China

Derbynnir y bydd llawer o'r problemau y mae angen mynd i'r afael â hwy i sicrhau sylfaen ariannol fyd-eang gadarnach ar gyfer y dyfodol yn cael sylw rywle arall, megis yr angen enbyd i ddarbwylllo'r Almaen a Tsieina

to reduce the size of their trade surplus, it is important that the Assembly Government grasps the opportunities created by a weakened pound and the likelihood of sustained low interest rates. Indeed, I would encourage the Deputy First Minister and Minister for the Economy and Transport, if he were here, to consider a wholesale review of the Welsh economy, to see how our skills base can be deepened and the product range broadened to meet the medium and long-term demands of a global economy that has been shaken to its core by the rapid growth of Asian economies.

Few doubt that the potential exists for Welsh businesses to significantly increase their market share abroad, although our entrepreneurs are currently hamstrung by a third-rate domestic transport infrastructure and a false perception that London is the only realistic option for a United Kingdom-based headquarters. The short-term misery of the cuts required to bring our debt under control must also be seen as an opportunity to fundamentally re-balance the Welsh economy in the long term. If it is not, the consequences are unthinkable for the next generation.

It may be possible to freeze the indexation of income tax brackets for the next five years. The Bank of England presently monitors inflation, but should now be given the authority to monitor growth and employment. The obvious, but by no means easy, solution is to control these huge and relatively recently incurred deficits, while keeping the economy growing. Everyone has a part to play in restoring the national economy. There is a clear roadmap for progressing the Welsh financial settlement. While the scale of the tax rises and changes to service provision have almost certainly been understated, it is vital that, across portfolios, the Assembly Government seizes the opportunity that the deficit has created to create a more sustainable and vibrant Welsh economy.

Brian Gibbons: Ever since the global financial crisis hit us, the Conservative line has been that this is a crisis that was made in Britain by Gordon Brown. This is a line—we are hearing it from the opposition benches

i leihau maint eu gwarged masnachol. Ond mae'n bwysig i Lywodraeth y Cynulliad fanteisio ar y cyfleoedd a grëir gan bunt wannach, a'r tebygolrwydd y gwelwn gyfraddau llog sy'n parhau'n isel. Yn wir, byddwn yn annog y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, pe bae yma, i ystyried adolygiad eang o economi Cymru, er mwyn gweld sut y gellir dyfnhau ein sylfaen sgiliau ac ehangu ein hystod o gynnyrch er mwyn bodloni'r galw yn y tymor canolig a'r tymor hir gan economi fyd-eang, sydd wedi ei hysgwyd i'r bôn gan dwf cyflym economïau Asia.

Ychydig sy'n amau nad oes potensial i fusnesau Cymru gynyddu'n sylweddol eu cyfran o'r farchnad dramor, er bod ein hentrepreneuriaid yn cael eu rhwystro ar hyn o bryd gan seilwaith israddol o gludiant domestig, a chanfyddiad ffug mai Llundain yw'r unig ddewis realistig ar gyfer pencadlys i'r Deyrnas Unedig. Rhaid i ddiffastod byrdymor y toriadau, sy'n ofynnol i geisio rheoli ein dyled, gael ei ystyried hefyd fel cyfle i ailfantoli economi Cymru'n sylfaenol yn y tymor hir. Fel arall, ni ellir dychmygu'r canlyniadau i'r genhedlaeth nesaf.

Efallai y bydd yn bosibl rhewi gwaith mynegrifo dosbarthiadau treth incwm am y pum mlynedd nesaf. Ar hyn o bryd mae Banc Lloegr yn monitro chwyddiant, ond dylid rhoi'r awdurdod iddo'n awr i fonitro twf a chyflogaeth. Yr ateb amlwg, er nad yw'n ateb rhwydd ar unrhyw gyfrif, yw rheoli'r diffygion enfawr hyn yr aethpwyd iddynt yn gymharol ddiweddar, gan gadw'r economi i dyfu. Mae gan bawb ei ran wrth adfer yr economi genedlaethol. Mae map clir ar gyfer hybu setliad ariannol Cymru. Er bod maint y cynnydd mewn trethi a'r newidiadau yn y ddarpariaeth gwasanaethau bron yn sicr wedi eu bychanu, mae'n hanfodol i Lywodraeth y Cynulliad, ar draws portffolios, achub ar y cyfle y mae'r diffyg wedi ei greu i lunio economi fwy cynaliadwy a bywiog yng Nghymru.

Brian Gibbons: Byth ers i'r argyfwng ariannol byd-eang ein taro, yr hyn a glywsom gan y Ceidwadwyr yw mai argyfwng a grëwyd ym Mhrydain gan Gordon Brown ydyw. Mae'n safbwynt—fe'i clywn o

now—that was carried over into David Cameron’s speech on Monday, in which he specifically pointed out that the decisions that are being taken, which will affect everyone for decades to come, are based on that premise.

Contrary to what Kirsty Williams said in her contribution, it is the view of the Conservatives that those who argue that the present recession or the challenges that we face are due to the wider global recession are flawed, or, to quote David Cameron, have a ‘rather a major flaw, in fact’. The fact that a great deal of money was spent as a result of the global economic recession was part of the original Liberal Democrat analysis of the current financial crisis in which we find ourselves, but it is abundantly clear from David Cameron’s analysis of the situation and the analysis put forward by the Conservatives sitting opposite that they do not believe that that had anything to do with it. David Cameron has said that to argue that the global financial crisis is a significant contributory fact is a flawed argument. This is why I am particularly concerned about the strategy being pursued by the Conservative and Liberal Democrat coalition in Westminster: if its analysis of the situation chooses to regard the biggest global financial crisis that this world has faced in 75 years as an irrelevant trivial sideshow, and if it is implementing economic policies on the basis of that analysis, then God help us all.

How will we set about addressing this economic crisis? The Conservatives and Liberal Democrats have said that this crisis will be paid for substantially from public service cuts and minimally from income tax increases. The people who are responsible for the crisis, who have made the most money from this financial crisis, will be the people who will pay the least. It has been often said that one of the main ways in which the deficit will be funded will be through indirect taxation, particularly value added tax, which will produce returns of £10 billion to £20 billion. We know that VAT will hit the people on lowest incomes the hardest. We have a strategy that is being pursued by this

feinciau’r wrthblaid yn awr—a glywyd yn araith David Cameron ddydd Llun, pan dynnodd sylw’n benodol at y ffaith fod y penderfyniadau a wneir ac a fydd yn effeithio ar bawb am ddegawdau i ddod yn seiliedig ar y cynsail hwnnw.

Yn groes i’r hyn a ddywedodd Kirsty Williams yn ei chyfraniad, mae dadl y bobl sy’n mynnu mai’r dirwasgiad byd-eang ehangach sydd i gyfrif am y dirwasgiad presennol, neu’r heriau yr ydym yn eu hwynebu, yn wallus ym marn y Ceidwadwyr, neu’n cynnwys gwall o bwys mewn gwirionedd, o ddyfynnu David Cameron. Yr oedd y ffaith fod llawer iawn o arian wedi ei wario o ganlyniad i’r dirwasgiad economaidd byd-eang yn rhan o ddadansoddiad gwreiddiol y Democratiaid Rhyddfrydol o’r argyfwng ariannol presennol yr ydym ynddo. Fodd bynnag, mae’n berffaith amlwg o ddadansoddiad David Cameron o’r sefyllfa, a’r dadansoddiad a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr sy’n eistedd gyferbyn, nad ydynt yn credu bod a wnelo hynny ddim â’r peth. Mae David Cameron wedi dweud bod dadlau bod yr argyfwng ariannol byd-eang yn ffaith gyfrannol sylweddol yn ddadl wallus. Dyna pam yr wyf yn pryderu’n benodol am y strategaeth y mae clymblaid y Ceidwadwyr a’r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan yn ei dilyn: os yw ei dadansoddiad o’r sefyllfa’n dewis ystyried mai eilbeth dibwys ac amherthnasol yw’r argyfwng ariannol byd-eang mwyaf i’r byd hwn ei wynebu mewn 75 mlynedd, ac os yw’n gweithredu polisïau economaidd ar sail y dadansoddiad hwnnw, Duw a’n helpo i gyd.

Sut yr awn i’r afael â’r argyfwng economaidd hwn? Mae’r Ceidwadwyr a’r Democratiaid Rhyddfrydol wedi dweud y bydd toriadau mewn gwasanaethau cyhoeddus yn cyfrannu’n sylweddol at dalu am yr argyfwng hwn, yn ogystal ag ychydig gyfraniad gan gynydd mewn treth incwm. Y bobl sy’n gyfrifol am yr argyfwng ac sydd wedi gwneud yr elw mwyaf o’r argyfwng ariannol hwn fydd yn talu leiaf. Dywedwyd yn aml mai un o’r prif ffyrdd y bydd y diffyg yn cael ei ariannu fydd drwy drethi anuniongyrchol, yn enwedig treth ar werth, a fydd yn cynhyrchu enillion o £10 biliwn i £20 biliwn. Gwyddom y bydd treth ar werth yn effeithio fwyaf ar y bobl sydd â’r lefelau incwm isaf.

Government that is fundamentally flawed in its concept and that will put the global recovery at risk because it does not believe that the global recession is contributing to this crisis.

This is not political rhetoric. Anyone who has been reading *The Economist* in recent weeks will realise that they are aware of the dangerous and risky strategy—in last week's issue, the headline was 'Fear is back: the danger of a double-dip recession'. One of the main reasons for that double-dip recession that it underlined were the policies being proposed by the Government in Westminster, because it is not prepared to recognise that public spending has been necessary to bail out the economic and financial system of this country. If there is to be a precipitated and seismic shift in approach, as Alistair Darling said in the House of Commons, that recovery will be put at risk fundamentally and the people who will bear the toughest cost will be those who are least able to afford to do so.

Andrew R.T. Davies: I appreciate that I have only a short time in which to contribute. The global financial crisis has been one of the major factors, but do you not accept that what it brought into the open were the structural deficits that the Governments have run up? The biggest structural deficits have been unsustainable and the golden rule that was thrown out of the window by Gordon Brown has come into graphic daylight now and we can see that the market that he was running was not sustainable in the long term.

The Deputy Presiding Officer: Order. This is an intervention, not a speech.

Brian Gibbons: You acknowledge that the global recession is a significant factor, but your leader in the Houses of Parliament, David Cameron, does not accept that, and he is putting the economic recovery of the United Kingdom at risk because he does not acknowledge or realise that.

4.40 p.m.

David Melding: I wish to start by saying how delighted I am that Dr Gibbons is now

Mae'r strategaeth y mae'r Llywodraeth hon yn ei dilyn yn sylfaenol wallus yn ei chysyniad, a bydd yn peryglu'r adferiad byd-eang am nad yw'n credu bod y dirwasgiad byd-eang yn cyfrannu at yr argyfwng hwn.

Nid rhethreg wleidyddol yw hyn. Bydd pawb sydd wedi bod yn darllen *The Economist* yn yr wythnosau diwethaf yn sylweddoli eu bod yn ymwybodol o'r strategaeth beryglus a mentrus—yn rhifyn yr wythnos diwethaf, y pennawd oedd 'Fear is back: the danger of a double-dip recession'. Un o'r prif resymau am yr ail ddirwasgiad hwnnw a bwysleisiwyd ganddo oedd y polisiau a gynigir gan y Llywodraeth yn San Steffan, oherwydd nid yw'n barod i gydnabod bod gwariant cyhoeddus wedi bod yn angenrheidiol i achub system economaidd ac ariannol y wlad hon. Os bydd newid sydyn a grymus mewn dull gweithredu, fel y dywedodd Alistair Darling yn Nhŷ'r Cyffredin, bydd yr adferiad hwnnw'n cael ei beryglu'n sylfaenol, a'r bobl a fydd yn talu'r pris mwyaf fydd y rheini a all fforddio gwneud hynny leiaf.

Andrew R.T. Davies: Yr wyf yn sylweddoli mai ychydig amser sydd gennyf i gyfrannu. Mae'r argyfwng ariannol byd-eang wedi bod yn un o'r prif ffactorau, ond onid ydych yn derbyn mai'r hyn yr oedd yn tynnu sylw ato oedd y diffygion strwythurol y mae'r Llywodraethau wedi eu creu? Mae'r diffygion strwythurol mwyaf wedi bod yn anghynaliadwy, ac mae'r rheol euraidd a ddiystyrododd Gordon Brown wedi dod yn amlwg iawn yn awr, a gallwn weld nad oedd y farchnad yr oedd yn ei rhedeg yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Ymyriad yw hwn, nid araith.

Brian Gibbons: Yr ydych yn cydnabod bod y dirwasgiad byd-eang yn ffactor sylweddol, ond nid yw eich arweinydd yn Senedd y DU, David Cameron, yn derbyn hynny, ac mae'n peryglu adferiad economaidd y Deyrnas Unedig am nad yw'n cydnabod neu'n sylweddoli hynny.

David Melding: Hoffwn ddechrau drwy ddweud mor falch yr wyf fod Dr Gibbons

reading *The Economist*, although I wish that he had started doing so six weeks ago as he would then have followed its advice and voted for the Conservatives in the general election, but, alas, he has come to it too late.

There have already been a couple of absurd moments in the presentations we have heard from the parties opposite. I must say that Chris Franks's condemnation of past Labour and Conservative Governments for our current situation because of their failure to regulate banks correctly is a bit rich coming from a member of a party that was commending Iceland as the perfect economic model as recently as 2007. I must say, Chris, that you really need to look at your own party's economic prescriptions a bit more closely before you casually condemn the Conservative Party, which was out of Government for more than 13 years.

Chris Franks *rose—*

David Melding: Hold on. Actually, perhaps I should give way as I have mentioned you.

Chris Franks: I could ask when were we ever in Government in the UK? [*Laughter.*]

David Melding: There is a very happy answer to that question, but perhaps I will let you infer it. [*Laughter.*]

Alun Davies began his speech by condemning the Conservative Party for the oldest trick in the book of getting into Government, arriving at the Treasury, looking at the books and saying, 'Gosh, it is even worse than we thought'. Perhaps, with a certain lack of awareness, he said, 'But we'd already admitted eight weeks before that things were much worse than that', and I thought that perhaps he should have raised that point during the general election and said that things were in a dire state and that people needed to look at the Red Book closely just to realise how deep the mess was.

Alun Davies *rose—*

bellach yn darllen *The Economist*, er y byddai'n dda gennyf pe bai wedi dechrau ei ddarllen chwe wythnos yn ôl, oherwydd byddai wedyn wedi dilyn ei gyngor ac wedi pleidleisio dros y Ceidwadwyr yn yr etholiad cyffredinol. Ond gwaetha'r modd mae wedi dechrau'n rhy hwyr.

Cafwyd ambell eiliad absŵrd eisoes yn y cyflwyniadau a glywsom gan y pleidiau gyferbyn. Rhaid imi ddweud bod y modd y condemniodd Chris Franks Lywodraethau Llafur a Cheidwadol y gorffennol am ein sefyllfa bresennol, oherwydd eu methiant i reoleiddio banciau'n iawn, yn ddoniol ac yntau'n aelod o blaid a oedd yn canmol Gwlad yr Iâ fel y model economaidd perffaith, mor ddiweddar â 2007. Rhaid imi ddweud, Chris, fod gwir angen ichi edrych ychydig yn fanylach ar argymhellion economaidd eich plaid eich hun cyn mynd ati'n ddidaro i gondemnio'r Blaid Geidwadol, na fu mewn Llywodraeth am dros 13 o flynyddoedd.

Chris Franks *a gododd—*

David Melding: Arhoswch. A dweud y gwir, efallai y dylwn ildio, gan imi eich crybwyll.

Chris Franks: Gallwn ofyn pryd y buom ni mewn Llywodraeth erioed yn y DU? [*Chwerthin.*]

David Melding: Mae ateb hwylus iawn i'r cwestiwn hwnnw, ond gadawaf i chi ei ddyfalu efallai. [*Chwerthin.*]

Dechreuodd Alun Davies ei araith drwy gondemnio'r Blaid Geidwadol am y tric hynaf un, sef mynd i mewn i Lywodraeth, cyrraedd y Trysorlys, edrych ar y llyfrau a dweud, 'Y nefoedd, mae'r sefyllfa hyd yn oed yn waeth nag a feddyliem'. Gydag ychydig diffyg ymwybyddiaeth, efallai, dywedodd, 'Ond yr oeddem eisoes wedi cyfaddef wyth wythnos yn gynharach fod pethau'n waeth o lawer na hynny'. A chredais y dylai efallai fod wedi codi'r pwynt hwnnw yn ystod yr etholiad cyffredinol, a dweud bod pethau mewn cyflwr enbyd a bod angen i bobl edrych yn fanwl ar y Llyfr Coch i sylweddoli mor ddifrifol oedd y llanastr.

Alun Davies *a gododd—*

David Melding: As I have mentioned you, I will give way.

Alun Davies: I do apologise, but, unfortunately, David, that is not what I said. You were obviously writing your speech rather than listening. What I said was that the facts that the Government is now claiming that it has discovered in the past few weeks were known four months ago and that that is a deceit of the electorate.

David Melding: I am glad that you have repeated the point that you already knew that things were much worse than was being presented and that this was the case eight weeks ago. It was your Prime Minister who presented the facts during the general election, incidentally, so do not mutter under your breath that this is somehow the rough and tumble of difficult politics. It was your Prime Minister who sought to project a much more benign economic situation than the one that you are now quite prepared to acknowledge exists.

In fairness, I think that the cuts that are now being imposed upon us are accepted by all parties in the Chamber. I am not quite sure whether Plaid accepts them, but I think that all the parties that have had a whiff of UK-level Government acknowledge that there is going to be a period of retrenchment. It is very important that we all work together to find that common ground where cuts can be targeted without affecting those in most need. It is very important that, when we do that, we look at some programmes that may, over the course of time, have become redundant and cut there rather than cutting broadly across one level, imposing a blanket everywhere. We all need to work hard to identify those areas that could be cut, and in doing that we would be promoting longer term best value. I hope that we can all do that.

With regard to WAG spending and what you should be doing—as the opposition here, we will be encouraging you to make these cuts—you should focus on which programmes most promote productivity and maintain those. That may lead you to a different conclusion

David Melding: Ildiaf, gan fy mod wedi eich crybwyll.

Alun Davies: Mae'n ddrwg gennyf, ond yn anffodus, David, nid dyna a ddywedais. Yr oeddech yn amlwg yn ysgrifennu eich araith yn hytrach na gwrando. Yr hyn a ddywedais oedd bod y ffeithiau y mae'r Llywodraeth yn honni'n awr iddi eu darganfod yn yr ychydig wythnosau diwethaf yn hysbys bedwar mis yn ôl, a'i bod yn twyllo'r etholwyr, felly.

David Melding: Yr wyf yn falch ichi ailadrodd y ffaith eich bod eisoes yn gwybod bod pethau'n waeth o lawer nag a ddangosid, ac y gwyddech hynny wyth wythnos yn ôl. Eich Prif Weinidog chi a gyflwynodd y ffeithiau yn ystod yr etholiad cyffredinol, gyda llaw, felly peidiwch â mwman dan eich gwynt mai sgarmesoedd gwleidyddiaeth anodd yw hyn, rywsut. Eich Prif Weinidog chi a geisiodd ddarlunio sefyllfa economaidd lai difrifol o lawer na'r un yr ydych yn ddigon parod yn awr i gydnabod ei bod yn bodoli.

I fod yn deg, credaf fod pob plaid yn y Siambr yn derbyn y toriadau a orfodir arnom yn awr. Nid wyf yn siŵr a yw Plaid Cymru yn eu derbyn, ond credaf fod pob plaid sydd wedi cael y mymryn lleiaf o brofiad o fod mewn Llywodraeth ar lefel y DU yn cydnabod y bydd cyfnod o gyni. Mae'n bwysig iawn inni i gyd gydweithio i ddarganfod y tir cyffredin hwnnw lle gellir targedu toriadau heb effeithio ar y bobl hynny sydd fwyaf mewn angen. Wrth wneud hynny, mae'n bwysig iawn inni edrych ar rai rhaglenni a allai, gyda threigl amser, fod wedi mynd yn ddiangen, a thorri yno yn hytrach na thorri'n eang ar draws un lefel gan orfodi blanced o doriadau ym mhobman. Mae angen inni i gyd weithio'n galed i nodi'r meysydd y gellid eu torri, ac wrth wneud hynny byddem yn hybu gwerth gorau yn y tymor hwy. Gobeithio y gallwn i gyd wneud hynny.

O safbwynt gwariant Llywodraeth y Cynulliad, a'r hyn y dylech fod yn ei wneud—fel yr wrthblaid yma, byddwn yn eich annog i wneud y toriadau hyn—dylech ganolbwyntio ar nodi pa raglenni sy'n hybu cynhyrchiant fwyaf, a chynnal y rheini.

to some of the things that will be happening at a UK level. We may want to seek broader advantages in certain areas. For example, we may wish to offer more postgraduate scholarships in higher education. There may be ways in which we can now catch up in Wales. We need greater engagement with the private sector. I hope that that is maintained in the choices ahead of us. We need to maintain front-line services wherever possible. We absolutely must make that commitment to keep this process as fair as possible, because it will be difficult and painful. However, the longer term prospect of more robust economic growth will be before us if we make responsible decisions.

The Deputy Presiding Officer: Order. Will you wind up please?

David Melding: Part of that is about making adjustments as we go along because there is a danger of a double-dip recession. We must avoid that with great adeptness and skill but we must face the issues that are before us.

Jeff Cuthbert: I welcome the opportunity to contribute to this important debate. No-one in the Chamber denies that we face some very tough spending decisions in the financial year ahead, in Wales as much as the rest of the UK, of course. To make it clear, let me say that we on this side of the Chamber have never sought to minimise the problems that we face. However, I understand why the Liberal Democrats in particular are desperate to paint a different picture: it is because they fear the wrath of the electorate in about a year's time.

While devolution has allowed us to carve out our own identity and set our own direction, the finer points of the Barnett formula mean that any drastic changes to UK public spending levels will affect what we can do in Wales. We know that we have tough times ahead, and we must work within these parameters so that we get the best deal for Wales. That is why I am supporting the

Gallai hynny eich arwain at gasgliad gwahanol i rai o'r pethau a fydd yn digwydd ar lefel y DU. Efallai y byddwn am geisio manteision ehangach mewn rhai meysydd. Er enghraifft, efallai y byddwn am gynnig mwy o ysgoloriaethau ôl-radd ym maes addysg uwch. Fe all fod ffyrdd inni'n awr allu cau'r bwlch rhyngom ni yng Nghymru ac eraill. Mae arnom angen mwy o ymgysylltiad â'r sector preifat. Gobeithio y bydd hynny'n cael ei gynnal yn y dewisiadau sydd o'n blaen. Mae angen inni gynnal gwasanaethau rheng flaen ble bynnag y mae hynny'n bosibl. Rhaid inni ymrwymo'n bendant i hynny er mwyn cadw'r broses hon mor deg ag sy'n bosibl, oherwydd bydd yn anodd ac yn boenus. Fodd bynnag, gallwn edrych ymlaen at y gobaith tymor hwy o dwf economaidd cadarnach os gwnawn benderfyniadau cyfrifol.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

David Melding: Mae rhan o hynny'n golygu gwneud addasiadau wrth inni fynd yn ein blaen, oherwydd mae perygl o ail ddirwasgiad. Rhaid inni osgoi hynny gyda llawer o ddehurwydd a sgil, ond rhaid inni wynebu'r problemau sydd o'n blaen.

Jeff Cuthbert: Croesawaf y cyfle i gyfrannu at y ddadl bwysig hon. Nid oes neb yn y Siambr yn gwadu ein bod yn wynebu penderfyniadau gwariant anodd iawn yn y flwyddyn ariannol sydd o'n blaen, yng Nghymru fel yng ngweddill y DU, wrth gwrs. I egluro, gadewch imi ddweud nad ydym ni, yr ochr hon i'r Siambr, erioed wedi ceisio bychanu'r problemau sy'n ein hwynebu. Fodd bynnag, yr wyf yn deall pam mae'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn enwedig, yn awyddus iawn i beintio llun gwahanol: mae hynny oherwydd eu bod yn ofni dicter yr etholwyr ymhen tua blwyddyn.

Er bod datganoli wedi caniatáu inni lunio'n delwedd ein hunain a phennu ein cyfeiriad ein hunain, mae manylion fformiwla Barnett yn golygu y bydd unrhyw newidiadau eithafol yn lefelau gwariant cyhoeddus y DU yn effeithio ar yr hyn y gallwn ni ei wneud yng Nghymru. Gwyddom fod amseroedd anodd o'n blaen, a rhaid inni weithio o fewn y terfynau hynny er mwyn cael y fargen orau

Welsh Assembly Government's amended motion today.

Progressive alarm bells should have well and truly started ringing when the Con-Dem Government abolished child trust funds a couple of weeks ago.

The Deputy Presiding Officer: Order. Could you withdraw that remark and use the proper name for the two parties? The Presiding Officer has ruled on this matter.

Jeff Cuthbert: I am sorry if I was not understood properly. It is the Conservative-Liberal Democrat coalition Government that abolished child trust funds a couple of weeks ago. Thank you for giving me the chance to repeat that. It was a truly progressive policy initiated by the previous Labour UK Government, which encouraged families and their children to save for their long-term future and helped to give those on a lower income a better chance in adult life. It was a most disappointing decision that may very well hurt our attempts to eradicate the scourge of child poverty. I am most worried that that was a harbinger of what more there is to come. It was well and truly a wake-up call about the UK coalition Government's true intentions.

Bethan Jenkins: I appreciate and agree with you when you say that these are not progressive policies, but why did the Labour Party at a UK level not look into a progressive alliance? According to what I have heard, Ed Balls was tweeting during the negotiations with other parties. We could have done things differently if your party had played ball.

Jeff Cuthbert: I am sure that that was a good point, but I am afraid that it went over my head. I am referring to the decision of the coalition Government to abolish the child trust fund. We are where we are.

Brian Gibbons: To add some clarity to Bethan's question, is it not the case that, on the day before the general election, the leader of Plaid Cymru still could not decide which

i Gymru. Dyna pam yr wyf yn cefnogi cynnig diwygiedig Llywodraeth y Cynulliad heddiw.

Dylai clychau rhybudd cynyddol fod wedi dechrau canu'n bendant pan benderfynodd y Llywodraeth 'Con-Dem' ddiddymu cronfeydd ymddiriedolaeth plant rai wythnosau'n ôl.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A allech dynnu'r sylw hwnnw'n ôl a defnyddio'r enw cywir am y ddwy blaid? Mae'r Llywydd wedi dyfarnu ar y mater hwn.

Jeff Cuthbert: Mae'n ddrwg gennyf os na chefais fy neall yn iawn. Llywodraeth glymbleidiol y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol a ddiddymodd gronfeydd ymddiriedolaeth plant rai wythnosau'n ôl. Diolch am roi'r cyfle imi ailadrodd hynny. Yr oedd yn bolisi gwirioneddol flaengar a ddechreuwyd gan Lywodraeth Lafur flaenorol y DU, yn annog teuluoedd a'u plant i gynilo ar gyfer eu dyfodol hirdymor. Yr oedd yn helpu pobl ar incwm is i gael gwell cyfle yn eu bywyd fel oedolion. Yr oedd yn benderfyniad siomedig tu hwnt a allai'n hawdd iawn niweidio ein hymdrechion i ddileu pla tlodi plant. Yr wyf yn poeni'n fawr mai argoel o'r hyn sydd i ddod oedd hynny. Yr oedd yn agoriad llygad go iawn i wir friadau Llywodraeth glymbleidiol y DU.

Bethan Jenkins: Yr wyf yn gwerthfawrogi'r hyn yr ydych yn ei ddweud ac yn cytuno pan ddywedwch nad yw'r rhain yn bolisiau blaengar, ond pam nad edrychodd y Blaid Lafur ar lefel y DU ar gynghrair blaengar? Yn ôl a glywais, yr oedd Ed Balls yn trydar ar Twitter yn ystod y trafodaethau gyda phleidiau eraill. Gallem fod wedi gwneud pethau'n wahanol pe bai eich plaid wedi cydweithredu.

Jeff Cuthbert: Yr wyf yn siŵr fod y pwnt hwnnw'n un da, ond yr oedd y tu hwnt i mi, mae arnaf ofn. Yr wyf yn cyfeirio at benderfyniad y Llywodraeth glymbleidiol i ddiddymu'r gronfa ymddiriedolaeth plant. Dyna lle'r ydym.

Brian Gibbons: I ychwanegu ychydig eglurder at gwestiwn Bethan, onid y gwir amdani yw na allai arweinydd Plaid Cymru benderfynu o hyd, ddiwrnod cyn yr etholiad

party he would support in the aftermath of the election, even though the dogs in the street knew what was coming from a Tory Government?

Jeff Cuthbert: I am particularly fearful that those on benefits will be unfairly targeted and stigmatised as they were under previous Conservative Governments, and I am concerned about how this will affect my constituents. I recognise that benefits policy is not devolved to the Assembly, but we must ensure that we do all that we can to make sure that vulnerable people on lower incomes in Wales are not the hardest hit by the consequences of a crisis that they did not cause. We must safeguard key Welsh Assembly Government policies such as free bus passes, free prescriptions for all, and free school breakfasts in primary schools. These are progressive and egalitarian measures that benefit many people, particularly those on lower incomes, and they have been the subject of constant jibes from the Tory benches in the Assembly.

It is equally important that we protect our key educational initiatives in Wales, such as the foundation phase and the 14-19 learning pathways, which highlight our commitment to upholding the role of the state as the best provider of education, as well as giving younger people the best start in life. That is especially pertinent given the rather worrying reforms being initiated across the border in England, where people face the prospect of private companies touting parents for the business of their child's education. The UK coalition Government has even spoken of a greater role for the voluntary sector and private philanthropy in providing children's education. If you did not know any better, you would think that we were returning to the nineteenth century. For the Liberal Democrats to be involved in this—well, I am sure that that great Welsh social democrat, David Lloyd George, is turning in his grave.

4.50 p.m.

In conclusion, we in Wales have to ensure

cyffredinol, pa blaid y byddai'n ei chefnogi ar ôl yr etholiad, er bod pawb a phopeth yn gwybod beth fyddai'n dod yn sgil Llywodraeth Doriaidd?

Jeff Cuthbert: Yr wyf yn ofni'n anad dim y bydd y bobl hynny sy'n cael budd-daliadau yn cael eu targedu'n annheg a'u diffrïo, fel y cawsant dan Lywodraethau Ceidwadol blaenorol. Yr wyf yn pryderu sut y bydd hynny'n effeithio ar fy etholwyr. Yr wyf yn cydnabod nad yw'r polisi ar fudd-daliadau wedi'i ddatganoli i'r Cynulliad, ond rhaid inni sicrhau ein bod yn gwneud popeth posibl i wneud yn siŵr nad y bobl ar incwm is yng Nghymru ac sy'n agored i niwed a gaiff eu taro waethaf gan ganlyniadau argyfwng nad oeddent yn gyfrifol am ei achosi. Rhaid inni ddiogelu polisïau allweddol Llywodraeth y Cynulliad, megis teithio am ddim ar fysiau, presgripsiynau'n rhad ac am ddim i bawb, a brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd. Mae'r rhain yn fesurau blaengar a chydaddol sydd o fudd i lawer o bobl, yn enwedig pobl ar incwm is, ac maent wedi bod yn destun gwawd yn gyson ar feinciau'r Toriaid yn y Cynulliad.

Mae'r un mor bwysig inni amddiffyn ein mentrau addysgol allweddol yng Nghymru, megis y cyfnod sylfaen a'r llwybrau dysgu 14-19, sy'n tynnu sylw at ein hymrwymiad i gynnal rôl y wladwriaeth fel y darparwr addysg gorau a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bobl iau. Mae hynny'n arbennig o berthnasol o gofio'r diwygiadau a gaiff eu rhoi ar waith ar draws y ffin yn Lloegr, sy'n peri gofid braidd, lle mae pobl yn wynebu posibilrwydd cael cwmnïau preifat i geisio denu busnes gan rieni, drwy ddarparu addysg i'w plentyn. Mae Llywodraeth glymbleidiol y DU hyd yn oed wedi sôn am gynnig rôl fwy amlwg i'r sector gwirfoddol a haelioni preifat wrth ddarparu addysg i blant. Onibai eich bod yn gwybod yn well, gallech feddwl ein bod yn dychwelyd i'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. O weld y Democratiaid Rhyddfrydol yn ymwneud â hyn—wel, yr wyf yn siŵr fod y democrat cymdeithasol mawr hwnnw o Gymru, David Lloyd George, yn troi yn ei fedd.

I gloi, rhaid i ni yng Nghymru sicrhau ein

that we preserve the very best that we can, including the use of European structural funds.

Jonathan Morgan: I will start as other Members have by thanking two Labour politicians in particular, namely Lord Myners and Liam Byrne, both of whom have been extremely frank in the past couple of weeks—Lord Myners as recently as yesterday in the House of Lords. I just wish that both of them had been frank before polling day, so that the people of Wales and throughout the United Kingdom could understand that there were at least two politicians in the Labour Government who understood that it was getting this dreadfully wrong. Equally, I regret that neither of them had the strength to tell Gordon Brown and Alistair Darling that they were going in the wrong direction.

Yesterday, the Fitch Ratings report was published. It is an extremely interesting but chilling read. It confirms that the UK is expected to record one of the largest fiscal deficits among those countries regarded as having an AAA rating, with the UK recording the largest cyclically adjusted budget deficit in Europe this year. That is where we are in comparison with the rest of Europe. That is the scale of the fiscal deficit that we are facing this year. What does that mean? It means that if we, as a new United Kingdom Government, had decided to pursue the policy of the last United Kingdom Government, we would have rapidly become an enormous credit risk to those from whom we would seek to borrow in future, with a significant long-term economic consequence. There is no way a UK Government could afford to allow our country to continue to be such a risk.

Secondly, the report confirms that our primary deficit is nearly twice as large as that experienced in the 1970s, despite the fact that we enjoyed a significant period of growth from the late 1990s. The previous Labour Government did little to secure our economic position ahead of the economic downturn. To all those people who think ‘Ah, well, it is down to the global financial challenge and the collapse of the banks’, I say that the fact

bod yn diogelu'r pethau gorau y gallwn eu diogelu, gan gynnwys y modd y caiff cronfeydd strwythurol Ewropeaidd eu defnyddio.

Jonathan Morgan: Dechreuaf fel Aelodau eraill drwy ddiolch i ddau wleidydd o'r Blaid Lafur yn benodol, sef yr Arglwydd Myners a Liam Byrne, sydd ill dau wedi bod yn hynod onest yn ystod y pythefnos diwethaf—a'r Arglwydd Myners mor ddiweddar â ddoe yn Nhŷ'r Arglwyddi. Yr wyf yn gresynu na fu'r ddau yn onest cyn y diwrnod pleidleisio, fel y gallai pobl yng Nghymru ac ar draws y Deyrnas Unedig ddeall bod o leiaf ddau wleidydd yn Llywodraeth y Blaid Lafur yn deall bod y blaid ymhell ohoni. Yn yr un modd, yr wyf yn gresynu nad oedd yr un ohonynt yn ddigon cryf i ddweud wrth Gordon Brown ac Alistair Darling eu bod yn mynd i'r cyfeiriad anghywir.

Ddoe cyhoeddwyd yr adroddiad Fitch Ratings. Mae'n ddogfen hynod ddiddorol ond iasol. Mae'n cadarnhau bod disgwyl i'r DU gofnodi un o'r diffygion ariannol mwyaf o blith y gwledydd hynny yr ystyrir bod ganddynt sgôr AAA, a bod disgwyl i'r DU gofnodi'r diffyg cyllidebol mwyaf, a addaswyd yn gylchol, yn Ewrop eleni. Dyna lle'r ydym o'n cymharu â gweddill Ewrop. Dyna faint y diffyg ariannol sy'n ein hwynebu eleni. Beth y mae hynny'n ei olygu? Mae'n golygu y byddem wedi dod yn risg credyd enfawr i'r rheini y byddem yn ceisio benthyca ganddynt yn y dyfodol, gyda chanlyniad economaidd hirdymor sylweddol, pe baem ni fel Llywodraeth newydd y Deyrnas Unedig wedi penderfynu dilyn polisi Llywodraeth ddiwethaf y Deyrnas Unedig. Ni allai'r un Llywodraeth yn y DU fforddio caniatáu i'n gwlad barhau'n gymaint o risg.

Yn ail, mae'r adroddiad yn cadarnhau bod ein prif ddiffyg bron ddwywaith gymaint â'r diffyg yn y 1970au, er inni gael cyfnod sylweddol o dwf o ddiwedd yr 1990au ymlaen. Ychydig a wnaeth y Llywodraeth Lafur flaenorol i ddiogelu ein sefyllfa economaidd cyn y dirywiad economaidd. I'r holl bobl hynny sy'n meddwl ‘Wel, yr her ariannol fyd-eang a chwymp y banciau sydd ar fai am hyn’, dywedaf wrthynt mai'r gwir

of the matter is that the UK deficit was growing even when the UK economy was growing. It was growing before the recession happened and before the banks started to collapse. Therefore, there was a Labour Government in power that was more than happy to spend and spend and borrow to spend, while at the same time seeing economic growth. That was a grossly irresponsible position for the UK Government to be in. Therefore, for the Assembly Government and its supporters to say, 'It is not our fault; it is yours' and 'We are just been left to pick up the wreckage' is not fair. All you are being asked to do is save less than £1 in every £100 that you spend. That is not beyond the wit of the members of the Assembly Government, and it is certainly not beyond the talent of some of its members.

You have been warned time and again by the Wales Audit Office and others, in report after report, that we would face these challenges. Those challenges now have to be met by the Assembly Government in the way in which it spends money and in encouraging public bodies to do things differently. The warning signs have been there for a number of years, but you have done nothing about them.

Alun Davies: You say that it is not beyond the wit of members of the Government, but it was beyond the wit of your finance spokesperson, who, on *Dragon's Eye* last week, could not identify more than about £70 million or £80 million-worth of 'easy cuts', as you call them, to the budget. You expect the Government to make cuts that are more than double that.

Jonathan Morgan: If it were not so serious, it would be rather funny that Alun Davies now expects the opposition to identify all the savings that his Government has to find. We know that Rhodri Morgan, when he was First Minister, referred in a press conference to a review that the Welsh Assembly Government had undertaken, which aimed to look at how the spending programmes could be changed. We know because it was reported. He said that just because something is nice does not mean that it is affordable—and I am paraphrasing Rhodri, for which I apologise.

amdani yw bod diffyg y DU yn tyfu hyd yn oed pan oedd economi'r DU yn tyfu. Yr oedd yn tyfu cyn i'r dirwasgiad ddigwydd a chyn i'r banciau ddechrau methu. Felly, yr oedd gennym Lywodraeth Lafur mewn grym a oedd yn fwy na pharod i wario a gwario a benthyca i wario, gan weld twf economaidd ar yr un pryd. Yr oedd y sefyllfa honno'n un anghyfrifol ofnadwy i Lywodraeth y DU fod ynddi. Felly, nid yw'n deg i Lywodraeth y Cynulliad a'i chefnogwyr ddweud, 'Nid ein bai ni yw hyn, ond eich bai chi' ac 'Yr ydym wedi'n gadael i roi trefn ar y llanastr'. Y cyfan y gofynnir ichi ei wneud yw arbed llai na £1 o bob £100 yr ydych yn ei wario. Nid yw hynny y tu hwnt i synnwyr aelodau Llywodraeth y Cynulliad, ac yn sicr nid yw y tu hwnt i ddawn rhai o'i haelodau.

Cawsoch eich rhybuddio droeon gan Swyddfa Archwilio Cymru ac eraill, yn y naill adroddiad ar ôl y llall, y byddem yn wynebu'r heriau hyn. Yn awr rhaid i Lywodraeth y Cynulliad fynd i'r afael â'r heriau hynny, yn y modd y mae'n gwario arian a thrwy annog cyrff cyhoeddus i wneud pethau'n wahanol. Mae'r rhybuddion yno ers llawer blwyddyn, ond nid ydych wedi gwneud dim yn eu cylch.

Alun Davies: Yr ydych yn dweud nad yw hynny y tu hwnt i synnwyr aelodau'r Llywodraeth, ond yr oedd y tu hwnt i synnwyr eich llefarydd chi ar gyllid a oedd, ar *Dragon's Eye* yr wythnos diwethaf, yn methu nodi mwy na gwerth tua £70 miliwn neu £80 miliwn o 'doriadau rhwydd', fel yr ydych yn eu galw, yn y gyllideb. Yr ydych yn disgwyl i'r Llywodraeth wneud toriadau sydd dros ddwywaith gymaint â hynny.

Jonathan Morgan: Pe na bai mor ddifrifol, byddai'n eithaf doniol fod Alun Davies yn awr yn disgwyl i'r wrthblaid nodi'r holl arbedion y mae'n rhaid i'w Lywodraeth ddod o hyd iddynt. Gwyddom i Rhodri Morgan, pan oedd yn Brif Weinidog, gyfeirio mewn cynhadledd i'r wasg at adolygiad yr oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi'i wneud, yn ceisio edrych ar y modd y gellid newid y rhaglenni gwariant. Gwyddom oherwydd adroddwyd yn ei gylch. Dywedodd nad yw popeth neis o reidrwydd yn fforddiadwy—yr wyf yn aralleirio geiriau Rhodri, ac

The fact of the matter is that the Assembly Government has to respond to these challenges. It is you who must now accept that the savings have to be made after the way in which this and previous Assembly Governments spent public money. The years of growth are over, and the years of spending, as you did it, are over. This Government now has to show responsibility.

Angela Burns: I, for one, do not want to accept the 1 per cent reduction in the budget for Wales, but I tell you all now that neither do I want the prediction about the national debt to come true. That prediction is that, by 2015, the UK's debt would reach £1.4 trillion. I simply cannot comprehend how the UK can possibly row back from that position, recovering our credit status and going forward as a player in the world. I repeat that it is £1.4 trillion.

In 2015, my eldest will be 12 years old, and many of my constituents' children will be embarking on their secondary education, as will Members' children and grandchildren, and those of UK plc. What kind of world will it be in 2015 and 2020 if we have a debt of £1.4 trillion? We have to start taking action, for my daughter and all her generation, for our old people and for those who need jobs. We cannot go on to this figure of £1.4 trillion.

Let me tell you how I would look to save 1 per cent here in Wales. Rhodri Morgan asked how we could help—

Alun Davies: Ask Nick Ramsay.

Angela Burns: Alun Davies keeps sniping cheap shots from the back, and he is upset that neither Kirsty Williams nor Nick Ramsay can say, 'Voilà, here is your 1 per cent', but that is because they do not have access to the books. If you look over the Record of Proceedings for the past four weeks, you will find that I have spoken to the person who was answering questions in the First Minister's place yesterday, the Minister for health, the Minister for sustainability,

ymddiheuraf am hynny. Y gwir amdani yw ei bod yn rhaid i Lywodraeth y Cynulliad ymateb i'r heriau hyn. Chi sy'n gorfod derbyn yn awr ei bod yn rhaid gwneud arbedion ar ôl y modd y cafodd arian cyhoeddus ei wario gan Lywodraeth bresennol a Llywodraethau blaenorol y Cynulliad. Mae'r blynyddoedd o dwf drosodd, ac mae'r blynyddoedd o wario, fel yr oeddech chi'n gwario, ar ben. Yn awr rhaid i'r Llywodraeth hon ymddwyn yn gyfrifol.

Angela Burns: Nid wyf fi, o leiaf, am dderbyn y gostyngiad o 1 y cant yn y gyllideb ar gyfer Cymru, ond dywedaf wrthyh i gyd yn awr nad wyf ychwaith am i'r rhagfynegiad ynghylch y ddyled genedlaethol ddod yn wir. Y rhagfynegiad yw y byddai dyled y DU yn cyrraedd £1.4 triliwn erbyn 2015. Ni allaf amgyffred sut y gall y DU ddod yn ôl o'r sefyllfa honno, gan adfer ei statws credyd a symud ymlaen i chwarae ei rhan yn y byd. Dywedaf eto mai £1.4 triliwn yw'r swm.

Yn 2015, bydd fy mhlentyn hynaf yn 12 oed, a bydd nifer o blant fy etholwyr yn dechrau ar eu haddysg uwchradd, fel y bydd plant ac wyrion Aelodau eraill, a phlant DU ccc. Sut olwg fydd ar y byd yn 2015 a 2020 os bydd gennym ddyled o £1.4 triliwn? Rhaid inni ddechrau gweithredu, er mwyn fy merch a'i chenhedlaeth i gyd, er mwyn ein pobl hŷn ac er mwyn y rheini y mae arnynt angen swyddi. Ni allwn symud ymlaen i'r ffigur hwn o £1.4 triliwn.

Gadewch imi ddweud wrthyh sut y byddwn i'n ceisio arbed 1 y cant yma yng Nghymru. Gofynnodd Rhodri Morgan sut y gallem helpu—

Alun Davies: Gofynnwch i Nick Ramsay.

Angela Burns: Mae Alun Davies yn dal i ymosod drwy wneud sylwadau annheg diangen o'r cefn, ac nid yw'n hapus na all Kirsty Williams na Nick Ramsay ddweud, 'Voilà, dyma eich 1 y cant', ond mae hynny oherwydd nad oes ganddynt fynediad i'r llyfrau. O edrych ar Gofnod y Trafodion dros y pedair wythnos diwethaf, gwelwch imi siarad â'r sawl a oedd yn ateb cwestiynau yn lle'r Prif Weinidog ddoe, y Gweinidog dros iechyd, y Gweinidog dros gynaliadwyedd, ac,

and, I believe, the Minister for local government, and I have told them all where I think we could make massive savings. If we all bothered to look properly at our constituency casework, we would see where those savings are to be had. There is the £1 billion that could be better employed—not misspent—in the NHS. It is easy to be scathing about it, but how about the 31 Assembly Government-sponsored bodies? I could read through the list, but I can tell you that there is some absolute nonsense here. There are some that deliberately do pretty much the same as others, where the overlap is huge and the expenditure vast. How about the wholly owned Welsh Assembly Government businesses that you cannot find out about, organisations such as the Design Commission for Wales? There are enormous sums of money there. What about all the inflated quotes that we keep getting for—*[Interruption.]* Yes, exactly. You need to find out, because they are there. They are Welsh Assembly Government not-for-profit businesses. Take a look at the Design Commission for Wales. You do not even know—

Rhodri Morgan: That is not a business, Angela.

Angela Burns: Yes, it is, and it is sponsored by this Government. It spends money provided by this Government. *[Interruption.]* If you wish to make an intervention, please do, but do so standing up.

The Deputy Presiding Officer: Are you finished? Right, I call the next speaker.

Angela Burns: Of course you are not going to make an intervention. Thank you very much.

The Deputy Presiding Officer: Order. I am sorry—

Angela Burns: I thought—

The Deputy Presiding Officer: You sat down. A Member usually sits down when he or she has finished speaking. If a Member is not on their feet, you should ignore them—

mi gredaf, y Gweinidog dros lywodraeth leol, ac imi ddweud wrthynt i gyd ymhle y credaf y gallem wneud arbedion enfawr. Pe baem i gyd yn trafferthu edrych yn iawn ar waith achos ein hetholaethau, byddem yn gweld ymhle y gellid gwneud yr arbedion hynny. Dyna ichi'r £1 biliwn y gellid ei ddefnyddio'n well—yn hytrach na'i gamwario—yn y GIG. Mae'n hawdd bod yn ddeifiol ynghylch hwnnw, ond beth am y 31 o gyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad? Gallwn ddarllen drwy'r rhestr, ond gallaf ddweud wrthynt fod yma nonsens llwyr. Mae rhai cyrff sy'n fwriadol yn gwneud yr un fath, fwy neu lai, ag eraill, lle mae'r gorgyffwrdd yn enfawr a'r gwariant yn helaeth. Beth am y busnesau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn berchen yn llwyr arnynt, na allwch weld gwybodaeth amdanynt, sefydliadau megis Comisiwn Dylunio Cymru? Mae symiau enfawr o arian yno. Beth am yr holl ddyfynbrisiau gormodol a gawn o hyd ar gyfer—*[Torri ar draws.]* Yn union. Mae angen ichi gael gwybod, oherwydd maent yno. Busnesau di-elw Llywodraeth y Cynulliad ydynt. Edrychwch ar Gomisiwn Dylunio Cymru. Nid ydych yn gwybod hyd yn oed—

Rhodri Morgan: Nid yw hwnnw'n fusnes, Angela.

Angela Burns: Ydyw, mae'n fusnes, a chaiff ei noddi gan y Llywodraeth hon. Mae'n gwario arian a ddarperir gan y Llywodraeth hon. *[Torri ar draws.]* Os hoffech ymyrryd, gwnewch hynny ar bob cyfrif, ond gwnewch hynny ar eich traed.

Y Dirprwy Lywydd: A ydych wedi gorffen? Iawn, galwaf ar y siaradwr nesaf.

Angela Burns: Wrth gwrs nid ydych am ymyrryd. Diolch yn fawr iawn.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae'n ddrwg gennyf—

Angela Burns: Yr oeddwn yn credu—

Y Dirprwy Lywydd: Yr oeddech wedi eistedd. Fel rheol bydd Aelod yn eistedd pan fydd wedi gorffen siarad. Os nad yw Aelod yn sefyll ar ei draed, dylech ei anwybyddu—

except me.

Angela Burns: My apologies. I thought that he was making an intervention.

The Deputy Presiding Officer: Please carry on.

Angela Burns: Thank you.

What about the inflated quotes that the Assembly Government gets for flood defences? What about the inflated quotes for central heating when we know that we can do it cheaper? How many times have I raised that point here, and yet no-one has done anything about it? How about the prescription drugs that are thrown away, simply because they have been prescribed by mistake? All these things add up, and Alun Davies may not think that they will add to the amount of money that we need to save, but it is a start. If we were a business, we would be looking at all these ways to move forward.

If we were a business, we would be looking for support, and we have it. We have support from people like Robert Lloyd Griffiths, director of the Institute of Directors. He says that the new coalition Government is right to identify deficit reductions as a top priority. We have to look for support from the people of Wales, from the people of the United Kingdom, and from every organisation. I will tell you this now: if we do not make this stand, if we do not draw a line in the sand today, who will? All of us, individually and collectively, play our part in where we are as UK plc today, and it is down to us all to try to do something about it. We should stop carping from the sidelines, roll up our sleeves and try to make this difference, because we cannot, and do not want to, reach a debt of £1.4 trillion by 2015.

5.00 p.m.

Darren Millar: I am pleased to contribute to this debate. There is no doubt that the deficit

ar wahân i mi.

Angela Burns: Yr wyf yn ymddiheuro. Yr oeddwn yn meddwl ei fod yn ymyrryd.

Y Dirprwy Lywydd: Ewch yn eich blaen.

Angela Burns: Diolch.

Beth am y dyfynbrisiau gormodol a gaiff Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer amddiffynfeydd rhag llifogydd? Beth am y dyfynbrisiau gormodol ar gyfer gwres canolog, pan wyddom y gallwn ei wneud yn rhatach? Sawl gwaith yr wyf wedi codi'r pwynt hwnnw yma? Ond eto, nid oes neb wedi gwneud dim yn ei gylch. Beth am y cyffuriau a ragnodir ac sy'n cael eu taflu dim ond am iddynt gael eu rhagnodi'n anghywir? Mae'r pethau hyn i gyd yn cyfrannu at wastraff, ac efallai nad yw Alun Davies yn credu y byddant yn ychwanegu at y swm y mae angen inni ei arbed, ond mae'n ddechrau. Pe baem yn fusnes, byddem yn edrych ar yr holl ffyrdd hyn er mwyn symud ymlaen.

Pe baem yn fusnes, byddem yn chwilio am gefnogaeth, ac mae'r gefnogaeth honno gennym. Mae gennym gefnogaeth gan bobl megis Robert Lloyd Griffiths, cyfarwyddwr Sefydliad y Cyfarwyddwyr. Dywed fod y Llywodraeth glymbleidiol newydd yn iawn i nodi gostyngiadau yn y diffyg fel prif flaenoriaeth. Rhaid inni chwilio am gefnogaeth gan bobl Cymru, gan bobl y Deyrnas Unedig, a chan bob sefydliad. Dywedaf hyn wrthyf yn awr: os na wnawn y safiad hwn, os na roddwn ni derfyn ar y cyfan heddiw, pwy sydd am wneud? Mae gan bob un ohonom, yn unigol a chyda'n gilydd, ran i'w chwarae yn y sefyllfa yr ydym ynddi heddiw fel y DU ccc, ac mae cyfrifoldeb ar bob un ohonom i geisio gwneud rhywbeth amdani. Dylem roi'r gorau i gwyno o'r ymylon, torchi ein llewys a cheisio gwneud y gwahaniaeth hwn, oherwydd ni allwn, ac ni ddymunwn, gyrraedd dyled o £1.4 triliwn erbyn 2015.

Darren Millar: Yr wyf yn falch cyfrannu at y ddadl hon. Nid oes amheuaeth nad y diffyg

is the No. 1 pressing issue for the United Kingdom Government to tackle, and we must play our part in helping to address that deficit in Wales through the Assembly Government's budget. We all know the reason why we have this legacy—it is Gordon Brown's legacy. The scale of the deficit is much worse here than in other parts of the European Union and the world. However, let us put this into context. Other UK Government departments also have to save money, but if you look at the savings that we have to make in the Welsh Assembly Government budget, they amount to less than 1p in every £1 that we spend. Compare that with the savings that the Treasury has to make—it has to save 10p in every £1. So, the UK Government is not asking us to do something that is wholly unachievable. Everyone who is in business or who has their own finances to manage at home recognises that when you have to tighten the belt—and we are all in this together at the end of the day—we all have a responsibility to be a part of it.

Alun Davies: It is a lot easier to be in it together when you have a private fund of your own. If your priority is reduction in the deficit, do you welcome the fact that the UK public deficit is 91 per cent of GDP, whereas it is far higher in Ireland, the United States and the whole of the eurozone?

Darren Millar: You are quoting historic figures, Alun. Look at the facts at the moment: our public finances in the current financial year are the worst of any given the scale of the deficit. Those are the facts—check them and make sure that you ask your researchers to give you the proper up to date information in the future.

The issue that I want to highlight is the total irresponsibility of the Assembly Government in making any plans to deal with the cuts, especially given the fact that, before the election, our party warned that, if we were in Government, there would be immediate in-year reductions in the funding coming to Wales. You have the opportunity to put them off this year, but you have not even made up

yw'r mater pennaf y mae angen i Lywodraeth y Deyrnas Unedig fynd i'r afael ag ef ar frys, a rhaid inni wneud ein rhan i helpu mynd i'r afael â'r diffyg hwnnw yng Nghymru drwy gyllideb Llywodraeth y Cynulliad. Gwyddom i gyd pam mae gennym y gwaddol hwn—gwaddol Gordon Brown ydyw. Mae maint y diffyg yn waeth o lawer yma nag mewn rhannau eraill o'r Undeb Ewropeaidd a'r byd. Fodd bynnag, gadewch inni roi hynny yn ei gyd-destun. Rhaid i adrannau eraill Llywodraeth y DU hefyd arbed arian, ond o edrych ar yr arbedion y mae'n rhaid i ni eu gwneud yng nghyllideb Llywodraeth y Cynulliad, maent yn llai nag 1c o bob £1 a wariwn. Cymharwch hynny â'r arbedion y mae'n rhaid i'r Trysorlys eu gwneud—rhaid iddo arbed 10c o bob £1. Felly, nid yw Llywodraeth y DU yn gofyn inni wneud rhywbeth sy'n hollol y tu hwnt i'n cyrraedd. Mae pawb sydd mewn busnes neu sydd â'u harian eu hunain i'w reoli gartref yn cydnabod bod cyfrifoldeb ar bob un ohonom i fod yn rhan o'r ymdrech pan fydd yn rhaid codi'r rhasl—ac yr ydym i gyd yn y sefyllfa hon gyda'n gilydd yn y pen draw.

Alun Davies: Mae'n llawer haws bod yn y sefyllfa gyda'n gilydd pan fydd gennych gronfa breifat eich hun. Os eich blaenoriaeth yw lleihau'r diffyg, a ydych yn croesawu'r ffaith fod diffyg cyhoeddus y DU yn 91 per cent o'r cynnyrch mewnwladol crynswth, tra mae'n uwch o lawer yn Iwerddon, yr Unol Daleithiau, a holl ardal yr ewro?

Darren Millar: Yr ydych yn dyfynnu ffigurau hanesyddol, Alun. Edrychwch ar y ffeithiau ar hyn o bryd: sefyllfa ein harian cyhoeddus ni yn y flwyddyn ariannol gyfredol yw'r sefyllfa waethaf i gyd, o ystyried maint y diffyg. Dyna'r ffeithiau—gwiriwch hwy a gwnewch yn siŵr eich bod yn gofyn i'ch ymchwilyr roi'r wybodaeth ddiweddaraf gywir ichi yn y dyfodol.

Y mater yr wyf am dynnu sylw ato yw diffyg cyfrifoldeb llwyr Llywodraeth y Cynulliad wrth wneud unrhyw gynlluniau i ymdrin â'r toriadau, yn enwedig o gofio bod ein plaid ni wedi rhybuddio, cyn yr etholiad, y byddai gostyngiadau yn union yn ystod y flwyddyn yn y cyllid a gaiff Cymru, pe baem ni mewn Llywodraeth. Mae gennych gyfle i'w gohirio eleni, ond nid ydych hyd yn oed wedi

your mind whether you are going to do that, because you are sitting around dithering. Perhaps you can give us a response as to whether you will allow any of those cuts to come this year. The public in Wales will find your irresponsible attitude hard to swallow when it comes to the Assembly election next year.

You are telling us that, if Labour was in Government, you would put off these important decisions to deal with the deficit straight away. You would take this *mañana* attitude of 'We'll put it off until tomorrow', because the reality is that you do not want to tackle waste and inefficiency. We have seen waste and waste again over the past 13 years of Labour rule from London in a bloated public sector that needs to be slimmed down. We need to tackle waste in councils and Government departments.

Joyce Watson *rose*—

The Deputy Presiding Officer: Order. Will you take an intervention?

Darren Millar: We know that the waste is there—your own Government did some work that identified waste, and you were not even prepared to deal with that in the current financial year.

Joyce Watson: Thank you for taking an intervention. The only piece of waste that we do not want to see, on this side of the Chamber, is the one that you will inflict on the people of this country, namely those who will end up on the scrapheap. You are failing singularly to put forward plans to invest in the future of the people of this country. It is people's lives that you are going to waste. Can you give us any information that tells us that that is not the case?

The Deputy Presiding Officer: Order. This is a speech, not an intervention.

Darren Millar: Do not lecture us about investment in people when we have 96,000 children in poverty in Wales, simply because of the inaction of your Labour colleagues

penderfynu a ydych yn bwriadu gwneud hynny, oherwydd yr ydych yn eistedd o gwmpas yn petruso. Efallai y gallwch ddweud wrthym mewn ymateb a fyddwch yn caniatáu i unrhyw rai o'r toriadau hynny ddod eleni. Bydd y cyhoedd yng Nghymru yn ei chael yn anodd llyncu eich agwedd anghyfrifol pan ddaw etholiad y Cynulliad y flwyddyn nesaf.

Yr ydych yn dweud wrthym y byddech, pe bai'r Blaid Lafur mewn Llywodraeth, yn gohirio'r penderfyniadau pwysig hyn i ymdrin â'r diffyg yn syth. Byddech yn cymryd yr agwedd *mañana*, 'Fe'i gohiriwn tan yfory', oherwydd y realiti yw nad ydych am fynd i'r afael â gwastraff ac aneffeithlonrwydd. Yr ydym wedi gweld gwastraff diddiwedd dros y 13 blynedd diwethaf dan reolaeth y Blaid Lafur yn Llundain, mewn sector cyhoeddus sy'n rhy fawr ag angen ei docio. Mae angen inni fynd i'r afael â gwastraff mewn cynghorau ac adrannau'r Llywodraeth.

Joyce Watson *a gododd*—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Darren Millar: Gwyddom fod y gwastraff yno—gwnaeth eich Llywodraeth eich hun ychydig waith a oedd yn nodi gwastraff, ac nid oeddech hyd yn oed yn barod i ymdrin â hwnnw yn y flwyddyn ariannol bresennol.

Joyce Watson: Diolch am dderbyn ymyriad. Yr unig wastraff nad ydym am ei weld, yr ochr hon i'r Siambr, yw'r gwastraff y byddwch chi'n ei orfodi ar bobl y wlad hon, sef y bobl a fydd ar y domen yn y pen draw. Yr ydych yn methu'n lân â chyflwyno cynlluniau i fuddsoddi yn nyfodol pobl y wlad hon. Yr hyn y byddwch chi'n ei wastraffu fydd bywydau pobl. A allwch roi gwybodaeth sy'n dangos inni nad yw hynny'n wir?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Araith yw hon, nid ymyriad.

Darren Millar: Peidiwch â phregethu wrthym am fuddsoddi mewn pobl pan fo gennym 96,000 o blant yn byw mewn tldi yng Nghymru oherwydd, yn syml iawn,

who have been in charge of Wales for the past 10 years in this devolved institution, and done absolutely nothing to tackle it. I will give you an idea that you might want to put into practice as a result of this debate, First Minister. Why not get us all around a table to look at this in detail?

The Deputy Presiding Officer: Order. Can you wind up, please?

Darren Millar: Open the books up to us and show us where the cuts to spending need to be made; we will come up with some suggestions for you. Until you come forward with your ideas, I see no reason why we should give you more detail on ours.

Andrew R.T. Davies: I welcome the opportunity to contribute to today's debate. The motion on today's agenda asks the Assembly to note 'with concern', which I think is pretty uniform here, the size of the budget deficit and

'calls on the Welsh Assembly Government to work more closely with the UK Government'.

That is a crucial link, irrespective of political ideology. As a result of the financial situation in which we find ourselves, that link will be very important. I hope that no-one will dismiss that, because, ultimately, it will be the people in the communities of Wales who will suffer if raw politics come to the surface. A chilling figure that I saw yesterday, when I was researching for this debate, was that, if we continue on our current trajectory, of every £100 that we take in in 2013 in taxation revenue, £10 will go on interest payments alone. That is 10 per cent of every £100 that we take in. That is surely not what the men and women of this country work and pay their taxes for. They require good-quality public services. No-one disputes that fact, although there is, in some sections of the Chamber, a certain ambiguity over the way in which we should approach this. Some people think that we can carry on as if nothing is happening.

diffyg gweithredu gan eich cydweithwyr yn y Blaid Lafur, sydd wedi bod yn gyfrifol am Gymru dros y 10 mlynedd diwethaf yn y sefydliad datganoledig hwn, ac nad ydynt wedi gwneud dim byd o gwbl i fynd i'r afael ag ef. Dyma ichi syniad y byddwch efallai am ei weithredu o ganlyniad i'r ddadl hon, Brif Weinidog. Pam na threfnwch i bob un ohonom gyfarfod o amgylch y bwrdd i ystyried y mater hwn yn fanwl?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

Darren Millar: Agorwch y llyfrau inni gael eu gweld, a dangoswch inni ymhle mae angen torri gwariant; fe gynigiwn rai argymhellion ichi. Nes ichi gyflwyno'ch syniadau chi, ni welaf ddim rheswm pam y dylem roi rhagor o fanylion ichi am ein syniadau ni.

Andrew R.T. Davies: Yr wyf yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at y ddadl heddiw. Mae'r cynnig ar yr agenda heddiw'n gofyn i'r Cynulliad nodi 'â phryder', sy'n ddigon cyffredinol yma, mi gredaf, faint y diffyg yn y gyllideb, ac

'yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i weithio'n agosach gyda Llywodraeth y DU'.

Mae'r cysylltiad hwnnw'n hollbwysig, waeth beth fo'r ideoleg wleidyddol dan sylw. O ganlyniad i'r sefyllfa ariannol yr ydym ynddi, bydd y cysylltiad hwnnw'n bwysig iawn. Gobeithio na fydd neb yn diystyru hynny, oherwydd y bobl yng nghymunedau Cymru a fydd yn dioddef yn y pen draw os daw gwleidyddiaeth foel i'r wyneb. Gwelais ffigur iasol ddoe pan oeddwn yn ymchwilio ar gyfer y ddadl hon, sef os byddwn yn parhau ar hyd y llwybr presennol y bydd £10 o bob £100 y byddwn yn ei gymryd yn 2013 mewn refeniw trethi yn cael ei wario ar daliadau llog yn unig. Mae hynny'n 10 y cant o bob £100 y byddwn yn ei gael. Rhaid nad yw dynion a menywod y wlad hon yn gweithio ac yn talu eu trethi er mwyn i hynny ddigwydd. Mae arnynt angen gwasanaethau cyhoeddus o safon. Nid oes neb yn amau'r ffaith honno, er bod rhywfaint o amwysedd mewn rhai rhannau o'r Siambr am y modd y dylem fynd i'r afael â'r sefyllfa. Cred rhai pobl y gallwn

barhau i weithredu fel pe na bai dim byd yn digwydd.

If you look across Europe, you will see that every country is having to look at its current budgetary situation. Whether they are Governments of the left, centre-left, centre-right or right, they all have to find budgetary savings and spending efficiencies to ensure that they keep their credibility in the marketplace. The frightening prospect for many of us is the Treasury and the Bank of England going to the markets and putting their gilts forward, seeking borrowed money to keep the economy moving. If you do not understand that basic principle, we have a major problem on our hands. If we lose our AAA rating, the money would be available but it would cost us more in the short, medium and long term. When we pay more in interest, we ultimately have less money to look after the most vulnerable members of our society. No-one would want to see that happening.

We have to ensure that we rebalance our economy. There is no doubt, when you look at the Welsh economy in particular, that there is too high a dependency on the public sector—I have heard this from all parts of the Chamber. If we are to create the entrepreneurial spirit or the spirit of enterprise that will ultimately increase the wealth of our nation, we must give people confidence that the Government of this country is taking seriously the long-term implications of a massive deficit in our public accounts. We cannot stand by and let that happen. The coalition Government in Westminster has been honest, open and upfront in how it seeks to challenge the situation and make a difference to ensure that we retain the confidence of the money markets and that we ensure that the nets are in place for the most vulnerable members of our society to benefit from the measures that we put in place.

Jeff Cuthbert: On that very point, why cut the Future Jobs fund and the child trust funds? Those were surely for the most vulnerable members of our communities.

O edrych ar weddill Ewrop, fe welwch fod pob gwlad yn gorfod ystyried ei sefyllfa gyllidebol bresennol. P'un a ydynt yn Llywodraeth adain chwith, i'r chwith o'r canol, i'r dde o'r canol, neu'n Llywodraeth adain dde, rhaid i bob un ohonynt sicrhau arbedion cyllideb a ffyrdd mwy effeithlon o wario, er mwyn sicrhau y byddant yn cadw'u hygredd yn y farchnad. Yr hyn sy'n codi ofn ar lawer ohonom yw'r posibilrwydd y gallai'r Trysorlys a Banc Lloegr fynd i'r marchnadoedd a chyflwyno stociau'r Llywodraeth, gan geisio arian benthyg er mwyn cadw'r economi i fynd. Os nad ydych yn deall yr egwyddor syml honno, mae gennym broblem fawr ar ein dwylo. Os collwn ein sgôr AAA, byddai'r arian ar gael ond byddai'n costio mwy inni yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Pan fyddwn yn talu rhagor mewn llog, bydd gennym lai o arian yn y pen draw i ofalu am yr aelodau sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Ni fyddai neb am weld hynny'n digwydd.

Rhaid inni sicrhau ein bod yn ailfantoli ein heconomi. Pan ystyriwch economi Cymru yn enwedig, nid oes amheuaeth nad ydym yn dibynnu'n ormodol ar y sector cyhoeddus—yr wyf wedi clywed hynny o bob rhan o'r Siambr. Os ydym am greu ysbryd entrepreneuraid neu ysbryd mentrus a fydd yn y pen draw yn gwneud ein gwlad yn gyfoethocach, rhaid inni roi hyder i bobl fod Llywodraeth y wlad hon o ddifrif ynghylch goblygiadau tymor hir y diffyg enfawr yn ein cyfrifon cyhoeddus. Ni allwn sefyll o'r neilltu a gadael i hynny ddigwydd. Mae'r Llywodraeth glymbleidiol yn San Steffan wedi bod yn onest ac yn agored am y ffordd y mae'n ceisio herio'r sefyllfa a gwneud gwahaniaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn dal ein gafael ar hyder y marchnadoedd arian, ac yn sicrhau bod y rhwydi ar waith er mwyn i'r aelodau sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas elwa o'r mesurau a gyflwynwn.

Jeff Cuthbert: Ar yr union bwynt hwnnw, pam yr ydych yn torri cronfa Swyddi'r Dyfodol a'r cronfeydd ymddiriedolaeth plant? Siawns nad oedd y cronfeydd hynny ar

What universal benefits are next on your list?

Andrew R.T. Davies: We are replacing the Future Jobs fund. One of the most challenging figures in relation to benefits in this country today is that 33 per cent of households receive 50 per cent of their income from benefits. That is unsustainable, Jeff. If we are serious about empowering our communities and making prosperity our key goal, we cannot continue with that unsustainable model. *[Interruption.]* Your own former Minister, Lord Myners, said clearly in the House of Lords yesterday that there is no progressive thinking in the Labour Party and that the way that they were carrying on was completely unsustainable—the former Chancellor and the former Chief Secretary to the Treasury. The question for you in the Chamber is this: do you stand up for the future, for opportunity and for empowerment or do you stand for the same old dependency culture? That culture is clearly not working, as there are 96,000 children in poverty in this country, there is record youth unemployment and, above all, there are 8.1 million people on disability benefits. *[Interruption.]* That is unsustainable, and if we continue on that trajectory without attacking the budget deficit, we really will be in a situation where everyone will suffer.

5.10 p.m.

The Deputy Presiding Officer: Order. Could you wind up, please?

Andrew R.T. Davies: The lack of intellectual thinking on the economic front is worrying. How are we to be serious about improving the GVA of Wales given the intellectual deficit on the Government benches in this Chamber?

The First Minister: Let us see if I can make up the intellectual deficit, shall we? First, I have heard from the Tory benches the need for clarity on the budget. I agree. However, the first thing that we need is clarity from their own party in London. We do not know the funding split between capital and

gyfer y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Pa fudd-daliadau cyffredinol yw'r nesaf ar eich rhestr?

Andrew R.T. Davies: Yr ydym yn cyflwyno rhywbeth arall yn lle cronfa Swyddi'r Dyfodol. Un o'r ffigurau mwyaf heriol o ran budd-daliadau yn y wlad hon heddiw yw'r ffaith fod 33 y cant o aelwydydd yn cael 50 y cant o'u hincwm o fudd-daliadau. Nid yw hynny'n gynaliadwy, Jeff. Os ydym o ddifrif ynghylch grymuso ein cymunedau a sicrhau mai ffyniant yw ein prif nod, ni allwn barhau'r patrwm anghynaliadwy hwnnw. *[Torri ar draws.]* Dywedodd eich cyn-Weinidog eich hun, yr Arglwydd Myners, yn glir yn Nhŷ'r Arglwyddi ddoe nad yw'r Blaid Lafur yn meddwl yn flaengar o gwbl, a bod y modd yr oeddent—y cyn-Ganghellor a chyn-Brif Ysgrifennydd y Trysorlys—yn gweithredu yn gwbl anghynaliadwy. Y cwestiwn i chi yn y Siambr yw hwn: a ydych yn sefyll dros y dyfodol, dros gyfleoedd a thros rymuso, ynteu a ydych yn sefyll dros yr un hen ddiwylliant o ddibyniaeth? Mae'n amlwg nad yw'r diwylliant hwnnw'n gweithio, gan fod 96,000 o blant mewn tlodi yn y wlad hon, diweithdra ymhlith pobl ifanc ar ei lefel uchaf erioed, ac yn anad dim, fod 8.1 miliwn o bobl yn cael budd-daliadau anabledd. *[Torri ar draws.]* Mae hynny'n anghynaliadwy, ac os parhawn ar hyd y llwybr hwnnw heb fynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb, byddwn yn sicr mewn sefyllfa lle bydd pawb yn dioddef.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi ddirwyn i ben, os gwelwch yn dda?

Andrew R.T. Davies: Mae'r diffyg meddwl yn ddeallus o safbwynt economaidd yn peri pryder. Sut mae disgwyl inni fod o ddifrif ynghylch gwella Gwerth Ychwanegol Crynswth Cymru o gofio'r diffyg deallusol ar feinciau'r Llywodraeth yn y Siambr hon?

Y Prif Weinidog: Gadewch inni weld a allaf fi wneud iawn am y diffyg deallusol hwnnw? Yn gyntaf, yr wyf wedi clywed o feinciau'r Toriaid fod angen eglurder ynghylch y gyllideb. Cytunaf â hynny. Fodd bynnag, y peth cyntaf y mae arnom ei angen yw eglurder gan eu plaid eu hunain yn Llundain.

revenue, we do not know whether we will have end-year flexibility, and we do not know what the comprehensive spending review will look like in October. We do not know any of these things, and that is why it is difficult to plan, at this stage, as to when these cuts must fall. We have been planning. I have said many times in public that we have planned on the basis of a 3 per cent cut in revenue for next year, with a 10 per cent cut in capital. This is not a case of us having to take a £187 million cut within a year. It is a £187 million cut halfway through the year. That is why it is so difficult; so much has been committed already.

However, I am pleased to say that Jane Hutt has been to London this afternoon, and she has come back with £1.4 million that has been returned to us as a result of a mistake by the Treasury over Olympic funding. She has also had a commitment from the Chief Secretary to the Treasury that he will meet with Gerry Holtham, which is a significant step forward. The BBC has quoted Jane Hutt as saying that she wants a long-term relationship with Danny Alexander; I think that that is probably taking it a bit too far; nevertheless, it is important that progress has been made this afternoon.

Every party in this Chamber accepts the Holtham findings. Every party in this Chamber accepts that Wales is underfunded to the tune of £300 million a year. We would not be having this debate if that money was forthcoming from the Treasury, because that would more than make up for the money that we are being expected to find. However, Holtham is not being taken forward. I will quote what the coalition agreement between the Conservatives and Liberal Democrats at Westminster says about Holtham:

‘Depending on the result of the forthcoming referendum, we will establish a process similar to the Calman Commission’.

Why is the issue of powers linked to the issue of funding? Surely Wales deserves fairer

Ni wyddom sut y caiff y cyllid ei rannu rhwng cyfalaf a refeniw, ni wyddom a fydd gennym hyblygrwydd ar ddiwedd y flwyddyn, ac ni wyddom sut olwg fydd ar yr adolygiad cynhwysfawr o wariant ym mis Hydref. Ni wyddom yr un o'r pethau hyn, a dyna pam, ar hyn o bryd, y mae'n anodd cynllunio pryd y bydd yn rhaid cyflwyno'r toriadau hyn. Yr ydym wedi bod yn cynllunio. Yr wyf wedi dweud droeon yn gyhoeddus inni gynllunio ar sail toriad o 3 y cant mewn refeniw am y flwyddyn nesaf, gyda thoriad o 10 y cant mewn cyfalaf. Nid mater yw hyn o orfod gwneud toriad o £187 miliwn ymhen blwyddyn. Mae'n doriad o £187 miliwn hanner y ffordd trwy'r flwyddyn. Dyna pam mae mor anodd; mae cymaint o arian wedi ei neilltuo eisoes.

Fodd bynnag, yr wyf yn falch dweud fod Jane Hutt yn Llundain y prynhawn yma, ac mae wedi dod yn ôl ag £1.4 miliwn sydd wedi'i ddychwelyd inni o ganlyniad i gamgymeriad gan y Trysorlys ynghylch cyllid Olympaidd. Mae hefyd wedi cael addewid gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys y bydd yn cyfarfod â Gerry Holtham, sy'n gam mawr ymlaen. Mae'r BBC wedi dyfynnu Jane Hutt gan nodi iddi ddweud ei bod am gael perthynas hirdymor â Danny Alexander; credaf fod hynny, fwy na thebyg, yn mynd gam yn rhy bell; er hynny, mae'n bwysig bod cynnydd wedi'i wneud y prynhawn yma.

Mae pob plaid yn y Siambr hon yn derbyn darganfyddiadau Holtham. Mae pob plaid yn y Siambr hon yn derbyn bod y cyllid a gaiff Cymru £300 miliwn y flwyddyn yn llai nag y dylai fod. Ni fyddem yn cael y ddadl hon pe bai'r arian hwnnw ar y ffordd gan y Trysorlys, oherwydd byddai hynny'n gwneud iawn a mwy am yr arian y mae disgwyl inni ddod o hyd iddo. Fodd bynnag, nid yw darganfyddiadau Holtham yn cael eu symud yn eu blaen. Yr wyf am ddyfynnu'r hyn y mae'r cytundeb clymbleidiol rhwng y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan yn ei ddweud am Holtham:

Yn dibynnu ar ganlyniad y refferendwm arfaethedig, byddwn yn sefydlu proses debyg i Gomisiwn Calman.

Pam mae pwerau'n gysylltiedig â chyllid? Siawns nad yw Cymru'n haeddu cyllid

funding regardless of the outcome of the referendum.

Kirsty Williams and Jenny Randerson *rose—*

The First Minister: Kirsty, you were marginally quicker.

Kirsty Williams: Do you acknowledge that Calman goes beyond simply readjusting a formula and looks at the possibility of greater fiscal federalism? Therefore, it is not unreasonable to, first, settle the legislative competence of this place, and then decide the relevant funding mechanisms for it. If—and I hope to goodness there will not be—there is a rejection of the referendum question, there is a limit to the type of devolution this nation desires. If the people do not want greater devolution of legislative competence they certainly will not want greater fiscal federalism.

The First Minister: That is an interesting argument: if you vote ‘yes’, you get more money. I will have to remember that when the referendum comes around. There is no connection between powers and funding; Wales deserves fairer funding regardless of what happens in the referendum, but that is something that the coalition in London has missed. It does not use the words ‘following the referendum’, or ‘once the referendum is concluded, but ‘depending on the result of the forthcoming referendum’ Wales may get fairer funding. That is the message that has been put forward.

David Melding *rose—*

The First Minister: Time is a problem, I am afraid.

It is not as easy as saying that we will find waste and cut it. It is not as easy as that. It has been suggested today that Wales is somehow bloated in its public sector. I can tell you that, as far as the Assembly Government is concerned, our administration budget is proportionally lower than Whitehall departments, it is proportionally lower in its pay bill, and we operate with a lower

tecach, waeth beth fydd canlyniad y refferendwm.

Kirsty Williams a Jenny Randerson *a gododd—*

Y Prif Weinidog: Kirsty, yr oeddech chi chydig yn gyflymach.

Kirsty Williams: A ydych yn cydnabod bod Calman yn gwneud mwy nag ailaddasu fformiwla'n unig, a'i fod yn ystyried posibilrwydd cael mwy o ffederaliaeth ariannol? Felly, nid yw'n afresymol datrys cymhwysedd deddfwriaethol y lle hwn yn gyntaf, cyn penderfynu'r dulliau ariannu perthnasol ar ei gyfer. Os caiff cwestiwn y refferendwm ei wrthod—a gobeithio i'r nefoedd na wnaiff—mae terfyn ar y math o ddatganoli y mae'r wlad hon yn dymuno'i gael. Os nad yw'r bobl am i gymhwysedd deddfwriaethol gael ei ddatganoli ymhellach, yn sicr ni fyddant am gael mwy o ffederaliaeth ariannol.

Y Prif Weinidog: Mae hynny'n ddadl ddiddorol: os pleidleisiwch 'ie', cewch ragor o arian. Bydd yn rhaid imi gofio hynny pan ddaw'r refferendwm. Nid oes dim cysylltiad rhwng pwerau a chyllid; mae Cymru'n haeddu cyllid tecach, waeth beth ddigwydd yn y refferendwm, ond mae hynny'n rhywbeth nad yw'r glymblaid yn Llundain wedi'i ddeall. Nid yw'n defnyddio'r geiriau 'yn dilyn y refferendwm', neu 'ar ôl cwblhau'r refferendwm'; yn hytrach, dywed efallai y bydd Cymru'n cael cyllid tecach 'yn dibynnu ar ganlyniad y refferendwm arfaethedig'. Dyna'r neges sydd wedi'i chyflwyno.

David Melding *a gododd—*

Y Prif Weinidog: Mae amser yn broblem, yr wyf yn ofni.

Nid yw mor hawdd â dweud y byddwn yn dod o hyd i wastraff ac yn ei dorri. Nid yw mor hawdd â hynny. Awgrymwyd heddiw bod gan Gymru, rywsut, ormod o bobl yn gweithio yn y sector cyhoeddus. O ran Llywodraeth y Cynulliad, gallaf ddweud wrthyfych bod ein cyllideb weinyddol yn is ar gyfartaledd nag adrannau Whitehall, bod ein bil cyflogau'n is ar gyfartaledd, a'n bod yn

proportion of civil servants than Whitehall. There are just over 6,000 civil servants working for the Welsh Assembly Government. The comparative figure for Scotland, taking their agencies into account, is 22,000; in Northern Ireland, it is 32,000. We are hardly overstaffed. There is very little scope for making cuts in those circumstances.

If you look at what is happening at Whitehall, the suggestion is being made by the coalition Government in Westminster that cuts should be made by moving jobs out of London, cutting large information and communications technology contracts and cutting quangos. We have done all those things. We cannot make the easy cuts that the Whitehall departments can make, and cuts in Wales will be deeper than anywhere else in the UK, because we have already taken difficult decisions to reduce our administrative budget in years gone by.

I do wonder in the Chamber sometimes. I hear the Tories talk about economic mismanagement and I think of 15 per cent interest rates, 22 per cent inflation, 4 million unemployed—all that happened during the Tory years, under a Tory Government, and yet they have the nerve to lecture us about economic mismanagement. The difference between this recession and the recession of the early 1980s is that this is a global recession. Everybody accepts that, yet in the election campaign it was Gordon Brown's recession; now that the Tories are in Government it is a global recession, of course. In the early 1980s, we had a recession that was created entirely by a Conservative Government. It engineered it deliberately, and attacked mining communities deliberately, and that is the difference. We are dealing with a recession that affects all the countries of the world; you created a recession as a result of economic mismanagement.

We heard about the jobs tax. Nick Bourne mentioned the jobs tax, as he calls it. Yes, the national insurance contributions will not be

gweithredu gyda llai o weision sifil ar gyfartaledd na Whitehall. Ychydig dros 6,000 o weision sifil sy'n gweithio i Lywodraeth y Cynulliad. Y ffigur cymharol ar gyfer yr Alban, gan gynnwys ei hasiantaethau, yw 22,000; ac yng Ngogledd Iwerddon mae yna 32,000. Prin y gellir dweud bod gennym ormod o staff. Ychydig iawn o gyfle sydd i wneud toriadau dan amgylchiadau o'r fath.

O edrych ar yr hyn sy'n digwydd yn Whitehall, awgryma'r Llywodraeth glymbleidiol yn San Steffan y dylid gwneud toriadau drwy symud swyddi allan o Lundain, torri contractau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu mawr, a dileu cwangos. Yr ydym ni wedi gwneud pob un o'r pethau hynny. Ni allwn wneud y toriadau hawdd y gall adrannau Whitehall eu gwneud, a bydd toriadau yng Nghymru yn cael effaith fwy pellgyrhaeddol nag yn unman arall yn y DU, am ein bod eisoes wedi gwneud penderfyniadau anodd i leihau ein cyllideb weinyddol yn y blynyddoedd diwethaf.

Byddaf yn rhyfeddu yn y Siambr weithiau. Clywaf y Torïaid yn sôn am gamreoli economaidd, a byddaf yn meddwl am gyfraddau llog o 15 y cant, chwyddiant o 22 y cant, 4 miliwn o bobl yn ddi-waith—digwyddodd hynny i gyd yn ystod blynyddoedd y Torïaid, dan Lywodraeth Dorïaidd, ac eto maent yn ddigon digywilydd i bregethu wrthym ni am gamreoli economaidd. Y gwahaniaeth rhwng y dirwasgiad hwn a'r dirwasgiad ddechrau'r 1980au yw bod hwn yn ddirwasgiad byd-eang. Mae pawb yn derbyn hynny, ond eto i gyd, yn yr ymgyrch etholiadol cafodd ei alw'n ddirwasgiad Gordon Brown; gan fod y Torïaid bellach mewn grym, mae'n ddirwasgiad byd-eang wrth gwrs. Ddechrau'r 1980au cawsom ddirwasgiad a grëwyd yn gyfan gwbl gan Lywodraeth Geidwadol. Saernïodd y Llywodraeth y dirwasgiad yn fwriadol, ac ymosododd ar gymunedau glofaol yn fwriadol, a dyna'r gwahaniaeth. Yr ydym ni'n ymdrin â dirwasgiad sy'n effeithio ar bob gwlad yn y byd; creu dirwasgiad o ganlyniad i gamreoli economaidd wnaethoch chi.

Clywsom am y dreth swyddi. Soniodd Nick Bourne am y dreth swyddi, fel y mae'n ei galw. Mae'n wir nad cwmnïau ond unigolion

paid by firms, but they will be paid by individuals. Here we have the first Tory stealth tax. They have not told individuals about that; people will find out about it as they look at their pay packets over the next few months.

The other myth that is perpetuated is that you can compare Government with business and that you can run Government like a business. You cannot do so. Why not? I will tell you why: businesses would never provide the services that Government provides. It is not economically viable to provide education for free; a business would charge for it. It is not economically viable to provide healthcare for free; a business would charge for it. If a business wants to reduce its labour costs, what would it do? It would probably move the factory to Malaysia or China. It would be very difficult for the people of Merthyr to receive healthcare if the Prince Charles Hospital was moved to China, but that is exactly the sort of model that you are proposing when it comes to the public sector. The same rules do not apply in the public sector as apply in the private sector. The public sector provides services that businesses would never provide, because businesses would want to charge people for them.

Angela Burns: Surely, it should be the case that in the same way as a business is careful in looking after its pounds, so should a Government be. Within the public sector, you should still be able to look at the best way to make pounds go further. Any prudent business does that and a prudent Government should do that too.

The First Minister: I agree entirely that Government should be prudent in what it spends and that it should also want to secure efficiency. We have doing that for years. However, what we cannot do is provide services as if we were a business, because we provide services that no business would provide. No business would provide free healthcare. We also have to provide services in situ for the people of Wales, not remotely from elsewhere, as businesses would do.

a fydd yn talu'r cyfraniadau yswiriant gwladol. Dyma'r dreth lechwraidd gyntaf gan y Torïaid. Nid ydynt wedi dweud wrth unigolion am hynny; bydd pobl yn dod i wybod amdani wrth edrych ar eu pecynnau cyflog yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.

Y myth arall sy'n parhau yw y gallwch gymharu Llywodraeth â busnes, ac y gallwch redeg Llywodraeth fel busnes. Ni allwch wneud hynny. Pam? Dywedaf wrthyhch pam: ni fyddai busnesau byth yn darparu'r gwasanaethau y mae Llywodraeth yn eu darparu. Nid yw'n hyfyw yn economaidd i ddarparu addysg yn rhad ac am ddim; byddai busnes yn codi tâl am hynny. Nid yw'n hyfyw yn economaidd i ddarparu gofal iechyd yn rhad ac am ddim; byddai busnes yn codi tâl am hynny. Os yw busnes am leihau ei gostau llafur, beth fyddai'n ei wneud? Mae'n debygol y byddai'n symud y ffatri i Malaysia neu i Tsieina. Byddai'n anodd iawn i bobl Merthyr gael gofal iechyd pe bai Ysbyty'r Tywysog Siarl yn cael ei symud i Tsieina, ond dyna'r union fath o fodel yr ydych yn ei gynnig yng nghyswllt y sector cyhoeddus. Nid yw'r un rheolau'n berthnasol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae'r sector cyhoeddus yn darparu gwasanaethau na fyddai busnesau byth yn eu darparu, oherwydd byddai busnesau am godi tâl ar bobl amdanynt.

Angela Burns: Siawns na ddylai Llywodraeth fod yn bwylllog wrth ofalu am ei phunnoedd, fel y mae busnes. Yn y sector cyhoeddus, dylai fod modd o hyd ichi ystyried y ffordd orau i wneud i bunnoedd fynd ymhellach. Mae pob busnes gofalus yn gwneud hynny, a dylai Llywodraeth ofalus wneud hynny hefyd.

Y Prif Weinidog: Cytunaf yn llwyr y dylai Llywodraeth wario'n ofalus, ac y dylai hefyd fod yn awyddus i sicrhau effeithlonrwydd. Yr ydym wedi bod yn gwneud hynny ers blynyddoedd. Fodd bynnag, ni allwn ddarparu gwasanaethau fel pe baem yn fusnes, oherwydd yr ydym yn darparu gwasanaethau na fyddai'r un busnes yn eu darparu. Ni fyddai'r un busnes yn darparu gofal iechyd yn rhad ac am ddim. Rhaid inni hefyd ddarparu gwasanaethau yn y fan a'r lle i bobl Cymru, ac nid o bell o rywle arall, fel y byddai busnesau'n ei wneud.

I remember David Cameron, at the time that the recession first bit, in August 2007, saying that we should do nothing: let the banks collapse, let factories disappear, let homes disappear from above people's heads. All that would have put us in a far, far deeper recession than we have now. If all these policies were to be carried through by him now—[*Interruption.*]

The Deputy Presiding Officer: Order. If you are going to use that kind of language, Andrew R.T. Davies, I would prefer it if you left the Chamber. You know what you said.

The First Minister: I did not hear it so I will not comment.

The Deputy Presiding Officer: It is a good job that you did not.

The First Minister: The point is that if all those policies are carried through to their logical conclusion, we will see a double-dip recession and the Conservatives cannot get away from that. In the leaders' debates, Kirsty Williams said that under the Tory proposals, an immediate cut to services will threaten jobs in Wales. We now have the Liberal Democrats cosyng up to the Tories, forgetting that they criticised the Tories before. Also, in October 2009, she said:

'Goodness only knows how we will survive with the meddling of Governor Gillan if she can pick and choose which parts of law that we have in an Act in Wales.'

All these things have been conveniently forgotten now that the Liberal Democrats have a sniff of power. Deputy Presiding Officer, let me simply say this: we know that there are difficult times ahead and that there are difficult decisions ahead. That is why we have been conducting line-by-line scrutiny of our budget. It is neither rational nor fair to make cuts across the board without deciding what your priorities are as a Government. That is what we have been doing. That process is ongoing. It is also right to say that, as far as this Government is concerned, we will meet the challenge, we will make the

Cofiaf i David Cameron ddweud, pan darodd y dirwasgiad gyntaf ym mis Awst 2007, na ddylem wneud dim: gadewch i'r banciau fethu, gadewch i'r ffatrioedd ddiflannu, gadewch i bobl golli eu cartrefi. Byddai hynny i gyd wedi ein rhoi mewn dirwasgiad llawer, llawer gwaeth na'r un sydd gennym yn awr. Pe bai'r holl bolisiau hynny'n cael eu gweithredu ganddo'n awr—[*Torri ar draws.*]

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Os ydych am ddefnyddio iaith o'r fath, Andrew R.T. Davies, byddai'n well gennyf pe baech yn gadael y Siambr. Gwyddoch beth yr oeddech yn ei ddweud.

Y Prif Weinidog: Ni chlywais yr hyn a ddywedodd, felly, nid wyf am wneud sylw.

Y Dirprwy Lywydd: Mae'n dda na clywsoch.

Y Prif Weinidog: Y pwynt yw, os caiff yr holl bolisiau hynny eu gweithredu i'w pen draw rhesymegol, byddwn yn gweld ail ddirwasgiad, ac ni all y Ceidwadwyr osgoi hynny. Yn nadleuon yr arweinwyr, dywedodd Kirsty Williams y byddai torri gwasanaethau ar unwaith, dan gynigion y Torïaid, yn bygwth swyddi yng Nghymru. Yn awr gwelwn y Democratiaid Rhyddfrydol yn gyfeillion mawr i'r Torïaid, ac yn anghofio iddynt feirniadu'r Torïaid o'r blaen. Ym mis Hydref 2009, dywedodd hefyd:

Duw'n unig a wŷr sut y down i ben gydag ymyrryd y Llywodraethwr Gillan, os gall hi ddewis a dethol pa rannau o'r gyfraith a gawn mewn Deddf yng Nghymru.

Mae'r holl bethau hyn wedi eu hanghofio'n gyfleus iawn, gan fod y Democratiaid Rhyddfrydol bellach wedi cael tamaid bach o rym. Ddirprwy Lywydd, gadewch imi ddweud hyn: gwyddom fod amseroedd anodd o'n blaen, a bod penderfyniadau anodd i'w gwneud. Dyna pam yr ydym wedi bod yn craffu ar ein cyllideb linell wrth linell. Nid yw'n rhesymegol nac yn deg gwneud toriadau'n gyffredinol heb benderfynu eich blaenoriaethau fel Llywodraeth. Dyna'r ydym wedi bod yn ei wneud. Mae'r broses honno'n parhau. O ran y Llywodraeth hon, mae hefyd yn iawn dweud y byddwn yn

savings, but the one thing that distances us from the party opposite is that we will protect what is most important for the people of Wales.

5.20 p.m.

Nick Ramsay: I will start the rounding up of what has been a very interesting and well-contributed to debate by quoting one of the First Minister's own party members, given that he quoted from the Liberal Democrats. Liam Byrne, the former Chief Secretary to the Treasury, said, in February 2010, after the Holtham review was published, that:

'Wales is well funded...Wales is 14% above England and...received an annual average real terms increase of 2.4% compared to the UK average of 2.1%...The Government has no plans to change the Barnett formula.'

That is what Liam Byrne said after the publication of the Holtham review. If you want to quote what you may have heard from this side, then we can also quote what your side has said in the past.

Where should I start on this debate? Perhaps I can start by welcoming the news of that £1.4 million-worth of Olympic funding. If that has been an error, then I am pleased that that money will come back to Wales.

Perhaps the best place to start is with Alun Davies, my fellow intellectual giant. In his contributions, he quoted the *Today* programme and spoke about the reality of the economic abyss facing this country, and said that it was known about weeks ago. That was also raised by my colleague David Melding. Alun Davies twice admitted that the former Labour Government knew of the scale of the economic abyss facing this country, yet it kept that hidden. That is an absolute disgrace.

Kirsty Williams in her contribution said that there is nothing progressive about spending more than you earn. That is common sense,

mynd i'r afael â'r her, y byddwn yn gwneud yr arbedion, ond yr hyn sy'n ein pellhau oddi wrth y blaid gyferbyn yw y byddwn yn diogelu'r hyn sydd bwysicaf i bobl Cymru.

Nick Ramsay: Dechreuaf grynhoi'r ddadl ddiddorol iawn hon y mae llawer o bobl wedi cyfrannu ati drwy ddyfynnu un o aelodau plaid y Prif Weinidog ei hun, o gofio iddo yntau ddyfynnu'r Democratiaid Rhyddfrydol. Ym mis Chwefror 2010, dywedodd Liam Byrne, cyn-Brif Ysgrifennydd y Trysorlys, ar ôl cyhoeddi adolygiad Holtham:

Mae Cymru'n cael digon o gyllid...mae Cymru 14% yn uwch na Lloegr a...chafodd gynnydd blynyddol gwirioneddol o 2.4% ar gyfartaledd o'i gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer y DU, sef 2.1%...Nid oes gan y Llywodraeth ddim bwriad i newid fformiwla Barnett.

Dyna a ddywedodd Liam Byrne ar ôl cyhoeddi adolygiad Holtham. Os ydych am ddyfynnu'r hyn y gallech fod wedi'i glywed o'r ochr hon, yna gallwn ninnau ddyfynnu'r hyn y mae eich ochr chi wedi'i ddweud yn y gorffennol.

Ymhle y dylwn ddechrau gyda'r ddadl hon? Efallai y gallaf ddechrau trwy groesawu'r newyddion am y cyllid Olympaidd o £1.4 miliwn. Os gwnaed camgymeriad, yna yr wyf yn falch y bydd yr arian hwnnw'n dod yn ôl i Gymru.

Efallai mai'r lle gorau i ddechrau yw gydag Alun Davies, fy nghyd-gawr deallusol. Yn ei gyfraniadau dyfynnodd o'r rhaglen *Today*, a soniodd am realiti'r twll du economaidd sy'n wynebu'r wlad hon, a dywedodd fod hynny'n hysbys wythnosau'n ôl. Codwyd y pwynt hwnnw gan fy nghydweithiwr, David Melding, hefyd. Cyfaddefodd Alun Davies ddwywaith fod y Llywodraeth Lafur flaenorol yn gwybod am faint y twll du economaidd sy'n wynebu'r wlad hon, ond ni ddatgelodd hynny. Mae hynny'n gwbl warthus.

Dywedodd Kirsty Williams yn ei chyfraniad nad oes dim byd blaengar ynghylch gwario mwy nag yr ydych yn ei ennill. Synnwyr

and it is a shame that so many Members opposite do not seem to understand that simple truth about economics. If the Government here is saying that the Westminster coalition should share the problems with the party here, then it follows that your party in the Assembly should share in the responsibility with the outgoing Labour Government for the economic situation that we face. It is a truly unprecedented situation, which, as the Prime Minister has said, has never faced a Government coming into power in this country in recent times.

Gareth Jones gave a measured contribution and spoke in a very reasonable way. He spoke about the Conservative party as the party of small business, which I accept totally. Where we then differed was in the fact that you did not offer any solutions as to how your party would support businesses and people in Wales.

Gareth Jones: Will you take an intervention?

Nick Ramsay: Yes, in a moment.

In fact, that was a strand running through most of the contributions from the governing parties today. There was a lot of talk and criticism. Alun Davies, for instance, criticised me for coming up with too many cuts and then said that I was not coming up with enough cuts.

Alun Davies: Will you give way?

Nick Ramsay: No, I will not take an intervention. You cannot have it both ways, Alun. At the end of the day, if you accept that we are facing a problem with the economy in Wales, then you must offer solutions. Kirsty Williams and I, along with other Members, have tried to offer solutions, but, sadly, solutions have not been coming from your side of the Chamber.

Gareth Jones: We are playing with words now. I note that you are no longer referring to cuts—you are now talking about savings. If

cyffredin yw hynny, ac mae'n drueni ei bod yn ymddangos nad yw cynifer o'r Aelodau gyferbyn yn deall y gwir syml hwnnw am economeg. Os yw'r Llywodraeth yn y fan hon yn dweud y dylai Llywodraeth glymbleidiol San Steffan rannu'r problemau gyda'r blaid yn y Cynulliad, yna mae'n dilyn y dylai eich plaid chi yn y Cynulliad rannu'r cyfrifoldeb gyda'r Llywodraeth Lafur, a oedd mewn grym cyn yr etholiad diwethaf, am y sefyllfa economaidd a wynebwn. Mae'n sefyllfa wirioneddol newydd nad yw Llywodraeth a ddaeth i rym yn y wlad hon yn ystod y cyfnod diweddar erioed wedi gorfod ei hwynebu, fel y dywedodd Prif Weinidog y DU.

Gwnaeth Gareth Jones gyfraniad pwylllog, a siaradodd yn rhesymol iawn. Disgrifiodd y blaid Geidwadol fel y blaid dros fusnesau bach, a derbyniaf hynny'n llwyr. Yr hyn a'n gwahanodd wedyn oedd y ffaith nad oeddech yn cynnig atebion sut y byddai eich plaid chi'n cefnogi busnesau a phobl yng Nghymru.

Gareth Jones: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Nick Ramsay: Gwnaf, mewn eiliad.

Mewn gwirionedd, yr oedd hwnnw'n llinyn cyffredin a redai trwy'r rhan fwyaf o'r cyfraniadau a gafwyd heddiw gan y pleidiau sydd mewn grym. Bu llawer o siarad a beirniadu. Er enghraifft, fe'm beirniadwyd gan Alun Davies am feddwl am ormod o doriadau, ac yna dywedodd nad oeddwn yn meddwl am ddigon o doriadau.

Alun Davies: A wnewch chi ildio?

Nick Ramsay: Na wna, nid wyf am dderbyn ymyriad. Ni allwch ei chael hi'r ddwy ffordd, Alun. Yn y pen draw, os ydych yn derbyn ein bod yn wynebu problem gyda'r economi yng Nghymru, rhaid ichi gynnig atebion. Mae Kirsty Williams a minnau, ynghyd ag Aelodau eraill, wedi ceisio cynnig atebion, ond yn anffodus nid oes atebion wedi'u cyflwyno o'ch ochr chi i'r Siambr.

Gareth Jones: Yr ydym yn chwarae â geiriau'n awr. Sylwaf nad ydych bellach yn cyfeirio at doriadau—yr ydych yn sôn yn awr

you are taking even £1 from £100, which has been referred to, that is not a saving. That is disinvestment. How will you cope with a disinvestment, which, in the context of £200 million, translates into a loss of £1 billion to the economy? How will you address that?

Nick Ramsay: Gareth, I remember you committing yourself previously to business rate relief. However, that seems to have gone by the wayside. Therefore, you can stand there and accuse me of not addressing the problems that we are facing, but, at the end of the day, you are not facing those problems either.

I now turn to Rhodri Morgan's comments regarding St Athan. I find them extraordinary, and this theme has run through most of this debate today and other debates. The coalition Government in Westminster has been in power for three weeks. The way that some Members of the Assembly Government have spoken today, you would think that it had been there for 10 years. If it is so right for the coalition Government in Westminster to approve St Athan, then why was it that just a month before the election, the outgoing Labour Government, which could have done that, did not do so? It is fine for the former First Minister to be making these statements today, but why did he not give that level of support and why did his colleagues in Westminster not do that previously? I will give way to Alun Davies, because he has been very patient.

Alun Davies: I thought that you had forgotten about me. I do not like to come between you and Kirsty and your recently discovered infatuation, but you both had an opportunity last week to say, 'This is the financial situation, this is where we would make the cuts, this is what we believe should be done'. All your Members here, Liberal Democrats and Tories together, have attacked this Government, have referred to waste and so on. What you have not done is outline exactly what cuts you and the Liberal Democrats would make. That is your duty and your responsibility this afternoon. Now do it.

am arbedion. Os cymerwch hyd yn oed £1 o £100, a chyfeiriwyd at hynny, nid yw'n arbediad. Dadfuddsoddiad ydyw. Sut y byddwch yn ymdopi â dadfuddsoddiad sydd, yng nghyd-destun £200 miliwn, yn golled o £1 biliwn i'r economi? Sut y byddwch yn mynd i'r afael â hynny?

Nick Ramsay: Gareth, cofiaf ichi ymrwymo yn y gorffennol i ryddhad ardrethi busnes. Fodd bynnag, ymddengys fod hynny wedi ei wthio o'r neilltu. Felly, gallwch sefyll acw a'm cyhuddo o beidio â mynd i'r afael â'r problemau sy'n ein hwynebu, ond yn y pen draw nid ydych chi ychwaith yn wynebu'r problemau hynny.

Trof yn awr at sylwadau Rhodri Morgan ynghylch Sain Tathan. Mae'r sylwadau'n rhyfeddol, mi gredaf, ac mae'r thema hon yn gyffredin i'r rhan fwyaf o'r ddadl hon heddiw a dadleuon eraill. Mae'r Llywodraeth glymbleidiol yn San Steffan mewn grym ers tair wythnos. O glywed y ffordd y mae rhai Aelodau o Lywodraeth y Cynulliad wedi bod yn siarad heddiw, byddech yn tybio ei bod mewn grym ers 10 mlynedd. Os yw mor briodol i'r Llywodraeth glymbleidiol yn San Steffan gymeradwyo Sain Tathan, pam na chafodd y datblygiad, fis yn unig cyn yr etholiad, ei gymeradwyo gan y Llywodraeth Lafur a oedd mewn grym bryd hynny ac a allai fod wedi'i gymeradwyo? Mae'n iawn i'r cyn-Brif Weinidog wneud y datganiadau hyn heddiw, ond pam na roddodd y lefel honno o gefnogaeth, a pham na wnaeth ei gydweithwyr yn San Steffan hynny, yn flaenorol? Ildiaf i Alun Davies, oherwydd mae wedi bod yn amyneddgar iawn.

Alun Davies: Yr oeddwn yn meddwl eich bod wedi anghofio amdanaf. Nid wyf yn hoffi dod rhyngoch chi a Kirsty, a'r cariad ffôl yr ydych wedi'i ddarganfod at eich gilydd yn ddiweddar, ond cawsoch eich dau gyfle yr wythnos diwethaf i ddweud, 'Dyma'r sefyllfa ariannol, dyma ble y byddem yn gwneud y toriadau, dyma a ddylai ddigwydd yn ein barn ni'. Mae eich holl Aelodau yma, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Torïaid gyda'i gilydd, wedi ymosod ar y Llywodraeth hon a chyfeirio at wastraff, ac yn y blaen. Yr hyn nad ydych wedi'i wneud yw egluro'n union pa doriadau y byddech chi a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn eu gwneud.

Dyna yw eich dyletswydd a'ch cyfrifoldeb y prynhawn yma. Gwnewch hynny.

Nick Ramsay: That sounds like a call for me to become the Minister for finance of the Assembly Government. If that is what you want, Alun, I am happy to do it.

Nick Ramsay: Ymddengys eich bod yn galw arnaf i fod yn Weinidog dros gyllid yn Llywodraeth y Cynulliad. Os dyna yw eich dymuniad, Alun, yr wyf yn barod i wneud hynny.

Rhodri Morgan: Will you give way?

Rhodri Morgan: A wnewch chi ildio?

Nick Ramsay: No, I have taken enough interventions; I only have a minute left, Rhodri. You are saying on one hand that I am not making cuts and then you are saying that I am making cuts. What do you want?

Nick Ramsay: Na wna, yr wyf wedi derbyn digon o ymyriadau; dim ond munud sydd gennyf ar ôl, Rhodri. Yr ydych yn dweud ar y naill law nad wyf yn gwneud toriadau, ac yna'n dweud fy mod yn gwneud toriadau. Beth yr ydych am ei gael?

Alun Davies: I want you to tell us—

Alun Davies: Yr wyf am ichi ddweud wrthym—

Nick Ramsay: Let us be clear—*[Interruption.]* No, I have had enough of the intervention now. Let us be clear that we have to make these cuts because of the gross mismanagement of the outgoing Labour Government. Thank goodness the election yielded the result that it did, because I hear little in the way of solutions coming from the other parties opposite. Thank goodness Britain has a Government that is prepared to bite this bullet.

Nick Ramsay: Gadewch inni ddeall—*[Torri ar draws.]* Na, yr wyf wedi cael digon ar yr ymyriad yn awr. Gadewch inni ddeall ei bod yn rhaid inni wneud y toriadau hyn oherwydd camreolaeth ddybryd y Llywodraeth Lafur a oedd mewn grym cyn yr etholiad diwethaf. Diolch i'r drefn, arweiniodd yr etholiad wedi arwain at y canlyniad a gafwyd, oherwydd nid wyf yn clywed llawer o atebion gan y pleidiau eraill gyferbyn. Diolch i'r drefn, mae gan Brydain Lywodraeth sy'n barod i fynd i'r afael â'r sefyllfa anodd hon.

I shall close by referring to my colleague Andrew R.T. Davies' comments. He said that if we do not tackle this problem now, then future generations will be in a poorer situation. Let us keep that in mind when we are making these decisions. I do not like having to outline areas where cuts have to be made, but it has to be done, because if we do not do it now, future generations will suffer. That has been the legacy of the previous Labour Government and I am pleased that this debate has been brought forward today. I am pleased that all Members have engaged in it, as it is a debate that we need to have.

Yr wyf am orffen drwy gyfeirio at sylwadau fy nghydweithiwr, Andrew R.T. Davies. Dywedodd y bydd cenedlaethau'r dyfodol mewn sefyllfa waeth os nad awn i'r afael â'r broblem hon yn awr. Gadewch inni gadw hynny mewn cof wrth inni wneud y penderfyniadau hyn. Nid wyf yn hoffi gorfod nodi meysydd lle mae'n rhaid gwneud toriadau, ond nid oes gennym ddewis, oherwydd os na wnawn hynny'n awr bydd cenedlaethau'r dyfodol yn dioddef. Dyna yw gwaddol y Llywodraeth Lafur flaenorol, ac yr wyf yn falch i'r ddadl hon gael ei chyflwyno heddiw. Yr wyf yn falch bod pob Aelod wedi ymwneud â hi, gan ei bod yn ddadl y mae angen inni ei chael.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion without amendment. Is there any objection? I see that there is. I will therefore defer all the votes

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw derbyn y cynnig heb welliant. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf yr holl bleidleisio tan y cyfnod pleidleisio. Mae wedi troi 5 p.m.

until voting time. It is past 5 p.m., so I intend to move straight to voting time. Does any Member wish for the bell to be rung? I see that no-one does.

Gohiriwyd y pleidleisiau tan y cyfnod pleidleisio.

Votes deferred until voting time.

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

Cynnig NDM4490: O blaid 18, Ymatal 0, Yn erbyn 32.

Motion NDM4490: For 18, Abstain 0, Against 32.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Morgan, Jonathan
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Wood, Leanne

Gwrthodwyd y cynnig.

Motion not agreed.

Gwelliant 1 i NDM4490: O blaid 32, Ymatal 0, Yn erbyn 18.

Amendment 1 to NDM4490: For 32, Abstain 0, Against 18.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Cuthbert, Jeff

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter

Davidson, Jane
 Davies, Alun
 Davies, Andrew
 Davies, Jocelyn
 Evans, Nerys
 Franks, Chris
 Gibbons, Brian
 Gregory, Janice
 Griffiths, John
 Griffiths, Lesley
 Hart, Edwina
 James, Irene
 Jenkins, Bethan
 Jones, Ann
 Jones, Carwyn
 Jones, Elin
 Jones, Gareth
 Jones, Helen Mary
 Law, Trish
 Lewis, Huw
 Lloyd, David
 Lloyd, Val
 Mewies, Sandy
 Morgan, Rhodri
 Ryder, Janet
 Sargeant, Carl
 Thomas, Gwenda
 Watson, Joyce
 Wood, Leanne

Bourne, Nick
 Burnham, Eleanor
 Burns, Angela
 Davies, Andrew R.T.
 Davies, Paul
 German, Michael
 Graham, William
 Isherwood, Mark
 Melding, David
 Millar, Darren
 Morgan, Jonathan
 Ramsay, Nick
 Randerson, Jenny
 Williams, Brynle
 Williams, Kirsty

*Derbyniwyd y gwelliant.
 Amendment agreed.*

Cynnig NDM4490 fel y'i diwygiwyd: bod

Motion NDM4490 as amended: that

Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

the National Assembly for Wales:

1. yn nodi'r diffyg yng nghyllideb y Deyrnas Unedig a'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a Llywodraeth y DU;

1. notes the United Kingdom's budget deficit and the ongoing discussions between the Welsh Assembly Government and the UK Government;

2. yn nodi bod angen eglurder ynghylch cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer gwariant cyhoeddus er mwyn medru gwneud penderfyniadau effeithiol yn y flwyddyn ariannol hon;

2. notes the need to secure clarity on the UK Government's proposals regarding public expenditure to enable effective decisions to be made in this financial year;

3. yn nodi bod angen i'r amseriad ar gyfer y toriadau arfaethedig mewn gwariant cyhoeddus fod yn iawn ac os torrir gwariant yn rhy fuan tanseilir yr adferiad mawr ei angen gan arwain at golli swyddi;

3. notes the need to ensure that the timing is right in relation to the proposed cuts in public spending and that if spending is cut too soon it would undermine the much-needed recovery and cost jobs;

4. yn gresynu at fethiant Llywodraeth y DU i ystyried y tanwariant yng Nghymru, fel y'i cydnabu gan gomisiwn Holtham wrth gynnig toriadau mewn gwariant cyhoeddus.

4. regrets the failure of the UK Government to take account of the underfunding of Wales, as recognised by the Holtham commission, in proposing the cuts to public spending.

*Cynnig NDM4490 fel y'i diwygiwyd: O blaid 32, Ymatal 1, Yn erbyn 17.
Motion NDM4490 as amended: For 32, Abstain 1, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Barrett, Lorraine
Cuthbert, Jeff
Davidson, Jane
Davies, Alun
Davies, Andrew
Davies, Jocelyn
Evans, Nerys
Franks, Chris
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
James, Irene
Jenkins, Bethan
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Law, Trish
Lewis, Huw
Lloyd, David
Lloyd, Val
Mewies, Sandy
Morgan, Rhodri
Ryder, Janet
Sargeant, Carl
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Burnham, Eleanor
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
German, Michael
Graham, William
Isherwood, Mark
Melding, David
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Randerson, Jenny
Williams, Brynle
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Morgan, Jonathan

*Derbyniwyd y cynnig NDM4490 fel y'i diwygiwyd.
Motion NDM4490 as amended agreed.*

Dadl Fer Short Debate

Newid Gwleidyddiaeth: a All Diwygio Democrataidd Ddechrau yn y Cynulliad? Changing Politics: Can the Assembly Become a Cradle of Democratic Reform?

Mick Bates: This will be a considerable antidote to the preceding debate. The general election has seen the dawn of a new era in co-operative politics, and a great many of the people that I meet outside this Chamber say 'hallelujah' to that. In Wales, may I remind you, there is also a coalition Government, where parties have come together to reach an agreement through compromise, which they

Mick Bates: Bydd y ddadl hon yn gwbl wahanol i'r ddadl flaenorol. Mae cyfnod newydd o wleidyddiaeth gydweithredol wedi gwawrio ers yr etholiad cyffredinol, ac mae llawer iawn o'r bobl y byddaf yn cyfarfod â hwy y tu allan i'r Siambr hon yn dweud 'haleliwia' i hynny. Hoffwn eich atgoffa bod gennym ni, yng Nghymru, Lywodraeth glymbleidiol hefyd, lle mae pleidiau wedi

believe is in the best interests of society and the economy. In recent days the Westminster Government has promised public consultation over the plans for tackling the deficit, which is a great idea. I am not opposed to consultation, but I think that, in many cases, it has lost its flavour.

5.30 p.m.

The public today demands a bigger say. It demands more power. That signals a move towards a style of politics similar to that in Switzerland, where the public is engaged in the decisions that affect it.

In Wales, we have been used to a form of this. The Local Government (Wales) Measure 2009 seeks to ensure the greatest possible public involvement in deciding how to deliver local services in a way that sustains local communities. The petitions system provides a direct and accessible way to engage with democracy in Wales. In England, the Sustainable Communities Act 2007 works on the principle that local people know best what needs to be done to promote the sustainability of their area. However, they sometimes need central Government to act to enable them to do that. It provides a channel for local people to ask central Government to take such action. However, despite these welcome moves, interest in politics remains low. The turnout at the last Assembly elections was 44 per cent. The turnout for the recent general election was 65 per cent. I believe that, still, too many people are disillusioned with the political system, and they do not make the effort to use their vote, which affects the whole of society.

I believe that this is because our current mechanisms simply are not working well enough. The petitions system is sometimes seen as patronising, as people can petition but they cannot decide. However, what has happened with regard to plastic bags is an

dod ynghyd ac wedi cyfaddawdu i lunio cytundeb sydd o les i gymdeithas a'r economi yn eu barn hwy. Yn y dyddiau diwethaf mae Llywodraeth San Steffan wedi addo cael ymgynghori cyhoeddus ar y cynlluniau i fynd i'r afael â'r diffyg ariannol, sy'n syriad gwych. Nid wyf yn gwrthwynebu ymgynghori, ond credaf fod pobl wedi diflasu arno mewn llawer achos.

Mae'r cyhoedd heddiw yn mynnu cael mwy o lais. Maent yn mynnu cael mwy o bŵer. Mae hynny'n arwydd o symud i fath o wleidyddiaeth debyg i'r hyn sydd yn y Swistir, lle mae'r bobl yn cymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Yng Nghymru, yr ydym wedi arfer ag elfen o hyn. Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ceisio sicrhau bod y cyhoedd yn cyfranogi gymaint ag sy'n bosibl wrth wneud penderfyniadau am y modd i ddarparu gwasanaethau lleol mewn ffordd sy'n cynnal cymunedau lleol. Mae'r system ddeisebau'n ffordd uniongyrchol a hwylus i ymgysylltu â democratiaeth yng Nghymru. Yn Lloegr, mae Deddf Cymunedau Cynaliadwy 2007 yn gweithio ar yr egwyddor mai pobl leol sy'n gwybod orau beth y mae angen ei wneud i hybu cynaliadwyedd eu hardal. Fodd bynnag, weithiau mae angen i Lywodraeth ganolog weithredu i'w galluogi i wneud hynny. Mae'n gyfrwng i bobl leol ofyn i Lywodraeth ganolog gymryd camau gweithredu o'r fath. Fodd bynnag, er gwaetha'r datblygiadau hyn, sydd i'w croesawu, bach iawn o ddi-ddordeb sydd gan bobl mewn gwleidyddiaeth o hyd. Pedwar deg pedwar y cant o bobl a bleidleisiodd yn etholiadau diwethaf y Cynulliad. Chwe deg pump y cant o bobl a bleidleisiodd yn yr etholiad cyffredinol yn ddiweddar. Credaf fod gormod o bobl wedi'u dadrithio o hyd gan y system wleidyddol, ac nid ydynt yn gwneud yr ymdrech i ddefnyddio'u pleidlais, sy'n effeithio ar gymdeithas yn gyfan.

Credaf mai'r ffaith nad yw ein systemau presennol yn gweithio'n ddigon da sydd i gyfrif am hyn. Mae'r system ddeisebau'n cael ei hystyried yn system nawddoglyd weithiau, oherwydd gall pobl ddeisebu ond ni allant benderfynu. Fodd bynnag, mae'r hyn

excellent example of an exception to this—and I see that the relevant Minister has just left the Chamber. The Welsh Government rules, and the people of Wales put up with the decisions whether they like them or not. They are excluded from meaningful power. This has been recognised by a current consultation issued by the Business Committee on the way that the Assembly works. It wants to allow for more innovation and to make an improvement to the Assembly's role of representing the people of Wales and to the way in which the Assembly makes laws, to provide a model fit for the second decade of devolution.

The change and reform that I will discuss today offer a potential change to make Wales the cradle of democratic reform. It proposes an initiative and a referendum process that would make Assembly Members genuine servants of the people. I have no doubt that many of us are genuine servants of the people, but the power for people to make law is the critical part of this debate. If we want the real respect of the people of Wales, we must treat them with respect and share real power with them. We must allow the public to decide how it is governed and treat people as real partners.

This new campaign, the Campaign for Democracy, will put in place three processes that will make it possible for people and politicians to work together and to change politics. As I hope you can see from the diagram, the model has three parts: the Assembly; direct democracy, based on the Swiss model; and a political reform process, which can work either through the Assembly or through the use of referenda. The campaign proposes two ways of getting the system into place. The first is to work with all Assembly Members—and I recently emailed Members about this—and with our supporters and constituents to get a majority in the Assembly—if it ever gets to a vote—to put the system into place. Later in the year, when I have spoken to more Members about this, I will organise a seminar to look at this system. The second way to promote the system is by raising awareness among the

sydd wedi digwydd yn achos bagiau plastig yn enghraifft wych o eithriad i hyn—a gwelaf fod y Gweinidog perthnasol newydd adael y Siambr. Llywodraeth Cymru sy'n llywodraethu, a rhaid i bobl Cymru fyw gyda'r penderfyniadau, p'un a ydynt yn cytuno â hwy ai peidio. Maent yn cael eu heithrio o bŵer ystyrion. Cydnabuwyd hyn mewn ymgynghoriad yn ddiweddar a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Busnes ar y modd y mae'r Cynulliad yn gweithio. Mae'n awyddus i ganiatáu mwy o arloesi a gwella rôl y Cynulliad wrth gynrychioli pobl Cymru a'r modd y mae'r Cynulliad yn llunio cyfreithiau, er mwyn darparu model sy'n addas ar gyfer ail ddegawd datganoli.

Mae'r newidiadau a'r diwygiadau y byddaf yn eu trafod heddiw yn cynnig newid posibl er mwyn i Gymru fod yn fan lle mae diwygio democrataidd yn dechrau. Mae'n cynnig menter a phroses refferendwm a fyddai'n sicrhau bod Aelodau Cynulliad yn weision gwirioneddol i'r bobl. Nid wyf yn amau nad oes nifer ohonom yn weision gwirioneddol i'r bobl, ond y pŵer i bobl lunio cyfreithiau yw rhan hollbwysig y ddadl hon. Os ydym am gael parch go iawn gan bobl Cymru, rhaid inni eu parchu hwy a rhannu pŵer gwirioneddol gyda hwy. Rhaid inni ganiatáu i'r bobl benderfynu sut y cânt eu llywodraethu a thrin pobl fel partneriaid go iawn.

Bydd yr ymgyrch newydd hon, yr Ymgyrch dros Ddemocratiaeth, yn sefydlu tair proses a fydd yn ei gwneud yn bosibl i bobl a gwleidyddion gydweithio a newid gwleidyddiaeth. Gobeithio y gallwch weld o'r diagram fod tair rhan i'r model: y Cynulliad; democratiaeth uniongyrchol, yn seiliedig ar fodel y Swistir; a phroses o ddiwygio gwleidyddol, a all weithio naill ai drwy'r Cynulliad neu drwy ddefnyddio refferenda. Mae'r ymgyrch yn cynnig dwy ffordd i sefydlu'r system. Y ffordd gyntaf yw gweithio gyda holl Aelodau'r Cynulliad—ac anfonais neges e-bost at yr Aelodau yn ddiweddar yn sôn am hyn—a chyda'n cefnogwyr a'n hetholwyr er mwyn cael mwyafrif yn y Cynulliad—os cynhelir pleidlais ar hyn fyth—er mwyn rhoi'r system ar waith. Yn ddiweddarach yn y flwyddyn, pan fyddaf wedi trafod hyn gyda mwy o Aelodau, byddaf yn trefnu seminar i edrych

electorate leading up to next year's Assembly elections. We will campaign to encourage voters to vote for parties that will put this system in place.

The Campaign for Democracy knows that this pressure will work. Last year, its activities prompted a statement from David Cameron that he would allow people

'to initiate local and national referendums'.

That is an excellent beginning. The campaign also carried out experimental canvassing in Ceredigion. On the doorstep, 50 per cent of people understood the advantages of the concept. This was across all parties. Those involved in politics saw the need for reform and how they could use this process to create a political system that works.

Therefore, as you can see, the Campaign for Democracy has three elements: the Assembly, a constitutional commission and direct democracy. The Assembly continues with the debate and the enactment of legislation. The people will also have the power to propose legislation and initiate binding referenda, but when a referendum occurs, the Assembly will be able to put forward a counter proposal if it feels that the proposed legislation is not appropriate. This creates a genuine choice between the proposal and a counter proposal, rather than just a straight 'yes' or 'no'. To initiate a referendum, the sponsors of the legislation must collect a specified number of signatures, such as 50,000, for example. Once the signatures have been collected, a referendum must be held unless the Assembly agrees to put the legislation through. Of course, the figure would have to be decided by a wider debate on this. However, I remind you that, in Wrexham, a group of people has been collecting signatures to retain the Racecourse stadium. It has just collected 10,000 signatures. Therefore, this proposal is a real engagement with people to sign up and change something. That group of people is trying to change the local development plan,

ar y system hon. Yr ail ffordd i hyrwyddo'r system yw trwy godi ymwybyddiaeth ymhlith yr etholwyr cyn etholiadau'r Cynulliad y flwyddyn nesaf. Byddwn yn ymgyrchu i annog pleidleiswyr i bleidleisio dros bleidiau a fydd yn cyflwyno'r system hon.

Mae'r Ymgyrch dros Ddemocratiaeth yn gwybod y bydd y pwysau hwn yn gweithio. Y llynedd, arweiniodd gweithgareddau'r ymgyrch at ddatganiad gan David Cameron y byddai'n caniatáu i bobl

ysgogi refferenda lleol a chenedlaethol.

Mae hynny'n ddechrau gwych. Gwnaeth yr ymgyrch hefyd waith canfasio arbrofol yng Ngheredigion. Ar garreg y drws dywedodd 50 y cant o bobl eu bod yn deall manteision y cysyniad. Yr oedd hyn yn wir ar draws pob plaid. Yr oedd y rheini sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth yn gweld yr angen i ddiwygio ac yn gweld sut y gallent ddefnyddio'r broses hon i greu system wleidyddol sy'n gweithio.

Felly, fel y gwelwch, mae i'r Ymgyrch dros Ddemocratiaeth dair elfen: y Cynulliad, comisiwn cyfansoddiadol a democratiaeth uniongyrchol. Bydd y Cynulliad yn parhau i drafod a deddfu. Bydd gan y bobl hefyd bŵer i gynnig deddfwriaeth ac ysgogi refferenda rhwymol, ond pan fydd refferendwm, bydd y Cynulliad yn gallu cyflwyno gwrthgynnig os yw'n teimlo nad yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn briodol. Mae hyn yn creu dewis gwirioneddol rhwng y cynnig a gwrthgynnig, yn hytrach na dim ond ateb 'ie' neu 'na' syml. Er mwyn ysgogi refferendwm, rhaid i noddwyr y ddeddfwriaeth gasglu nifer penodol o lofnodion, 50,000 er enghraifft. Ar ôl i'r llofnodion gael eu casglu, rhaid cynnal refferendwm oni fydd y Cynulliad yn cytuno i gyflwyno'r ddeddfwriaeth. Wrth gwrs, byddai'n rhaid penderfynu'r ffigur drwy gael dadl ehangach ar hyn. Fodd bynnag, hoffwn eich atgoffa, yn Wrecsam, fod grŵp o bobl wedi bod yn casglu llofnodion i gadw'r Cae Ras. Mae wedi llwyddo i gasglu 10,000 o lofnodion. Felly, mae a wnelo'r cynnig hwn ag ymgysylltu â phobl yn wirioneddol a'u cael i gefnogi rhywbeth a'i newid. Mae'r grŵp hwn o bobl yn ceisio newid y cynllun datblygu lleol, wrth gwrs.

of course.

The country with the most experience of direct democracy is Switzerland. The effect that it has had on politics there is stunning. The Swiss federal council, elected by the federal assembly of nearly 250 members, consists of seven people drawn from the four main political parties, two each from the three larger parties, and one from the smallest party. This has created a coalition Government that has lasted for 50 years. The Swiss Government admits that the range of views within the cabinet can lead to heated debate but it knows that, in the end, the people have the last word. It is far better for politicians to co-operate and concentrate on making things work.

Safeguards would be needed, and the proposals for these have now been outlined. All proposals must comply with human rights and equality legislation. A significant number of signatures must be obtained to indicate substantial support for the proposal. A total of 18 months for signature collection should be allowed. This allows the proposals to be properly debated and gives opponents time to make their case. Advice should be available to proposers to ensure that their legislation is properly constructed. Spending limits should be set on campaigns and they must reveal the sources of their funding. The proposal that I think will cause much debate is that they should not be allowed to use television or radio advertising. I am deeply concerned when I see politics becoming a battle of the big bucks where there is a competition as to whom can spend the most on advertising. I am sure that I caught the end of a news item where the tens of millions of dollars spent in America on a recent campaign were being discussed.

The third part of this structure is the constitutional commission, which will assist proposals that reform the political system, and will influence the system. Once the signatures have been collected, the proposals are taken to the commission. If the commission believes that the proposals have merit, they are sent to the Assembly. If the Assembly supports the proposals, they

Y Swistir yw'r wlad sydd â'r profiad mwyaf o ddemocratiaeth uniongyrchol. Mae hyn wedi cael effaith drawiadol iawn ar wleidyddiaeth yn y wlad honno. Mae cyngor ffederal y Swistir, a gaiff ei ethol gan y cynulliad ffederal o bron i 250 o aelodau, yn cynnwys saith o bobl o'r pedair prif blaid wleidyddol, dau yr un o'r tair plaid fwyaf, ac un o'r blaid leiaf. Mae hyn wedi creu Llywodraeth glymbleidiol sydd wedi para 50 mlynedd. Mae Llywodraeth y Swistir yn cyfaddef y gall yr amrywiol safbwyntiau o fewn y cabinet arwain at ddadleuon tanbaid, ond mae'n gwybod yn y pen draw mai'r bobl sy'n cael y gair olaf. Mae'n llawer gwell i wleidyddion gydweithredu a chanolbwyntio ar gael pethau i weithio.

Byddai angen trefniadau diogelu, ac mae'r cynigion ar gyfer y rhain wedi'u hamlinellu erbyn hyn. Rhaid i bob cynnig gydymffurfio â deddfwriaeth ar hawliau dynol a chydaddoldeb. Rhaid cael nifer helaeth o lofnodion i ddngos cefnogaeth sylweddol i'r cynnig. Dylid caniatáu cyfanswm o 18 mis ar gyfer casglu llofnodion. Mae hyn yn caniatáu cyfle i'r cynigion gael eu trafod yn ddigonol a hoi amser i'r sawl sy'n gwrthwynebu gyflwyno'u dadleuon. Dylai cyngor fod ar gael i'r cynigwyr i sicrhau bod eu deddfwriaeth wedi'i chreu'n briodol. Dylid cyfyngu'r hyn y gall ymgyrchoedd ei wario, a rhaid iddynt ddatgelu eu ffynonellau ariannu. Y cynnig a fydd yn achosi llawer o ddadlau, mi gredaf, yw na ddylid caniatáu iddynt hysbysebu ar y radio a'r teledu. Yr wyf yn bryderus iawn pan welaf wleidyddiaeth yn troi'n frwydr ariannol fawr a chystadleuaeth i weld pwy all wario fwyaf ar hysbysebu. Yr wyf yn siŵr fy mod wedi clywed diwedd eitem newyddion a oedd yn trafod y degau o filiynau o ddoleri a wariwyd yn America ar ymgyrch yn ddiweddar.

Trydedd ran y strwythur hwn yw'r comisiwn cyfansoddiadol, a fydd yn cynorthwyo cynigion sy'n diwygio'r system wleidyddol ac yn dylanwadu ar y system. Ar ôl casglu'r llofnodion, caiff y cynigion eu cyflwyno i'r comisiwn. Os cred y comisiwn fod gwerth i'r cynigion, cânt eu hanfon i'r Cynulliad. Os bydd y Cynulliad yn cefnogi'r cynigion, byddant yn dod yn gyfraith drwy

become law through the Assembly's procedures. If the Assembly does not support the proposals, it automatically goes to a referendum to the people of Wales.

The purpose of the commission is to accelerate the evolution of the political system. The commission would be an independent body, with only 10 or 12 commissioners. I will propose how they could be elected, but this would be subject to further discussion, although the Campaign for Democracy has a robust site, which will show you all this. The commission could be elected by a delegate system, with two representatives from each constituency giving 80 delegates, who would choose the commissioners from their own number, or it could be done by 50 people, for example, selected in each constituency, who choose a representative for each of the 40 constituencies, who then select their own commissioners. In this structure, I see that party members would not be eligible. The aim is not to create another party battleground, but an independent citizens' jury. The commission would filter out ridiculous proposals; therefore, the signature barrier can be set as low as possible.

The commission will have no power to propose, promote or amend proposed legislation. The commission should not be powerful. It is the process itself that should be powerful.

5.40 p.m.

The three parts of the Campaign for Democracy's system, namely the Assembly, direct democracy and the constitutional commission, have been designed to work together to create deep structural change. However, this system is only a toolkit, and it can be used only to create the political system that we need. Before we do that, we need to ask ourselves many questions: what sort of influences do we want in our systems? How should representation work? To what extent do we need representation? How should the media work? How do we make sure that people get the information that they need to make a good decision? What sorts of checks do we need on the power—and not just political power? How should we pay for the

weithdrefnau'r Cynulliad. Os na fydd y Cynulliad yn cefnogi'r cynigion, cânt eu cyflwyno'n awtomatig mewn refferendwm i bobl Cymru.

Diben y comisiwn yw cyflymu'r modd y mae'r system wleidyddol yn esblygu. Byddai'r comisiwn yn gorff annibynnol, gyda 10 neu 12 o gomisiynwyr yn unig. Byddaf yn cynnig sut y gellid eu hethol, ond byddai hynny'n destun trafodaeth bellach, er bod gan yr Ymgyrch dros Ddemocratiaeth safle cadarn, a fydd yn dangos hyn i gyd ichi. Byddai'n bosibl ethol y comisiwn drwy system ddirprwyo, gyda dau gynrychiolydd o bob etholaeth yn rhoi 80 o gynrychiolwyr, a fyddai'n dewis y comisiynwyr o'u plith. Neu gallai 50 o bobl wneud hyn, er enghraifft, wedi'u dewis ym mhob etholaeth sy'n dewis cynrychiolydd ar gyfer pob un o'r 40 etholaeth, a'r rheini wedyn yn dewis eu comisiynwyr eu hunain. Yn y strwythur hwn, gwelaf na fyddai aelodau pleidiau'n gymwys. Nid creu brwydr wleidyddol arall rhwng y pleidiau yw'r nod, ond creu rheithgor annibynnol o ddinasyddion. Byddai'r comisiwn yn hidlo'r cynigion hurt; felly, gellir gosod y terfyn o ran nifer y llofnodion mor isel ag sy'n bosibl.

Ni fydd gan y comisiwn y pŵer i gynnig, hyrwyddo neu ddiwygio deddfwriaeth arfaethedig. Ni ddylai'r comisiwn fod yn bwerus. Y broses ei hun ddylai fod yn bwerus.

Mae'r tair elfen sy'n rhan o system yr Ymgyrch dros Ddemocratiaeth, sef y Cynulliad, democratiaeth uniongyrchol a'r comisiwn cyfansoddiadol, wedi'u cynllunio i gydweithio i greu newid strwythurol dwfn. Fodd bynnag, arweiniad yn unig yw'r system hon, a gellir ei defnyddio'n unig i greu'r system wleidyddol y mae arnom ei hangen. Cyn inni wneud hynny mae angen inni ofyn nifer o gwestiynau i ni ein hunain: pa fath o ddylanwadau yr ydym am eu cael yn ein systemau? Sut y dylai cynrychiolaeth weithio? I ba raddau y mae arnom angen cynrychiolaeth? Sut y dylai'r cyfryngau weithio? Sut mae sicrhau bod pobl yn cael y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud penderfyniad da? Pa fath o rwystrau y mae

system and for politics in general?

This is an opportunity to create a system that can be the best for humanity. The questions of how we want to be and how we want to live need to be asked as we create the system. Once we have begun to find the answers to those, we can use the system to create a society that works for us in Wales. I believe that people are basically good, and our sense of fairness and justice is deeply embedded, but currently we have a system that increasingly disempowers people, giving rise to great frustrations in society and to a greater number of disillusioned people. In fact, the political system actively excludes large sections of our communities.

Many of us know what the problems are, and some of us have good ideas about the solutions that we would like to see. We need a system that is designed to get us from the problems to the solutions. As Lord Dafydd Elis-Thomas said in the recent consultation document that the Business Committee put forward,

‘The Assembly prides itself on being an innovative and forward-looking legislature.’

I believe that, through the Campaign for Democracy, we can create the tools that we need in Wales to continue to be a forward-looking legislature. I hope that we can start to embrace that concept and to change politics to enable the Assembly to become a leader and a cradle for more democratic reform.

The Counsel General and Leader of the Legislative Programme (John Griffiths): I am sorry that I was slow in responding; I was anticipating further speakers.

I greatly welcome the short debate today. It is important that the Welsh Assembly Government—as this is such an important step forward in bringing democracy to the people of Wales—is open to debate and ideas as to how to make further progress on democracy. Therefore, I warmly welcome ideas and debates, and Mick has put forward

arnom eu hangen ar y pŵer—nid dim ond pŵer gwleidyddol? Sut y dylem dalu am y system ac am wleidyddiaeth yn gyffredinol?

Mae hwn yn gyfle i greu system a all fod y system orau ar gyfer dynoliaeth. Wrth inni greu'r system, mae angen gofyn sut yr ydym am fod a sut yr ydym am fyw ein bywydau. Ar ôl inni ddechrau cael yr atebion i'r cwestiynau hyn, gallwn ddefnyddio'r system i greu cymdeithas sy'n gweithio i ni yng Nghymru. Credaf fod pobl yn dda, yn y bôn, a bod ein hymdeimlad o degwch a chyfiawnder wedi'u gwreiddio'n ddwfn. Ond ar hyn o bryd mae gennym system sy'n rhoi llai a llai o rym i bobl, sy'n creu rhwystredigaethau mawr yn y gymdeithas a mwy o bobl sydd wedi'u dadrithio. Yn wir, mae'r system wleidyddol yn eithrio rhannau mawr o'n cymunedau.

Mae nifer ohonom yn gwybod beth yw'r problemau, ac mae gan rai ohonom syniadau da am yr atebion yr hoffem eu gweld. Mae arnom angen system wedi'i chynllunio i'n symud o'r problemau i'r atebion. Fel y dywedodd yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas yn y ddogfen ymgynghori yn ddiweddar a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Busnes,

‘Mae'r Cynulliad yn ymfalchïo yn y ffaith ei fod yn ddeddfwrfa arloesol a blaengar.’

Drwy'r Ymgyrch dros Ddemocratiaeth, credaf y gallwn greu'r arfau y mae arnom eu hangen yng Nghymru i barhau i fod yn ddeddfwrfa flaengar. Gobeithio y gallwn ddechrau croesawu'r cysyniad hwn a newid gwleidyddiaeth er mwyn galluogi'r Cynulliad i fod yn arweinydd ac yn fan cychwyn ar gyfer mwy o ddiwygio democrataidd.

Y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Rhaglen Ddeddfwriaethol (John Griffiths): Mae'n ddrwg gennyf am yr oedi cyn ymateb; yr oeddwn yn disgwyl mwy o siaradwyr.

Yr wyf yn croesawu'r ddadl fer heddiw yn fawr iawn. Gan fod hwn yn gam mor bwysig ymlaen o ran dod â democratiaeth i bobl Cymru, mae'n bwysig i Lywodraeth y Cynulliad fod yn agored i ddadleuon a syniadau sut i ddatblygu democratiaeth ymhellach. Felly, yr wyf yn croesawu'r syniadau a'r dadleuon yn fawr iawn, ac mae

some important and interesting ideas today.

We have representative democracy in Wales and in the UK, and there are many ways of trying to make that more direct, by empowering people and engaging with them. Through devolution, we have done that, and have introduced a much more direct form of democracy. It is still representative democracy, but it is much more direct, as power has been brought to the people of Wales. I think that we have done that in a very interesting way, so we can pray in aid, as it were, in responding to the challenges that Mick addresses with these ideas. We can pray in aid some positive contributions that devolution has made.

First, devolution itself, as I have said, is a huge step forward in bringing power to the people of Wales. From the beginning, the Assembly was determined to be different and progressive. For example, if you look at the representation of women in the Assembly, we have been at the forefront of global best practice, with around 50 per cent representation for women, varying slightly from one Assembly to another, but always at the forefront of best practice on a world level. That has been hugely positive.

It has been a new style of democracy, with its family-friendly hours, less formality, impressive use of technology with electronic voting, and, importantly for us in Wales, the bilingual element and the simultaneous translation. We can rightly point to being innovative and imaginative in the way in which we have introduced devolution and taken that and democracy forward in Wales. Of course, that has moved on—impressively, in my view—with the Government of Wales Act 2006 giving us greater powers to shape the agenda in Wales and to empower people. It also allowed us to introduce further innovation, such as the Petitions Committee, which Mick mentioned. That, too, is empowering and it is something that we will want to develop further and build on.

Our relationship with local democracy is

Mick wedi cyflwyno rhai syniadau pwysig a diddorol heddiw.

Mae gennym ddemocratiaeth gynrychioliadol yng Nghymru a'r DU, ac mae yna lawer ffordd i geisio'i gwneud yn fwy uniongyrchol, drwy rymuso pobl ac ymgysylltu â hwy. Drwy ddatganoli yr ydym wedi gwneud hynny, ac yr ydym wedi cyflwyno math o ddemocratiaeth sy'n fwy uniongyrchol o lawer. Democratiaeth gynrychioliadol ydyw o hyd, ond mae'n fwy uniongyrchol o lawer oherwydd bod pŵer wedi'i roi i bobl Cymru. Credaf inni wneud hynny mewn ffordd ddiddorol iawn, felly, gallwn gyflwyno tystiolaeth, fel petai, wrth ymateb i'r heriau y mae Mick yn mynd i'r afael â hwy gyda'r syniadau hyn. Gallwn grybwyll rhai cyfraniadau cadarnhaol y mae datganoli wedi'u gwneud.

Yn gyntaf, mae datganoli ei hun, fel y dywedais, yn gam enfawr ymlaen i roi pŵer i bobl Cymru. O'r dechrau yr oedd y Cynulliad yn benderfynol o fod yn wahanol ac yn flaengar. Er enghraifft, wrth edrych ar nifer y menywod yn y Cynulliad, yr ydym wedi bod yn arwain y byd o ran arfer gorau, gyda rhyw 50 y cant o'r Aelodau'n fenywod, gan amrywio ychydig o'r naill Gynulliad i'r llall, ond bob amser yn arwain o ran arfer gorau ar lefel fyd-eang. Mae hynny wedi bod yn rhywbeth cadarnhaol iawn.

Bu'n fath newydd o ddemocratiaeth, gyda'i horiau sy'n ystyriol o deuluoedd, llai o ffurfioldeb, defnydd trawiadol o dechnoleg gyda phleidleisio electronig, ac, yn bwysig inni yng Nghymru, yr elfen ddwyieithog a chyfieithu ar y pryd. Mae'n briodol inni ein galw'n hunain yn arloesol ac yn greadigol yn y ffordd yr ydym wedi cyflwyno datganoli a datblygu hynny a democratiaeth yng Nghymru. Wrth gwrs, mae hynny wedi datblygu llawer—yn drawiadol yn fy marn i—gyda Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi mwy o bwerau inni lunio'r agenda yng Nghymru ac i rymuso pobl. Mae hefyd wedi caniatáu inni fod yn fwy arloesol, megis yn achos y Pwyllgor Deisebau y soniodd Mick amdano. Mae hynny hefyd yn grymuso pobl ac yn rhywbeth yr ydym yn awyddus i'w ddatblygu ymhellach ac adeiladu arno.

Mae ein perthynas â democratiaeth leol yn

hugely important because that tier of democracy, down at the grass roots, is hugely important to democracy in Wales. So, the further innovations envisaged by the proposed Measure and the recommendations of the expert panel are really important here, because it is a matter of more direct democracy empowering people at that local level. It will be very interesting to see what eventually emerges from that process.

We can also say that the Welsh Assembly Government has been impressive with open Government. Our code of practice on freedom of information goes further than the UK legislation requires. Our publication scheme is good and includes the publication of Cabinet minutes, for example. We have done some important and impressive things.

Looking to the future, and talking about referenda, Mick, I must mention the referendum that will give us primary law-making powers. I hope that we can get the result that I know that all of us here want to see. That, too, will be a huge step forward to empower people in Wales and to move devolution on. I am sure that we will all work together to achieve the right result in that referendum.

One thing that we can all agree on in looking at your proposals, Mick, is that the debate has to be an ongoing one, and it has to be a process rather than an event. All that you have mentioned today is fertile territory for debate, and there will be many views, but I am sure that all those who put forward a view will welcome the fact that important ideas are being put on the table, and we will debate them further in the months and years to come.

I close by congratulating you, Mick, on presenting us with some important and far-reaching ideas that will greatly enrich the debate as we go forward. I welcome that.

The Deputy Presiding Officer: That brings

bwysig iawn, oherwydd mae'r haen honno o ddemocratiaeth, ar lawr gwlad, yn bwysig iawn i ddemocratiaeth yng Nghymru. Felly, mae'r datblygiadau newydd arloesol pellach a ragwelir gan y Mesur arfaethedig ac argymhellion y panel arbenigol yn bwysig iawn yma, oherwydd mae'n fater o ddemocratiaeth fwy uniongyrchol sy'n grymuso pobl ar y lefel leol honno. Bydd yn ddiddorol iawn gweld beth a ddaw o'r broses honno yn y pen draw.

Gallwn ddweud hefyd fod agwedd Llywodraeth y Cynulliad tuag at Lywodraeth agored wedi bod yn drawiadol iawn. Mae ein cod ymarfer ar ryddid gwybodaeth yn mynd ymhellach na'r hyn sy'n ofynnol yn neddfwriaeth y DU. Mae ein cynllun cyhoeddi yn dda ac mae'n cynnwys cyhoeddi cofnodion y Cabinet, er enghraifft. Yr ydym wedi gwneud rhai pethau pwysig a thrawiadol.

I edrych i'r dyfodol, a siarad am refferenda, Mick, rhaid imi grybwyll y refferendwm a fydd yn rhoi pwerau deddfu sylfaenol inni. Yr wyf yn gobeithio'n fawr y gallwn sicrhau'r canlyniad y gwn fod pawb yma'n gobeithio'i weld. Bydd hynny hefyd yn gam enfawr ymlaen wrth rymuso pobl yng Nghymru a symud datganoli yn ei flaen. Yr wyf yn siŵr y byddwn i gyd yn cydweithio i sicrhau'r canlyniad cywir yn y refferendwm hwnnw.

Un peth y gallwn i gyd gytuno arno wrth edrych ar eich cynigion, Mick, yw ei bod yn rhaid i'r ddadl fod yn un barhaus, a rhaid iddi fod yn broses yn hytrach nag yn ddigwyddiad. Mae digon o le i drafod popeth yr ydych wedi'i grybwyll heddiw, a bydd gan bobl nifer o safbwyntiau gwahanol, ond yr wyf yn siŵr y bydd pawb a fydd yn cyflwyno barn yn croesawu'r ffaith fod syniadau pwysig yn cael eu cyflwyno, a byddwn yn eu trafod ymhellach yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.

Gorffennaf drwy eich llongyfarch, Mick, am gyflwyno rhai syniadau pwysig a phellgyrhaeddol inni a fydd yn cyfoethogi'r ddadl yn fawr wrth inni symud ymlaen. Yr wyf yn croesawu hynny.

Y Dirprwy Lywydd: Dyna ddiwedd ein

today's proceedings to a close.

trafodion am heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.49 p.m.
The meeting ended at 5.49 p.m.*

**Aelodau a'u Pleidiau
Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
 Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Barrett, Lorraine (Llafur – Labour)
 Bates, Mick (Democrat Rhyddfrydol Annibynnol – Independent Liberal Democrat)
 Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Bourne, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Burnham, Eleanor (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
 Cairns, Alun (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Chapman, Christine (Llafur – Labour)
 Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
 Davidson, Jane (Llafur – Labour)
 Davies, Alun (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew (Llafur – Labour)
 Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Elis-Thomas, Dafydd (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Evans, Nerys (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Franks, Chris (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 German, Michael (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Gregory, Janice (Llafur – Labour)
 Griffiths, John (Llafur – Labour)
 Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
 Gibbons, Brian (Llafur – Labour)
 Hart, Edwina (Llafur – Labour)
 Hutt, Jane (Llafur – Labour)
 Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 James, Irene (Llafur – Labour)
 Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ann (Llafur – Labour)
 Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
 Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Gareth (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Helen Mary (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Law, Trish (Annibynnol – Independent)
 Lewis, Huw (Llafur – Labour)
 Lloyd, David (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Lloyd, Val (Llafur – Labour)
 Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
 Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Jonathan (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Morgan, Rhodri (Llafur – Labour)
 Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
 Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
 Randerson, Jenny (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
 Ryder, Janet (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
 Sinclair, Karen (Llafur – Labour)
 Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)
 Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
 Watson, Joyce (Llafur – Labour)
 Williams, Brynle (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)

Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)